



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 22 Mehefin 2011
Wednesday, 22 June 2011**

Cynnwys
Contents

3	Cwestiynau Cyllid i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd Tŷ Finance Questions to the Minister for Finance and Leader of the House
26	Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science
52	Pwynt o Drefn Point of Order
53	Datganiad ar y Comisiwn Ffiniau Statement on the Boundary Commission
59	Cynnig i Atal y Rheolau Sefydlog Motion to Suspend Standing Orders
59	Cynigion i Sefydlu Pwyllgorau Motions to Establish Committees
61	Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau Motion to Elect Members to Committees
65	Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate
95	Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate
124	Dadl Plaid Cymru Plaid Cymru Debate
144	Cyfnod Pleidleisio Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

Y Llywydd: Prynhawn da.

The Presiding Officer: Good afternoon.

Cwestiynau Cyllid i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd Tŷ Finance Questions to the Minister for Finance and Leader of the House

Gwariant yng Ngogledd Cymru

Expenditure in North Wales

I. Antoinette Sandbach: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer gwella effeithlonrwydd gwariant Llywodraeth Cymru yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0004(FIN)*

I. Antionette Sandbach: *Will the Minister outline her priorities for improving the efficiency of Welsh Government expenditure in North Wales. OAQ(4)0004(FIN)*

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): The Welsh Government is working closely with our partners across north Wales to improve the efficiency and effectiveness of our public services across a range of delivery areas, and also on cross-cutting priorities such as procurement and asset management.

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid ar draws gogledd Cymru i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwasanaethau cyhoeddus ar draws ystod o feysydd cyflenwi, a hefyd ar flaenoriaethau trawsbynciol fel caffael a rheoli asedau.

Antoinette Sandbach: The third sector is incredibly important to service delivery in north Wales, and hospices in north Wales, such as St Kentigern's, Tŷ Gobaith, St David's and Nightingale House, carry out an enormously valuable public service, giving dignity and respect to patients in the final stages of their lives. Yet, their future is precarious because of a combination of increased demand, a fall-off in donations and comparatively poor and unreliable support from Assembly Governments, which leaves them worse off than their counterparts in England. Minister, given the cost-effectiveness of providing support through these hospices and the savings to the Welsh NHS, can you confirm that you, with the Minister for health, are willing to look again at hospice funding to establish service level agreements and secure a three-year funding cycle for these hospices?

Antoinette Sandbach: Mae'r trydydd sector yn bwysig dros ben i ddarparu gwasanaethau yn y gogledd, ac mae hosbisau yn y gogledd, megis St Kentigern, Tŷ Gobaith, Dewi Sant a Thŷ'r Eos, yn darparu gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr, gan roi urddas a pharch i gleifion yn ystod cyfnodau olaf eu bywydau. Eto i gyd, mae eu dyfodol yn ansicr oherwydd cyfuniad o alw cynyddol, gostyngiad mewn rhoddion a chefnogaeth cymharol wael ac annibynadwy gan Lywodraeth y Cynulliad, sy'n eu gadael yn waeth eu byd na'u cymheiriaid yn Lloegr. Weinidog, o gofio pa mor gost-effeithiol yw darparu cymorth drwy'r hosbisau a'r arbedion i'r GIG yng Nghymru, a allwch gadarnhau eich bod chi, gyda'r Gweinidog dros iechyd, yn barod i edrych eto ar ariannu hosbisau i sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth a sicrhau cylch ariannu o dair blynedd ar gyfer yr hosbisau hyn?

Jane Hutt: The regional Member for north Wales's question reflects the keen support that the Welsh Government has displayed over the last 12 years for hospices, which provide a most important service across Wales. You will be aware that, over the last 12 years, Ministers have responded to their

Jane Hutt: Mae cwestiwn yr Aelod rhanbarthol ar gyfer gogledd Cymru yn adlewyrchu'r gefnogaeth frwd y mae Llywodraeth Cymru wedi ei roi yn ystod y 12 mlynedd diwethaf i hosbisau, sy'n darparu gwasanaeth mor bwysig ar draws Cymru. Byddwch yn ymwybodol, yn ystod y 12

needs, and Baroness Iora Finlay has taken a leading role in supporting us in this work to drive the partnerships, not only in terms of our contribution, but the contribution from the health service and local authorities.

Kenneth Skates: Steering the economy to full recovery is the most important job of this Welsh Labour Government. As we know, the construction sector is often the first sector to go into recession, but it is also often the first sector out. It is particularly important therefore that we give full support to the construction industry. Will you give an indication of what representations you have made to the UK Government about reducing VAT to help the building industry grow and expand?

Jane Hutt: That is an important question, and it was one put to me by the construction industry at the end of the last Assembly. Welsh businesses in construction-associated industries asked me to make representations to the UK Government to reduce VAT on home improvements and repairs, which would give a major boost to our businesses. I wrote to the Treasury and pressed the case for reducing the rate of VAT on domestic repairs and improvements to energy efficiency from 20 per cent to 5 per cent, as requested, and surprisingly, and disappointingly, the Treasury refused to consider such a change. It was change that was directly requested by the construction industry and business itself.

Llyr Huws Gruffydd: Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf bresennol yn dod i ben y flwyddyn nesaf, ac mae'n debyg bod yr arolwg ar ddyfodol y cynllun ar ôl 2012 yn dechrau llithro. Mae perygl gwirioneddol felly y bydd nifer o wasanaethau sy'n ddibynnol ar arian Cymunedau yn Gyntaf yn dod o dan fygythiad, gyda staff, o bosibl, yn wynebu cael eu gwneud yn ddi-waith fis Ionawr. Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau er mwyn sicrhau y bydd penderfyniad clir, cynhwysfawr a chynnar i'r prosiectau hynny sydd o dan fygythiad, fel yr addawodd Carl Sargeant yn ei ddatganiad ddoe?

mlynedd diwethaf, bod Gweinidogion wedi ymateb i'w hanghenion, ac mae'r Farwnes Iora Finlay wedi cymryd rhan flaenllaw yn ein cefnogi yn y gwaith hwn i yrru'r partneriaethau, nid yn unig o ran ein cyfraniad ni, ond cyfraniad y gwasanaeth iechyd ac awdurdodau lleol.

Kenneth Skates: Llywio'r economi i adferiad llawn yw gwaith pwysicaf y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru. Fel y gwyddom, y sector adeiladu yn aml yw'r sector cyntaf i fynd i mewn i ddirwasgiad, ond yn aml hefyd y sector cyntaf allan ohono. Mae'n arbennig o bwysig, felly, ein bod yn rhoi cefnogaeth lawn i'r diwydiant adeiladu. A wnewch chi roi syniad o'r sylwadau yr ydych wedi'u cyflwyno i Lywodraeth y DU ynghylch lleihau TAW i helpu'r diwydiant adeiladu dyfu ac ehangu?

Jane Hutt: Mae hwnnw'n gwestiwn pwysig, ac yr oedd yn un a gefais gan y diwydiant adeiladu ar ddiwedd y Cynulliad diwethaf. Gofynnodd busnesau Cymreig yn y diwydiannau sy'n gysylltiedig ag adeiladu i mi gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i leihau TAW ar welliannau ac atgyweiriadau cartref, a fyddai'n rhoi hwb mawr i'n busnesau. Ysgrifennais at y Trysorlys a phwyso'r achos dros leihau cyfradd TAW ar atgyweiriadau yn y cartref a gwelliannau i effeithlonrwydd ynni o 20 y cant i 5 y cant, yn ôl y gofyn, ac yn rhyfeddol, ac yn rhyfeddol, gwrthododd y Trysorlys ystyried newid o'r fath. Roedd yn newid y gofynnwyd amdano yn uniongyrchol gan y diwydiant adeiladu a busnes ei hun.

Llyr Huws Gruffydd: The current Communities First scheme comes to an end next year, and it seems that the review of the scheme's future, post 2012, is starting to slip. There is, therefore, a real danger that a number of services that depend on Communities First funding will come under threat, with the possibility that staff will face redundancy in January. What discussions has the Minister had with the Minister for Local Government and Communities in order to ensure that a clear, comprehensive and early decision is made for those projects under threat, as promised by Carl Sargeant in his statement yesterday?

Jane Hutt: This not only has been the flagship of the Labour-led Assembly Government, but was supported in the One Wales programme of government. We allocate £40 million a year to Communities First because we are determined to invest in our most disadvantaged communities. However, we must learn lessons, evaluate, and make sure that we drive this forward in the most appropriate way, and that is what the Minister is now doing in partnership with stakeholders and partners in the delivery of Communities First.

Buddsoddiad Cyfalaf

2. Keith Davies: *Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod cymaint o fuddsoddiad cyfalaf yng Nghymru ag sy'n bosibl. OAQ(4)0017(FIN)*

Jane Hutt: I have made available £200 million over the next three years for use on strategic, collaborative investment projects with a transfer of revenue to capital of up to £57 million, and we are pressing the UK Government for early action to enable the Welsh Government to borrow to fund investment, as we heard from the First Minister yesterday.

Keith Davies: Mae'r Llywodraeth wedi datgan ei hymrwymiad i wella ansawdd adeiladau ysgolion Cymru ac i'w gwneud yn briodol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae hwn yn ymrwymiad sydd wedi ei ddangos gan y dros £700 miliwn a fuddsoddwyd mewn ysgolion yn ystod y Cynulliad diwethaf. Yr wyf yn sylweddoli bod pwysau ar y cyllid oherwydd y toriadau o 40 y cant gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Yr ydym yn falch o'r £105 miliwn gan Lywodraeth Cymru tuag at fuddsoddiadau cyfalaf eleni. Yn fy etholaeth i yn Llanelli, mae nifer fawr o ysgolion cynradd wedi manteisio ar y cyllid hwn, ond mae angen estyniadau yn Ysgol Coedcae ac Ysgol y Strade oherwydd y galw uwch am leoedd gan ddisyblion heb gyfalaf.

The Presiding Officer: Order. Can you come to the question, please?

Keith Davies: A all y Gweinidog gadarnhau

Jane Hutt: Mae hyn nid yn unig wedi bod yn bolisi blaenllaw gan Lywodraeth y Cynulliad o dan arweiniad Llafur, ond cafodd ei gefnogi yn rhaglen lywodraethu Cymru'n Un. Rydym yn dyrannu £40 miliwn y flwyddyn i Gymunedau yn Gyntaf oherwydd ein bod yn benderfynol o fuddsoddi yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni ddysgu gwersi, gwerthuso, a gwneud yn siŵr ein bod yn gyrru hyn ymlaen yn y ffordd fwyaf priodol, a dyna'r hyn y mae'r Gweinidog yn awr yn ei wneud mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a phartneriaid wrth gyflwyno Cymunedau yn Gyntaf.

Capital Investment

2. Keith Davies: *What is the Minister doing to maximise capital investment in Wales. OAQ(4)0017(FIN)*

Jane Hutt: Yr wyf wedi darparu £200 miliwn dros y tair blynedd nesaf i'w ddefnyddio ar brosiectau buddsoddi strategol a chydweithrediadol, gyda throsglwyddiad o refeniw i gyfalaf o hyd at £57 miliwn, ac rydym yn pwyso ar Lywodraeth y DU i weithredu'n gynnar i alluogi Llywodraeth Cymru i fenthycu i ariannu buddsoddi, fel y clywsom gan y Prif Weinidog ddoe.

Keith Davies: The Government has declared its commitment to improving the quality of school buildings in Wales and to making them fit for the twenty-first century. This commitment was demonstrated by the more than £700 million invested in schools over the course of the last Assembly. I realise that the funding is coming under pressure as a result of the cuts of 40 per cent made by the UK Government. We are pleased with the £105 million capital investment made available this year by the Welsh Government. In my constituency of Llanelli, many primary schools have taken advantage of this funding, but extensions are needed in Ysgol Coedcae and Ysgol y Strade because of increasing demand for places for pupils who have not been funded.

Y Llywydd: Trefn. A wnewch chi ofyn cwestiwn, os gwelwch yn dda?

Keith Davies: Can the Minister confirm that

y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu buddsoddiadau cyfalaf fel y gall ysgolion barhau i gwrdd â gofynion yr unfed ganrif ar hugain?

Jane Hutt: The Member for Llanelli has recognised two important points. First, the Welsh Government invested over £700 million in capital funding for our school buildings over the last Assembly. Secondly, the UK coalition Government has imposed on us the deepest cuts in terms of capital—there are over 40 per cent cuts to our capital programme. As the twenty-first century schools programme is a partnership with local government, whereby we are working with them over 10 to 15 years to deliver that programme, our transitional grant projects have been important, and we are working with local authorities to plan ahead to deliver on twenty-first century schools.

Byron Davies: I am sure that you are aware of the remarks of a former Welsh Development Agency chair who has claimed that more than £100 million per year has been spent on attracting inward investment but has produced next to nothing. That is a very serious accusation and one that, sadly, rings true. I share his concerns that civil servants did not have the necessary skills to attract inward investment and that, as the former chair put it,

‘being micro-managed by people who don’t know much is a dangerous practice’.

Attracting private investment means concentrating on outcomes, and there is a very real perception that the private sector is interested only in outcomes whereas the public sector is interested only in process. Will you comment on the accusation that your Government is squandering £100 million per year attempting to attract inward investment? I also welcome your thoughts on the very real problem of perception related to civil servants running an inward investment strategy.

Jane Hutt: The construction industry—you focused on business interests in particular—was very pleased that I made the decision, as

the Welsh Government will continue to provide capital investments so that schools can continue to meet the demands of the twenty-first century?

Jane Hutt: Mae’r Aelod dros Lanelli wedi cydnabod dau bwynt pwysig. Yn gyntaf, buddsoddodd Llywodraeth Cymru dros £700 miliwn mewn cyllid cyfalaf ar gyfer adeiladau ein hysgolion dros y Cynulliad diwethaf. Yn ail, mae Llywodraeth glymblaid y DU wedi gosod arnom y toriadau dyfnaf o ran cyfalaf—mae dros 40 y cant o doriadau i’n rhaglen gyfalaf. Gan fod rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain yn bartneriaeth gyda llywodraeth leol, lle yr ydym yn gweithio gyda hwy dros 10 i 15 mlynedd i gyflawni’r rhaglen honno, mae ein prosiectau grant trosiannol wedi bod yn bwysig, ac yr ydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gynllunio ymlaen llaw i gyflawni ar ysgolion yr unfed ganrif ar hugain.

Byron Davies: Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol o sylwadau cyn-gadeirydd Awdurdod Datblygu Cymru sydd wedi honni bod mwy na £100 miliwn y flwyddyn wedi’i wario ar ddenu buddsoddiad o’r tu allan ond wedi cynhyrchu nesaf peth i ddim. Mae hynny’n gyhuddiad difrifol iawn ac yn un, yn anffodus, sy’n wir. Yr wyf yn rhannu ei bryderon nad oedd gan weision sifil y sgiliau angenrheidiol i ddenu buddsoddiad o’r tu allan ac, fel y dywedodd y cyn-gadeirydd,

mae micro-reoli gan bobl nad ydynt yn gwybod llawer yn arfer peryglus.

Mae denu buddsoddiad preifat yn golygu canolbwyntio ar ganlyniadau, ac mae yna ganfyddiad go iawn fod y sector preifat â diddordeb yn unig mewn canlyniadau tra bod y sector cyhoeddus â diddordeb yn unig yn y broses. A wnewch chi roi sylwadau ar y cyhuddiad bod eich Llywodraeth yn gwastraffu £100 miliwn y flwyddyn yn ceisio denu buddsoddiad o’r tu allan? Byddwn hefyd yn croesawu eich barn ar y broblem real iawn o ganfyddiad yn ymwneud â gweision sifil yn rhedeg strategaeth fuddsoddi o’r tu allan.

Jane Hutt: Roedd y diwydiant adeiladu—fe wnaethoch ganolbwyntio ar fuddiannau busnes yn benodol—yn falch iawn fy mod

Minister for Finance, not to make the £49 million cut in capital investment that was imposed on us in the budget in June last year. That £49 million in capital enabled us to invest in our infrastructure, not just in schools, but in housing and health. The Government is taking these brave decisions with regard to the cuts imposed by the UK Government. That is what business wants to see in terms of the availability of construction projects in the public sector.

Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): Yr wyf yn sicr eich bod yn cofio, Weinidog, pan gyhoeddoch eich ymateb i'r adolygiad cynhwysfawr o wariant, ichi ddweud bod y toriad i gyfalaf y Llywodraeth yn 41 y cant. Gan fod chwyddiant, a'r amcangyfrif o chwyddiant dros y tair blynedd nesaf, yn mynd i fod yn uwch nag a ragwelwyd bryd hynny, pa asesiad ydych chi wedi'i wneud erbyn hyn o faint yn fwy y bydd yn rhaid i chi dorri oherwydd bod y cyfalaf yn llai hyd yn oed na'r hyn a gyhoeddwyd adeg y gyllideb?

Jane Hutt: The capital cuts that we have to find are the most challenging part of our budget settlement. Indeed, in the budget that we approved in February as a result of the One Wales Government's decision, we were preparing to mitigate the worst effects. As you say, inflation is now having an impact on the value of capital allocations. We are therefore looking at ways in which we can ensure that we can not only borrow, but also bring in other sources of funding to meet our capital needs—we will be debating that later on this afternoon. We recognise that this will be a tough year in terms of allocating our priorities for strategic projects.

Ieuan Wyn Jones: Let me take you back to what we thought the position would be when the budget was set, that is, that there would be a capital cut of around 40 per cent. We now know that the predictions are that it will be at least 44 per cent and, in education, it will be even higher. Therefore, if £700 million was spent on those projects in the last Assembly, around half of that will be

wedi gwneud y penderfyniad, fel y Gweinidog Cyllid, i beidio gwneud y toriad o £49 miliwn yn y buddsoddiad cyfalaf a osodwyd arnom yn y gyllideb ym mis Mehefin flwyddyn ddiwethaf. Mae'r £49 miliwn hwnnw mewn cyfalaf wedi ein galluogi i fuddsoddi yn ein seilwaith, nid yn unig mewn ysgolion, ond mewn tai ac ieched. Mae'r Llywodraeth yn cymryd y penderfyniadau dewr hyn o ran y toriadau a wneir gan Lywodraeth y DU. Dyna y mae busnes yn dymuno ei weld o ran argaeledd prosiectau adeiladu yn y sector cyhoeddus.

The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): I am sure that you recall, Minister, that, when you announced your response to the comprehensive spending review, you said that the cut in capital for the Government would be 41 per cent. Given that inflation, and the forecast for inflation over the next three years, will be higher than was forecast at that time, what assessment have you now made of how much more you will have to cut because the capital will be even less than was announced at the time of the budget?

Jane Hutt: Y toriadau cyfalaf y mae'n rhaid inni ddod o hyd iddynt yw'r rhan fwyaf heriol o'n setliad cyllideb. Yn wir, yn y gyllideb a gymeradwywyd gennym ym mis Chwefror o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth Cymru'n Un, roeddem yn paratoi i liniaru'r effeithiau gwaethaf. Fel y dywedwch, mae chwyddiant yn awr yn cael effaith ar werth y dyraniadau cyfalaf. Felly, rydym yn edrych ar ffyrdd y gallwn sicrhau y gallwn nid dim ond benthyg, ond hefyd ddod â ffynonellau eraill o gyllid i mewn i fodloni ein hanghenion cyfalaf—byddwn yn trafod hynny yn nes ymlaen y prynhawn yma. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn flwyddyn anodd o ran dyrannu ein blaenoriaethau ar gyfer prosiectau strategol.

Ieuan Wyn Jones: Gadewch imi fynd â chi yn ôl at yr hyn yr oeddem yn credu y byddai'r sefyllfa pan osodwyd y gyllideb, hynny yw, y byddai toriad cyfalaf o tua 40 y cant. Gwyddom bellach mai'r rhagolygon yw y bydd yn doriad o 44 y cant o leiaf, ac, mewn addysg, bydd hyd yn oed yn uwch. Felly, os cafodd £700 miliwn ei wario ar y prosiectau hynny yn y Cynulliad diwethaf,

available in this Assembly. Can you explain the Assembly Government's thinking with regard to the projects that you will now have to shelve in order to meet these tight controls? Although you say that you are looking for innovative ways of raising capital, that will not be available this year or next year, when the biggest cuts will happen. Therefore, given that we are facing substantial cuts this year and next year, when will you make an announcement on the projects that you will have to cut to meet your targets?

Jane Hutt: We are not considering shelving any projects. We are working closely with our partners in local government. In fact, this morning, Carl Sargeant and I met finance members of the cabinets of all the local authorities in Wales to discuss these very issues. To go back to the challenge of the twenty-first century schools programme, we recognise that we have to look, as we did in preparing our budget, at rephrasing and rescaling our capital programme. We are doing everything that we can in our determination to stick to the budget and to recognise the pressures of inflation and additional costs in order to find a way forward. That includes the use of innovative sources of funding and the borrowing powers that, as the First Minister said, we are seeking as a matter of urgency.

Dyraniadau

3. Kirsty Williams: *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chyd-aelodau yn y Cabinet ynghylch dyraniadau cyffredinol i'w hadrannau. OAQ(4)0003(FIN)*

Jane Hutt: I have regular discussions with Cabinet colleagues, in which we discuss a range of financial issues relating to their portfolios.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): Minister, could you confirm whether the Minister for Local Government and Communities has the necessary funding in his departmental allocation to fund the pledge to provide additional police community support officers?

tua hanner hynny a fydd ar gael yn y Cynulliad hwn. A allwch chi egluro meddylfryd Llywodraeth y Cynulliad o ran y prosiectau y bydd yn rhaid i chi eu gohirio er mwyn bodloni'r rheolaethau llym hyn? Er eich bod yn dweud eich bod yn chwilio am ffyrdd arloesol o godi cyfalaf, ni fydd ar gael eleni neu'r flwyddyn nesaf, pan fydd y toriadau mwyaf yn digwydd. Felly, o gofio ein bod yn wynebu toriadau sylweddol eleni a'r flwyddyn nesaf, pryd fyddwch yn gwneud cyhoeddiad ar y prosiectau y bydd yn rhaid i chi eu torri i gyrraedd eich targedau?

Jane Hutt: Nid ydym yn ystyried gwaredu unrhyw brosiectau. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid mewn llywodraeth leol. Yn wir, y bore yma, cafodd Carl Sargeant a minnau gyfarfod gydag aelodau cyllid cabinetau'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru i drafod yr union faterion hyn. I fynd yn ôl at her rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, rydym yn cydnabod bod yn rhaid inni edrych, fel y gwnaethom wrth baratoi ein cyllideb, ar gyflwyno a graddio ein rhaglen gyfalaf eto. Yr ydym yn gwneud popeth y gallwn ni yn ein penderfyniad i gadw at y gyllideb ac i gydnabod y pwysau chwyddiant a chostau ychwanegol er mwyn dod o hyd i ffordd ymlaen. Mae hynny'n cynnwys y defnydd o ffynonellau arloesol o gyllid a phwerau benthyca yr ydym, fel dywedodd y Prif Weinidog, yn chwilio amdanynt fel mater o frys.

Allocations

3. Kirsty Williams: *What discussions has the Minister had with Cabinet colleagues regarding overall allocations to their departments. OAQ(4)0003(FIN)*

Jane Hutt: Rwyf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda chydweithwyr yn y Cabinet, lle byddwn yn trafod ystod o faterion ariannol sy'n ymwneud â'u portffolios.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Weinidog, a allwch gadarnhau a oes gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau y cyllid angenrheidiol yn ei ddyraniad adrannol er mwyn ariannu'r addewid i ddarparu swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ychwanegol?

Jane Hutt: Indeed. Our five pledges and the funding of 500 additional PCSOs are at the forefront of my budgetary challenge, on which we will be delivering.

Kirsty Williams: Minister, during the election, spokespeople for the Labour Party said that the money to fund that pledge would have to come out of existing departmental budgets, and in answers to written questions since the election the Government has confirmed that that is the case. Could you confirm whether the Minister for Local Government and Communities has asked you for additional resources for his budget? If he has not done so, could you enlighten us about any early discussions about the projects and expenditure in his department that will have to be cut to fund that pledge?

Jane Hutt: It is implicit in your question that you welcome the pledge by the Welsh Labour Government to fund additional PCSOs. It has certainly been welcomed on the street, by the police forces and by those who recognise the important role of PCSOs—I am sure that everyone in the Chamber knows how successful and valuable they are. Therefore, we have made a commitment. You know how tight the finances are, Kirsty, and the extent to which we are on the margins, in that we have no end-of-year flexibility as a result of the decisions of the UK coalition Government. I hope that you will have an influence on increasing the flexibility of your colleagues in the coalition in that regard. However, we will deliver on that commitment.

Ann Jones: I welcome the news that the Welsh Government will close its accounts with Barclays Bank by the end of August of this year. Although the bank was not bailed out, taxpayers have made this business viable, and I share the anger of those who watched Bob Diamond receive a £6.5 million bonus while refusing to thank the public for its backing throughout the financial crisis.

Jane Hutt: Yn wir. Mae ein pum addewid ac ariannu 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu ychwanegol ar flaen fy her gyllidebol, a byddwn yn gweithredu ar yr her honno.

Kirsty Williams: Weinidog, yn ystod yr etholiad, dywedodd llefaryddion ar ran y Blaid Lafur y byddai'r arian i ariannu'r addewid hwnnw yn gorfod dod allan o'r cyllidebau adrannol presennol, ac mewn atebion i gwestiynau ysgrifenedig ers yr etholiad, mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau bod hynny'n wir. A allwch gadarnhau a yw'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi gofyn i chi am adnoddau ychwanegol ar gyfer ei gyllideb? Os nad yw wedi gwneud hynny, a allwch ein goleuo am unrhyw drafodaethau cynnar am y prosiectau a'r gwariant yn ei adran y bydd yn rhaid eu torri i ariannu'r addewid hwnnw?

Jane Hutt: Mae'n ymhyg yn eich cwestiwn eich bod yn croesawu'r addewid gan Lywodraeth Lafur Cymru i ariannu swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol. Mae yn sicr wedi cael ei groesawu ar y stryd, gan luoedd yr heddlu a chan y rhai sy'n cydnabod rôl bwysig y swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu—yr wyf yn siŵr bod pawb yn y Siambr yn gwybod pa mor llwyddiannus a gwerthfawr ydynt. Felly, yr ydym wedi gwneud ymrwymiad. Rydych yn gwybod pa mor dynn yw'r cyllid, Kirsty, ac i ba raddau yr ydym ar yr ymylon, yn yr ystyr nad oes gennym unrhyw hyblygrwydd diwedd blwyddyn o ganlyniad i benderfyniadau Llywodraeth glymblaid y DU. Yr wyf yn gobeithio y byddwch yn cael dylanwad ar gynyddu hyblygrwydd eich cydweithwyr yn y glymblaid yn y cyswllt hwnnw. Fodd bynnag, byddwn yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw.

Ann Jones: Yr wyf yn croesawu'r newyddion y bydd Llywodraeth Cymru yn cau ei chyfrifon gyda Banc Barclays erbyn diwedd mis Awst eleni. Er na chafodd y banc help llaw, trethdalwyr sydd wedi gwneud y busnes hwn yn hyfyw, ac yr wyf yn rhannu dichter y rhai a oedd yn gwyllo Bob Diamond yn derbyn bonws o £6.5 miliwn wrth iddo wrthod diolch i'r cyhoedd am ei gefnogaeth

Minister, do you agree that, when considering any relationships with commercial banks, the Welsh Government should act as a discerning customer on behalf of Welsh taxpayers?

1.45 p.m.

Jane Hutt: Yes. I think that the Member for the Vale of Clwyd has raised an important point relating to a change that other Assembly Members may not be aware of. We have moved to a Government banking service that will provide the Welsh Government with a cost-effective banking service, which is now servicing all Government sectors. Returning to the issue of banks, the message is that we can manage our finances, and we hope that they can manage theirs better, for the good of the people of Wales.

Andrew R.T. Davies: Minister, there is a Barnett consequential for the establishment of enterprise zones in England. One figure that has been bandied around is £10 million, and the First Minister alluded to a figure of £5 million at the recent Confederation of British Industry lunch. It is up to the Government to decide in which department that money should be spent. Are you in a position, Minister, to confirm the figure? Is it £10 million or £5 million?

Jane Hutt: The First Minister was correct about the consequential when speaking at the CBI lunch. The most important thing for us, at this point, is to analyse and discuss with the UK Government how we can use the enterprise zone facilities. That issue is at the forefront of the agenda of the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science.

4. Mike Hedges: *A wnaiff y Gweinidog ddangos y cynnydd canrannol yng nghyllideb portffolio Llywodraeth Leol a Chymunedau er 2004. OAQ(4)0008(FIN)*

Jane Hutt: The Local Government and Communities portfolio has only existed since May 2011, due to the change in ministerial responsibilities. Based on final budget figures, and reconfiguration due to the restructuring of ministerial portfolios, the

drwy gydol yr argyfwng ariannol. Weinidog, a ydych yn cytuno, wrth ystyried unrhyw gysylltiadau gyda banciau masnachol, y dylai Llywodraeth Cymru weithredu fel cwsmer craff ar ran trethdalwyr Cymru?

Jane Hutt: Ydw. Yr wyf yn meddwl bod yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd wedi codi pwnt pwysig yn ymwneud â newid nad yw Aelodau eraill y Cynulliad efallai yn ymwybodol ohono. Rydym wedi symud i wasanaeth bancio Llywodraeth a fydd yn rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am wasanaeth bancio cost-effeithiol, sydd bellach yn gwasanaethu pob sector Llywodraeth. I ddychwelyd at y mater o fanciau, y neges yw y gallwn reoli ein cyllid, ac rydym yn gobeithio y gallant eu rheoli hwy yn well, er lles pobl Cymru.

Andrew R.T. Davies: Weinidog, mae swm canlyniadol Barnett ar gyfer sefydlu parthau menter yn Lloegr. Un ffigur sydd wedi cael ei daflu yn ôl ac ymlaen yw £10 miliwn, a soniodd y Prif Weinidog am ffigur o £5 miliwn yng nghinio diweddar Cydffederasiwn Diwydiant Prydain. Mater i'r Llywodraeth yw penderfynu ym mha adran y dylai'r arian hwnnw gael ei wario. A ydych mewn sefyllfa, Weinidog, i gadarnhau'r ffigur? A yw'n £10 miliwn neu'n £5 miliwn?

Jane Hutt: Roedd y Prif Weinidog yn gywir am y swm canlyniadol wrth siarad yng nghinio Cydffederasiwn Diwydiant Prydain. Y peth pwysicaf i ni, ar hyn o bryd, yw dadansoddi a thrafod gyda Llywodraeth y DU sut y gallwn ddefnyddio'r cyfleusterau ardaloedd menter. Mae'r mater hwnnw ar flaen agenda'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth.

4. Mike Hedges: *Will the Minister indicate the percentage increase in the budget of the Local Government and Communities portfolio since 2004. OAQ(4)0008(FIN)*

Jane Hutt: Mae portffolio Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi bodoli dim ond ers mis Mai 2011, oherwydd y newid mewn cyfrifoldebau gweinidogol. Yn seiliedig ar ffigurau cyllideb terfynol, ac ad-drefnu o ganlyniad i ailstrwythuro'r portffolios

department's budget for 2011-12 is more than £5.1 billion.

Mike Hedges: I thank the Minister for her reply. My constituents are amazed that, although there will be a substantial increase next year, street lights are being turned off and black bags are being collected fortnightly. Nevertheless, there has been much talk in this Chamber about the need for more capital expenditure. Would the Minister consider using supplementary credit approval, which was used until 2004 to fund prudential borrowing in local authorities and to transfer grants to local authorities? Local authorities have been nervous about using prudential borrowing because it has a serious effect on their revenues. Supplementary credit approval would give them revenue support and it would increase capital expenditure in Wales without causing any increase in revenue expenditure.

Jane Hutt: As the Member for Swansea East—who is also a former local authority leader—will know, we ceased to provide supplementary credit approval arrangements in 2004. However, it is important to note that this is now part of our framework for supporting and encouraging local authorities' prudential borrowing. This is being used by some authorities more than by others. We discussed the issue this morning with the finance leaders of local authorities across Wales. It is important in terms of how we move forward with opportunities to increase borrowing, not only by local government but also by us, as we take forward our discussions with the UK Government.

William Graham: Will the Minister acknowledge that some council tax rates have increased dramatically, particularly in places like Blaenau Gwent, where people are paying 23 per cent more than they were paying a few years ago? How is the Welsh Government working with the Welsh Local Government Association and local authorities to minimise council tax increases?

Jane Hutt: The settlement that was provided to local government, which will enable authorities to receive more than £4 billion

gweinidogol, mae cyllideb yr adran ar gyfer 2011-12 yn fwy na £5.1 biliwn.

Mike Hedges: Diolchaf i'r Gweinidog am ei ateb. Mae fy etholwyr yn synnu, er y bydd cynnydd sylweddol y flwyddyn nesaf, bod goleuadau stryd yn cael eu troi i ffwrdd a bagiau du yn cael eu casglu bob pythefnos. Serch hynny, bu llawer o sôn yn y Siambr hon am yr angen am fwy o wariant cyfalaf. A fyddai'r Gweinidog yn ystyried defnyddio cymeradwyaeth credyd atodol, a ddefnyddiwyd tan 2004 i ariannu bentyca darbodus mewn awdurdodau lleol ac i drosglwyddo grantiau i awdurdodau lleol? Mae awdurdodau lleol wedi bod yn nerfus am ddefnyddio bentyca darbodus oherwydd ei fod yn cael effaith ddifrifol ar eu refeniw. Byddai cymeradwyaeth credyd atodol yn rhoi cymorth refeniw iddynt ac yn cynyddu'r gwariant cyfalaf yng Nghymru heb achosi unrhyw gynnydd mewn gwariant refeniw.

Jane Hutt: Fel y mae'r Aelod dros Ddwyrain Abertawe—sydd hefyd yn gyn-arweinydd awdurdod lleol—yn gwybod, rhoesom y gorau i ddarparu'r trefniadau cymeradwyaeth credyd atodol yn 2004. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod hyn bellach yn rhan o'n fframwaith ar gyfer cefnogi ac annog bentyca darbodus awdurdodau lleol. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio gan rai awdurdodau yn fwy nag eraill. Buom yn trafod y mater hwn y bore yma gydag arweinwyr cyllid awdurdodau lleol ar draws Cymru. Mae'n bwysig o ran sut yr ydym yn symud ymlaen gyda chyfleoedd i gynyddu bentyca, nid yn unig gan lywodraeth leol ond hefyd gennym ni, wrth inni ddatblygu ein trafodaethau â Llywodraeth y DU.

William Graham: A wnaiff y Gweinidog gydnabod bod rhai cyfraddau treth gyngor wedi cynyddu'n ddramatig, yn enwedig mewn lleoedd fel Blaenau Gwent, lle mae pobl yn talu 23 y cant yn fwy nag yr oeddent yn ei dalu ychydig flynyddoedd yn ôl? Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol i leihau cynnydd yn y dreth gyngor?

Jane Hutt: Roedd y setliad a ddarparwyd i lywodraeth leol, a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i gael mwy na £4 biliwn

over the next three years to fund core services, was welcomed by the local authorities that we met this morning as a fair settlement. The Minister also ensured that there was support to allow local authorities to make their own judgments on council tax, and that was also recognised as fair and appropriate.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, mae cyllidebau awdurdodau lleol o dan bwysau enfawr ar hyn o bryd. O ran sicrhau bod gan awdurdodau arian i wario ar gynlluniau cyfalaf, onid yw'r modd y mae'r arian o'r cynllun cymhorthdal, sy'n rhan o'r cyfrif refeniw tai, yn cael ei ddychwelyd i'r Trysorlys yn broblem? Cyflwynwyd y cynllun hwn gan y Ceidwadwyr, a pharhawyd â'r cynllun gan y Blaid Lafur yn San Steffan. Bydd yn cael ei ddileu yn Lloegr dan y Bil Lleoliaeth, ond bydd yn parhau yng Nghymru. Beth yw'ch cynlluniau i sicrhau y daw i ben yng Nghymru a bod yr awdurdodau'n gallu defnyddio'r arian hwnnw at adeiladu tai i'w rhentu?

Jane Hutt: This is the very issue that the Minister for Housing, Regeneration and Heritage and I discussed last week, to find a way forward following the intensive discussions that the former Deputy Minister for housing, Jocelyn Davies, and I had with the Chief Secretary to the Treasury in which, I am afraid, we found our representations falling on deaf ears. However, we will work hard to achieve the kind of recognition and reform that should benefit Wales.

Peter Black: Minister, one way of maximising potential borrowing for local government is to increase the amount of revenue to authorities in order for them to fund borrowing. Even though the number of direct grants to councils has decreased, the annual cost of administering them is around £50 million a year. Do you not recognise that to reduce the number and scale of those direct grants even further would allow you to release even more money to local government to enable it to borrow money to invest in capital? Will you consider doing that in quite a radical way over the next few years?

Jane Hutt: Clearly, the commitment in the

dros y tair blynedd nesaf i ariannu gwasanaethau craidd, wedi'i groesawu gan yr awdurdodau lleol y cyfarfûm â hwy y bore yma fel setliad teg. Mae'r Gweinidog hefyd wedi sicrhau bod cefnogaeth i ganiatáu i awdurdodau lleol wneud eu penderfyniadau eu hunain ar y dreth gyngor, a chydabuwyd hynny hefyd fel rhywbeth teg a phriodol.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, local authority budgets are under enormous strain at this time. With regard to ensuring that authorities have the money to spend on capital schemes, does not the problem lie with the means by which money from the subsidy scheme, which is part of the housing revenue account, is returned to the Treasury? This scheme was introduced by the Conservatives, and retained by the Labour Party at Westminster. It will be terminated in England under the Localism Bill, but it will remain in Wales. What plans do you have to ensure its demise in Wales, and how will you ensure that local authorities can use that funding to build houses for rent?

Jane Hutt: Dyma'r union fater y trafodd y Gweinidog dros Dai, Adfywio a Threftadaeth a minnau yr wythnos diwethaf, i ddod o hyd i ffordd ymlaen yn dilyn y trafodaethau dwys a gafodd y cyn Ddirprwy Weinidog dros dai, Jocelyn Davies, a minnau gyda'r Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys lle, mae arnaf ofn, ni wrandawyd ar ein sylwadau. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio'n galed i gyflawni'r math o gydnabyddiaeth a diwygio a ddylai fod o fudd i Gymru.

Peter Black: Weinidog, un ffordd o wneud y mwyaf o'r benthycia posibl i lywodraeth leol yw cynyddu'r refeniw i awdurdodau er mwyn iddynt ariannu benthycia. Er bod nifer y grantiau uniongyrchol i gynghorau wedi gostwng, y gost flynyddol o'u gweinyddu yw tua £50 miliwn y flwyddyn. Onid ydych yn cydnabod y byddai lleihau nifer a maint y grantiau uniongyrchol hynny hyd yn oed ymhellach yn eich galluogi i ryddhau hyd yn oed mwy o arian i lywodraeth leol i'w galluogi i fenthyc arian i fuddsoddi mewn cyfalaf? A wnewch chi ystyried gwneud hynny mewn ffordd eithaf radical yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf?

Jane Hutt: Yn amlwg, yr ymrwymiad yn y

new understanding with local government is that we will move to reduce specific grants. Specific grants have played an important role in driving forward important and groundbreaking programmes such as Flying Start, just as they have played a role in safeguarding important funding streams and providing services to vulnerable people, such as Supporting People. It is clear that we have to handle this issue carefully, but the good and fair settlement that we have given to local government for the next three years enables us to work with it and through it to deliver our programmes and objectives in terms of reducing specific grants.

Blaenoriaethau

5. Christine Chapman: *Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer y tymor hwn yn y Cynulliad. OAQ(4)0013(FIN)*

Jane Hutt: We set out our spending priorities for the current year in the final budget. We are providing a shield for our people against the UK Government's cuts. Our spending plans maximise opportunities to meet the needs of those people and communities most likely to be adversely affected.

Christine Chapman: With regard to the equality part of your portfolio, do you agree with me that increasing the diversity of those who sit on the boards of public bodies and private companies would better reflect our communities and lead to a more inclusive and better form of governance? Our manifesto included a commitment to introduce quotas to ensure that a minimum of 40 per cent of appointments to public bodies are women. Minister, can you assure me that this will be made a priority for our Government?

Jane Hutt: As the Minister with responsibility for equalities, I am happy to give you that assurance. I would just make two points. The Equality and Human Rights Commission report, 'Who runs Wales? 2011', which was published in March, looked at the top 50 Welsh companies and found only two female chief executives. It also found that only one of our 22 council leaders

ddealltwriaeth newydd gyda llywodraeth leol yw y byddwn yn symud i leihau grantiau penodol. Mae grantiau penodol wedi chwarae rhan bwysig yn gyrru rhaglenni pwysig ac arloesol, megis Dechrau'n Deg, yn eu blaen, yn union fel y maent wedi chwarae rôl wrth ddiogelu ffrydiau ariannu pwysig a darparu gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed, megis Cefnogi Pobl. Mae'n amlwg bod yn rhaid inni ymdrin â'r mater hwn yn ofalus, ond mae'r setliad da a theg yr ydym wedi'i roi i lywodraeth leol ar gyfer y tair blynedd nesaf yn ein galluogi i weithio gyda, a thrwy, llywodraeth leol i gyflawni ein rhaglenni ac amcanion o ran lleihau grantiau penodol.

Priorities

5. Christine Chapman: *What are the Minister's priorities for this Assembly term. OAQ(4)0013(FIN)*

Jane Hutt: Yr ydym yn gosod ein blaenoriaethau gwario ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn y gyllideb derfynol. Rydym yn darparu tarian ar gyfer ein pobl yn erbyn toriadau Llywodraeth y DU. Mae ein cynlluniau gwario yn cynyddu cyfleoedd i gwrdd ag anghenion y bobl a'r cymunedau hynny sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio'n andwyol.

Christine Chapman: O ran yr elfen gydraddoldeb yn eich portffolio, a ydych yn cytuno â mi y byddai cynyddu amrywiaeth y rhai sy'n eistedd ar fyrddau cyrff cyhoeddus a chwmnïau preifat yn adlewyrchu ein cymunedau yn well ac yn arwain at ffurf fwy cynhwysol a gwell o lywodraethu? Mae ein maniffesto yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno cwtâu er mwyn sicrhau bod o leiaf 40 y cant o benodiadau i gyrff cyhoeddus yn fenywod. Weinidog, a allwch fy sicrhau y bydd hyn yn cael ei wneud yn flaenoriaeth ar gyfer ein Llywodraeth?

Jane Hutt: Fel y Gweinidog â chyfrifoldeb dros gydraddoldebau, yr wyf yn hapus i roi'r sicrwydd hwnnw i chi. Hoffwn wneud dau bwynt. Edrychodd adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Pwy sy'n rhedeg Cymru? 2011', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, ar y 50 prif gwmni yng Nghymru a chanfod dim ond dau brif weithredwr benywaidd. Canfu hefyd mai dim ond un o'n

is a woman. Therefore, we have a long way to go.

Nick Ramsay: Yesterday, in his statement to Plenary on financial reform, the First Minister spoke of the Welsh Government's support for borrowing powers. However, he was less than clear on the detail. Given that you have a reputation for detail in these matters, can you clarify for us today the type of borrowing power being sought from the UK Government? Will such borrowing be purely for capital spending, and would it be done through the National Loans Fund arm of the Treasury rather than through the issue of bonds?

Jane Hutt: I hesitate to go into a huge amount of detail given the number of questions that we need to get through. However, it is important to respond by referring to the Holtham commission, which laid out a clear way forward; it made a strong case for the Treasury's UK Debt Management Office as the best means of Wales gaining borrowing powers, as it offers competitive borrowing terms. It is important that we look at the broadest range of borrowing powers that are consistent with the UK Government's legitimate interest in retaining control over borrowing at the macro-economic level. Therefore, it is all open, but we have a good steer from part 2 of the Holtham commission's report.

Nick Ramsay: I appreciate the Minister's answer, but my reason for requesting details about the type of borrowing power being sought is that, yesterday, the First Minister mentioned the extra borrowing powers for Scotland. The UK Government is giving the go-ahead for Scotland to borrow, but this is capped at around £2 billion a year and is restricted to capital spending on specific projects. In fact, the Scottish Executive has mentioned spending on a replacement Forth road bridge. Given that the Scottish Government clearly has specific objectives for borrowing, what are the specific projects that your Government is seeking to fund through borrowing? Will you accept that, while it can have advantages, borrowing is not a panacea, as was said yesterday, and that ultimately it has to be paid back? It cannot be viewed simply as a blank cheque, which is

22 arweinydd cyngor sy'n fenyw. Felly, mae gennym ffordd bell i fynd.

Nick Ramsay: Ddoe, yn ei ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn ar ddiwygio ariannol, siaradodd y Prif Weinidog am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pwerau benthyca. Fodd bynnag, roedd yn llai na chlir ar y manylion. O gofio bod gennych enw da am fanylion yn y materion hyn, a allwch egluro i ni heddiw y math o bŵer benthyca a geisir oddi wrth Lywodraeth y DU? A fydd benthyca o'r fath ar gyfer gwariant cyfalaf yn unig, ac a fyddai'n cael ei wneud drwy gangen Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol y Trysorlys yn hytrach na thrwy fondiau?

Jane Hutt: Yr wyf yn petruso i fynd i mewn i lawer iawn o fanylion o ystyried nifer y cwestiynau y mae angen inni fynd drwyddynt. Fodd bynnag, mae'n bwysig i ymateb drwy gyfeirio at gomisiwn Holtham, a amlinellodd ffordd glir ymlaen; gwnaeth achos cryf dros Swyddfa Rheoli Dyled y DU y Trysorlys fel y ffordd orau i Gymru ennill mwy o bwerau benthyca, gan ei fod yn cynnig telerau benthyca cystadleuol. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar yr ystod ehangaf o bwerau benthyca sy'n gyson gyda diddordeb cyfreithlon Llywodraeth y DU i gadw rheolaeth dros fenthyca ar y lefel macro-economaidd. Felly, mae'r cyfan yn agored, ond mae gennym arweiniad da gan ran 2 adroddiad comisiwn Holtham.

Nick Ramsay: Yr wyf yn gwerthfawrogi ateb y Gweinidog, ond fy rheswm dros ofyn am fanylion am y math o bŵer benthyca a geisir yw i'r Prif Weinidog sôn ddoe am y pwerau benthyca ychwanegol ar gyfer yr Alban. Mae Llywodraeth y DU yn rhoi sêl bendith i'r Alban i fenthyca, ond mae hyn yn cael ei gapio ar oddeutu £2 biliwn y flwyddyn ac yn cael ei gyfyngu i wariant cyfalaf ar brosiectau penodol. Yn wir, mae Gweithrediaeth yr Alban wedi crybwyll gwariant ar bont newydd ar ffordd Forth. O ystyried bod gan Lywodraeth yr Alban yn amlwg amcanion penodol ar gyfer benthyca, beth yw'r prosiectau penodol y mae eich Llywodraeth yn ceisio eu hariannu drwy fenthyca? A wnewch chi dderbyn, er y gall fod manteision, nad benthyca yw ateb pob problem, fel y dywedwyd ddoe, ac yn y pen draw mae'n rhaid iddo gael ei dalu'n ôl? Ni

the way that it has sometimes been viewed by previous UK Governments.

Jane Hutt: I do not think that there is any difference. The priority is to seek rapid access to borrowing powers and I have mentioned a vehicle for doing that. It is right that we should borrow to invest in capital projects and I have already discussed that in responding to questions this afternoon. It is clear that we would have to agree to a ceiling on the total amount of debt that we would have to carry, but it is for us to start by accessing those borrowing powers.

Leanne Wood: Minister, your party spoke a lot about standing up for Wales in the recent election, and you have just mentioned again your intention to be a shield to protect the people of Wales from the worst of the Tories' cuts. The strike planned for next Thursday has huge implications. Minister, I will ask you exactly the same question that I asked you yesterday, when you avoided answering it. Will you provide a statement from the Government indicating your position on the public sector strike next week? Is the Government going to stand up for Welsh public sector workers in their attempts to defend their pensions, or does the Labour Government support Ed Balls's view? We need a statement in the Assembly so that everyone is absolutely clear as to how this building and your Government will operate next Thursday.

Jane Hutt: You are questioning the Minister for Finance of the Welsh Government, not the shadow Chancellor of the Labour Party. As I said yesterday, with a two-year pay freeze, rising fuel costs, inflation at 5 per cent and the threat of redundancy, it is clear that public sector workers are facing a particularly tough time at the moment with the worst of the UK coalition Government's cuts agenda. You clearly agree with my view as the Minister for Finance. It is also clear that the Trades Union Congress wishes to negotiate a settlement over the pensions issue, and it is important that we provide a shield, as I described, against the impact of all of this on our public service workforce. That is my

ellir ei weld yn syml fel siec wag, sef y ffordd y mae wedi cael ei weld weithiau gan Lywodraethau blaenorol y DU.

Jane Hutt: Nid wyf yn credu bod unrhyw wahaniaeth. Y flaenoriaeth yw ceisio mynediad cyflym at bwerau benthycu ac yr wyf wedi crybwyll y cyfrwng ar gyfer gwneud hynny. Mae'n iawn y dylem fenthycu i fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf ac yr wyf eisoes wedi trafod hynny wrth ymateb i gwestiynau y prynhawn yma. Mae'n amlwg y byddai'n rhaid i ni gytuno i'r terfyn uchaf ar gyfanswm y ddyled y byddai'n rhaid i ni ei gario, ond rhaid inni ddechrau trwy gael mynediad i'r bwerau benthycu hynny.

Leanne Wood: Weinidog, mae eich plaid wedi siarad llawer am sefyll i fyny dros Gymru yn yr etholiad diweddar, ac rydych newydd grybwyll unwaith eto eich bwriad i fod yn darian i amddiffyn pobl Cymru rhag y gwaethaf o doriadau'r Torïaid. Mae gan y streic sydd wedi ei gynllunio ar gyfer dydd Iau nesaf oblygiadau enfawr. Weinidog, gofynnaf yr union gwestiwn a ofynnais i chi ddoe, pan wnaethoch osgoi ei ateb. A fyddwch yn darparu datganiad gan y Llywodraeth yn nodi eich safle ar streic y sector cyhoeddus yr wythnos nesaf? A yw'r Llywodraeth yn mynd i sefyll i fyny dros weithwyr sector cyhoeddus Cymru yn eu hymdrechion i amddiffyn eu pensiynau, neu a yw'r Llywodraeth Lafur yn cefnogi barn Ed Balls? Mae angen inni gael datganiad yn y Cynulliad fel bod pawb yn gwbl glir o ran sut y bydd yr adeilad hwn a'ch Llywodraeth chi yn gweithredu ddydd Iau nesaf.

Jane Hutt: Yr ydych yn holi Gweinidog Cyllid Llywodraeth Cymru, nid is-Ganghellor y Blaid Lafur. Fel y dywedais ddoe, gyda rhewi cyflog am ddwy flynedd, costau tanwydd cynyddol, chwyddiant o 5 y cant a'r bygythiad o ddiswyddiadau, mae'n amlwg bod gweithwyr y sector cyhoeddus yn wynebu cyfnod arbennig o anodd ar hyn o bryd gyda'r gwaethaf yn agenda toriadau Llywodraeth glymblaid y DU. Rydych yn amlwg y cytuno gyda fy marn fel y Gweinidog Cyllid. Mae hefyd yn amlwg bod Cyngres yr Undebau Llafur yn dymuno trafod setliad ynglŷn â'r mater pensiynau, ac mae'n bwysig ein bod yn darparu tarian, fel y disgrifiais, yn erbyn effaith hyn i gyd ar ein

statement.

gweithlu gwasanaethau cyhoeddus. Dyna fy natganiad.

William Powell: In March this year, the Public Accounts Committee released a report regarding the recent turbulence within the Wales Audit Office. It included recommendations on how to enhance levels of accountability and transparency within the WAO. Will the Minister provide an update on progress on the implementation of these recommendations? What can the Welsh Government do to support the new auditor general in recovering public trust in the organisation?

William Powell: Ym mis Mawrth eleni, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus adroddiad ynghylch y cynnwrf diweddar yn Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd yn cynnwys argymhellion ar sut i wella lefelau o atebolrwydd a thryloywder yn Swyddfa Archwilio Cymru. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar weithredu'r argymhellion hyn? Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi'r archwilydd cyffredinol newydd wrth adennill ymddiriedaeth y cyhoedd yn y sefydliad?

Jane Hutt: I am looking forward to meeting the new auditor general tomorrow; I had many meetings with him before the end of the last session. This matter will also come under the responsibilities of the Assembly's Public Accounts Committee.

Jane Hutt: Yr wyf yn edrych ymlaen at gwrdd â'r archwilydd cyffredinol newydd yfory; cefais nifer o gyfarfodydd gydag ef cyn diwedd y sesiwn ddiwethaf. Bydd y mater hwn hefyd yn dod o dan gyfrifoldebau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad.

Trafodaethau gyda Thrysorlys y DU

Discussions with UK Treasury

6. Simon Thomas: *Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal rhwng y Gweinidog a Thrysorlys y DU ers 6 Mai 2011 ynghylch ariannu Cymru. OAQ(4)0018(FIN)*

6. Simon Thomas: *What discussions have there been between the Minister and the UK Treasury since May 6 2011 regarding financing Wales. OAQ(4)0018(FIN)*

Jane Hutt: The First Minister and I have discussed a number of financial issues with the UK Government, including the need to move forward on a fair and sustainable financial package and Wales's need for borrowing powers. There will be a finance Ministers' quadrilateral meeting on 14 July.

Jane Hutt: Mae'r Prif Weinidog a minnau wedi trafod nifer o faterion ariannol gyda Llywodraeth y DU, gan gynnwys yr angen i symud ymlaen ar becyn ariannol teg a chynaliadwy ac anghenion Cymru am bwerau benthyca. Bydd cyfarfod pedairochrog y Gweinidogion cyllid ar 14 Gorffennaf.

Simon Thomas: Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog, ond mae'n glir o'i hateb nad yw wedi cael trafodaethau eto gyda'r Trysorlys ynghylch y mater hollbwysig hwn. Yng nghyfarfod y cyd-bwyllgor Gweinidogion byrthefnos yn ôl, methodd y Prif Weinidog â chael yr hyn y dywed yw'r lleiafswm ar gyfer cyllido Cymru, hyd yn oed, sef y llawr Barnett. A fyddai Llywodraeth Cymru wedi cael gwell bargaen pe byddai'r Gweinidog Cyllid wedi bod yn negodi dros y Llywodraeth, ac nid y Prif Weinidog?

Simon Thomas: I would like to thank the Minister, but it is clear from her response that she has not yet had any discussions with the Treasury about this vital issue. At the meeting of the joint ministerial committee a fortnight ago, the First Minister failed even to secure what he maintains is the minimum for financing Wales, namely the Barnett floor. Might not the Welsh Government have struck a better deal had the Minister for Finance been negotiating on the Government's behalf instead of the First Minister?

2.00 p.m.

Jane Hutt: Yesterday's response from across the Chamber to the First Minister's statement

Jane Hutt: Roedd ymateb ddoe o bob cwr o'r Siambr i ddatganiad y Prif Weinidog ar

on future funding powers and the programme and objectives of the Welsh Government was very encouraging. It is quite clear that the UK Government will respond if we have a united National Assembly for Wales in terms of our political response and, indeed, scrutiny and challenge of me is part of that, as the Member for Mid and West Wales is clearly indicating today.

Effaith Ffioedd Dysgu

7. Simon Thomas: *Beth yw amcangyfrif y Gweinidog o'r effaith ar gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru os gosodir ffioedd dysgu ar gyfartaledd uwch na £7,000. OAQ(4)0016(FIN)*

Jane Hutt: The additional fee support for students ordinarily resident in Wales that the Minister for Education and Skills announced in November 2010 has been subject to detailed and robust costings and is affordable and sustainable.

Simon Thomas: I thank the Minister for that reply. The sustainability is what concerns me. I agree with the principle behind the policy and with the announcement on part-time students that the Minister made yesterday. However, the Minister will know that the whole edifice rests on attracting students from England paying fees of around £9,000. That is the way that the higher education institutions will get their funding. As their fee plans have been sent back for a rethink, there is now some question as to whether the whole system will work properly over the next two or three years. Can she give an undertaking that, whatever happens in terms of attracting new students from England and Welsh students going outside Wales, she will provide the resources to maintain the fees policy?

Jane Hutt: I think that you will join the Welsh Government in welcoming the robust approach that has been taken by the Higher Education Funding Council for Wales, initially rejecting all of the fee plans submitted by the Wales higher and further education institutions. That was a topic that we considered last week. I know that the Minister for Education and Skills asked HEFCW to be thorough and robust in

bwerau ariannu yn y dyfodol a rhaglenni ac amcanion Llywodraeth Cymru yn galonogol iawn. Mae'n eithaf amlwg y bydd Llywodraeth y DU yn ymateb os oes gennym ymateb unedig fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac, yn wir, y craffu a'r herio ohonof fel rhan o hynny, fel mae'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru yn ei ddweud yn eithaf clir heddiw.

The Effect of Tuition Fees

7. Simon Thomas: *What estimate has the Minister made of the effect on the Welsh Government's overall budget if tuition fees are set at an average above £7,000. OAQ(4)0016(FIN)*

Jane Hutt: Mae'r cymorth ychwanegol gyda ffioedd i fyfyrwyr sy'n preswyllo'n arferol yng Nghymru a gyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn Nhachwedd 2010 wedi cael ei brisio'n fanwl a chadarn ac mae'n fforddiadwy a chynaliadwy.

Simon Thomas: Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Y cynaliadwyedd sy'n fy mhoeni. Rwy'n cytuno gyda'r egwyddor y tu ôl i'r polisi a chyda'r cyhoeddiad am fyfyrwyr rhan amser a wnaeth y Gweinidog ddoe. Fodd bynnag, bydd y Gweinidog yn gwybod bod yr holl gysyniad yn dibynnu ar ddenu myfyrwyr o Loegr sy'n talu ffioedd o tua £9,000. Dyna'r ffordd y bydd sefydliadau addysg uwch yn cael eu harian. Gan fod eu cynlluniau ffioedd wedi cael eu hanfon yn ôl i'w hailfeddwl, mae cwestiwn bellach ynghylch a wnaiff y system gyfan weithio'n iawn dros y ddwy neu dair blynedd nesaf. A wnaiff hi ymrwymiad, beth bynnag sy'n digwydd o ran denu myfyrwyr newydd o Loegr a myfyrwyr o Gymru yn mynd y tu allan i Gymru, y bydd yn darparu'r adnoddau i gynnal y polisi ffioedd?

Jane Hutt: Tybiaf y byddwch yn ymuno â Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymagwedd gadarn a gymerwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a wnaeth wrthod bob cynllun ffioedd a gyflwynwyd gan sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach Cymru ar y cychwyn. Roedd hwnnw'n bwnc y gwnaethom ei ystyried yr wythnos diwethaf. Gwn fod y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi gofyn i CCAUC fod

scrutinising the fee plans, particularly with regard to whether they were geared towards widening access for all, which was the key expectation. We await the response with regard to the review of those fee plans. I can give you an assurance that this is a priority for the Welsh Government to deliver. However, we need to ensure that the institutions themselves play their part by delivering appropriate fee plans.

Mark Isherwood: In the second Assembly, top-up fee grants were introduced in Wales, despite your party voting against them. At that stage, you advised that, for legal and financial reasons, funding could be provided only for Welsh students at Welsh universities. In the last Assembly, you voted to scrap a top-up fee grant in Wales. Now we have a tuition fee policy. We understand from BBC Wales earlier this year that student numbers in Wales are already being cut from this summer: there is to be a cut of 15 per cent at Bangor University, 18 per cent at Glyndŵr University and so on. Higher education representatives who have spoken to me tell me that, as a direct consequence of your tuition fee policy, they will have to apply to be able to charge fees of £9,000 when they would have settled for £6,500 or £7,000. That is because so much money is now going across the border to England with Welsh students and because of the 35 per cent cut in the teaching budget. Have you done any calculations, Minister, to estimate what reduction there will be in the number of places available for Welsh students in future as a consequence of this policy?

Jane Hutt: As you were opposed to this pioneering, groundbreaking policy, which is extremely popular and which is the right policy for Wales, I will just say that we are protecting students ordinarily resident in Wales from the impact of higher fees and increased levels of student debt. In addition, public funding for higher education in Wales will remain at higher levels than in England both through the new fee grant made available by the Government and by continuing the current funding through HEFCW.

yn drylwyr a chadarn wrth graffu ar y cynlluniau ffioedd, yn enwedig lle maent wedi eu llunio i ehangu mynediad i bawb, sef y disgwyliad allweddol. Rydym yn aros am yr ateb o ran yr adolygiad o'r cynlluniau ffioedd hynny. Gallaf roi sicrwydd i chi bod hwn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ei gwireddu. Fodd bynnag, mae angen inni sicrhau bod y sefydliadau eu hunain yn chwarae eu rhan drwy gyflawni'r cynlluniau ffioedd addas.

Mark Isherwood: Yn yr ail Gynulliad, cafodd grantiau ffioedd atodol eu cyflwyno yng Nghymru, er bod eich plaid wedi pleidleisio yn eu herbyn. Yr adeg honno, dywedasoch, am resymau cyfreithiol ac ariannol, mai dim ond i fyfyrwyr o Gymru mewn prifysgolion yng Nghymru y gellid darparu arian. Yn y Cynulliad diwethaf, gwnaethoch bleidleisio i gael gwared ar grant ffioedd atodol. Mae gennym yn awr bolisi ffioedd dysgu. Clywsom gan BBC Cymru yn gynharach eleni fod niferoedd myfyrwyr yn cael eu torri o'r haf yma ymlaen: bydd toriad o 15 y cant ym Mhrifysgol Bangor, 18 y cant ym Mhrifysgol Glyndŵr ac yn y blaen. Mae cynrychiolwyr addysg uwch sydd wedi siarad â mi yn dweud wrthyf, o ganlyniad uniongyrchol i'ch polisi ffioedd dysgu, bydd yn rhaid iddynt wneud cais i allu codi ffioedd o £9,000 pan fyddent wedi setlo am £6,500 neu £7,000. Mae hynny oherwydd bod gymaint o arian bellach yn mynd dros y ffin i Loegr gyda myfyrwyr o Gymru ac oherwydd y toriad o 35 y cant yn y gyllideb addysgu. A ydych wedi gwneud unrhyw gyfrifiadau, Weinidog, i amcangyfrif pa ostyngiad fydd yn nifer y lleoedd a fydd ar gael i fyfyrwyr o Gymru yn y dyfodol o ganlyniad i'r polisi hwn?

Jane Hutt: Gan eich bod wedi gwrthwynebu'r polisi arloesol newydd hwn sy'n torri tir newydd, sy'n hynod boblogaidd ac sy'n bolisi cywir i Gymru, y cyfan a ddywedaf yw ein bod yn diogelu myfyrwyr sy'n preswyllo'n arferol yng Nghymru rhag effaith ffioedd uwch a lefelau uwch o ddyled i fyfyrwyr. At hynny, bydd arian cyhoeddus i addysg uwch yng Nghymru yn parhau yn uwch nag y mae yn Lloegr drwy'r grant ffioedd newydd sydd ar gael gan y Llywodraeth a thrwy barhau â'r arian cyfredol trwy'r Cyngor Cyllido Addysg

Uwch yng Nghymru.

Blaenoriaethau

8. Kenneth Skates: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad. OAQ(4)0011(FIN)*

Jane Hutt: We have set out our priorities in both the final budget and in our manifesto. Our focus is on the delivery of high-quality public services with the resources available to us.

Kenneth Skates: Minister, economic recovery is by no means secured, but the Tory-led coalition Government is ploughing ahead with unprecedented cuts in funding that we desperately need in Wales for our public services. In the light of that, do you agree that we need to prioritise efficiency savings more than ever before? Could you provide the latest estimate of the Welsh Government's final income and expenditure figures for 2010-11?

Jane Hutt: I thank the Member for Clwyd South for enabling me to bring very good news on the financial front to the Assembly. In Treasury control terms, the position for 2010-11 currently shows an underspend on near cash of only 0.14 per cent. The position is reflected in the first draft of accounts submitted to the Wales Audit Office. This is our best ever outturn against budget and demonstrates that we have maximised the use of our resources efficiently and effectively.

Mohammad Asghar: It is concerning that the National Audit Office has raised concerns about the Equality and Human Rights Commission's accounts for the third year running. Given that you hold responsibilities linked to finance and equality, I am sure that you will agree that the EHRC, which does some excellent work, has a hugely important role to play as an equality regulator and national human rights institution, but equally it must make every effort to offer best value for money in Wales. The recent consultation document concerning the commission's

Priorities

8. Kenneth Skates: *Will the Minister outline her priorities for the Fourth Assembly. OAQ(4)0011(FIN)*

Jane Hutt: Rydym wedi pennu ein blaenoriaethau yn y gyllideb derfynol ac yn ein maniffesto. Rydym yn canolbwyntio ar gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni.

Kenneth Skates: Weinidog, nid yw adferiad economaidd yn sicr o bell ffordd, ond mae'r Llywodraeth glymblaid a arweinir gan y Torïaid yn bwrw ymlaen gyda thoriadau mewn cyllid—yr ydym dirfawr ei angen yng Nghymru ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus—nas gwelwyd o'r blaen. O ystyried hynny, a ydych yn cytuno bod angen inni flaenoriaethu arbedion effeithlonrwydd yn fwy nag erioed o'r blaen? A allwch roi'r amcangyfrif diweddaraf o incwm a gwariant terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2010-11?

Jane Hutt: Diolchaf i'r Aelod dros Dde Clwyd am fy ngalluogi i gyflwyno newyddion da iawn o ran yr ochr ariannol i'r Cynulliad. Mewn termau rheolaeth Trysorlys, mae'r sefyllfa ar gyfer 2010-11 ar hyn o bryd yn dangos tanwariant lled-ariannol o ddim ond 0.14 y cant. Adlewyrchir y sefyllfa hon yn nrafft cyntaf y cyfrifon a gyflwynwyd i Swyddfa Archwilio Cymru. Hwn yw ein halldro gorau erioed yn erbyn cyllideb ac mae'n dangos ein bod wedi defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.

Mohammad Asghar: Mae'n achosi pryder bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi mynegi pryderon am gyfrifon y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol am y drydedd flwyddyn yn olynol. O ystyried bod gennych gyfrifoldebau am gyllid a chydraddoldeb, rwy'n siŵr y byddech yn cytuno fod gan y comisiwn, sy'n gwneud gwaith rhagorol, rôl allweddol o bwysig fel rheoleiddiwr cydraddoldeb a sefydliad adnoddau dynol cenedlaethol, ond yn yr un modd dylai wneud popeth o fewn ei allu i gynnig y gwerth gorau am arian yng

future highlights the importance of the EHRC retaining a strong presence in Wales and working closely with the Welsh Government, which I very much welcome.

The Presiding Officer: Order. Could you please come to the question?

Mohammad Asghar: I understand that a consultation response from the Welsh Government is to be issued shortly. What discussions have you had with regard to the formulation of that consultation response? What steps are you taking, Minister, to ensure that, in the future, the EHRC manages its finances as effectively as possible?

Jane Hutt: It is a UK body and I am not responsible for its finances, although I am sure that I could manage it more effectively than the UK Government, particularly in relation to the unfortunate cuts that it is making to important services, including equality services, for Wales. We will be responding and I will be sharing that response with Assembly Members in terms of the consultation on the future role and function of the Equality and Human Rights Commission in Wales.

Cyfrifiad 2011

9. Joyce Watson: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu Cyfrifiad 2011. OAQ(4)0007(FIN)*

Jane Hutt: The Office for National Statistics is responsible for the 2011 census and the Welsh Government and local authorities have worked closely with it. The collection phase is now complete, although some questionnaires are still being received. Field staff are still seeking to obtain questionnaires from people who refuse to make a return.

Joyce Watson: I thank you for that answer, Minister. Do we know at this stage whether there have been any reports of a suspected undercount in Wales or any problems with data collection and public compliance with the 2011 census? As you know, Minister, the

Nghymru. Mae'r ddogfen ymgynghori ddiweddar am ddyfodol y comisiwn yn amlygu pa mor bwysig ydyw iddo gynnal presenoldeb cryf yng Nghymru a chydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, sy'n rhywbeth rwyf yn ei groesawu'n fawr.

Y Llywydd: Trefn. A fydddechystal â dod at y cwestiwn?

Mohammad Asghar: Rwy'n deall y bydd ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru cyn bo hir. Pa drafodaethau a gawsoch o ran llunio'r ymateb hwnnw i'r ymgynghoriad? Pa gamau ydych chi'n eu cymryd, Weinidog, i sicrhau bod y comisiwn yn rheoli ei arian mor effeithiol â phosibl yn y dyfodol?

Jane Hutt: Corff y DU ydyw ac nid wyf yn gyfrifol am ei arian, er fy mod yn siŵr y byddwn yn gallu ei reoli'n fwy effeithiol na Llywodraeth y DU, yn enwedig o ran y toriadau anffodus mae'n ei wneud i wasanaethau pwysig, gan gynnwys gwasanaethau cydraddoldeb, i Gymru. Byddwn yn ymateb a byddaf yn rhannu'r ymateb hwnnw i'r ymgynghoriad gydag Aelodau Cynulliad am rôl a swyddogaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru yn y dyfodol.

2011 Census

9. Joyce Watson: *Will the Minister make a statement on the conduct of the 2011 Census. OAQ(4)0007(FIN)*

Jane Hutt: Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol sy'n gyfrifol am gyfrifiad 2011 ac mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi cydweithio'n agos â hi. Mae'r cyfnod casglu wedi dod i ben bellach, er bod ambell i holiadur yn dal i gael eu derbyn. Mae staff maes yn dal i geisio cael holiaduron gan bobl sy'n gwrthod eu cwblhau.

Joyce Watson: Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog. A ydym yn gwybod ar hyn o bryd a fu unrhyw adroddiad o amheuaeth o dangyfrif yng Nghymru a chydymffurfiaeth gyhoeddus gyda chyfrifiad 2011? Fel y gwyddoch, Weinidog, mae

Westminster Government has considered scrapping the census altogether, which is another example of the short-sighted and poorly thought-through spending cuts that it is dogmatically pursuing in Government. Do you agree that, with the swingeing cuts being made to public services, it is more important than ever that Wales receives full funding? Do you also agree that the demographic information collected by the census is vital to ensure the effective planning of services and public spending priorities, especially in light of the estimated £85 million funding gap in Cardiff between 2001 and 2011?

Jane Hutt: It is too early at this stage to respond on any possible undercount or issues relating to compliance in Wales. The ONS is confident about reaching its target of a 94 per cent national response rate. I am glad that the UK coalition Government did one of its early u-turns on the future prospects for this census, which provides vital information in terms of planning and policy delivery and budget arrangements.

Nick Ramsay: Minister, do you agree with Joyce Watson that the census is particularly important and that it provides important information of which Governments can take account? However, the fact that it cost several hundred million pounds was due to the lack of ability of the previous UK Government to bring forward anything that was within budget and efficient. Joyce Watson raised an important point about undercounting and I think that the 2001 census had problems around undercounting. Can you make sure in this census, and any future censuses within Wales, that undercounting is reduced, and that your Government will do what it can to see that that does not happen in an area like Cardiff, for instance, so that the maximum benefit can be gained from any future census, which I am sure will cost a lot less than the last one?

Jane Hutt: I am grateful to the Member for Monmouth for conveying his full support and that of the Welsh Conservatives for the role played by the census. It is my intention to ensure that delivery in terms of the response

Llywodraeth San Steffan wedi ystyried cael gwared ar y cyfrifiad yn gyfan gwbl, sy'n enghraifft arall o'r toriadau gwario cibddall a diffygiol y mae'n ceisio eu cyflwyno mor ddogmataidd mewn Llywodraeth. A ydych yn cytuno, yn sgil y toriadau dwys sy'n cael eu gwneud i wasanaethau cyhoeddus, ei bod yn bwysicach nag erioed fod Cymru yn derbyn arian llawn? A ydych hefyd yn cytuno fod y wybodaeth ddemograffig a gesglir gan y cyfrifiad yn allweddol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cynllunio'n effeithiol, yn enwedig o ystyried y bwlch ariannu tybiedig o £85 miliwn yng Nghaerdydd rhwng 2001 a 2011?

Jane Hutt: Mae'n rhy fuan ar y funud i ymateb i unrhyw dangyfrif posibl neu faterion yn ymwneud â chydymffurfio yng Nghymru. Mae'r swyddfa yn ffyddiog am gyrraedd ei tharged o gyfradd ymateb cenedlaethol o 94 y cant. Rwy'n falch fod Llywodraeth glymblaid y DU wedi gwneud un o'i throeon pedol cynnar ar ddyfodol y cyfrifiad, sy'n darparu gwybodaeth allweddol o ran cynllunio a chyflwyno polisi a threfniadau cyllidebol.

Nick Ramsay: Weinidog, a ydych yn cytuno gyda Joyce Watson fod y cyfrifiad yn arbennig o bwysig a'i fod yn darparu gwybodaeth bwysig y gall Llywodraethau ei ystyried? Fodd bynnag, roedd y ffaith ei fod yn costio sawl miliwn o bunnoedd oherwydd diffyg gallu Llywodraeth flaenorol y DU i gyflwyno unrhyw beth a oedd o fewn cyllideb ac yn effeithlon. Cododd Joyce Watson bwynt pwysig am dangyfrif a chredaf fod cyfrifiad 2001 wedi cael problemau o ran tangyfrif. A allwch chi sicrhau yn y cyfrifiad hwn, ac mewn unrhyw gyfrifiad arall yn y dyfodol yng Nghymru, y bydd tangyfrif yn cael ei leihau, ac y bydd eich Llywodraeth yn gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau nad yw hynny'n digwydd mewn ardal fel Caerdydd, er enghraifft, fel y gellir cael y fantais fwyaf posibl o unrhyw gyfrifiad yn y dyfodol, a fydd, rwy'n siŵr, yn costio llawer llai na'r un diwethaf?

Jane Hutt: Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod dros Fynwy am gyfleu ei gefnogaeth lawn a chefnogaeth y Ceidwadwyr Cymreig ar gyfer y rôl y mae'r cyfrifiad yn ei chwarae. Fy mwriad yw sicrhau bod y gyfradd ymateb

rate is as near to 94 per cent—and up to 100 per cent—as we can make it.

Julie Morgan: Has the Minister received any feedback from the census about the success in reaching hard-to-reach groups such as Gypsies and Travellers? I know that a huge effort was made in the preparation of the census to reach these different groups. As it is so important for the planning of our services, has she received any feedback on that?

Jane Hutt: I thank the Member for Cardiff North for that question. This is an area where undercounting could have emerged if we had not undertaken the measures that we did undertake to work with Gypsy and Traveller liaison officers and community groups in preparation for the census. I hope that this will result in good take-up. I also hope that the figures on the counting and coverage of Gypsies and Travellers by local authorities will be made available to Members.

Bethan Jenkins: A yw'r Gweinidog wedi siarad gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch yr adroddiadau bod cronfa ddata cyfrifiad 2011 y Deyrnas Unedig wedi cael ei dwyn gan hacwyr, a bod y grŵp o hacwyr yn bygwth ei chyhoeddi ar-lein? Fel y gallwch ddeall, mae gwybodaeth hynod sensitif yn rhan o'r cyfrifiad ac mae'n bwysig bod pobl Cymru yn deall bod eu gwybodaeth bersonol yn ddiogel.

Jane Hutt: I was concerned to read these press reports and I have been assured that the 2011 census team places the highest priority on maintaining the security of personal data. There is no evidence to suggest that any compromise has occurred. However, the Office for National Statistics' security advisers and contractors are monitoring and safeguarding the security of the census data.

Cydraddoldeb Crefyddol

10. William Graham: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisiau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb crefyddol yng Nghymru. OAQ(4)0010(FIN)*

Jane Hutt: 'Getting On Together—a

mor agos at 95 y cant—a hyd at 100 y cant—ag y gall fod.

Julie Morgan: A gafodd y Gweinidog unrhyw adborth o'r cyfrifiad am y llwyddiant o ran cyrraedd grwpiau anodd i'w cyrraedd fel Sipsiwn a Theithwyr? Gwn fod cryn ymdrech wedi ei wneud i baratoi'r cyfrifiad i gyrraedd y grwpiau gwahanol hyn. Gan ei fod mor bwysig ar gyfer cynllunio ein gwasanaethau, a yw wedi derbyn unrhyw adborth am hynny?

Jane Hutt: Diolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd am y cwestiwn hwnnw. Dyma faes lle gallai tangyfrif wedi ymddangos pe na fyddem wedi cymryd y camau a wnaethom i weithio gyda swyddogion cysylltu Sipsiwn a Theithwyr a grwpiau cymunedol i baratoi ar gyfer y cyfrifiad. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn arwain at nifer dda yn cymryd rhan. Rwy'n gobeithio hefyd y bydd y ffigurau ar gyfrif a'r sylw a roddir i Sipsiwn a Theithwyr gan awdurdodau lleol yn cael eu rhyddhau i Aelodau.

Bethan Jenkins: Has the Minister had any discussions with the UK Government on the reports that the database of the 2011 UK census has been stolen by hackers, and that that group of hackers is threatening to publish it online? As you can understand, highly sensitive information is included in the census and it is important that the people of Wales understand that their personal information is safe.

Jane Hutt: Roeddwn yn bryderus i ddarllen yr adroddiadau hyn yn y wasg ac rwyf wedi cael sicrwydd fod tîm cyfrifiad 2011 yn rhoi'r flaenoriaeth uchaf i gynnal diogelwch data personol. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bu unrhyw berygl i hynny. Fodd bynnag, mae ymgynghorwyr a chontractwyr diogelwch y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn monitro ac yn diogelu data y cyfrifiad.

Religious Equality

10. William Graham: *Will the Minister outline the Welsh Government's policies to promote religious equality within Wales. OAQ(4)0010(FIN)*

Jane Hutt: Mae 'Cymru'n Cyd-dynnu—

Community Cohesion Strategy for Wales' sets out how the Welsh Government works with partners, including faith organisations, to reduce community tensions, promote equality and encourage greater understanding. Constructive engagement with representatives of different faiths takes place through the faith communities forum.

William Graham: You will know that a number of councils have removed discretionary funding for transport for pupils to faith schools in Wales on the grounds that free transport should be provided only to the nearest available school. The removal of such free transport makes life more difficult for families, particularly those attending the faith school of their choice. How is the Assembly Government working with schools, local authorities, parents and other groups to minimise the effects of removing free transport?

Jane Hutt: This is a matter for local authorities and it is their decisions that have led to this shortfall in terms of transport provision. I am sure that it is an issue that you will want to draw to the attention of not only the Minister for Local Government and Communities, but also the Minister for Education and Skills, if there are shortcomings in local authority areas.

Adolygiad Cyllideb

11. William Powell: *A yw'r Gweinidog yn bwriadu cynnal adolygiad cyllideb ar ôl yr etholiad ac ar ôl sefydlu'r Pedwerydd Cynulliad. OAQ(4)0005(FIN)*

Jane Hutt: The final budget approved by the Assembly in February set out indicative spending plans for 2012-13 and 2013-14. We are currently in the process of reviewing our plans in the light of our programme for government and we will publish our spending plans in the autumn.

William Powell: Thank you for that response, Minister. As I am sure that you will appreciate, spending the money that we have at our disposal is more imperative than ever in these more difficult financial times and in the context of deficit reduction. What steps

Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru' yn amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â phartneriaid, gan gynnwys sefydliadau ffydd, i leihau tensiynau yn y gymuned, hybu cydraddoldeb ac annog mwy o ddealltwriaeth. Mae ymwneud adeiladol â chynrychiolwyr y crefyddau gwahanol yn digwydd drwy'r fforwm cymunedau ffydd.

William Graham: Gwyddoch fod nifer o gynghorau wedi tynnu arian yn ôl disgrisiwn ar gyfer cludiant i ddisgyblion i ysgolion ffydd ar sail y dylai cludiant am ddim fod ar gael yn unig i'r ysgol agosaf sydd ar gael. Mae diddymu cludiant am ddim o'r fath yn gwneud bywyd yn anoddach i deuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n mynychu ysgolion ffydd o'u dewis. Sut mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio gydag ysgolion, awdurdodau lleol, rhieni a grwpiau eraill i leihau effeithiau diddymu cludiant am ddim?

Jane Hutt: Mater i awdurdodau lleol yw hwn a'u penderfyniadau hwy sydd wedi arwain at y diffyg hwn o ran darparu cludiant. Rwy'n siŵr ei fod yn fater y byddwch am dynnu sylw nid yn unig y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ato, ond hefyd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, os oes prinder darpariaeth mewn ardaloedd awdurdod lleol.

Budget Review

11. William Powell: *Does the Minister plan a budget review following the election and establishment of the Fourth Assembly. OAQ(4)0005(FIN)*

Jane Hutt: Roedd y gyllideb derfynol a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Chwefror yn amlinellu'r cynlluniau gwario dangosol ar gyfer 2012-13 a 2013-14. Rydym ar hyn o bryd yn y broses o adolygu ein cynlluniau yng ngoleuni ein rhaglen lywodraethu a byddwn yn cyhoeddi ein cynlluniau gwario yn yr hydref.

William Powell: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fel rwy'n siŵr y byddwch yn gwybod, mae gwario'r arian sydd gennym i'w ddefnyddio yn bwysicach nag erioed yn yr amseroedd ariannol anoddach hyn ac yng nghyd-destun lleihau'r diffyg. Pa gamau

do you plan to take to ensure that money is being spent effectively during the fourth Assembly? Are you planning any specific initiatives to improve efficiency and to bear down on bureaucracy when it comes to ensuring value for the Welsh pound?

Jane Hutt: That is an important question from the Member for Mid and West Wales. I will make two points in response. The first concerns the statement that the Minister for Local Government and Communities made to the Chamber yesterday on public services, which was all about driving forward efficiency and effectiveness. I also hope that the Member will have seen the written statement that I published yesterday about the pioneering invest-to-save programme, which resulted in an announcement of £6 million to enable local authorities, the health service and fire and rescue services to work together to deliver a more efficient and effective service and to recycle that funding back for further bids and grants.

2.15 p.m.

Darren Millar: With the NHS in Wales showing signs of creaking at the seams, with increasing waiting lists, missed targets, the outcomes for stroke patients being among the worst in the UK and, only last week, the revelation that many of our hospitals are overcrowded, is it not about time that you reviewed the budget allocation to the NHS to reverse your party's proposed £1 billion cuts over the next three years?

Jane Hutt: It would have been good if you had stood up to say how pleased you were to hear about the £65 million that I was able to allocate to the orthopaedic service over the next three years as a result of pressures on that service. The health and social services budget is the single largest budget and, under our published plans, we will continue to invest more than 40 per cent of our budget in health and social services.

ydych chi'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod arian yn cael ei wario'n effeithiol yn ystod y pedwerydd Cynulliad? A ydych yn bwriadu cyflwyno unrhyw gynlluniau penodol i wella effeithlonrwydd a lleihau biwrocratiaeth pan ddaw yn fater o sicrhau gwerth am y bunt Gymreig?

Jane Hutt: Dyna gwestiwn pwysig gan yr Aelod ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru. Atebaf gyda dau bwynt. Mae'r cyntaf yn ymwneud â datganiad a wnaeth y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ddoe am wasanaethau cyhoeddus, a oedd yn ymwneud â hyrwyddo effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Gobeithio hefyd y bydd yr Aelod wedi gweld y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddais ddoe am y rhaglen buddsoddi i arbed, a arweiniodd at gyhoeddi £6 miliwn i alluogi awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau tân ac achub i gydweithio er mwyn darparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol ac er mwyn ailgylchu'r arian hwnnw ar gyfer bidiau a grantiau pellach.

Darren Millar: Gyda'r GIG yng Nghymru yn dangos arwyddion ei fod yn cael ei ymestyn i'r eithaf, gyda rhestrau aros cynyddol, targedau yn cael eu methu, y canlyniadau ar gyfer cleifion strôc ymysg y gwaethaf yn y DU a datgeliad, dim ond yr wythnos diwethaf, bod llawer o'n hysbytai yn rhy llawn, onid yw'n amser i chi adolygu'r gyllideb a roddir i'r GIG er mwyn gwyrddroi toriadau £1 biliwn arfaethedig eich plaid dros y tair blynedd nesaf?

Jane Hutt: Byddai wedi bod yn dda o beth pe baech wedi sefyll i fyny i ddweud pa mor falch oeddech o glywed am y £65 miliwn y llwyddais i'w ddyrannu i'r gwasanaeth orthopedig dros y tair blynedd nesaf oherwydd y pwysau ar y gwasanaeth hwnnw. Y gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yw'r gyllideb unigol fwyaf, ac o dan y cynlluniau a gyhoeddwyd gennym, byddwn yn parhau i fuddsoddi mwy na 40 y cant o'n cyllideb mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Blaenoriaethau

Priorities

12. Lynne Neagle: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad. OAQ(4)0001(FIN)*

Jane Hutt: Our priority continues to be to deliver the services that people across Wales need. Our spending plans reflect the priority that we give to front-line services—services that all of us depend on at some point in our life.

Lynne Neagle: You referred earlier in answer to Mohammad Asghar to the cuts that the Equality and Human Rights Commission is facing. This is clearly a worrying time for the staff employed by the commission in Wales, and we should not lose sight of the important work that they do. Whether it is the research that they have conducted into discrimination against people with mental health problems or the advice line that helps thousands of people every year in Wales, they provide a valuable service. I ask for your assurances that you will do what you can, as the Minister responsible for equality issues, to ensure that we maintain that important focus in Wales.

Jane Hutt: I am grateful to the Member for Torfaen for bringing that again to my attention. We are responding in full to the consultation on the future of the Equality and Human Rights Commission. Not only research and the advice line, but mediation services are also at risk. On research, those of you who attended the Mencap breakfast this morning about disability hate crime will recognise that important research has been undertaken by the commission with Cardiff University into that very issue. Those are the kinds of collaborations that are at risk.

Janet Finch-Saunders: Can the Minister detail what action is being taken to safeguard the funding of our social services in Wales during the fourth Assembly? If we compare the expenditure outlined in the draft budget with the expenditure outlined in the final budget produced in 2011, we see that the social services budget has been cut by £8.1

12. Lynne Neagle: *Will the Minister outline her priorities for the Fourth Assembly. OAQ(4)0001(FIN)*

Jane Hutt: Ein blaenoriaeth o hyd yw darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl ledled Cymru. Mae ein cynlluniau gwario yn adlewyrchu'r flaenoriaeth a roddwn i wasanaethau rheng flaen—gwasanaethau rydym i gyd yn dibynnu arnynt ar ryw adeg neu'i gilydd yn ein bywyd.

Lynne Neagle: Gwnaethoch gyfeirio yn gynharach mewn ateb i Mohammad Asghar at y toriadau y mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn eu hwynebu. Mae hwn yn amlwg yn amser pryderus i'r staff sy'n cael eu cyflogi gan y comisiwn yng Nghymru, ac ni ddylem anghofio am y gwaith pwysig y maent yn ei wneud. Pa un a yw'n ymchwil y maent wedi ei wneud o ran y gwahaniaethu a geir yn erbyn pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl neu'r llinell gyngor sy'n helpu miloedd o bobl bob blwyddyn yng Nghymru, maent yn darparu gwasanaeth gwerthfawr. Gofynnaf am eich sicrwydd y byddwch yn gwneud popeth o fewn eich gallu, fel y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am faterion cydraddoldeb, i sicrhau ein bod yn cynnal y ffocws pwysig hwnnw yng Nghymru.

Jane Hutt: Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod dros Dorfaen am ddod â hynny i'm sylw eto. Rydym yn ymateb yn llawn i'r ymgynghoriad ar ddyfodol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'r ymchwil a'r llinell gymorth mewn perygl, a hefyd y gwasanaethau cyfryngu. O ran yr ymchwil, bydd y rhai ohonoch a oedd yn y brechwast Mencap y bore yma am droseddau casineb anabledd yn cydnabod y gwaith ymchwil pwysig a wnaethpwyd gan y comisiwn gyda Phrifysgol Caerdydd ar yr union bwnc hwnnw. Dyna yw'r math o gydweithio sydd mewn perygl.

Janet Finch-Saunders: A all y Gweinidog roi manylion am y camau sy'n cael eu cymryd i ddiogelu'r arian a roddir i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn ystod y pedwerydd Cynulliad? Os cymharwn y gwariant a amlinellwyd yn y gyllideb ddrafft gyda'r gwariant a amlinellwyd yn y gyllideb derfynol a gynhyrwyd yn 2011,

million per year for 2011-12, 2012-13 and 2013-14. The report 'Fulfilled Lives: Supportive Communities' aimed at improving social services in Wales to 2018 was branded as the Welsh Government's 10-year strategy to improve social services. This highlighted key changes that needed to be made in the delivery of social services in Wales. These included—

gwelwn fod y gyllideb i wasanaethau cymdeithasol wedi ei thorri £8.1 miliwn y flwyddyn ar gyfer 2011-12, 2012-13 a 2013-14. Cafodd yr adroddiad 'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol' a fwriadwyd ar gyfer gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru hyd at 2018 ei frandio fel strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru i wella gwasanaethau cymdeithasol. Roedd hyn yn tynnu sylw at newidiadau allweddol roedd angen eu gwneud yn y modd roedd gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu cyflwyno. Roedd y rhain yn cynnwys—

The Presiding Officer: Order. Can you come to the question, please?

Y Llywydd: Trefn. A fydddech cystal â dod at y cwestiwn, os gwelwch yn dda?

Janet Finch-Saunders: These included a proposal that individuals must be given the opportunity and financial assistance to design their support and care. From where will this financial assistance come if the social services budget is being cut?

Janet Finch-Saunders: Roedd y rhain yn cynnwys cynnig y dylai unigolion gael y cyfle a'r cymorth ariannol i ddylunio eu cymorth a'u gofal. O ble y daw'r cymorth ariannol hwn os yw'r gyllideb gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei thorri?

Jane Hutt: That is the sort of question that we have been asking the Welsh Conservatives: what would they have done had they gone ahead with their proposed cuts to local government because of their plans for the NHS? Only yesterday, the Deputy Minister for Children and Social Services spoke to the Association of Directors for Social Services Cymru and got a warm welcome and recognition that we have sought to protect social services and have increased its budget, which will have a beneficial effect, not just on vulnerable people but in preventing pressures on the health service through delayed transfers of care.

Jane Hutt: Dyna'r math o gwestiwn y buom yn ei ofyn i Geidwadwyr Cymru: beth fyddent wedi ei wneud pe baent wedi bwrw ymlaen gyda'u toriadau arfaethedig i lywodraeth leol oherwydd eu cynlluniau ar gyfer y GIG? Dim ond ddoe bu'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol yn siarad â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a chafodd groeso cynnes a chydabyddiaeth ein bod wedi ceisio diogelu gwasanaethau cymdeithasol a chynyddu ei chyllideb, a fydd yn cael effaith fuddiol, nid yn unig ar bobl ddiamddiffyn ond hefyd o ran osgoi rhoi pwysau ar y gwasanaeth iechyd drwy oedi wrth drosglwyddo gofal.

Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science

Economi Cymru

Welsh Economy

1. Mark Isherwood: *Pa asesiad sydd wedi'i wneud gan y Gweinidog o ba mor gystadleuol yw economi Cymru. OAQ(4)0012(BET)*

1. Mark Isherwood: *What assessment has the Minister made of the competitiveness of the Welsh economy. OAQ(4)0012(BET)*

The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):

Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart): Rydym yn

We regularly assess all aspects of competitiveness, including employment, entrepreneurship and innovation.

Mark Isherwood: Thank you for that response, Minister. You will be aware that, earlier this month, a report from the Centre for Policy Studies said that the UK had fallen down the league tables for international competitiveness since 1997. At the end of April, the BBC reported that Wales was 'bottom of the UK heap', and not doing as well as the other nations. Earlier this month, when the former chair of the Welsh development agency said that inward investment had not produced the returns that were hoped for, I was concerned to read a response from a Welsh Government spokesperson saying that the Government did not accept those comments. What actions are you taking to engage with the business sector in Wales, listening to the sector so that policies can be developed with it in order to restore competitiveness to the Welsh economy?

Edwina Hart: The competitiveness of the labour market, along with income levels, is what matters most to people in Wales, and this has improved substantially over the last decade or so, despite the interruption of the recent recession. There were 1.3 million people in employment in Wales in the three months ending March 2011—there has been an increase of 43,000 people. Since devolution, employment in Wales has increased by 11.1 per cent compared with 7.8 per cent across the UK as a whole. With regard to business, if the Member speaks to anyone in business or industry he will find that this Government continues to engage, just like the previous Government, at all levels.

Kenneth Skates: During the election campaign, small rural companies regularly raised with me the issue of accessing credit. Given that small and medium-sized enterprises in rural areas such as Clwyd South are absolutely crucial in increasing employment opportunities, better enablement of credit is vital. Would you commit to working with your Cabinet colleagues to examine the sort of capital support that is available to rural enterprises, to ensure that

asesu yn rheolaidd bob agwedd ar ba mor gystadleuol yr ydym, gan gynnwys cyflogaeth, mentergarwch ac arloesedd.

Mark Isherwood: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn gwybod fod adroddiad a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn gan y Ganolfan Astudiaethau Polisi yn dweud fod y DU wedi llithro i lawr y tabl cynghrair ar gyfer cystadleugarwch er 1997. Ddiwedd mis Ebrill, dywedodd y BBC fod Cymru ar y gwaelod a ddim yn gwneud cystal â chenhedloedd eraill. Yn gynharach y mis hwn, pan ddywedodd cyn-gadeirydd asiantaeth datblygu Cymru nad oedd mewnfuddsoddi wedi cynhyrchu'r elw y gobeithiwyd amdano, roeddwn yn bryderus i ddarllen ymateb gan lefarydd ar ran Llywodraeth Cymru yn dweud nad oedd y Llywodraeth yn derbyn y sylwadau hynny. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i ymwneud â'r sector busnes yng Nghymru, gan wrando ar y sector fel y gellir datblygu polisiau gydag ef er mwyn gwneud economi Cymru yn gystadleuol unwaith eto?

Edwina Hart: Pa mor gystadleuol yw'r farchnad waith, ynghyd â lefelau incwm, yw'r hyn sydd bwysicaf i bobl yng Nghymru, ac mae hyn wedi gwella'n sylweddol dros y ddegawd ddiwethaf, er gwaethaf y tarfu a achoswyd gan y dirwasgiad diweddar. Roedd 1.3 miliwn o bobl mewn gwaith yng Nghymru yn y tri mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2011—cynnydd o 43,000 o bobl. Ers datganoli, mae cyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu 11.1 y cant o gymharu â 7.8 y cant ar draws y DU gyfan. O ran busnes, pe bai'r Aelod yn sgwrsio ag unrhyw un mewn busnes neu ddiwydiant bydd yn canfod fod y Llywodraeth hon yn dal ati i ymwneud â hwy, yn union fel ag y gwnaeth y Llywodraeth flaenorol, ar bob lefel.

Kenneth Skates: Yn ystod ymgyrch yr etholiad, soniodd nifer o gwmnïau gwledig bach wrthyf am y broblem o gael gafael ar gredyd. O gofio bod mentrau bach a chanolig eu maint mewn ardaloedd gwledig fel De Clwyd yn hollol allweddol o ran cynyddu cyfleoedd cyflogaeth, mae hwyluso'r ffordd o gael gafael ar gredyd yn bwysig iawn. A wnewch chi ymrwymo i gydweithio â'ch cydweithwyr yn y Cabinet i weld pa fath o gymorth cyfalaf sydd ar gael i fentrau

we do all we can to help small businesses grow and expand?

Edwina Hart: I will obviously commit to do what work is required to ensure that SMEs thrive, whether they are in a rural or urban community. That has always been the policy for this and previous Governments. There is a wide range of information for SMEs to access across the services that we currently provide, through the channels that we have. We have SME workshops explaining how to access information, and how to facilitate proposals, and we will continue with this good work. I think that SMEs recognise that we have been at the forefront of encouraging them into further investment.

Alun Ffred Jones: Mae sgiliau sylfaenol pobl ifanc yn un o'r elfennau pwysicaf i greu economi gystadleuol iach. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y mater hwn, sef sgiliau sylfaenol plant sy'n gadael yr ysgol?

Edwina Hart: There are always extensive discussions in Government about the exceptionally important issue that you raise. It is one of the issues that industry has been discussing with me in recent weeks: numeracy and literacy, and not just further enhanced skills. I continue to have those discussions. Also, the Deputy Minister for Skills, Jeff Cuthbert, will be liaising closely with my new sectors about the needs and requirements of industry; that will happen across the piece in the next few weeks.

Alun Ffred Jones: I ategu'r sylwadau hynny, nododd gŵr busnes o Glwyd yn ystod ymgyrch yr etholiad pa mor siomedig yr oedd gydag ansawdd sgiliau rhai o'r bobl ifanc a oedd yn mynd ato i chwilio am waith. Yn y cyd-destun hwnnw, a fydddech yn ymuno â mi i longyfarch Cyngor Gwynedd, sydd wedi sefydlu cronfa o £3 miliwn er mwyn galluogi busnesau lleol i fenthyca arian ar gyfer cynlluniau datblygu? Dyna'r math o gynllun arloesol y bydddech, yr wyf yn siŵr, yn hapus i'w gymeradwyo.

gwledig, er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu busnesau bach i dyfu ac ehangu?

Edwina Hart: Yn amlwg, byddaf yn ymrwymo i wneud pa bynnag waith sydd ei angen i sicrhau bod busnesau bach a chanolig yn ffynnu, pa un a ydynt mewn cymuned wledig neu drefol. Dyna fu'r polisi ar gyfer y Llywodraeth hon a'r rhai blaenorol. Mae gwybodaeth helaeth i fusnesau bach a chanolig gael gafael arni am y gwasanaethau rydym yn eu darparu ar y funud, drwy'r sianelau sydd gennym. Mae gennym y gweithdai i fusnesau bach a chanolig, sy'n egluro sut i gael gafael ar wybodaeth, a sut i hwyluso cynigion, a byddwn yn dal ati gyda'r gwaith da hwn. Rwy'n meddwl fod busnesau bach a chanolig yn cydnabod y buom wrthi'n ddygn yn eu hannog i fuddsoddi ymhellach.

Alun Ffred Jones: Young people's basic skills are one of the most important elements in creating a healthy, competitive economy. What discussions have you had with the Minister for Education and Skills on this matter of basic skills for children leaving school?

Edwina Hart: Mae trafodaethau helaeth yn y Llywodraeth bob amser am y mater hynod o bwysig rydych yn ei godi. Mae'n un o'r materion y bu'r diwydiant yn ei drafod gyda mi yn yr wythnosau diwethaf: rhifedd a llythrennedd, ac nid dim ond sgiliau sydd wedi eu hestyn ymhellach. Rwyf yn parhau i gael y trafodaethau hynny. Bydd y Dirprwy Weinidog Sgiliau, Jeff Cuthbert, hefyd yn cydweithio'n agos gyda fy sectorau newydd ar anghenion a gofynion y diwydiant; bydd hynny'n digwydd yn gyffredinol dros yr wythnosau nesaf.

Alun Ffred Jones: To endorse previous comments, a businessman from Clwyd noted during the election campaign how disappointed he was with the quality of the skills of some of the young people who went to him for employment. In that context, would you join me in congratulating Gwynedd Council, which has established a fund of £3 million to enable local businesses to borrow money for development plans? This is the kind of innovative scheme that I am sure you would be very happy to

commend.

Edwina Hart: I thank the Member for drawing this scheme to the attention of the Chamber. All innovation is to be welcomed. The involvement of local authorities in this issue is key, because it is only through partnership between local and central Government, higher and further education institutions, and business and trade unions in Wales that Team Wales will succeed, and ensure better job prospects for our citizens.

Andrew R.T. Davies: Engagement with people is a vital plank for encouraging inward investment and competitiveness within the Welsh economy. Do you think that your letter to the Welsh Affairs Committee was therefore an appropriate answer to a committee from another place that was looking to help you with your ministerial responsibilities to attract more business into Wales? Could you explain why you feel unable to meet with that committee?

Edwina Hart: I am required to look very carefully at all invitations that I receive in respect of my portfolio. The Welsh Affairs Committee has also written to me about issues around broadband, and I am happily sending it written evidence on that, because it is a matter that needs to be dealt with jointly across the UK. However, the economy is my responsibility in Wales, and I think that I am capable of doing my job.

Andrew R.T. Davies: Thank you for that answer, Minister. I know that you are new to your brief—I congratulate you on your appointment—but there is a need for engagement and understanding. Various reports have recently highlighted how previous Welsh Assembly Governments invested in the Welsh economy and that we spend more, proportionately, on the economy—it is currently £107 per person—than our closest competitor region of north-east England, which spends £97 per person. We are regrettably falling down the competitive and economic activity stakes. What is your take on previous programmes to try to get economic growth in Wales and on the success of those programmes in relation

Edwina Hart: Diolch i'r Aelod am dynnu sylw'r Siambr at y cynllun hwn. Mae pob arloesedd i'w groesawu. Mae'r ffaith fod awdurdodau lleol yn ymwneud â'r mater hwn yn allweddol, oherwydd dim ond drwy bartneriaeth rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth ganolog, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, a busnes ac undebau llafur yng Nghymru y bydd Tîm Cymru yn llwyddo, ac yn sicrhau gwell cyfleoedd am swyddi i'n dinasyddion.

Andrew R.T. Davies: Mae ymwneud â phobl yn fodd allweddol i annog mewnfuddsoddi a chystadleuaeth yn economi Cymru. Felly, a ydych yn meddwl bod eich llythyr i'r Pwyllgor Materion Cymreig yn ateb priodol i bwyllgor o le arall a oedd yn ceisio eich helpu gyda'ch cyfrifoldebau gweinigogol i ddenu mwy o fusnes i Gymru? A allwch egluro pam nad oeddech yn teimlo eich bod yn gallu cwrdd â'r pwyllgor hwnnw?

Edwina Hart: Mae gofyn imi edrych yn ofalus iawn ar bob gwahoddiad rwyf yn ei dderbyn sy'n ymwneud â fy mhortffolio. Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi ysgrifennu ataf hefyd am faterion band eang, ac rwy'n fodlon anfon tystiolaeth ysgrifenedig iddo ar hynny, gan ei fod yn fater sydd angen delio ag ef ar y cyd ar draws y DU. Fodd bynnag, yr economi yw fy nghyfrifoldeb i yng Nghymru, ac rwy'n credu fy mod yn ddigon tebol i wneud fy swydd.

Andrew R.T. Davies: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwy'n gwybod eich bod yn newydd i'ch briff—llongyfarchiadau ar eich penodiad—ond mae angen ymgysylltiad a dealltwriaeth. Mae amryw o adroddiadau wedi tynnu sylw'n ddiweddar at sut y gwnaeth Llywodraethau blaenorol Cynulliad Cymru fuddsoddi yn economi Cymru, a'n bod ni'n gwario, yn gymesur, mwy ar yr economi—£107 y pen ydyw ar hyn o bryd—na'n cystadleuydd rhanbarthol agosaf, gogledd-ddwyrain Lloegr, sy'n gwario £97 y pen. Mae'n resynus ein bod yn llithro y tu ôl o ran bod yn gystadleuol ac o ran gweithgarwch economaidd. Beth yw eich barn ar y rhaglenni blaenorol i geisio cael twf economaidd yng Nghymru ac am lwyddiant y

to the money spent? Are you prepared to make the changes that will start moving Wales's economy forward?

Edwina Hart: I have taken the opportunity in the last few weeks to meet many businesspeople and I will continue to have informal discussions over the summer with the Confederation of British Industry, the Federation of Small Businesses and the Institute of Directors to talk about some of the issues that you have raised with me. At that time, if I need to look at any aspect of policy changes, I will do so.

Hyrwyddo Mentergarwch

2. Antoinette Sandbach: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer hyrwyddo mentergarwch yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0002(BET)*

Edwina Hart: My priorities are the same for the whole of Wales, as set out in the manifesto.

Antoinette Sandbach: I am sure that you are familiar with the scale of the challenges facing you in your new portfolio and I heard what you said about your competence to deal with that portfolio. However, there are some people in the health service in north Wales who would be concerned that you might leave the economy in the same state that you have left health services in north Wales.

The Welsh private sector has shrunk in proportion to the public sector over every Assembly term since 1999. Given that small businesses provide the majority of new jobs, can you confirm what steps you will be taking to improve the environment for all business sectors in Wales, as the many small businesses outside the six key sectors, such as retail or construction, may wonder whether the Welsh Government is committed to their future, which may discourage them from expanding their workforces?

Edwina Hart: I will try to give you a courteous answer to your discourteous

rhaglenni hynny mewn perthynas â'r arian a wariwyd? A ydych yn barod i wneud y newidiadau a fydd yn golygu bod economi Cymru yn dechrau symud yn ei flaen?

Edwina Hart: Rwyf wedi manteisio ar y cyfle yn ystod yr wythnosau diwethaf i gwrdd â llawer o bobl fusnes, a byddaf yn parhau i gael trafodaethau anffurfiol yn ystod yr haf gyda Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain, Ffederasiwn y Busnesau Bach a Sefydliad y Cyfarwyddwyr i siarad am rai o'r materion yr ydych wedi'u codi gyda mi. Bryd hynny, os bydd angen imi edrych ar unrhyw agwedd ar newid polisi, byddaf yn gwneud hynny.

Promoting Enterprise

2. Antoinette Sandbach: *Will the Minister outline her priorities for promoting enterprise in North Wales. OAQ(4)0002(BET)*

Edwina Hart: Mae fy mlaenoriaethau yr un fath i Gymru gyfan, fel y nodir yn y maniffesto.

Antoinette Sandbach: Rwyf yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â maint yr heriau sy'n eich wynebu yn eich portffolio newydd a chlywais beth y gwnaethoch ei ddweud am ba mor debol yr ydych i ddelio â'r portffolio hwnnw. Fodd bynnag, byddai rhai pobl yn y gwasanaeth iechyd yn y gogledd yn bryderus y byddech yn gadael yr economi yn yr un cyflwr ag y gadawsoch wasanaethau iechyd yn y gogledd.

Mae'r sector preifat yng Nghymru wedi gostwng yn gymesur â'r sector cyhoeddus dros bob tymor y Cynulliad er 1999. O gofio bod busnesau bach yn darparu'r rhan fwyaf o swyddi newydd, a allwch gadarnhau pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella'r amgylchedd ar gyfer pob sector busnes yng Nghymru, oherwydd gallai llawer o fusnesau bach y tu allan i'r chwe sector allweddol, megis manwerthu neu adeiladu, dybio a yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w dyfodol, a allai eu rhwystro rhag ehangu eu gweithluoedd?

Edwina Hart: Ceisiaf roi ateb cwrtais i'ch cwestiwn anghwrtais chi. Rwyf am

question. I will concentrate on what I can do to assist businesses. Some of the key issues raised with me by businesses are issues that must be dealt with jointly across Government. Indeed, my colleague John Griffiths has already started on issues regarding the planning process, which industry is concerned about, and my colleague Carl Sargeant and I have had discussions about transport priorities and the need to ensure that we have the correct transport infrastructure. Therefore, work is proceeding and I am confident that we have the support of business in what we are trying to achieve, which is to ensure that there are greater employment opportunities in the private sector in Wales. However, one must not malign the public sector either. The sector and its workers, such as doctors, nurses and those who clean our roads, make a valuable contribution to society in Wales.

Ieuan Wyn Jones: Diolch i'r Gweinidog am ei hateb cychwynnol i'r Aelod blaenorol, sef ei bod yn mynd i hybu mentergarwch ar draws Cymru. Un o'r ffyrdd yr ydym wedi bod yn gwneud hynny yw drwy gytuno bod angen sicrhau cyswllt band eang cyflym a band eang y genhedlaeth nesaf i fusnesau yng Nghymru. Yr wyf yn falch o ddeall bod y Llywodraeth bresennol wedi ymrwymo i sicrhau bod hynny yn digwydd. A yw'r Gweinidog mewn sefyllfa i'n diweddarau ynglŷn â chytundeb a fydd yn cael ei greu i sicrhau bod hynny'n digwydd yn ystod tymor presennol y Cynulliad?

Edwina Hart: Unfortunately, I am not in a position to update you at present. However, I will be following on from the work undertaken by the previous Government in ensuring that we can meet our commitments on broadband. Good broadband access is one of the key areas that business has spoken to me about, and it is also an important issue for ordinary citizens. I would be delighted to give a written statement before the recess, if I am in a position to do so, or, if not, when we return in the autumn.

Sector Cymunedol

ganolbwyntio ar yr hyn y gallaf ei wneud i gynorthwyo busnesau. Mae rhai o'r materion allweddol a godwyd gyda mi gan fusnesau yn faterion y mae'n rhaid ymdrin â hwy ar y cyd ar draws y Llywodraeth. Yn wir, mae fy nghyd-Aelod John Griffiths eisoes wedi dechrau ar y materion ynghylch y broses gynllunio y mae'r diwydiant yn pryderu amdanynt, ac mae fy nghyd-Aelod Carl Sargeant a minnau wedi cael trafodaethau am flaenoriaethau trafnidiaeth a'r angen i sicrhau bod gennym yr isadeiledd trafnidiaeth cywir. Felly, mae gwaith yn mynd rhagddo ac yr wyf yn hyderus bod gennym gefnogaeth busnes yn yr hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni, sef sicrhau bod mwy o gyfleoedd cyflogaeth yn y sector preifat yng Nghymru. Fodd bynnag, ni ddylem fod yn llawdrwm ar y sector cyhoeddus chwaith. Mae'r sector a'i weithwyr, megis meddygon, nyrsys a'r rhai sy'n glanhau ein ffyrdd, yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i gymdeithas yng Nghymru.

Ieuan Wyn Jones: I thank the Minister for her initial response to the previous Member, namely that she was going to encourage enterprise the length and breadth of Wales. One way in which we have done that is to agree that we need to ensure fast broadband connection and next-generation broadband for businesses in Wales. I am pleased to understand that the current Government is committed to ensuring that that happens. Is the Minister in a position to give us an update on any possible contract that will be put in place to ensure that that happens during this Assembly term?

Edwina Hart: Yn anffodus, nid wyf mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddaf yn dilyn y gwaith a wnaed gan y Llywodraeth flaenorol i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein hymrwymiaidau o ran band eang. Mae mynediad da i fand eang yn un o'r meysydd allweddol y mae busnes wedi sôn wrthyf amdano, ac mae hefyd yn fater pwysig i ddinasyddion cyffredin. Byddwn wrth fy modd yn rhoi datganiad ysgrifenedig cyn y toriad, os wyf mewn sefyllfa i wneud hynny, neu, os na fyddaf, pan ddychwelwn yn yr hydref.

Community Sector

3. Suzy Davies : *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei chynlluniau er mwyn sicrhau bod gan y sector cymunedol fwy o ran yn adferiad economaidd Cymru. OAQ(4)0019(BET)*

Edwina Hart: Social enterprises, co-operatives and mutuals have a key role to play in the economy; I have always thought that, even when it was not fashionable to do so. I will be working with the sector to ensure that they have access to appropriate and robust business advice that benefits their growth and sustainability.

2.30 p.m.

Suzy Davies: Thank you, Minister; that is a very encouraging answer. Members may remember me referring to the Creation Development Trust during questions to the First Minister yesterday. The Creation Development Trust has worked for many years to bring community-driven regeneration to the Garw valley, and has been recognised by the head of wellbeing at Bridgend County Borough Council for introducing and delivering ideas that have improved the local economy. Not all councils or council departments are as willing to recognise that community organisations such as the Creation Development Trust should be the first port of call rather than the last resort when it comes to planning economic recovery. You talk about partnership working, Minister. Will you support the Wales Council for Voluntary Action's call for community organisations to be instrumental in the design of your strategies and not just in their delivery?

Edwina Hart: I am meeting the WCVA, which is chaired by Win Griffiths, within the next few weeks to discuss some of those issues. I am aware of the project you have outlined and the marvellous support that it has received from the Labour authority in Bridgend.

Vaughan Gething: I am glad to hear, Minister, that you agree with me that social enterprises play a key role in creating a strong and sustainable economy. Co-operatives and mutuals are typically more

3. Suzy Davies: *Will the Minister outline her plans to ensure greater involvement of the community sector in Wales' economic recovery. OAQ(4)0019(BET)*

Edwina Hart: Mae gan fentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol rôl allweddol i'w chwarae yn yr economi; rwyf bob amser wedi meddwl hynny, hyd yn oed pan nad oedd yn ffasiynol i wneud hynny. Byddaf yn gweithio gyda'r sector i sicrhau eu bod yn cael cyngor busnes priodol a chadarn sydd yn fanteisiol i'w twf a'u cynaliadwyedd.

Suzy Davies: Diolch, Weinidog; mae hwnnw'n ateb calonogol iawn. Efallai y bydd Aelodau yn cofio i mi gyfeirio at Ymddiriedolaeth Ddatblygu Creation yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog ddoe. Mae Ymddiriedolaeth Ddatblygu Creation wedi bod yn gweithio ers blynnyddoedd i ddod ag adfywio wedi ei arwain gan y gymuned i gwm Garw, a chafodd ei chydnabod gan bennaeth lles Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel rhywbeth sy'n cyflwyno ac yn gwireddu syniadau sydd wedi gwella'r economi leol. Nid yw pob cyngor neu bob adran yn y cynghorau mor barod i gydnabod y dylai mudiadau cymunedol fel Ymddiriedolaeth Ddatblygu Creation fod yn gam cyntaf yn hytrach na'r dewis olaf o ran cynllunio adferiad economaidd. Rydych yn sôn am weithio mewn partneriaeth, Weinidog. A wnewch chi gefnogi galwad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i sefydliadau cymunedol fod yn allweddol wrth gynllunio eich strategaethau, ac nid dim ond o ran eu darparu?

Edwina Hart: Rwyf yn cyfarfod â'r cyngor, a gadeirir gan Win Griffiths, o fewn yr ychydig wythnosau nesaf i drafod rhai o'r materion hynny. Rwyf yn ymwybodol o'r prosiect a amlinellwyd gennych a'r gefnogaeth wych a gafodd gan yr awdurdod Llafur ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Vaughan Gething: Rwyf yn falch o glywed, Weinidog, eich bod yn cytuno â mi bod mentrau cymdeithasol yn chwarae rhan allweddol o ran creu economi gref a chynaliadwy. Mae cwmnïau cydweithredol a

sustainable than other forms of small business and their survival rates are higher. They create more jobs and jobs that are less likely to leave the local area, empowering communities and driving regeneration. It is also a fact that the co-op economy has outperformed the UK economy, growing by nearly a quarter to £33.5 billion, and next Monday is the start of Co-operative Fortnight. I am glad that you have said that the Government will ensure that this sector has access to high-quality and robust business advice. Will you explain how that advice will be provided and delivered to ensure that this sector thrives and continues to play a major role in the Welsh economy in future?

Edwina Hart: Currently, my department provides about £0.5 million a year to specialist organisations such as the Wales Co-operative Centre, the Developing Trust Associations Wales and Small Firms Wales to provide bespoke advice and support for social enterprises. We also have a match-funded programme with the Wales Co-operative Centre, which is providing around £8 million, and we are asking the centre this year to undertake a business succession co-operative consortia project, which will be of enormous interest out there in communities. You can be assured that the necessary work is being undertaken in this field and that it will continue. I once spent some time on secondment to the Wales Co-operative Centre, so I know what some of the issues are.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, yn ystod y cwestiynau hyn, mae nifer o'r cyfranwyr wedi cyfeirio at yr angen i gael gweithlu sydd â'r sgiliau addas i gael eu harallgyfeirio. A gytunwch fod nifer o'r mentrau y cyfeiriwyd atynt yn cael eu cynnal gan wirfoddolwyr, a'u bod yn bwysig bod gwirfoddolwyr yn cael y cyfle hefyd i ddatblygu sgiliau a chael cymwysiaethau oherwydd y gwaith y maent yn ei gyflawni? A ydych yn rhoi ystyriaeth i'r gwasanaeth dinasyddiaeth cenedlaethol y mae Plaid Cymru wedi awgrymu allai fod yn fodd i sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu cydnabod ac yn cael y cyfle i ehangu'u sgiliau a chael eu cymhwyso?

chydfuddiannol fel arfer yn fwy cynaliadwy na mathau eraill o fusnesau bach, ac mae eu cyfraddau goroesi yn uwch. Maent yn creu mwy o swyddi a swyddi sydd yn llai tebygol o adael yr ardal leol, gan rymuso cymunedau a hybu adfywio. Mae hefyd yn ffaith fod yr economi gydweithredol wedi rhagori ar economi'r DU, gan dyfu gan bron i chwarter i £33.5 biliwn, a dydd Llun nesaf yw dechrau Pythefnos Mentrau Cydweithredol. Rwyf yn falch eich bod wedi dweud y bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod y sector hwn yn gallu cael cyngor busnes da a chadarn. A wnewch chi egluro sut y bydd y cyngor hwnnw yn cael ei ddarparu a'i gyflwyno er mwyn sicrhau bod y sector hwn yn ffynnu ac yn parhau i chwarae rhan bwysig yn economi Cymru yn y dyfodol?

Edwina Hart: Ar hyn o bryd, mae fy adran yn rhoi tua £0.5 miliwn y flwyddyn i gyrff arbenigol fel Canolfan Gydweithredol Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru a Chwmnïau Bach Cymru i ddarparu cyngor pwrpasol a chefnogaeth i fentrau cymdeithasol. Mae gennym hefyd raglen arian cyfatebol gyda Chanolfan Gydweithredol Cymru, sy'n darparu tua £8 miliwn, ac yr ydym yn gofyn i'r ganolfan eleni i ymgymryd â phrosiect consortia cydweithredol olyniaeth busnes, a fydd o ddiddordeb mawr mewn cymunedau. Gallaf eich sicrhau bod y gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud yn y maes hwn ac y bydd yn parhau. Treuliais ryw faint o amser ar secondiad yng Nghanolfan Gydweithredol Cymru, felly rwyf yn gwybod beth yw rhai o'r materion.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, during these questions, several contributors alluded to the need to have a workforce with the appropriate skills for diversification. Do you agree that a number of the enterprises that have been referred to are maintained by volunteers, and that it is important that volunteers also have the opportunity to develop skills and gain qualifications as a result of the work that they do? Are you considering the national citizen service that Plaid Cymru has suggested could be a means of ensuring that volunteers are recognised and have the opportunity to enhance their skills and gain qualifications?

Edwina Hart: You make a very valuable point about the role of the voluntary sector in Wales. Without the voluntary sector, Wales would be nothing; we could not deliver in a whole range of areas. It is important that the skills that are learned within employment in the voluntary sector and in volunteering are utilised. I am aware of the commitment in the Plaid Cymru manifesto to a national citizen service for adult volunteers, and, as the First Minister indicated when we took office, it is important to look at the manifestos of other parties and at whether there are policy agendas that we could deliver. The direct responsibility for this lies with the Minister for Local Government and Communities, and I will ask him to make contact for further discussions on this issue.

Edwina Hart: Rydych yn gwneud pwynt gwerthfawr iawn ynglŷn â rôl y sector gwirfoddol yng Nghymru. Heb y sector gwirfoddol, byddai Cymru'n ddim; ni allem gyflawni mewn amrywiaeth eang o feysydd. Mae'n bwysig bod y sgiliau hynny sy'n cael eu dysgu o fewn cyflogaeth yn y sector gwirfoddol ac o fewn gwirfoddoli yn cael eu defnyddio. Rwyf yn ymwybodol o'r ymrwymiad ym maniffesto Plaid Cymru i ddarparu gwasanaeth dinesydd cenedlaethol i oedolion sy'n gwirfoddoli, ac, fel y dywedodd y Prif Weinidog wrth inni ddod i rym, mae'n bwysig inni edrych ar faniffestos y pleidiau eraill a gweld a oes agendâu polisi y gallem eu cyflawni. Mae'r cyfrifoldeb uniongyrchol dros hyn yn nwylo'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, a byddaf yn gofyn iddo gysylltu er mwyn cael trafodaethau pellach ar y mater hwn.

Ymchwil a Datblygiad a'r Sector Gweithgynhyrchu

4. David Rees: *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hybu cysylltiadau rhwng ymchwil a datblygiad a'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru. OAQ(4)0015(BET)*

Edwina Hart: We hold regular events highlighting the importance of research and development to all key sectors, including manufacturing. The manufacturing sector has been invited to research and development funding information for the information communications technology sector, BioWales 2011, and business innovation European funding events.

David Rees: As you will know, the Welsh Government is providing £15 million to Swansea University to deliver the Bay Science and Innovation Campus, which will be located in my constituency in Aberavon. The major research and development facilities will be designed to encourage industry to work side by side with researchers, academia and students. In fact, an economic study undertaken by the university estimates that the project could contribute more than £3 billion to the regional economy over the next 10 years.

Research and Development and the Manufacturing Sector

4. David Rees: *What action is the Welsh Government taking to encourage links between research and development and the manufacturing sector in Wales. OAQ(4)0015(BET)*

Edwina Hart: Rydym yn cynnal digwyddiadau rheolaidd yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymchwil a datblygu i bob sector allweddol, yn cynnwys gweithgynhyrchu. Mae'r sector gweithgynhyrchu wedi cael gwahoddiad i wybodaeth ariannu ar gyfer y sector technoleg cyfathrebu gwybodaeth, BioCymru 2011, a digwyddiadau ariannu arloesedd busnes Ewropeaidd.

David Rees: Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi £15 miliwn i Brifysgol Abertawe gyflwyno Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd y Bae, a fydd yn cael ei leoli yn fy etholaeth yn Aberafan. Bydd y cyfleusterau ymchwil a datblygu o bwys yn cael eu cynllunio i annog diwydiant i weithio ochr yn ochr ag ymchwilwyr, academia a myfyrwyr. Yn wir, mae astudiaeth economaidd a wnaed gan y brifysgol yn amcangyfrif y gallai'r project gyfrannu mwy na £3 biliwn i'r economi ranbarthol dros y 10 mlynedd nesaf. Bydd

Such projects will build upon the work as an institute at the university. Therefore, Minister, would you agree that, rather than resurrect old ideas such as enterprise zones—which are flawed and ineffective and only created unsustainable artificial growth—the Welsh Government should discuss the possibility of promoting enterprise clusters based on the economic renewal programme sectors that link academic research and development with business? That would allow for research and innovation and for business to build on that and take developments to the marketplace.

Edwina Hart: I note your comments regarding enterprise zones, about which we had a good discussion in the Chamber last week. The various sectors have now been giving me their views on this issue, and they are mixed. Some of them reflect what Mike Hedges said in relation to the old Swansea enterprise zones. However, others have referred to more innovative ways of looking at it. In relation to research and development, innovation is a key driver for us in Wales. We must facilitate and increase the amount of innovation and the research and development conducted in Wales, particularly in the key sectors, and ensure that Wales benefits through the commercialisation of research and development, which it has not always done. Proposing ways to increase the links between business and academia must be the key consideration in this area. It is one of the considerations that the sector panels are currently looking at in order to encourage businesses to invest more in research and development, so that they are using their private sector success and experience to help identify business growth. It is important that we continue to use these sectors, with the links with higher education, to try to make a difference. I very much take on board what you said about clusters and how we should deal with these issues, and I will be considering this over the course of the next few weeks.

Darren Millar: Manufacturing is a huge part of the Welsh economy, and all of us would want to see it continue to thrive. However, over 70,000 jobs have been lost in manufacturing in Wales over the past 12 years. In the previous Assembly, your

projectau o'r fath yn datblygu ar y gwaith fel sefydliad yn y brifysgol. Felly, Weinidog, a fydddech yn cytuno, yn hytrach nag atgyfodi hen syniadau fel parthau menter—sy'n wallus ac yn aneffeithiol a dim ond yn creu twf artiffisial anghynaliadwy—y dylai Llywodraeth Cymru drafod y posibilrwydd o hybu clystyrau economaidd yn seiliedig ar sectorau rhaglen adnewyddu'r economi sy'n cysylltu ymchwil a datblygu academiaidd gyda busnes? Byddai hynny'n galluogi ymchwil ac arloesedd ac i fusnes ddatblygu ar hynny a mynd â datblygiadau i'r farchnad.

Edwina Hart: Nodaf eich sylwadau am barthau menter, y cawsom drafodaeth dda amdanynt yn y Siambr yr wythnos diwethaf. Mae'r sectorau amrywiol bellach wedi bod yn rhoi eu barn i mi ar y mater hwn, ac mae'n gymysg. Mae rhai ohonynt yn adleisio'r hyn a ddywedodd Mike Hedges am yr hen barthau menter yn Abertawe. Fodd bynnag, mae eraill wedi cyfeirio at ffyrdd mwy dyfeisgar o edrych arno. O ran ymchwil a datblygu, mae arloesedd yn hyrwyddwr allweddol i ni yng Nghymru. Mae'n rhaid inni hwyluso a chynyddu'r arloesedd a'r ymchwil a datblygu a wneir yng Nghymru, yn benodol yn y sectorau allweddol, a sicrhau bod Cymru yn elwa drwy fasnacheiddio'r ymchwil a datblygu, sydd ddim bob amser yn cael ei wneud. Dylai cynnig ffyrdd i gynyddu'r cysylltiadau rhwng busnes ac academia fod yn brif ystyriaeth yn y maes hwn. Mae'n un o'r ystyriaethau y mae'r paneli sector yn edrych arnynt ar y funud i annog busnesau i fuddsoddi mwy mewn ymchwil a datblygu, fel eu bod yn defnyddio eu llwyddiant a'u profiad yn y sector preifat i helpu nodi twf busnes. Mae'n bwysig ein bod yn dal ati i ddefnyddio'r sectorau hyn, gyda'r cysylltiadau ag addysg uwch, er mwyn ceisio gwneud gwahaniaeth. Rwyf yn derbyn yn llwyr yr hyn y gwnaethoch ei ddweud am glystyrau a sut y dylem ddelio â'r materion hyn, a byddaf yn ystyried hyn dros yr wythnosau nesaf.

Darren Millar: Mae gweithgynhyrchu yn rhan enfawr o economi Cymru, a byddai pob un ohonom am ei weld yn parhau i ffynnu. Fodd bynnag, mae dros 70,000 o swyddi wedi'u colli mewn gweithgynhyrchu yng Nghymru dros y 12 mlynedd diwethaf. Yn y

predecessor with Cabinet responsibility for the economy dragged his feet in relation to producing a manufacturing strategy for Wales. Minister, will you put this at the top of your agenda for the next few years in relation to helping to revive the Welsh manufacturing sector, and will you commit to producing, very early in your time in post, a manufacturing strategy published by the Government for Wales?

Edwina Hart: We have to understand that manufacturing has always been a top priority across the piece for the Government in the first, second and third Assemblies. The Welsh manufacturing forum launched its strategy on 16 March this year. The strategy is industry-led and supported by the Government. There is no point in having all of this expertise out there in the world of industry if we just sit back in a little tower in Cathays park and then officials scribble away and write policy. This policy is based on the reality of what industry in the sector wants. The strategy sets out the actions for the Welsh Assembly Government and, most importantly, for industry itself. Therefore, there is a strategic plan, and we will be delivering on it.

Simon Thomas: I echo much of what David Rees said on clustering for research and development, and I welcome what the Minister has just said regarding a manufacturing strategy led by industry. Having spent four years clamouring for a manufacturing strategy led by industry, the Tories now want it led by Government. They need to make their minds up about who should lead the best ideas for manufacturing in Wales. Turning to the manufacturing strategy that has been produced by the sector itself, that strategy makes it clear that we must see continuing research and development supported by Government in the key sectors, particularly in advanced manufacturing, biosciences and the low carbon economy. Will the Minister make a commitment now and say that, even in these early days, she still believes that the sectoral approach set out by her predecessor is the right approach for the Welsh economy and

Cynulliad blaenorol, llusgodd eich rhagflaenydd gyda chyfrifoldeb Cabinet am yr economi ei draed mewn perthynas â llunio strategaeth gweithgynhyrchu i Gymru. Weinidog, a roddwch hyn ar frig eich agenda ar gyfer y blynyddoedd nesaf mewn perthynas â helpu i adfywio sector gweithgynhyrchu Cymru, ac a wnewch chi ymrwymo i gynhyrchu strategaeth weithgynhyrchu, yn gynnar iawn yn eich amser yn y swydd, a gaiff ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru?

Edwina Hart: Rhaid inni ddeall bod gweithgynhyrchu wastad wedi bod yn brif flaenoriaeth yn gyffredinol i'r Llywodraeth yn y Cynulliad cyntaf, yr ail Gynulliad a'r trydydd Cynulliad. Lansiodd fforwm gweithgynhyrchu Cymru ei strategaeth ar 16 Mawrth eleni. Mae'r strategaeth o dan arweiniad y diwydiant a chaiff ei chefnogi gan y Llywodraeth. Nid oes unrhyw bwynt cael yr holl arbenigedd hwn mewn diwydiant os mai'r cyfan a wnawn yw eistedd yn ôl mewn tŵr bach ym mharc Cathays gyda swyddogion yn ysgrifennu polisi. Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar yr hyn y mae'r diwydiant yn y sector ei wir angen. Mae'r strategaeth yn amlinellu camau gweithredu i Lywodraeth y Cynulliad ac, yn bwysicaf oll, i'r diwydiant ei hun. Felly, mae cynllun strategol yn bodoli, a byddwn yn ei gyflawni.

Simon Thomas: Rwyf yn adleisio llawer o'r hyn a ddywedodd David Rees ar glystyru am ymchwil a datblygu, ac rwyf yn croesawu'r hyn y mae'r Gweinidog newydd ei ddweud ynglŷn â strategaeth weithgynhyrchu a arweinir gan y diwydiant. Ar ôl treulio pedair blynedd yn gweiddi am i strategaeth weithgynhyrchu gael ei harwain gan y diwydiant, mae'r Torïaid nawr am iddi gael ei harwain gan Lywodraeth. Mae angen iddynt benderfynu ynghylch pwy ddylai arwain ar y syniadau gorau i weithgynhyrchu yng Nghymru. Gan droi at y strategaeth weithgynhyrchu a gynhyrchwyd gan y sector ei hun, mae'r strategaeth honno yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid inni weld gwaith ymchwil a datblygu yn parhau i gael ei gefnogi gan y Llywodraeth yn y sectorau allweddol, yn enwedig mewn gweithgynhyrchu uwch, y biowyddorau a'r economi carbon isel. A fydd y Gweinidog yn gwneud ymrwymiad yn awr ac yn dweud,

for research and development, and will she commit to continuing to support research and development in those sectors?

Edwina Hart: I was a member of the last Government, and that was the supported policy. The strategy is now informing a whole range of issues, such as advanced materials in manufacturing and what we are doing in terms of life science. A business plan is being prepared in areas and I expect the first draft to be submitted to me for consideration before the summer recess. Although I am considering the addition of more sectors, the present sectors welcome their involvement with Government. As chairs, they welcome the fact that they can come and talk to me, that I will listen to them, that they can advise me on things and that I can then ask them to advise me directly on other issues that may arise. That is the way forward. It is about partnership in Wales, and the Government, industry and the further and higher education sector working together to deliver for Wales. We will only achieve research and development and all the changes that we need if we work together. It is about Team Wales, remember.

Peter Black: Minister, you will know that much of the funding for research in universities comes from UK-wide bodies. The challenge is to find a way to ensure not only that those Welsh universities win the competition with other universities to secure that funding, but that the funding that is secured is focused on developing wealth and innovation in the Welsh economy. How are you engaging outside Wales with those relevant bodies to try to achieve that objective?

Edwina Hart: Those are among the areas that we need to look at closely in the coming months. It is important that we continue to get the necessary resources into Wales so that we have our fair share of research and development and of funding. We have the Academic Expertise for Business

hyd yn oed yn y dyddiau cynnar hyn, ei bod yn dal i gredu mai'r dull sectoraidd a nodwyd gan ei rhagflaenydd yw'r ymagwedd gywir ar gyfer economi Cymru ac ar gyfer ymchwil a datblygu, ac a wnaiff hi ymrwymo i barhau i gefnogi ymchwil a datblygu yn y sectorau hynny?

Edwina Hart: Roeddwn yn aelod o'r Llywodraeth ddiwethaf, a dyna oedd y polisi a gefnogwyd. Erbyn hyn, mae'r strategaeth yn hysbysu amrywiaeth eang o faterion, megis deunyddiau uwch mewn gweithgynhyrchu a'r hyn yr ydym yn ei wneud o ran gwyddor bywyd. Mae cynllun busnes yn cael ei baratoi mewn meysydd, ac yr wyf yn disgwyl i'r drafft cyntaf gael ei gyflwyno i mi i'w ystyried cyn toriad yr haf. Er fy mod yn ystyried ychwanegu mwy o sectorau, mae'r sectorau presennol yn croesawu eu hymwneud â'r Llywodraeth. Fel cadeiryddion, maent yn croesawu'r ffaith y gallant ddod i siarad â mi, y byddaf yn gwranddo arnynt, y gallant roi cyngor imi ar bethau ac wedyn y gallaf ofyn iddynt roi cyngor uniongyrchol i mi ar faterion eraill a gaiff eu codi. Dyna'r ffordd ymlaen. Mae'n ymwneud â phartneriaeth yng Nghymru, a'r Llywodraeth, y diwydiant a'r sector addysg bellach a'r sector addysg uwch yn cydweithio i gyflawni dros Gymru. Dim ond drwy gydweithio y byddwn yn cyflawni ymchwil a datblygu a'r holl newidiadau sydd eu hangen. Mae a wnelo â Thîm Cymru, cofiwch.

Peter Black: Weinidog, byddwch yn gwybod bod llawer o arian ar gyfer ymchwil mewn prifysgolion yn dod o gyrff ledled y DU. Yr her yw dod o hyd i ffordd o sicrhau nid yn unig bod y prifysgolion hynny yng Nghymru yn ennill y gystadleuaeth â phrifysgolion eraill i sicrhau'r arian hwnnw, ond bod yr arian sy'n cael ei ddiogelu yn canolbwyntio ar ddatblygu cyfoeth ac arloesi yn economi Cymru. Sut ydych yn ymgysylltu y tu allan i Gymru gyda'r cyrff perthnasol hynny i geisio cyflawni'r amcan hwnnw?

Edwina Hart: Mae'r rheini ymhlith y meysydd y mae angen inni edrych arnynt yn ofalus yn ystod y misoedd sydd i ddod. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i gael yr adnoddau angenrheidiol i Gymru fel ein bod yn cael ein cyfran deg o ymchwil a datblygu ac arian. Mae gennym y rhaglen Arbenigedd

programme, on collaboration on research and development, and knowledge transfer partnerships, which help in providing support for projects. However, there is further work to be done, and I will be engaging with my colleague the Minister for Education and Skills on how we can take these developments forward together.

Peter Black: Minister, would you accept that the current investigation by the Welsh Affairs Committee is one forum in which you could make the case for Wales in relation to investment in research and development, and that, if you were to attend the evidence session to which it has invited you, you could also make the case for reduced corporation tax, the Barnett floor and all the fiscal aids that would help the Welsh economy and the Welsh manufacturing industry to succeed, improve and grow wealth in this country? Do you not think that you should reconsider your decision not to give evidence to the committee? Do you accept that, by not giving evidence, you are letting Wales down?

Edwina Hart: I am not letting Wales down. I think that we need to agree to differ on the content of your question to me.

Diwydiant Opto-Electronicig

5. Ann Jones: *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo'r diwydiant opto-electronicig yn Nyffryn Clwyd. OAQ(4)0013(BET)*

Edwina Hart: We will work in partnership with industry and academia to facilitate the development of the opto-electronics sector in St Asaph and throughout Wales.

Ann Jones: Thank you for that answer, Minister. You know that St Asaph is integral to, and is recognised by, the opto-electronics industry in the UK, Europe, and, indeed, worldwide. The OptIC Technium at St Asaph has been doing excellent work to ensure that it is in the running to be selected to construct one of the largest sophisticated telescopes for the European Organisation for Astronomical Research in the Southern Hemisphere, commonly known as ESO, at a

Academaidd i Fusnes, ar gydweithredu ar ymchwil a datblygu, a phartneriaethau trosglwyddo gwybodaeth, sy'n helpu i ddarparu cymorth ar gyfer prosiectau. Fodd bynnag, mae rhagor o waith i'w wneud, a byddaf yn cysylltu â'm cyd-Aelod, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ynghylch sut y gallwn symud y datblygiadau hyn ymlaen gyda'n gilydd.

Peter Black: Weinidog, a ydych yn derbyn bod yr ymchwiliad presennol gan y Pwyllgor Materion Cymreig yn un fforwm lle y gallech ddadlau achos Cymru mewn perthynas â buddsoddi mewn ymchwil a datblygu, a phe baech yn bresennol yn y sesiwn dystiolaeth y gwahoddwyd chi iddi, gallech hefyd fod wedi dadlau'r achos dros dreth gorfforaeth is, llawr Barnett a'r holl gymhorthion cyllidol a fyddai'n helpu economi Cymru a'r diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru i lwyddo, gwella a thyfu cyfoeth yn y wlad hon? Oni chredwch y dylech ailystyried eich penderfyniad i beidio â rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor? A ydych yn derbyn, drwy beidio â rhoi tystiolaeth, eich bod yn gadael Cymru i lawr?

Edwina Hart: Nid wyf yn gadael Cymru i lawr. Rwyf yn credu bod angen inni gyuno i anghytuno ar gynnwys eich cwestiwn i mi.

Opto-Electronics Industry

5. Ann Jones: *What is the Welsh Government doing to promote the opto-electronics industry in the Vale of Clwyd. OAQ(4)0013(BET):*

Edwina Hart: Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda diwydiant ac academia i hwyluso datblygiad y sector opto-electronicig yn Llanelwy ac ar draws Cymru.

Ann Jones: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn gwybod fod Llanelwy yn rhan annatod o'r diwydiant opto-electronicig yn y DU, Ewrop, ac, yn wir, ar draws y byd, ac yn cael ei chydabod felly. Bu'r Tecniwm OptIC yn Llanelwy yn gwneud gwaith rhagorol i sicrhau ei fod ymysg y rhai i gael eu dewis i adeiladu un o'r telesgopau soffistigedig mwyaf ar gyfer y Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Ymchwil Astronomaidd yn Hemisffer y De, sy'n fwy

cost of £1 billion. If it is successful, more than £4 million-worth of work could come to St Asaph, which would help local industry. Do you agree that the Welsh Government should continue to support the opto-electronics industry in St Asaph and ensure that we can have good quality and high-skilled jobs in that area?

Edwina Hart: I concur totally with your comments. The Chief Scientific Officer for Wales is an expert in that field of research and is providing guidance to the Welsh Government on the project. I am taking the opportunity to visit the OptTIC Glyndŵr research centre at the technium in St Asaph next week and to have a tour of the European extremely large telescope project. I assure you that I am well aware of the excellent work that is going on in that area and of how it will help Wales's economy in future.

Antoinette Sandbach: Minister, I welcome the fact that you will be following in the footsteps of David Cameron, who has twice visited the St Asaph technium to see the excellent work that is being carried out there. Do you agree that it is regrettable that, despite the success of the OptTIC Technium, where the academic resources of Glyndŵr University have helped to create a successful technology cluster and spin-off businesses, the Minister for education has not visited the university once in the nearly two years since he took up his post? What plans do you have to use the success of the OptTIC Technium as a blueprint for inward investment elsewhere in north Wales?

Edwina Hart: I am well aware of the excellent work that goes on there and of the heavy schedule of visits, including to that university, that the Minister for education has undertaken. It is important to say that we recognise where there is expertise and build on it. I am very much looking forward to my visit.

Llyr Huws Gruffydd: Yr ydym wedi clywed tipyn heddiw am bwysigrwydd ymchwil a datblygu, ac mae'r sector hwn yn un o'r rhai lle mae angen buddsoddiad parhaol mewn ymchwil a datblygu. Fodd bynnag, gwyddom mai dim ond 2 y cant o

adnabyddus fel ESO, am gost o £1 biliwn. Os yw'n llwyddiannus, gallai gwerth mwy na £4 miliwn o waith ddod i Lanelwy, a fyddai'n help i ddiwydiant lleol. A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi'r diwydiant opto-electronig yn Lanelwy a sicrhau bod gennym swyddi da a medrus yn yr ardal honno?

Edwina Hart: Rwy'n cytuno'n llwyr gyda'ch sylwadau. Mae Prif Swyddog Gwyddonol Cymru yn arbenigwr yn y maes ymchwil hwnnw ac yn rhoi arweiniad i Lywodraeth Cymru ar y prosiect. Rwyf yn manteisio ar y cyfle i ymweld â chanolfan ymchwil OptTIC Glyndŵr yn y tecniwm yn Lanelwy wythnos nesaf a chael taith o'r prosiect telesgop mawr iawn Ewropeaidd. Gallaf eich sicrhau fy mod yn gwybod yn iawn am y gwaith rhagorol sy'n digwydd yn yr ardal honno a sut y bydd yn helpu economi Cymru yn y dyfodol.

Antoinette Sandbach: Weinidog, rwy'n croesawu'r ffaith y byddwch yn dilyn yng nghamau David Cameron, sydd wedi ymweld ddwywaith â thecniwm Lanelwy i weld y gwaith rhagorol a wneir yno. A ydych yn cytuno ei bod yn resyn, er gwaethaf y Tecniwm OptTIC, lle mae adnoddau academiaidd Prifysgol Glyndŵr wedi helpu i greu clwstwr technoleg a busnesau sgilgyhyrchu, nad yw'r Gweinidog addysg wedi ymweld â'r brifysgol unwaith yn y ddwy flynedd bron ers iddo fod yn ei swydd? Pa gynlluniau sydd gennych i ddefnyddio llwyddiant y Tecniwm OptTIC fel sail ar gyfer mewnfuddsoddi mewn rhannau eraill o'r gogledd?

Edwina Hart: Rwyf yn gwybod yn iawn am y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yno a'r nifer fawr o ymweliadau, gan gynnwys i'r brifysgol honno, a ymgymrodd y Gweinidog addysg. Mae'n bwysig dweud ein bod yn cydnabod lle mae arbenigedd ac yn adeiladu arno. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at fy ymweliad.

Llyr Huws Gruffydd: We have heard quite a bit today about the importance of research and development, and this sector is one where continuous investment in research and development is required. However, we know that at present only 2 per cent of the total

gyfanswm gwariant cyhoeddus y Deyrnas Gyfunol ar ymchwil a datblygu sy'n dod i Gymru ar hyn o bryd. Pa drafodaethau ydych chi wedi eu cynnal â Llywodraeth San Steffan mewn ymdrech i sicrhau bod y ganran honno'n codi a bod cyfran decach o gyllid ymchwil a datblygu yn dod i Gymru?

2.45 p.m.

Edwina Hart: I have not yet had any direct discussions with the UK Government, but research and development is one of the areas that I am looking at currently. Of course, I will advise the Chamber when appropriate discussions are held. Officials discuss matters at a certain level, but I think that it is important that I also engage in those discussions, as a Government Minister.

Mentrau

6. Lindsay Whittle: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei chynlluniau ar gyfer mentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru. OAQ(4)0014(BET)*

Edwina Hart: As outlined in our manifesto, 'Standing up for Wales', I aim to improve the conditions within which all businesses, large and small, operate. Businesses need the right infrastructure, skills and services. I will be reviewing what support is needed by small firms, to create real potential to thrive and grow.

Lindsay Whittle: Minister, you will be aware that businesses need smaller and more easily accessible loans. Will you investigate the use of community finance models in providing a more flexible local solution to this problem and, in particular, providing money to credit unions, so that they can lend to small and medium-sized enterprises? Alternatively, will you consider establishing a Welsh growth fund in partnership with the private sector so that small and medium-sized enterprises can have greater access to finance? Minister, I also think that David Cameron was lucky that he was in St Asaph when you were not.

Edwina Hart: I am not sure that my shoes

public expenditure of the UK on research and development comes to Wales at the moment. What discussions have you had with the Westminster Government in order to ensure that that percentage is increased and that a fairer percentage of research and development funding comes to Wales?

Edwina Hart: Ni chefais unrhyw drafodaeth gyda Llywodraeth y DU, ond mae ymchwil a datblygu yn un o'r meysydd rwyf yn edrych arnynt ar hyn o bryd. Wrth gwrs, byddaf yn rhoi gwybod i'r Siambr pan gynhelir trafodaethau priodol. Mae swyddogion yn trafod materion ar un lefel, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig fy mod i, fel Gweinidog yn y Llywodraeth, yn cymryd rhan yn y trafodaethau hynny.

Enterprises

6. Lindsay Whittle: *Will the Minister make a statement on her proposals for small and medium-sized enterprises in Wales. OAQ(4)0014(BET)*

Edwina Hart: Fel yr amlinellwyd yn ein manifesto, 'Sefyll Cornel Cymru', fy mwiad yw gwella'r amodau y mae pob busnes, mawr a bach, yn gweithredu ynddynt. Mae busnesau angen y seilwaith, sgiliau a gwasanaethau cywir. Byddaf yn adolygu pa gymorth sydd ei angen ar fusnesau bach, er mwyn creu potensial go iawn i ffynnu a thyfu.

Lindsay Whittle: Weinidog, byddwch yn gwybod bod busnesau angen benthyciadau llai sy'n haws i'w cael. A wnewch chi ymchwilio i'r defnydd o fodolau cyllid cymuned o ran darparu atebion lleol fwy hyblyg i'r broblem hon, ac, yn benodol, roi arian i undebau credyd, fel eu bod yn gallu benthyg i fusnesau bach a chanolig eu maint? Fel arall, a wnewch chi ystyried sefydlu cronfa twf Cymru mewn partneriaeth â'r sector preifat fel bod busnesau bach a chanolig eu maint yn gallu cael mwy o fynediad i gyllid? Weinidog, rwyf hefyd yn meddwl bod David Cameron yn lwcus i fod yn Llanelwy pan nad oeddech yno.

Edwina Hart: Nid wyf yn siŵr fod fy

are the same size as his; I think that I have smaller feet.

It is quite important for us to recognise, Lindsay Whittle, the importance of getting support for small businesses right. I have had some very interesting discussions with the small business group, which says that the needs of micro-businesses are sometimes quite different to those of other businesses. We have already started work on business support on the credit union side. All of the issues raised with me today are very much on my agenda. I hope to come back in the autumn and make a statement to the Chamber on support for businesses, and I am sure that I will be able to address those points more fully on that occasion.

Janet Finch-Saunders: Minister, what is being done to ensure the quick and effective roll-out of high-speed broadband and better mobile phone reception across Wales? There are areas of my constituency, Aberconwy, that do not have a mobile phone signal or access to a consistent broadband connection. This is obviously a serious problem for small and medium-sized enterprises, which would greatly benefit from better access to communications and the increased markets that quality internet access offers.

The Presiding Officer: Order. Could you come to the question, please?

Janet Finch-Saunders: Okay. TFL Group said last year that 30,000 homes still had no access to broadband and that it would take 28 years—

The Presiding Officer: Order. That is not a question.

Janet Finch-Saunders: TFL said that it would take 28 years to bring effective broadband to these homes. This is not in line with your own policy for all businesses in Wales to have next-generation broadband by mid-2016.

The Presiding Officer: Order. Can you come to the question, please?

Janet Finch-Saunders: Minister, what guarantees can you give to those businesses

esgidiau yr un faint â'i rai ef; tybiaf fod gennyf i draed llai.

Mae'n bwysig inni gydnabod, Lindsay Whittle, pa mor bwysig ydyw i gael cymorth i fusnesau bach yn iawn. Rwf wedi cael ambell drafodaeth ddiddorol iawn gyda'r grŵp busnesau bach, sy'n dweud bod anghenion busnesau bach weithiau yn dra gwahanol i rai busnesau eraill. Rydym eisioes wedi rhoi cychwyn ar roi cymorth busnes i undebau credyd. Mae'r pob mater a godwyd gyda mi heddiw ar fy agenda. Rwy'n gobeithio dod yn ôl yn yr hydref a gwneud datganiad i'r Siambr ar gymorth i fusnesau, ac rwy'n siwr y byddaf yn gallu ymdrin â'r pwyntiau hynny yn llawnach ar yr adeg honno.

Janet Finch-Saunders: Weinidog, beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod band eang cyflym a derbyniad ffôn symudol gwell yn cael eu cyflwyno yn gyflym ac yn effeithiol ledled Cymru? Mae ardaloedd yn fy etholaeth, Aberconwy, sydd heb signal ffôn symudol na mynediad cyson i gysylltiad band eang. Mae hyn yn amlwg yn broblem i fusnesau bach a chanolig eu maint, a fyddai'n elwa'n sylweddol o gael gwell mynediad i ddulliau cyfathrebu a'r marchnadoedd cynyddol a ynginigir drwy fynediad o safon i'r rhyngwyd.

Y Llywydd: Trefn. A fyddech cystal â dod at y cwestiwn?

Janet Finch-Saunders: O'r gorau. Dywedodd TFL Group y llynedd nad oedd gan 30,000 o gartrefi fynediad i fand eang ac y byddai'n cymryd 28 mlynedd—

Y Llywydd: Trefn. Nid yw hwnnw'n gwestiwn.

Janet Finch-Saunders: Dywedodd TFL y byddai'n cymryd 28 mlynedd i gyflwyno band eang effeithiol i'r cartrefi hyn. Nid yw hyn yn cydfynd â'ch polisi eich hun, sef y byddai gan bob busnes fand eang cenhedlaeth nesaf yng Nghymru erbyn canol 2016.

Y Llywydd: Trefn. A fyddech cystal â dod at y cwestiwn?

Janet Finch-Saunders: Weinidog, pa sicrwydd y gallwch chi ei roi i fusnesau sydd

that desperately need improved broadband access in the current economic climate that they will have access to next-generation broadband in the next five years?

Edwina Hart: I fully appreciate the issues that you raised regarding mobile and broadband access in your speech today. It is important for us to recognise that small businesses need appropriate access because they can take advantage of flexible working patterns, reduce their travel overheads and access global markets quickly. We tend to think that small businesses do not do that, but they do when they have a niche market. They can also share files quickly, and online video-conferencing leads to great efficiencies for very small firms. Therefore, we are absolutely committed to this. If everything goes right in terms of contracts and the other things that we are doing, I intend to roll out this policy appropriately and in line with our manifesto.

Cyfleoedd Cyflogaeth

8. Gwyn R. Price: *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cyfleoedd cyflogaeth yn Ne Ddwyrain Cymru. OAQ(4)0004(BET)*

Edwina Hart: We will support high-performing, quality companies in all those parts of the economy that can create employment, wealth and a sustainable Wales.

Gwyn R. Price: Thank you for your reply, Minister. The Welsh Government has taken numerous steps to increase employment opportunities in these difficult times. Schemes such as ProAct and ReAct showed an understanding of what was needed. On top of that, we have seen a commitment to apprenticeships and to business rate relief. At the same time, Minister, we are seeing a concerted effort on behalf of the Tory-Liberal Government to pull the rug from under hard-working people in areas such as Islwyn. Minister, what can we do in Wales to mitigate the effects of those reckless policies?

Edwina Hart: To lessen the impact and to aid our economic recovery, it is essential that we raise skill levels. We have already alluded

wir angen mynediad gwell i fand eang yn yr hinsawdd economaidd bresennol y byddant yn cael mynediad i fand eang cenhedlaeth nesaf yn y pum mlynedd nesaf?

Edwina Hart: Rwy'n gwerthfawrogi'n llawn y materion y gwnaethoch eu codi am fynediad ffonau symudol a band eang yn eich araith heddiw. Mae'n bwysig inni gydnabod bod angen mynediad priodol ar fusnesau bach oherwydd gallant fanteisio ar batrymau gweithio hyblyg, lleihau eu costau teithio a chyrraedd marchnadoedd byd-eang yn gyflym. Rydym yn tueddu i feddwl nad yw busnesau bach yn gwneud hynny, ond maent yn gwneud hynny pan mae ganddynt farchnad arbenigol. Gallant hefyd rannu ffeiliau'n gyflym ac mae fideogynadleda arlein yn arwain at arbedion mawr i fusnesau bach iawn. Felly, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i hyn. Os yw popeth yn mynd yn iawn o ran contractau a'r pethau eraill rydym yn eu gwneud, rwy'n bwriadu cyflwyno'r polisi hwn yn briodol ac yn unol â'n manifesto.

Employment Opportunities

8. Gwyn R. Price: *What is the Welsh Government doing to increase employment opportunities in South East Wales. OAQ(4)0004(BET)*

Edwina Hart: Byddwn yn cefnogi cwmnïau o safon sy'n perfformio'n dda ym mhob rhan o'r economi sy'n gallu creu cyflogaeth, cyfoeth a Chymru gynaliadwy.

Gwyn R. Price: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd amryw o gamau i gynyddu cyfleoedd am gyflogaeth yn yr amseroedd anodd hyn. Roedd cynlluniau fel ProAct a ReAct yn dangos dealltwriaeth o'r hyn oedd ei angen. Yn ogystal, gwelsom ymrwymiad i brentisiaethau ac i ryddhad ardrethi busnes. Ar yr un adeg, Weinidog, gwelwn ymdrech bendant gan y llywodraeth Dori-Ryddfrydol i danseilio pobl sy'n gweithio'n galed mewn ardaloedd fel Islwyn. Weinidog, beth allwn ni ei wneud yng Nghymru i liniaru effeithiau y polisiau rhyfygus hynny?

Edwina Hart: Er mwyn lleihau'r effaith a chynorthwyo ein hadferiad economaidd, mae'n hanfodol ein bod yn codi lefelau

to the basic skills and other related issues regarding the skills of the workforce. The key issue is to reduce youth unemployment, which is one of the most worrying trends that we now see. We must also create more sustainable and dynamic companies, especially those that have their headquarters in Wales. For example, through our Young Recruits programme, we have made £20 million available for 16 to 24-year-olds to access quality training. In addition, we continue to build strong links with our anchor companies to develop strategic and mutually beneficial relationships with them.

Mohammad Asghar: Minister, there is a businessman who has eagerly been looking to set up a factory that makes modular homes in the south Wales Valleys. Suggested locations include Blaenau Gwent and Merthyr Tydfil. He estimates that, directly and indirectly, some 200 jobs could be created. In seeking the support of the Welsh Government, he made in excess of 50 phone calls before he received an initial response. Since receiving contact from an official, he has found the Welsh Government to be extremely negative towards his proposals. Will you give a commitment to meet this gentleman, Minister, to ensure that his proposals are given a fair hearing by the Welsh Government and to ensure that possible support routes are explored, given the potential impact that his proposal could have on tackling unemployment in the south Wales Valleys? Minister, what support will be available to businesses such as his, which perhaps fall outside the six key sectors outlined in the economic renewal plan?

Edwina Hart: A simple letter to me as the Minister would probably have brought about a meeting with one of my officials.

Jocelyn Davies: Last week, the First Minister gave assurances that your Government is still committed to the economic renewal programme. One of the challenges identified in the programme is the fact that we have not taken full advantage of the identity premium. How will you reverse this situation so that Wales, including the south-east, can be an attractive place to do business?

sgiliau. Rydym eisoes wedi sôn am y sgiliau sylfaenol a materion cysylltiedig eraill o ran sgiliau'r gweithlu. Y prif fater yw lleihau diweithdra ymysg yr ifanc, sy'n un o'r tueddiadau mwyaf pryderus a welwn yn awr. Rhaid inni greu cwmnïau fwy cynaliadwy a deinamig, yn enwedig y rhai sydd â'u pencadlys yng Nghymru. Er enghraifft, drwy ein rhaglen Recriwtiaid Newydd, rydym wedi rhyddhau £20 miliwn er mwyn i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed gael hyfforddiant o safon. Yn ogystal, rydym yn parhau i datblygu cysylltiadau cryf gyda'n cwmnïau angori i ddatblygu perthnasau strategol gyda hwy sydd o fudd i'r ddwy ochr.

Mohammad Asghar: Weinidog, mae dyn busnes sydd wedi bod yn eiddgar i sefydlu ffatri sy'n gwneud cartrefi modiwlwr yng Nghymoedd y de. Mae'r lleoliadau a awgrymwyd yn cynnwys Blaenau Gwent a Merthyr Tudful. Mae'n amcangyfrif, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, y bydd tua 200 o swyddi yn cael eu creu. Wrth geisio cymorth Llywodraeth Cymru, gwnaeth dros 50 o alwadau ffôn cyn derbyn ateb cychwynnol. Ers cael cyswllt gyda swyddog, canfu fod Llywodraeth Cymru yn negyddol iawn am ei gynigion. A wneuch chi ymrwymiad i gwrrd â'r gŵr bonheddig hwn, Weinidog, er mwyn sicrhau bod ei gynigion yn cael gwrandwiad teg gan Lywodraeth Cymru ac i sicrhau bod pob cymorth posibl yn cael ei archwilio, o gofio am yr effaith bosibl y gallai ei gynnig ei gael ar dacio diweithdra yng Nghymoedd y de? Weinidog, pa gymorth fydd ar gael i fusnesau fel ei un ef, sydd o bosibl yn disgyn y tu allan i'r chwe sector allweddol a amlinellwyd yn y cynllun i adfer yr economi?

Edwina Hart: Mae'n debyg y byddai llythyr syml ataf i fel Gweinidog wedi arwain at gyfarfod gydag un o'm swyddogion.

Jocelyn Davies: Wythnos diwethaf, rhoddodd y Prif Weinidog sicrwydd bod eich Llywodraeth yn dal i fod wedi ymrwymo i'r rhaglen i adnewyddu'r economi. Un o'r heriau a nodwyd yn y rhaglen yw'r ffaith nad ydym wedi manteisio'n llawn ar y premiwm hunaniaeth. Sut y byddwch chi'n gwydroi'r sefyllfa hon fel y gall Cymru, gan gynnwys y de-ddwyrain, fod yn lle deniadol i wneud busnes?

Edwina Hart: Before lunch today, I had a meeting with a prominent businessperson who was talking about the importance of selling the value of Wales as a place with a positive image. That relates very nicely to the issue of the identity premium that you have just mentioned. You will be aware of the work that is being done on the Heart and Soul of Wales campaign for the Valleys. I think that it is important for us to carry on with that work, because I do not think that we ever want to underestimate the potential for businesses and projects to profit by association with the Wales identity premium.

Twristiaeth

9. Russell George: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y mae'r Llywodraeth yn hybu twristiaeth yng Nghanolbarth Cymru. OAQ(4)0018(BET)*

Edwina Hart: We are supporting a range of activities through the regional tourism partnership, Tourism Partnership Mid Wales, and the mid Wales marketing area partnerships, to market and promote tourism in mid Wales.

Russell George: Thank you for your answer, Minister. You will appreciate that having the right infrastructure in place is vital to ensuring economic and tourism growth in mid Wales. The enhancement of the Cambrian line is an extremely important aspect in the delivery of that growth. Minister, can you give a commitment to work with the Minister for Local Government and Communities to prioritise the implementation of additional services on the Cambrian line when he announces his review of the national transport plan? Rail users hope that the Welsh Government will complete the job that it started in 2008, when it announced a contribution of £8 million to the scheme. The capital element is now complete, and revenue funding to implement additional services on the line will be relatively straightforward to achieve in a short time. It is vital that existing capital expenditure is utilised to benefit the mid Wales economy and to ensure that it is not underutilised.

Edwina Hart: Cyn cinio heddiw, cefais gyfarfod gyda dyn busnes blaenllaw a oedd yn siarad am bwysigrwydd hyrwyddo gwerth Cymru fel rhywle â delwedd gadarnhaol. Mae hynny'n cysylltu'n daclus â'r premiwm hunaniaeth rydych newydd sôn amdano. Byddwch yn gwybod am y gwaith sy'n cael ei wneud ar yr ymgyrch Calon ac Enaid Cymru ar gyfer y Cymoedd. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig inni ddal ati gyda'r gwaith hwnnw, achos nid wyf yn meddwl ein bod byth eisiau tanamcangyfrif y potensial i fusnesau a phrosiectau elwa o gysylltu â'r premiwm hunaniaeth Gymreig.

Tourism

9. Russell George: *Will the Minister make a statement regarding the Government's promotion of tourism in Mid Wales. OAQ(4)0018(BET)*

Edwina Hart: Rydym yn cefnogi amryw o weithgareddau drwy'r bartneriaeth twristiaeth ranbarthol, Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru, a phartneriaethau ardal marchnata'r canolbarth, i farchnata a hyrwyddo twristiaeth yn y canolbarth.

Russell George: Diolch am eich ateb, Weinidog. Byddwch yn gwerthfawrogi bod cael y seilwaith cywir yn ei le yn allweddol i sicrhau twf economaidd a thwristiaeth yng nghanolbarth Cymru. Mae ehangu llinell y Cambrian yn agwedd bwysig iawn ar wireddu'r twf hwnnw. Weinidog, a allwch chi wneud ymrwymiad i gydweithio â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i flaenoriaethu'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau ychwanegol ar linell y Cambrian pan fydd yntau'n cyhoeddi ei adolygiad o'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol? Mae defnyddwyr y rheilffyrdd yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r gwaith a ddechreuodd yn 2008, pan gyhoeddodd gyfraniad o £8 miliwn i'r cynllun. Mae'r elfen gyfalaf bellach yn gyflawn, a bydd arian refeniw i gyflwyno gwasanaethau ychwanegol yn eithaf syml i'w gyflawni mewn byr amser. Mae'n allweddol bod gwariant cyfalaf sy'n bodoli'n barod yn cael ei ddefnyddio er mwyn dod â budd i economi'r canolbarth ac er mwyn sicrhau na chaiff ei danddefnyddio.

Edwina Hart: My colleague is here and has heard your contribution. We always work closely across portfolios in the Government.

Rebecca Evans: In 2009, the tourism industry in Montgomeryshire was valued at £358 million and was estimated to support 6,300 jobs. Mid Wales Tourism tells me that fears about the proposed pylons are already having a detrimental effect on tourism in the area. The owners of high-quality holiday home parks—there are 24 five-star parks in mid Wales—are already reporting lost sales due to the proposals. I am sure that you will join me in welcoming the statement on planning and renewable energy in Wales, and I want to put on record my thanks for the Welsh Government's representations to Westminster on behalf of people in mid Wales, not least those who are involved in tourism. While we wait for the Westminster Government to respond, will the Minister confirm that the Welsh Government will do its bit for tourism in mid Wales, based on the strong commitments on tourism in our manifesto?

Edwina Hart: We have given clear manifesto commitments on this and provided the tourism partnership in mid Wales with over £0.5 million this financial year to drive up quality. We also have the tourism investment support scheme, which is operated by Visit Wales, and, since September 2009, capital investment grants of over £1.1 million have been allocated to businesses in the region.

Simon Thomas: Efallai fod y Gweinidog wedi cael cyfle i wrando arnaf yn cwestiynu Arweinydd y Tŷ ddoe ynglŷn â'r posibilïad o gael parth ar y we i Gymru. Byddai hwn o fudd mawr i fusnesau twristiaeth sy'n gwerthu eu busnesau ar y we, gan mai dyma'r ffordd y mae'r rhan fwyaf o fusnesau nawr yn denu pobl i Gymru. A wnaiff y Gweinidog fanteisio ar y cyfle hwn i ddatgan cefnogaeth y Llywodraeth i'r syniad o gael parth .cymru a .wales er mwyn i fusnesau twristiaeth allu marchnata Cymru yn fyd-eang?

Edwina Hart: Mae fy nghyd-Aelod yn bresennol ac wedi clywed eich cyfraniad. Rydym bob amser yn cydweithio'n agos ar draws portffolios yn y Llywodraeth.

Rebecca Evans: Yn 2009, tybiwyd bod y diwydiant twristiaeth yn sir Drefaldwyn yn werth £358 miliwn ac amcangyfrifwyd ei fod yn cynnal 6,300 o swyddi. Mae Twristiaeth Canolbarth Cymru yn dweud wrthyf fod pryderon am y peilonau arfaethedig eisoes yn cael effaith andwyol ar dwristiaeth yn yr ardal. Mae perchnogion parciau gwyliau o safon uchel—mae 24 o barciau pum seren yn y canolbarth—eisoes yn dweud bod llai o ymwelwyr oherwydd y cynigion. Rwyf yn siŵr y byddech yn ymuno â mi o ran croesawu'r datganiad ar gynllunio ac ynni adnewyddadwy yng Nghymru, ac rwyf am gofnodi fy niolch am sylwadau Llywodraeth Cymru i San Steffan ar ran pobl yn y canolbarth, yn enwedig y rhai sydd yn y diwydiant twristiaeth. Wrth inni aros i Lywodraeth San Steffan ymateb, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn chwarae ei rhan ar gyfer twristiaeth yn y canolbarth, ar sail yr ymrwymïadau cryf ar dwristiaeth yn ein manifesto?

Edwina Hart: Rydym wedi gwneud ymrwymïadau clir yn ein manifesto ar hyn ac wedi rhoi £0.5 miliwn eleni i'r bartneriaeth twristiaeth yn y canolbarth i wella safon. Mae gennym hefyd y cynllun cynorthwyo buddsoddiad mewn twristiaeth, a weithredir gan Croeso Cymru, ac, ers mis Medi 2009, dyrannwyd grantiau buddsoddiad cyfalaf dros £1.1 filiwn i fusnesau yn y rhanbarth.

Simon Thomas: Perhaps the Minister had the opportunity to listen to me question the Leader of the House yesterday regarding the possibility of having a web domain for Wales. This would be of great benefit to tourism businesses that sell their businesses on the internet, as this is the way that the majority of businesses now attract people to Wales. Will the Minister take this opportunity to express the Government's support for the idea of having a .wales and .cymru domain so that tourism businesses can market Wales globally?

Edwina Hart: Thank you very much for that question. Nothing has been raised with my officials in relation this, but I will discuss it. The concept seems like a good one in principle.

William Powell: In a digital marketing conference in March of this year, Jonathan Jones, director of marketing at Visit Wales, congratulated tourism businesses in mid Wales for performing better than their counterparts in England and Scotland. Indeed, expenditure by tourists visiting Wales was, on average, up by 3 per cent last year, compared to a 6 per cent fall in the rest of the UK. The number of nights that visitors stayed in Wales was also up by 1 per cent, compared to a 7 per cent fall across the rest of the UK. Will the Minister make a commitment to supporting the tourism sector via the regional tourism partnerships, and to further extending the tourism season to maximise the economic benefits to destinations across Wales?

Edwina Hart: You may be interested to know that I am considering whether tourism should be one of my key sectors in Wales, not just with the current arrangements that are in place. It is vital for the economy of rural and urban Wales.

Economi

10. Christine Chapman: *Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella economi Cymru yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. OAQ(4)0017(BET)*

Edwina Hart: Our plans for growth and sustainable jobs are set out in our manifesto. As I have indicated, I have been actively engaging with and listening to business and will be making a statement in due course.

Christine Chapman: If the economy of Wales is to grow, it is vital that businesses and companies get all the support they can from the Welsh Government. This includes the provision of specific and targeted advice. One of the criticisms that I receive from companies is that they get poor feedback

Edwina Hart: Diolch yn fawr iawn am y cwestiwn hwnnw. Nid oes dim wedi cael ei godi gyda fy swyddogion yn hyn o beth, ond gwnaf ei drafod. Mae'r syniad yn ymddangos yn un da mewn egwyddor.

William Powell: Mewn cynhadledd marchnata digidol ym mis Mawrth eleni, llongyfarchodd Jonathan Jones, pennaeth marchnata Croeso Cymru, fusnesau twristiaeth yn y canolbarth am befformio'n well na busnesau cyfatebol yn Lloegr a'r Alban. Yn wir, roedd gwariant gan dwristiaid sy'n ymweld â Chymru wedi cynyddu 3 y cant y llynedd ar gyfartaledd, o gymharu â chwmp o 6 y cant yng ngweddill y DU. Roedd nifer y nosweithiau a arhosodd ymwelwyr yng Nghymru hefyd wedi cynyddu 1 y cant, o gymharu â chwmp o 7 y cant ar draws gweddill y DU. A wnaiff y Gweinidog ymrwymiad i gefnogi'r diwydiant twristiaeth drwy gyfrwng y partneriaethau twristiaeth rhanbarthol, ac i ymestyn y tymor twristiaeth ymhellach fel bod cyrchfannau ar draws Cymru yn cael y budd economaidd mwyaf?

Edwina Hart: Efallai y byddai diddordeb gennych wybod fy mod yn ystyried a ddylai twristiaeth fod yn un o'm sectorau allweddol yng Nghymru, ac nid dim ond o fewn y trefniadau presennol sydd yn eu lle. Mae'n allweddol i economi wledig a threfol Cymru.

Economy

10. Christine Chapman: *What are the Welsh Government's priorities for improving the Welsh economy during the Fourth Assembly. OAQ(4)0017(BET)*

Edwina Hart: Mae ein cynlluniau ar gyfer twf a swyddi cynaliadwy wedi eu nodi yn ein manifffesto. Fel y dywedais, rwyf wedi bod wrthi'n ddygn yn gweithio gyda ac yn gwrandao ar fusnes, a byddaf yn gwneud datganiad cyn bo hir.

Christine Chapman: Os yw economi Cymru i dyfu, mae'n bwysig bod busnesau a chwmnïau yn cael hynny o gymorth ag y gallant gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor penodol sydd wedi ei dargedu. Un o'r cwynion a gaf gan gwmnïau yw eu bod yn cael adborth gwael ar

about failed applications for grants or loans. Will you look at this as a priority over the next few years, particularly the way in which the Welsh Government communicates with businesses?

Edwina Hart: It is important that we communicate correctly. When businesses approach us on anything, we should immediately have the appropriate person dedicated to answer their questions. If necessary, we should also have an appropriate team for businesses that might want to come into Wales with large-scale investment or businesses that want to expand. I support very much this principle of open and transparent feedback to both successful and unsuccessful candidates, so that they can know why they were unsuccessful and how they could improve if they were to bid again. We have to deliver better quality in terms of our management systems and the approach that we take to businesses when they come to us for help and assistance.

Nick Ramsay: I am pleased to hear that you are listening and engaging with the business community—words I have been known to use myself a few times over the last few weeks. Following that excellent question about accessibility, will you tell us a bit more about how you are proposing to make yourself and your officials more directly accessible to the business community across Wales? We have heard from a number of Members today about some problems that constituents and those in small and medium-sized enterprises are having in obtaining access to you and your department. How will you address that?

Edwina Hart: It is important to recognise that politicians have always been accessible when they are elected to this place and when they are in Government. However, there has sometimes been difficulty in relation to departments. Of course, we have had churn in departments due to staff leaving on the voluntary severance scheme, and that has not helped us to have an appropriate name for people to be able to contact. Therefore, I will be dealing with those internal issues as a priority, as will the head of my department, when one is appointed. It is also important that we make it clear to people what help and

geisiadau am grantiau neu fenthyciadau a fethodd. A wnewch chi flaenoriaethu hyn dros y blynyddoedd nesaf, yn enwedig y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyfathrebu â busnesau?

Edwina Hart: Mae'n bwysig ein bod yn cyfathrebu'n gywir. Pan fo busnesau yn dod atom ar gyfer unrhyw beth, dylai'r unigolyn priodol fod ar gael ar unwaith i ateb eu cwestiynau. Os bydd angen, dylem hefyd gael tîm addas ar gyfer busnesau sydd o bosibl am ddod i Gymru gyda buddsoddiad mawr neu fusnesau sydd eisiau ehangu. Rwy'n croesawu'n mawr yr egwyddor hwn o roi adborth agored a thryloyw i ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus, fel eu bod yn gwybod pam roedent yn aflwyddiannus a sut y gallant wella pe baent yn gwneud cais eto. Mae'n rhaid i ni gynnig safon well o ran ein systemau rheoli a'r agwedd a gymerwn at fusnesau pan fyddant yn dod atom am help a chymorth.

Nick Ramsay: Rwy'n falch o glywed eich bod yn gwrando ac yn ymwneud â'r gymuned fusnes—geiriau y gŵyr pawb i mi eu defnyddio ambell waith dros yr wythnosau diwethaf. Yn dilyn y cwestiwn rhagorol hwnnw am hygyrchedd, a wnewch chi ymhelaethu ar sut rydych yn bwriadu gwneud eich hun a'ch swyddogion yn haws i gael gafael arnynt gan y gymuned fusnes ledled Cymru? Clywsom gan sawl Aelod heddiw am rai problemau y mae etholwyr a'r rhai mewn busnesau bach a chanolig eu maint yn eu cael o ran cael gafael arnoch chi a'ch adran. Sut wnewch chi ymdrin â hynny?

Edwina Hart: Mae'n bwysig cydnabod ei bod yn wastad wedi bod yn hawdd cael gafael ar wleidyddion pan gânt eu hethol i'r lle hwn a phan maent mewn Llywodraeth. Fodd bynnag, mae anhawster wedi codi weithiau o ran adrannau. Wrth gwrs, mae rhywfaint o fynd a dod wedi bod mewn adrannau oherwydd i staff adael o dan y cynllun diswyddo gwirfoddol, sydd ddim wedi ein helpu i gael enw addas i bobl gysylltu â hwy. Serch hynny, byddaf yn delio â'r problemau mewnol hynny fel blaenoriaeth, fel ag y bydd fy mhennaeth adran, pan gaiff un ei benodi. Mae hefyd yn

assistance we can give and what we cannot give, and what is and is not the role of Government. I aim to flesh that out during the next few months.

bwysig ein bod yn egluro wrth bobl ba help a chymorth y gallwn eu rhoi a beth na allwn ei roi, a beth yw a beth yw ddim rôl y Llywodraeth. Fy nod yw rhoi cig ar yr asgwrn yn yr ychydig fisoedd nesaf.

3.00 p.m.

Bethan Jenkins: Weinidog, yr wyf am ofyn cwestiwn ar y rhaglen adnewyddu economaidd. Darllenais eich erthygl yn y *Western Mail* ac yr wyf yn pryderu eich bod yn bwriadu israddio'r rhaglen drwy gynyddu nifer y panelau sector ac edrych eto ar y canolfannau technium. Mae nifer o fusnesau yn awr yn cysylltu â'ch adran i ddweud bod benthyciadau a grantiau eich adran wedi stopio gan fod adolygiad arall ar y gweill. Weinidog, pryd yr ydych yn bwriadu gwthio'r agenda hon yn ei blaen a dangos yr un dewrder â'ch rhagflaenydd drwy roi'r rhaglen adnewyddu economaidd ar waith yn llawn?

Bethan Jenkins: Minister, I want to ask about the economic renewal programme. I read your article in the *Western Mail* and I am concerned that you are going to downgrade the programme by increasing the number of sector panels and looking again at the technium centres. Many businesses are now getting in touch with your department to say that loans and grants from your department have dried up because there is another review in the pipeline. Minister, when are you going to drive this agenda forward and show the same courage as your predecessor by putting the economic renewal programme in place fully?

Edwina Hart: I am afraid that I do not recognise your comments in relation to the work that I am undertaking in my department.

Edwina Hart: Mae arnaf ofn nad wyf yn cydnabod eich sylwadau o ran y gwaith yr wyf yn ei wneud yn fy adran.

Busnesau Twristiaeth

Tourism Businesses

11. Yr Arglwydd Elis-Thomas: Beth oedd cyfanswm y buddsoddiad mewn busnesau twristiaeth yn Nwyfor Meirionnydd gan Weinidogion Cymru er 2007. *OAQ(4)0016(BET)*

11. Lord Elis-Thomas: What is the total amount invested in tourism businesses by Welsh Ministers in Dwyfor Meirionnydd since 2007. *OAQ(4)0016(BET)*

Edwina Hart: A total of £1.6 million has been invested in tourism businesses since 2007 through the former single investment fund and now the tourism investment support scheme.

Edwina Hart: Mae cyfanswm o £1.6 miliwn wedi cael ei fuddsoddi mewn busnesau twristiaeth ers 2007 drwy'r gronfa fuddsoddi sengl flaenorol ac yn awr y cynllun cymorth buddsoddi mewn twristiaeth.

Yr Arglwydd Elis-Thomas: Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw. A fyddai'r Gweinidog yn cytuno bod buddsoddiad mewn twristiaeth yn fuddsoddiad sylweddol iawn mewn gwstai megis Gwesty Tŷ Newydd yn Aberdaron a lleoedd eraill sydd yn denu ymwelwyr i ardaloedd nodedig ac yn cynnal busnes? A fyddai'r Gweinidog felly yn gallu ateb yn gadarnhaol i wahoddiad a dderbyniodd gennyf yn ddiweddar i ymweld â'r ardal ac yn enwedig i astudio effaith economaidd rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri ar dwristiaeth

Lord Elis-Thomas: Thank you very much for that answer. Does the Minister agree that investment in tourism is a very significant investment in hotels such as Tŷ Newydd Hotel in Aberdaron and other places that attract visitors to notable areas and sustain businesses? Will the Minister therefore be able to respond positively to an invitation that I extended to her recently to visit the area and to study the economic impact of the Ffestiniog and Welsh Highland railways on tourism in the area?

yn yr ardal?

Edwina Hart: Yes, I would be delighted to accept your invitation. I am looking forward to arranging a date for this.

Edwina Hart: Byddwn wrth fy modd yn derbyn eich gwahoddiad. Yr wyf yn edrych ymlaen at drefnu dyddiad ar gyfer hyn.

Lles Economaidd

Economic Wellbeing

12. Llyr Huws Gruffydd: *Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo lles economaidd cymunedau gwledig. OAQ(4)0007(BET)*

12. Llyr Huws Gruffydd: *What is the Minister doing to promote the economic well-being of rural communities. OAQ(4)0007(BET)*

Edwina Hart: We will promote the economic wellbeing of rural communities through the delivery of the rural development plan for Wales, which provides a wide range of support and funding. In addition, we will work to diversify the rural economy to ensure that fast broadband access is available in rural areas.

Edwina Hart: Byddwn yn hybu lles economaidd cymunedau gwledig drwy ddarparu cynllun datblygu gwledig ar gyfer Cymru, sy'n darparu ystod eang o gefnogaeth a chyllid. Yn ogystal, byddwn yn gweithio i arallgyfeirio'r economi wledig i sicrhau bod mynediad i fand eang cyflym ar gael mewn ardaloedd gwledig.

Llyr Huws Gruffydd: Byddwch yn ymwybodol bod gofid mawr yn rhai o drefi marchnad gogledd Cymru bod nifer o siopau bach teuluol yn cau, gan adael y trefi hynny yn mynd yn debycach i'w gilydd, wedi'u nodweddu gan yr un siopau cadwyn ym mhob man. Beth yr ydych yn bwriadu ei wneud i gynorthwyo siopau a manwerthwyr annibynnol? Cyfeiriasoch at y cynllun datblygu gwledig, ond nid wyf yn meddwl bod manwerthu i'w weld yn y cynllun hwnnw. Beth wnewch chi i'w cynorthwyo a thrwy hynny amddiffyn un o nodweddion mwyaf gwerthfawr trefi marchnad gogledd Cymru?

Llyr Huws Gruffydd: You will be aware that there is great concern in some of the market towns of north Wales that many small family shops are closing, which means that those towns are becoming more similar to each other, characterised by the same chain stores in every location. What are you going to do to assist shops and independent retailers? You mentioned the rural development plan, but I do not think that retailing comes under that programme. What will you do to assist them and thereby defend one of the most valuable characteristics of market towns in north Wales?

Edwina Hart: I can assure you that that is not an issue just in north Wales; that situation can be seen across Wales in terms of what is happening to rural towns. I will have ongoing discussions with my junior Minister about the appropriateness of giving assistance within those areas. It is important that we keep life as it is, with the diversity of shops, retail outlets and businesses.

Edwina Hart: Gallaf eich sicrhau nad yw honno'n broblem yn y gogledd yn unig; gellir gweld y sefyllfa honno ledled Cymru o ran yr hyn sy'n digwydd i drefi gwledig. Byddaf yn cael trafodaethau parhaus gyda fy is-Weinidog ynghylch priodoldeb rhoi cymorth o fewn y meysydd hynny. Mae'n bwysig ein bod yn cadw bywyd fel y mae, gydag amrywiaeth o siopau, siopau adwerthu a busnesau.

Hybu Twf Economaidd

The Encouragement of Economic Growth

13. Julie Morgan: *Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i hybu twf economaidd yng Nghymru. OAQ(4)0010(BET)*

13. Julie Morgan: *What plans does the Minister have to encourage economic growth in Wales. OAQ(4)0010(BET)*

Edwina Hart: Our plans for growth and sustainable jobs were set out in our manifesto.

Julie Morgan: Does the Minister have any proposals to extend the role of Finance Wales to expand the availability of investment capital to small and medium-sized firms as they have an excellent record in my constituency?

Edwina Hart: Yes, we are looking to explore the role of equity and finance in Wales and its impact on Finance Wales.

Darren Millar: Minister, I know that we have already discussed the issue of enterprise zones during questions today, and also privately. However, may I urge you to give serious consideration to earmarking all strategic regeneration areas in Wales as enterprise zones with additional business rate relief? Obviously, this is a key plank of your economic renewal programme for regenerating those areas that have been identified as strategic regeneration areas, including the one in my constituency. Will you give serious consideration to that, and will you involve the SRAs and the Minister with responsibility for regeneration in those discussions?

Edwina Hart: As I have indicated, I have been sensibly talking to people about the future of enterprise zones. There are a couple of outstanding matters in relation to the UK Government on which I anticipate that I will receive a response this week. I will then look further at how we can develop this policy agenda. It is important that we sometimes have a fresh pair of eyes to look at some of the issues around enterprise zones in order to see what is fit for purpose now and to avoid repeating the mistakes of the past.

Mentrau Bach a Chanolig eu Maint

14. Peter Black: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei pholisïau ar gyfer mentrau bach a chanolig eu maint. OAQ(4)0005(BET)*

Edwina Hart: I aim to improve the conditions in which all businesses, large and small, operate. Businesses need the right

Edwina Hart: Mae ein cynlluniau ar gyfer twf a swyddi cynaliadwy wedi'u nodi yn ein maniffesto.

Julie Morgan: A oes gan y Gweinidog unrhyw gynigion i ymestyn rôl Cyllid Cymru i ehangu argaeledd cyfalaf buddsoddi i gwmnïau bach a chanolig eu maint gan fod ganddynt record ardderchog yn fy etholaeth i?

Edwina Hart: Rydym yn edrych i archwilio rôl ecwiti a chyllid yng Nghymru a'i effaith ar Gyllid Cymru.

Darren Millar: Weinidog, gwn ein bod eisoes wedi trafod parthau menter yn ystod y cwestiynau heddiw, ac hefyd yn breifat. Fodd bynnag, a gaf eich annog i roi ystyriaeth o ddifri i glustnodi pob ardal adfywio strategol yng Nghymru fel parthau menter gyda rhyddhad ardrethi busnes ychwanegol? Yn amlwg, mae hyn yn elfen allweddol yn eich rhaglen adnewyddu economaidd ar gyfer adfywio'r ardaloedd hynny sydd wedi eu nodi fel ardaloedd adfywio strategol, gan gynnwys yr un yn fy etholaeth i. A wnewch chi roi ystyriaeth ddifrifol i hynny, ac a wnewch gynnwys yr ardaloedd adfywio strategol a'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros adfywio yn y trafodaethau hynny?

Edwina Hart: Fel y dywedais, yr wyf wedi bod yn siarad yn synhwyrol â phobl am ddyfodol parthau menter. Mae un neu ddau o faterion mewn perthynas â Llywodraeth y DU yr wyf yn rhagweld y byddaf yn derbyn ymateb arnynt yr wythnos hon. Byddaf yn edrych ymhellach wedyn ar sut y gallwn ddatblygu'r agenda bolisi hon. Mae'n bwysig ein bod weithiau yn cael pâr arall o lygaid i edrych ar rai o'r materion yn ymwneud â pharthau menter er mwyn gweld beth sy'n addas yn awr ac i osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol.

Small and Medium-Sized Enterprises

14. Peter Black: *Will the Minister outline her policies for small and medium sized enterprises. OAQ(4)0005(BET)*

Edwina Hart: Fy nod yw gwella'r amodau y mae pob busnes, mawr a bach, yn gweithredu. Mae busnesau angen y seilwaith,

infrastructure, skills and services. I will be reviewing what is needed by small firms to allow the real potential to thrive and grow.

Peter Black: You will know that the growth and success of small businesses is crucial to the success of the Welsh economy. To ensure that, we need to encourage more people to get involved in that sector. Are you planning to introduce an entrepreneurship strategy to assist people in setting up businesses and to encourage that particular growth?

Edwina Hart: As I indicated to you previously, I have been discussing with small businesses what they want to consider. I am minded to set up a small task and finish group with a mix of key stakeholders to develop a microbusiness strategy in Wales. Issues around entrepreneurship would then fit nicely into its programme of discussion. I want to use the sector itself, and others within industry, to help me to establish where we need to go in terms of policy. I am acutely aware that one size does not fit all.

Paul Davies: It is important to support small and medium-sized enterprises at every opportunity, and this is important to my constituency as small businesses are the backbone of the Pembrokeshire economy. A number of businesses have approached me recently expressing concern that they have to pay business rates on their empty business premises, particularly when they are in the process of possibly trying to rent or lease out their properties. This is also an issue for businesses that have, for example, built new rental units and are trying to rent them out. Will the Minister commit to looking at this issue?

Edwina Hart: I am happy to look at all issues around business rates. Earlier this year we decided to extend for a further 12 months an enhancement of the rate relief for small businesses. Therefore, around half of the small businesses in Wales will pay no business rates until 1 October 2012 and 27 per cent will have seen their business rates significantly reduce. I am always happy to look at any issues that have an impact on

y sgiliau a'r gwasanaethau. Byddaf yn adolygu'r hyn sydd ei angen ar gwmnïau bach i ganiatáu i'r potensial gwirioneddol ffynnu a thyfu.

Peter Black: Byddwch yn gwybod bod twf a llwyddiant busnesau bach yn hanfodol i lwyddiant economi Cymru. Er mwyn sicrhau hynny, mae angen i ni annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y sector hwnnw. A ydych yn bwriadu cyflwyno strategaeth entrepreneuriaeth i gynorthwyo pobl i sefydlu busnesau ac i annog y twf penodol hwnnw?

Edwina Hart: Fel y dywedais wrthyfch o'r blaen, yr wyf wedi bod yn trafod â busnesau bach yr hyn y maent am eu hystyried. Yr wyf yn bwriadu sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen bach gyda chymysgedd o randdeiliaid allweddol i ddatblygu strategaeth microfusnes yng Nghymru. Byddai materion yn ymwneud ag entrepreneuriaeth yna yn cyd-fynd yn dda gyda'i rhaglen drafod. Yr wyf am ddefnyddio'r sector ei hun, ac eraill o fewn y diwydiant, i fy helpu i sefydlu lle mae angen i ni fynd o ran polisi. Yr wyf yn ymwybodol iawn nad yw un maint yn addas i bawb.

Paul Davies: Mae'n bwysig cefnogi mentrau bach a chanolig eu maint ar bob cyfle, ac mae hyn yn bwysig i fy etholaeth gan mai busnesau bach yw asgwrn cefn economi Sir Benfro. Mae nifer o fusnesau wedi dod ataf yn mynegi pryder yn ddiweddar eu bod yn gorfod talu ardrethi busnes ar eu safleoedd busnes gwag, yn enwedig pan eu bod yn y broses o geisio rhentu neu brydlesu eu heiddo. Mae hwn hefyd yn fater i fusnesau sydd wedi, er enghraifft, adeiladu unedau ar rent newydd ac yn ceisio eu rhentu allan hefyd. A wnaiff y Gweinidog ymrwymo i edrych ar y mater hwn?

Edwina Hart: Yr wyf yn hapus i edrych ar yr holl faterion sy'n ymwneud â threthi busnes. Yn gynharach eleni, penderfynwyd ymestyn gwella'r rhyddhad ardrethi i fusnesau bach am 12 mis arall. Felly, ni fydd tua hanner y busnesau bach yng Nghymru yn talu unrhyw ardrethi busnes tan 1 Hydref 2012 a bydd 27 y cant wedi gweld eu trethi busnes yn lleihau yn sylweddol. Yr wyf bob amser yn fodlon edrych ar unrhyw faterion

small businesses, particularly if I can help to assist them in these very difficult economic times.

sy'n cael effaith ar fusnesau bach, yn enwedig os gallaf helpu i'w cynorthwyo yn ystod y cyfnod economaidd anodd iawn hwn.

Pwynt o Drefn Point of Order

The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews): I rise under Standing Order No. 13.9 to ask you to request the Conservative Member for North Wales to withdraw an allegation that she made during questions when she said that I had never visited Glyndŵr University. In fact, having checked with my private office, I visited Glyndŵr University within my first six months as Minister for education, along with the former Assembly Member for Clwyd South, Karen Sinclair. I have met representatives of that university on a number of occasions since, including with my colleague the Assembly Member for Wrexham at the time that the memorandum of agreement was signed between Yale College and Glyndŵr University. Will you ask the Member to withdraw that remark? It was discourteous and it was out of order.

Antoinette Sandbach: May I reply to that? I apologise and will withdraw if the suggestion is two years. I will change that to say 'certainly not in the last year'. I will correct that—

Leighton Andrews: You said that I had never visited it.

The Presiding Officer: Order.

Antoinette Sandbach: Presiding Officer, I have done a Google search to establish whether or not that Minister attended that university. I have had other information to suggest that he had not attended that university. I am perfectly aware that he has been to Yale College where he met representatives from Glyndŵr University. However, he has not been to the OpTIC Technium centre in St Asaph.

The Presiding Officer: Have you finished?

Antoinette Sandbach: Yes.

Y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews): Yr wyf yn codi o dan Reol Sefydlog Rhif 13.9 i ofyn i chi ofyn i'r Aelod Ceidwadol dros Ogledd Cymru i dynnu'n ôl honiad a wnaeth yn ystod y cwestiynau pan ddywedodd nad oeddwn erioed wedi ymweld â Phrifysgol Glyndŵr. Yn wir, ar ôl gwirio gyda fy swyddfa breifat, fe ymwelais â Phrifysgol Glyndŵr yn ystod fy chwe mis cyntaf fel Gweinidog dros addysg, ynghyd ag Aelod blaenorol y Cynulliad dros Dde Clwyd, Karen Sinclair. Yr wyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr y brifysgol ar nifer o achlysuron ers hynny, gan gynnwys gyda fy nghydweithiwr yr Aelod Cynulliad dros Wrecsam pan arwyddwyd y memorandwm cytundeb rhwng Coleg Iâl a Phrifysgol Glyndŵr. A wnewch chi ofyn i'r Aelod dynnu'r sylw hwnnw yn ôl? Yr oedd yn anghwrtais ac allan o drefn.

Antoinette Sandbach: A gaf ymateb i hynny? Ymddiheuraf a thynnaf y sylw yn ôl os yr awgrym yw dwy flynedd. Newidiaf hynny i ddweud 'yn sicr nid yn y flwyddyn ddiwethaf'. Cywiraf hynny—

Leighton Andrews: Dywedoch nad oeddwn erioed wedi ymweld â hi.

Y Llywydd: Trefn.

people feel about this institution and about us, the people who are here to represent their views. However, people in my constituency have already told me that they think that the perceived stance taken by the First Minister is all too evident—he was the Minister responsible for TAN 8, and now he and his Government are hastily trying to wash their hands of what has gone before, in a vain attempt to pass the blame onto someone else, namely the UK Government. It was his policy, not the UK Government's, that actively encouraged windfarm developers into mid Wales.

Simon Thomas: I thank Russell George for giving way. He will know that I share at least some of his concerns regarding the impact of these developments, in terms of pylons and substations, in the area. However, will he make his party's position clear? He has said that TAN 8 is driving this process forward, but the decision-making still lies in Westminster. Will he and his party now come out in support of devolving windfarm projects, so that the decision-making can be done by the National Assembly?

Russell George: I thank the Member for Mid and West Wales for his contribution; I will come on to that issue.

However, this is more than just a Montgomeryshire focus. TAN 8 affects all parts of Wales, as was demonstrated by the groups of people protesting here at the end of May. What the statement last Friday clearly demonstrated was that the document itself is fundamentally flawed and that the Government's planning policy for renewable energy is in urgent need of review.

I am conscious that this debate is not about the First Minister's statement, but there are three specific issues addressed in his statement—capacity limits, infrastructure and scale of development—that prove that there are glaring policy gaps that the Welsh Government must fill if it wants to progress in a coherent and strategic way. The first issue is capacity limits. The First Minister's statement maintains that the indicative capacities laid out in TAN 8 in 2005 reflected the view of the potential impact at the time.

pobl Cymru yn deimlo am y sefydliad hwn ac amdanom ni, y bobl sydd yma i gynrychioli eu barn. Fodd bynnag, mae pobl yn fy etholaeth eisoes wedi dweud wrthyf eu bod yn credu bod y safiad tybiedig a gymerwyd gan y Prif Weinidog yn rhy amlwg—ef oedd y Gweinidog oedd yn gyfrifol am TAN 8, ac yn awr mae ef a'i Lywodraeth yn ceisio ar frys i olchi'u dwylo o'r hyn sydd wedi mynd o'r blaen, mewn ymgais ofer i feio rhywun arall, sef Llywodraeth y DU. Ei bolisi ef ydoedd, nid polisi Llywodraeth y DU, a oedd yn annog yn weithredol datblygwyr ffermydd gwynt i ganolbarth Cymru.

Simon Thomas: Diolch i Russell George am dderbyn ymyriad. Fe wŷr fy mod yn rhannu o leiaf rai o'i bryderon am effaith y datblygiadau hyn, o ran peilonau ac is-orsafodd, yn yr ardal. Fodd bynnag, a wnaiff wneud safbwynt ei blaid yn glir? Dywedodd bod TAN 8 yn gyrru'r broses hon yn ei blaen, ond mae'r broses gwneud penderfyniadau yn dal yn San Steffan. A fydd ef a'i blaid yn awr yn datgan eu cefnogaeth i ddatganoli prosiectau ffermydd gwynt, fel bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu?

Russell George: Diolch i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru am ei gyfraniad; byddaf yn dod at y mater hwnnw.

Fodd bynnag, mae hyn yn fwy na dim ond canolbwyntio ar Sir Drefaldwyn. Mae TAN 8 yn effeithio ar bob rhan o Gymru, fel y dangoswyd gan y grwpiau o bobl yn protestio yma ddiwedd mis Mai. Yr hyn y mae'r datganiad dydd Gwener diwethaf yn ddangos yn glir oedd bod y ddogfen ei hun yn sylfaenol ddiffygiol a bod polisi cynllunio'r Llywodraeth ar gyfer ynni adnewyddadwy angen adolygiad brys.

Gwn nad yw'r ddadl hon yn ymwneud â datganiad y Prif Weinidog, ond mae tri mater penodol yn ei ddatganiad—capasiti terfynau, isadeiledd a maint y datblygiad—sy'n profi bod bylchau polisi amlwg y maen rhaid i Lywodraeth Cymru eu llenwi os yw'n awyddus i symud ymlaen mewn modd cydlynol a strategol. Y mater cyntaf yw cyfyngiadau capasiti. Mae datganiad y Prif Weinidog yn haeru bod y gallu dangosol a nodir yn TAN 8 yn 2005 yn adlewyrchu barn yr effaith bosibl ar y pryd. Nawr bod

Now that developer interest had exceeded those capacities in certain strategic search areas, a cap must be introduced. In his statement he said:

‘In our view the TAN 8 capacities should be regarded as upper limits and we call upon UK Government to respect this position’.

What is identified in TAN 8 is that

‘capacity targets . . . are not to be seen as the definitive capacity for the areas’

but that they are stated to aid the planning process. This reflects the Government’s energy policy statement, published last year, which indicates that the Government’s aspiration is to increase onshore wind capacity to 2 GW by 2015-17. The immediate question that emerges is: what set of figures is the Government standing by now? Has the Government completely forgotten about the aspiration figure? If the Government is sticking by both statements, it is saying that any additional capacity to meet the 2015-17 target will have to come from development outside of the strategic search areas.

3.30 p.m.

diddordeb datblygwyr wedi rhagori’r galluoedd hynny mewn ardaloedd chwilio strategol penodol, rhaid i gap gael ei gyflwyno. Yn ei ddatganiad, dywedodd:

‘Yn ein barn ni dylai galluoedd TAN 8 gael eu hystyried yn derfynau uchaf ac rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i barchu’r sefyllfa hon’.

Beth a nodir yn TAN 8 yw bod

ni ddylid gweld targedau capasiti fel y cynhwysedd terfynol ar gyfer yr ardaloedd

ond eu bod yn cael eu nodi i gynorthwyo’r broses gynllunio. Mae hyn yn adlewyrchu datganiad y Llywodraeth ar ynni polisi, a gyhoeddwyd y llynedd, sy’n dangos mai dyhead y Llywodraeth yw cynyddu capasiti gwynt ar y tir i 2 GW erbyn 2015-17. Y cwestiwn uniongyrchol sy’n dod i’r amlwg yw: pa set o ffigurau y mae’r Llywodraeth yn eu cefnogi nawr? A yw’r Llywodraeth wedi anghofio’n llwyr am y ffigur dyhead? Os yw’r Llywodraeth yn glynu wrth y ddau ddatganiad, mae’n dweud y bydd rhaid i unrhyw gapasiti ychwanegol er mwyn cyrraedd y targed 2015-17 ddod o ddatblygiad y tu allan i’r ardaloedd chwilio strategol.

If that is the case, then what is the point of TAN 8? We know that the First Minister has already openly criticised the model in England. The whole purpose of TAN 8 is to restrict and control development, but it seems that that is now in doubt. If we look at the capacity of energy infrastructure, the statement on Friday suggests that the proposals for major new overhead grid infrastructure have only emerged because of the influx of developer interest. Some might say that the Government was naive in its projections. Yet, in annex c of TAN 8, it is clearly stated that re-enforcement of the network through the construction of new high-voltage distribution lines in mid Wales would be vital in order to realise any significant generating capacity. Moreover, it goes on to say that

‘The Assembly Government strongly supports the principle of this scheme.’

So, which explanation is right? If it has backtracked from the TAN 8 position, then that proves that it is in urgent need of review. If we examine the scale of development, the statement made on Friday would suggest that the Government had been surprised and overwhelmed by the scale of developer interest. It also suggests that all planning control decisions are now somehow the direct responsibility of the UK Government. That is simply not the case. Last year the Welsh Government commissioned Arup to undertake a reassessment and validation paper on the strategic search areas. That report, published last July, showed that, from the base evidence in March, applications in the pipeline not only vastly exceeded Government targets but were well beyond any indicative capacity targets that the Government now wants to fall back on. In fact, the Arup report showed that there were 2,300 MW of development applications under consideration. If the Government was so concerned about overcapacity, why did it not say anything at that stage?

The Arup paper goes on to identify where exactly development planning control lies. It

Os yw hynny'n wir, yna beth yw pwynt TAN 8? Rydym yn gwybod bod y Prif Weinidog eisoes wedi beirniadu'r model yn Lloegr yn agored. Holl bwrpas TAN 8 yw cyfyngu a rheoli datblygiad, ond mae'n ymddangos bod hynny yn awr dan amheuaeth. Os ydym yn edrych ar gapasiti seilwaith ynni, mae'r datganiad ddydd Gwener yn awgrymu bod y cynigion ar gyfer seilwaith grid uwchben newydd o bwys wedi dod i'r amlwg dim ond oherwydd y diddordeb sylweddol o du datblygwr. Efallai y bydd rhai yn dweud bod y Llywodraeth wedi bod yn naif yn ei amcanestyniadau. Eto i gyd, yn atodiad c o TAN 8, fe nodir yn glir y byddai atgyfnerthu'r rhwydwaith drwy adeiladu llinellau dosbarthu foltedd uchel newydd yng nghanolbarth Cymru yn hanfodol er mwyn gwireddu unrhyw gapasiti cynhyrchu sylweddol. Ar ben hynny, mae'n mynd ymlaen i ddweud bod

‘Llywodraeth y Cynulliad yn gryf o blaid egwyddor y cynllun hwn.’

Felly, pa esboniad sy'n iawn? Os yw wedi cefnu ar safle TAN8, yna mae hynny'n profi bod angen adolygiad brys arno. Os byddwn yn archwilio maint y datblygiad, byddai'r datganiad a wnaethpwyd ddydd Gwener yn awgrymu bod y Llywodraeth wedi synnu ac wedi'i lethu gan faint diddordeb gan ddatblygwyr. Mae hefyd yn awgrymu bod yr holl benderfyniadau rheoli cynllunio bellach rywsut yn gyfrifoldeb uniongyrchol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Nid yw hynny'n wir. Y llynedd, comisiynodd Llywodraeth Cymru Arup i wneud ailasesiad a phapur dilysu ar yr ardaloedd chwilio strategol. Dangosodd yr adroddiad hwnnw, a gyhoeddwyd fis Gorffennaf diwethaf, ar sail y dystiolaeth sylfaen ym mis Mawrth, fod y ceisiadau sydd ar y gweill nid yn unig yn mynd lawer ymhellach na thargedau'r Llywodraeth ond ymhell tu hwnt i unrhyw dargedau capasiti dangosol y mae'r Llywodraeth yn awr am ddychwelyd atynt. Yn wir, dangosodd adroddiad Arup fod 2,300 MW o geisiadau datblygu dan sylw. Os yw'r Llywodraeth yn pryderu cymaint am orddarpariaeth, pam na ddywedodd unrhyw beth bryd hynny?

Mae'r papur Arup yn mynd ymlaen i nodi ble yn union y mae rheolaeth cynllunio

is clear that, of the applications in the pipeline for decision, over 60 per cent would be decided by local authorities in conjunction with other stakeholders and the Welsh Government, with the rest for decision by the Infrastructure Planning Commission. Moreover, when the IPC makes those decisions, it is required to do so on the back of UK Government national policy statements, which, although still in draft form, will be defined around Welsh planning policy. That is clearly stated in paragraph 1.3 of TAN 8. I hope that that answers, in part, the question from Simon Thomas. Renewable energy decisions have been made here in Wales and the Government must take responsibility for that. However, in light of the statement on Friday, it is now unclear what guidance local authority planning officers should be using for material consideration. Is it TAN 8, or has that been superseded by the First Minister's statement? Clarity is desperately needed.

The fundamental question is: why does the Government not want a review? It says that a review has been conducted to meet the commitment laid down in 'One Wales'. In reality, what has been conducted is a technical review, little more than a paper exercise, which has probably confused planning officers rather than ensured strategic coherence. There is also the issue of consistency. Let us look at the example of 'Technical Advice Note 6: Planning for Sustainable Rural Communities'. It has recently been reviewed by the Government with full public consultation. Why should TAN 8 not be subject to the same process? Is the Government concerned that, if it was reviewed, TAN 8 would be subject to a formal strategic environmental assessment process, which would probably blow a hole right through the policy document itself? That is possible, but it certainly should not be a reason to hide behind.

My final point is in relation to technology. I agree with the First Minister that renewable energy technology has moved on since TAN

datblygiad yn gorwedd. Mae'n amlwg, o'r ceisiadau sydd yn aros am benderfyniad, y byddai dros 60 y cant yn cael ei benderfynu gan awdurdodau lleol ar y cyd â rhanddeiliaid eraill a Llywodraeth Cymru, gyda'r gweddill i'w penderfynu gan y Comisiwn Cynllunio Seilwaith. Ar ben hynny, pan fydd y Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn gwneud y penderfyniadau hynny, mae'n ofynnol i wneud hynny ar gefn datganiadau polisi cenedlaethol Llywodraeth y DU, sydd, er yn dal ar ffurf drafft, yn cael eu diffinio o gwmpas polisi cynllunio Cymru. Mae hynny wedi'i ddatgan yn glir ym mharagraff 1.3 o TAN 8. Yr wyf yn gobeithio bod hynny'n ateb, yn rhannol, y cwestiwn gan Simon Thomas. Mae penderfyniadau ynni adnewyddadwy wedi cael eu gwneud yma yng Nghymru ac mae'n rhaid i'r Llywodraeth gymryd cyfrifoldeb asm hynny. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r datganiad ddydd Gwener, nid yw'n glir pa arweiniad y dylai swyddogion cynllunio awdurdodau lleol ei ddefnyddio ar gyfer ystyriaeth berthnasol nawr. Ai TAN 8, neu a yw hynny wedi'i ddisodli gan ddatganiad y Prif Weinidog? Mae angen eglurder yn ddirfawr.

Y cwestiwn sylfaenol yw: pam nad yw'r Llywodraeth eisiau adolygiad? Mae'n dweud bod adolygiad wedi cael ei gynnal i gwrdd â'r ymrwymiad a osodwyd yn 'Cymru'n Un'. Mewn gwirionedd, yr hyn sydd wedi cael ei gynnal yw adolygiad technegol, ychydig yn fwy nag ymarferiad ar bapur, sydd, yn ôl pob tebyg, wedi drysu swyddogion cynllunio yn hytrach na sicrhau cydlynid strategol. Mae cysondeb hefyd yn fater i'w drafod. Gadewch inni edrych ar 'Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy' yn enghraifft. Mae wedi cael ei adolygu'n ddiweddar gan y Llywodraeth, gydag ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Pam na ddylai TAN 8 fod yn ddarostyngedig i'r un broses? A yw'r Llywodraeth yn pryderu, pe bai'n cael ei adolygu, y byddai TAN 8 yn destun proses asesiad amgylcheddol strategol ffurfiol, a fyddai'n debygol o danseilio'r ddogfen bolisi'n gyfan gwbl? Mae hynny'n bosibl, ond yn sicr ni ddylai fod yn rheswm i guddio y tu ôl iddo.

Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud â thechnoleg. Yr wyf yn cytuno â'r Prif Weinidog fod technoleg ynni adnewyddadwy

8 was drafted. That proves that the guidance is outdated. The initial guidance was too heavily focused on wind energy—12 pages in TAN 8 are dedicated to wind energy, compared with just three for all other types. As more technologies are researched, developed and brought to the market, I believe that the Government has a fundamental duty to explore and invest in the widest mix of energy generation and go beyond just wind energy. That is vital to meet the medium-term and long-term carbon reduction targets. Therefore, I am pleased that the Government has shown that it intends to support at least the third part of our motion. The statement made last Friday demonstrates progress and shows that the Government is willing to listen, but it has thrown up more questions than answers. The First Minister said back in 2005 that TAN 8 should be reviewed in the next decade. That time is here, so let us have that review now.

Gwelliant 2 Jane Hutt

Dileu pwynt 1a.

Gwelliant 3 Jane Hutt

Dileu pwynt 1b.

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths): Cynigiaf welliannau 1 a 2 yn enw Jane Hutt.

Gwelliant 1 Jocelyn Davies

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn gwahodd y pwyllgor cyfrifol i gynnal ymchwiliad i faterion effeithiolrwydd ynni ac amgylcheddol polisi Cynllunio ac Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth Cymru ac i adrodd cyn pen tri mis o ddechrau tymor yr Hydref.

Yr Arglwydd Elis-Thomas: Cynigiaf welliant 1 yn enw Jocelyn Davies.

wedi symud ymlaen ers i TAN 8 gael ei ddrafftio. Mae hynny'n profi bod y canllawiau yn hen. Mae'r canllawiau cychwynnol yn canolbwyntio ormod ar ynni gwynt—mae 12 tudalen yn TAN 8 yn ymroddedig i ynni gwynt, o'i gymharu â dim ond tri ar gyfer pob math arall. Wrth i fwy o dechnolegau gael eu hymchwilio, eu datblygu a'u cyflwyno i'r farchnad, yr wyf yn credu bod gan y Llywodraeth ddyletswydd sylfaenol i archwilio a buddsoddi yn y gymysgedd ehangaf o gynhyrchu ynni a mynd y tu hwnt i ynni gwynt yn unig. Mae hynny'n hanfodol er mwyn cwrrd â'r targedau lleihau carbon tymor canolig a hirdymor. Felly, yr wyf yn falch bod y Llywodraeth wedi dangos ei bod o leiaf yn bwriadu cefnogi'r drydedd ran i'n cynnig. Mae'r datganiad a wnaed ddydd Gwener diwethaf yn dangos cynnydd ac yn dangos bod y Llywodraeth yn barod i wrando, ond mae wedi codi mwy o gwestiynau nag atebion. Dywedodd y Prif Weinidog yn ôl yn 2005 y dylai TAN 8 gael ei adolygu yn ystod y degawd nesaf. Mae'r amser hwnnw wedi dod, felly gadewch i ni gael yr adolygiad hwnnw yn awr.

Amendment 2 Jane Hutt

Delete point 1a.

Amendment 3 Jane Hutt

Delete point 1b.

The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths): I move amendments 2 and 3 in the name of Jane Hutt.

Amendment 1 Jocelyn Davies

Insert as new point 1 and renumber accordingly:

Invites the responsible committee to undertake an inquiry into the environmental and energy effectiveness of Welsh Government Planning and Renewable Energy policy and to report within three months of the start of the Autumn term.

Lord Elis-Thomas: I move amendment 1 in the name of Jocelyn Davies.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Cynulliad Cenedlaethol am ei ymddiriedaeth ynof fi fel Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd newydd, a hoffwn longyfarch Russell ac aelodau eraill y pwyllgor. Yr wyf yn sicr y byddwn yn agor pwyllgor eithaf dadleuol a diddorol yn hanes y Cynulliad os yw'r pwnc sydd ger ein bron heddiw yn arwydd o'r hyn sydd i ddod.

Mae'n bleser gennyf gynnig y gwelliant hwn oherwydd ei fod yn rhoi cyfle i ni fel pwyllgor gychwyn ar waith a fydd yn dod â'r ddadl am ynni adnewyddol ac, yn bwysicach, am y newid yn yr hinsawdd sy'n yriant i'r polisi hwnnw, yn ôl i'r Cynulliad ei hun a'r fframwaith ddemocrataidd lle dylai'r ddadl honno gael ei chynnal.

Diolchaf i Russell am y cynnig a'r ddadl hon heddiw, ond yr wyf yn gobeithio nad yw'r ffaith bod y Ceidwadwyr Cymreig yn gosod y ddadl hon gerbron yn awgrymu eu bod yn dilyn llwybr a gaiff ei ddilyn heddiw ac yfory o bosibl gan y Ceidwadwyr yn Senedd Ewrop, lle y maent—*[Torri ar draws.]* Nid wyf eisiau gormod o weiddi o'r ochr hon, os gwelwch yn dda, rhag ofn i chi fy nhaflu oddi ar fy mhwn. Yn Senedd Ewrop mae'r Ceidwadwyr wedi ymddangos i fod yn wadwyr newid hinsawdd ac maent yn gwrthwynebu targedau ar gyfer ymateb i newid hinsawdd. Yr wyf ond yn rhoi rhybudd bach o ran hynny.

Yn ogystal, hoffwn bwysleisio'r gwahaniaeth a gyfeiriodd fy nghyfaill Simon Thomas ato. Mae angen i ni wybod pwy sy'n gyrru polisi ynni'r Ceidwadwyr yng Nghymru. Ai Charles Hendry a'i Weinidog yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, neu'r fath o agwedd a welwn heddiw ac a welsom yn arbennig yn ystod yr etholiad gan fy nghyfaill a chyn-Aelod yr wyf wedi anghytuno ag ef dros y blynyddoedd ar sawl mater, Glyn Davies? Yr hyn a welsom oedd y dacteg glasurol a ddefnyddiwyd yn y gorffennol gan ambell i blaid arall yng Nghymru, sef bod y Llywodraeth yn San Steffan yn dilyn polisi ond bod y blaid yng Nghymru'n gwrthwynebu'r polisi gan roi'r argraff ar gyhoedd dryslyd fod y blaid honno'n cefnogi'r ddwy ochr yn erbyn y canol. Nid wyf yn edrych ar y grŵp ar y chwith i mi yn

First, I wish to thank the National Assembly for placing its trust in me as Chair of the new Environment and Sustainability Committee, and I wish to congratulate Russell and other members of the committee. I am certain that we will be opening a relatively controversial and interesting committee in the Assembly's history if the subject under discussion today is a sign of things to come.

I am pleased to propose this amendment as it gives an opportunity for us as a committee to commence work which will bring back the debate on renewable energy, and, more importantly, the climate change which drives that policy, back to the Assembly itself and the democratic framework where that debate should be held.

I thank Russell for the proposal and for this debate today, but I hope that the fact that the Welsh Conservatives are proposing the debate does not suggest that they are following a path that might be followed today and tomorrow by the Conservatives in the European Parliament, where they—*[Interruption.]* I do not wish to hear too much shouting from this side, if you please, in case you throw me off topic. The Conservatives in the European Parliament appear to be climate change deniers and they oppose targets for responding to climate change. I am only sounding a note of caution in that regard.

I also wish to emphasise the difference that my friend Simon Thomas referred to. We need to know who is driving the Conservatives' energy policy in Wales. Is it Charles Hendry and his Minister in the Department of Energy and Climate Change, or the kind of attitude that we see today and which we saw particularly during the election from my friend and former Member with whom I have disagreed many times over the years, Glyn Davies? What we saw was the classic tactic which has been used by one or two other parties in Wales in the past, namely that the Westminster Government follows a policy but the party in Wales opposes the policy giving the impression to a confused public that that party supports both sides against the middle. I am not looking at the group to my left in particular when I mention

arbennig wrth sôn am enghreifftiau o hynny, ac ni af ar ôl hynny achos nid wyf am golli cefnogaeth neb cyn i ni gychwyn arni fel pwyllgor. Fodd bynnag, mae'n ddiddorol bod y dacteg hon bellach wedi cael ei mawbysiadu gan y Ceidwadwyr.

Yr wyf yn ymwybodol o'r sefyllfa sy'n wynebu'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd a'r penderfyniadau y bydd yn rhaid eu gwneud ar bum cais mawr dros 50 MW ar gyfer datblygiadau ynni trydan yng Nghymru. Yr wyf hefyd yn ymwybodol o agwedd y Gweinidog, Charles Henry, tuag at hynny. Efallai y bydd cyfle i Geidwadwyr Cymru esbonio'u safbwynt yn nes ymlaen.

Daw hyn â ni at y Prif Weinidog. A yw hon yn parhau'n ddogfen y mae Llywodraeth Cymru heddiw yn ei harddel? Nid oes bwys gennyf am yr hyn yr ydych yn ei wneud ar rai materion polisi, ond yr wyf yn gwbl wrthwynebus i unrhyw ymgais gan ein cyn-gymheiriad mewn Llywodraeth i gael gwared ar waith caled Jane Davidson ar y pwnc hwn. Yr wyf yn gwbl ymroddedig i TAN 8 o hyd. Yr wyf eisiau ei weld yn cael ei ail-drafod, ond yr wyf yn sicr yn gefnogol i'r ddogfen.

Mae cwestiynau mwy anodd, a bydd yn rhaid imi gyfeirio atynt yn sydyn. Beth sy'n digwydd bellach i'r ardaloedd chwilio strategol lle mae gwaith wedi ei wneud arnynt ac mae cwmnïau wedi buddsoddi ynddynt? Beth sydd wedi digwydd i'r targedau? Beth fydd yn digwydd i'r holl sefyllfa lle mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am hynny ac wedi bod yn barod i gefnogi?

Dyna ddigon. Mae'r Llywydd yn barod wedi rhoi arwydd o rybudd imi. Mae'n amlwg nad wyf eto wedi dysgu amseru fy areithiau.

Gwelliant 4 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad oedd datganiad ysgrifenedig y Prif Weinidog ar 17 Mehefin yn cynnwys ymrwymiad i ddiwygio TAN 8.

Gwelliant 5 Peter Black

examples of that, and I will not go down that road as I do not want to lose anyone's support before we commence our work as a committee. However, it is interesting that this tactic has now been adopted by the Conservatives.

I am aware of the situation facing the Department of Energy and Climate Change and the decisions that will have to be made on five large over 50 MW applications for electricity energy developments in Wales. I am also aware of the attitude of the Minister, Charles Hendry, towards that. Perhaps the Welsh Conservatives will have an opportunity to explain their position later.

That brings us to the First Minister. Does this remain a document that the Welsh Government wishes to subscribe to? I do not care what you do on some policy matters, but I am completely opposed to any attempt by our former partners in Government to ride roughshod over Jane Davidson's hard work on this subject. I am still completely committed to TAN 8. I want to see it being re-discussed, but I am certainly supportive of the document.

There are more difficult questions, and I will have to refer to them immediately. What is happening to the strategic search areas on which work has been done and in which companies have invested? What has happened to the targets? What will happen to the whole scenario for which Forestry Commission Wales and the Welsh Government are responsible and have been ready to support?

That is enough. The Presiding Officer has already indicated that my time is up. I have obviously not yet learned to time my speeches.

Amendment 4 Peter Black

Add as a new point at end of motion:

Regrets that the First Minister's written statement on 17th June did not include a commitment to revise TAN 8.

Amendment 5 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y byddai mwy o gymysgedd o ffynonellau ynni adnewyddadwy, yn cynnwys gwynt ar y môr, ynni'r llanw, a microgynhyrchu, yn lleihau'r angen yng Nghymru am y cynnydd sylweddol mewn capasiti gwynt ar y tir.

William Powell: I move amendments 4 and 5 in the name of Peter Black.

We in the Welsh Liberal Democrats are, and always have been, clear that we need to work much harder to reduce our energy consumption as a nation and to find cleaner and more sustainable ways of generating power. While Wales must find a way of reducing its over-reliance on fossil fuels, that cannot be achieved at the expense of arguably our finest asset, our beautiful countryside. The hub and transmission power lines that are currently threatening mid Wales are poorly conceived, and the electricity companies need to go back to the drawing board. The Welsh Liberal Democrats are resolute that we want to see greater investment in offshore tidal and wind resources, where developments do not adversely affect populations. We also strongly advocate the development of small-scale community renewable energy projects, rather than large-scale undertakings.

The Welsh Liberal Democrats are committed to a fundamental revision of TAN 8, as we stated in our manifesto for this year's elections. That has been called for by communities throughout Wales, from Abermule to Brechfa Forest, and from Cefn Coch to Llanbryn-mair.

Amendment 4 refers to the statement that was released by the First Minister last week. At that time, I gave a cautious welcome to it. I and my colleagues in the Welsh Liberal Democrats are pleased that the First Minister brought up the issue of devolving powers over energy policy to Wales when he attended the British-Irish Council. However, there was one glaring omission in the

Add as a new point at end of motion:

Believes that a greater mix of renewable energy sources, including offshore wind, tidal and microgeneration would reduce Wales' need for significant increases in onshore wind capacity.

William Powell: Cynigiau welliannau 4 a 5 yn enw Peter Black.

Rydym ni yn Nematiaid Rhyddfrydol Cymru yn glir, a bob amser wedi bod yn glir, fod angen i ni weithio'n llawer caletach i leihau ein defnydd o ynni fel cenedl ac i ddod o hyd i ffyrdd glanach a mwy cynaliadwy o gynhyrchu ynni. Er bod yn rhaid i Gymru ddod o hyd i ffordd o leihau ei or-ddibyniaeth ar danwydd ffosil, ni ellir cyflawni hynny ar draul beth y gellid dadlau yw ein hased gorau, sef ein hardaloedd gwledig hardd. Mae'r ganolfan a'r llinellau dosbarthu pŵer sydd ar hyn o bryd yn bygwth canolbarth Cymru wedi cael eu cynllunio'n wael, ac mae angen i'r cwmnïau trydan fynd yn ôl i'r dechrau. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn benderfynol ein bod am weld mwy o fuddsoddi mewn adnoddau llanw a gwynt ar y môr, lle nad yw datblygiadau yn cael effaith andwyol ar y poblogaethau. Rydym hefyd yn argymhell yn gryf y gwaith o ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol ar raddfa fach, yn hytrach na phrosiectau ar raddfa fawr.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi ymrwmo i adolygiad sylfaenol o TAN 8, fel y nodwyd yn ein manifesto ar gyfer etholiadau eleni. Mae cymunedau ledled Cymru, o Abermwl i Goedwig Brechfa, ac o Gefn Coch i Lanbryn-mair wedi galw am hynny.

Mae gwelliant 4 yn cyfeirio at y datganiad a ryddhawyd gan y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf. Ar y pryd, rhoddais groeso gofalus iddo. Rwyf i a'm cydweithwyr yn Nematiaid Rhyddfrydol Cymru yn falch bod y Prif Weinidog wedi cyfeirio at y mater o ddatganoli pwerau dros bolisi ynni i Gymru pan oedd yn bresennol yn y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Fodd bynnag, roedd

statement; it is regrettable that the First Minister made no commitment in it to the revision of TAN 8. Instead, it appears that he was content to hide behind the proposal that the UK Government is responsible for this area, and, indeed, to maintain his stance that it was all Westminster's doing and nothing to do with us.

Simon Thomas: I would just like to read out a quotation to William, as he has mentioned Westminster.

'I wish our fellow country people were more open-minded about onshore wind. It is the most competitive of renewable technologies, on a base with nuclear...It is the future of low cost electricity.'

That was said by someone called Chris Huhne. Does he really want to rely on Ministers in Westminster to decide on onshore wind developments, because he will be giving the go-ahead to onshore windfarms?

William Powell: It is our policy to devolve energy policy to Wales. That is quite clear. [Interruption.] Okay, we have further work to do in that area, but this is a process, not an event. That is our commitment.

We need to undertake a fundamental review of TAN 8. I, like many others in the Chamber, have been inundated with letters and e-mails and have been approached by concerned members of the community, both from the areas affected as well as from elsewhere, to whom our countryside is precious. There is an overwhelming desire for the review that we have been demanding. The people who stand to be affected by this issue want that review, yet the Government has yet to make a commitment. Today, I ask again: will the Minister make a commitment to a fundamental revision of technical advice note 8, and if not, why not? Has the Minister forgotten that TAN 8 is Welsh Government policy? Since TAN 8 was introduced in 2005, the Welsh Government has increased the target for onshore wind. The Government cannot have it both ways. We agree that these powers should be devolved, but we object to

un diffyg amlwg yn y datganiad; mae'n anffodus na wnaeth y Prif Weinidog unrhyw ymrwymiad ynddo i adolygu TAN 8. Yn hytrach, mae'n ymddangos ei fod yn fodlon cuddio y tu ôl i'r cynnig mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y maes hwn ac, yn wir, i gynnal ei safbwynt mai San Steffan a wnaeth hyn ac nad oedd yn ddim byd i'w wneud â ni.

Simon Thomas: Hoffwn ddarllen dyfyniad i William, gan ei fod wedi sôn am San Steffan.

Yr wyf yn dymuno y byddai ein cyd-drigolion yng nghefn gwlad yn meddu ar feddwl mwy agored am wynt ar y tir. Dyma'r dechnoleg adnewyddadwy mwyaf cystadleuol, ar yr un lefel ag ynni niwclear...Dyma ddyfodol trydan cost isel.

Cafodd hynny ei ddweud gan rywun o'r enw Chris Huhne. A yw e wir am ddibynnu ar Weinidogion yn San Steffan i benderfynu ar ddatblygiadau gwynt ar y tir, oherwydd bydd ef yn rhoi sêl ei fendith i ffermydd gwynt ar y tir?

William Powell: Ein polisi ni yw datganoli polisi ynni i Gymru. Mae hynny'n eithaf clir. [Torri ar draws.] Iawn, mae gennym fwy o waith i'w wneud yn y maes hwnnw, ond proses yw hyn, nid digwyddiad. Dyna yw ein hymrwymiad.

Mae angen i ni gynnal adolygiad sylfaenol o TAN 8. Yr wyf fi, fel llawer o bobl eraill yn y Siambr, wedi derbyn llwyth o lythyrau a negeseuon e-bost ac wedi cwrdd ag aelodau pryderus o'r gymuned, o'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt yn ogystal ag o fannau eraill, y mae ein cefn gwlad yn werthfawr iddynt. Mae awydd ysgubol i gynnal yr adolygiad yr ydym wedi bod yn galw amdano. Mae'r bobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y mater hwn eisiau'r adolygiad hwnnw, ac eto nid yw'r Llywodraeth hyd yma wedi gwneud ymrwymiad. Heddiw, gofynnaf eto: a fydd y Gweinidog yn gwneud ymrwymiad i adolygiad sylfaenol o nodyn cyngor technegol 8, ac os na, pam lai? A yw'r Gweinidog wedi anghofio mai polisi Llywodraeth Cymru yw TAN 8? Ers i TAN 8 gael ei gyflwyno yn 2005, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r targed ar gyfer gwynt ar y tir. Ni all y Llywodraeth ei chael hi bob

the refusal to get our own house in order. We need the powers in Wales. However, the plans that have been put forward are in line with the current Government's own scheme—TAN 8—as it stands. Devolving powers would be helpful, but for the moment, that is a side issue. The Government has allowed the development to be proposed in the first place and the developers are simply responding to the rules set out in TAN 8 as it stands.

3.45 p.m.

Our second amendment relates to the many other sources of alternative power that we feel should be considered and researched in more depth. The statement released on Friday states:

'The Welsh Government's Energy Policy Statement published in March 2010 sets out the actions that will be taken to promote a diverse mix of renewable energy technologies, including onshore and offshore wind, biomass and marine, and we remain committed to promoting the widest range of renewable energy technologies we possibly can.'

I broadly agree with that sentiment, but words alone are cheap.

The Presiding Officer: Order. Please wind up now.

William Powell: This morning, I was approached by representatives from the Energy Saving Trust. According to its statistics, in Wales, more than half a million homes require a loft insulation top-up, and a quarter of a million homes need to have their wall cavities insulated. These are key priorities that are more important than the broader generation of extra power.

Darren Millar: I am very grateful for the opportunity to take part in this debate. I have a sense of *déjà vu* in respect of today's discussion. Four years ago, on 20 June 2007, we had a similar debate in the Chamber,

ffordd. Rydym yn cytuno y dylai'r pwerau hyn gael eu datganoli, ond yr ydym yn gwrthwynebu'r gwrthodaeth i roi trefn ar ein materion ein hunain. Mae arnom angen y pwerau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau sydd wedi'u cynnig yn unol â chynllun bresennol y Llywodraeth ei hun—TAN 8—fel ag y mae. Byddai pwerau datganoli yn ddefnyddiol, ond am y tro, mae hynny'n fater ar wahân. Mae'r Llywodraeth wedi caniatáu i'r datblygiad gael ei gynnig yn y lle cyntaf ac mae'r datblygwyr ond yn ymateb i'r rheolau a nodir yn TAN 8 fel ag y mae.

Mae ein hail welliant yn ymwneud â'r lliaws o ffynonellau eraill o ynni amgen yr ydym yn teimlo y dylid eu hystyried a'u hymchwilio mewn mwy o ddyfnder. Mae'r datganiad a ryddhawyd ddydd Gwener yn nodi:

'Mae Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010 yn nodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd i hyrwyddo cymysgedd amrywiol o dechnolegau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys gwynt ar y tir ac ar y môr, biomas a morol, ac rydym yn parhau i ymrwymo i hyrwyddo yr ystod ehangaf o ynni adnewyddadwy technolegau ynni ag y gallwn.'

Rwy'n cytuno yn fras â'r teimlad hwnnw, ond mae geiriau yn unig yn golygu dim.

Y Llywydd: Trefn. Os gwelwch yn dda, a wnewch chi ddirwyn i ben yn awr?

William Powell: Y bore yma, daeth cynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ataf. Yn ôl ei ystadegau, yng Nghymru, mae ar fwy na hanner miliwn o gartrefi angen inswleiddio llofft atodol, ac mae ar chwarter miliwn o gartrefi angen eu ceudodau wal wedi'u hinswleiddio. Mae'r rhain yn flaenoriaethau allweddol sydd yn bwysicach na chynhyrchu pŵer ychwanegol ehangach.

Darren Millar: Yr wyf yn ddiolchgar iawn am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon. Mae gen i ymdeimlad o *déjà vu* o ran y drafodaeth heddiw. Bedair blynedd yn ôl, ar 20 Mehefin 2007, cawsom ddadl debyg yn y

where the National Assembly for Wales agreed that the TAN 8 planning policy on renewable energy should be reviewed. We took a democratic vote, which was ignored for four years by the previous Minister responsible in the Assembly Government Cabinet. I therefore hope that, whatever the outcome of today's vote, the Minister responsible will take some action following this discussion and not simply ignore the decision of this democratic institution.

In response to Dafydd Elis-Thomas's remarks, I wish to make it clear that the Conservative Party is not a party of climate change deniers. No-one on this side of the Chamber is a climate change denier, nor are we against wind farms—not at all. It is important that there is no confusion about this. We are opposed to the imposition of large-scale windfarms, or windfarm collectives, against the wishes of local people, which can have a devastating impact on the individual communities that are affected, and on the local environment. There are, of course, projects around Wales that have had clear community support. If cases like that come forward when a windfarm application is made, it is quite right that those who are democratically elected should support them. We should press ahead with those schemes.

Lord Elis-Thomas: I thank Darren for giving way. We are neighbours in the Conwy valley, in the county of Conwy. Can he recollect which windfarm development in that area he has supported?

Darren Millar: There is a current windfarm application in my constituency that seems to have some community support. At the end of the day, as a democratic representative, I have to ensure that I represent those views to the people who are making the decision—in this case, a local authority. Likewise, there are many people who are concerned about that development, and I have a democratic duty to represent those views as well.

Siambr, lle cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y dylai polisi cynllunio TAN 8 ar ynni adnewyddadwy gael ei adolygu. Cawsom bleidlais ddemocrataidd, a gafodd ei hanwybyddu am bedair blynedd gan y Gweinidog blaenorol a oedd yn gyfrifol yng Nghabinet Llywodraeth y Cynulliad. Felly, yr wyf yn gobeithio, beth bynnag fydd canlyniad y bleidlais heddiw, y bydd y Gweinidog sy'n gyfrifol yn gweithredu rhywfaint yn dilyn y drafodaeth hon ac nid dim ond yn anwybyddu penderfyniad y sefydliad democrataidd hwn.

Mewn ymateb i sylwadau Dafydd Elis-Thomas, yr wyf am ei gwneud yn glir nad plaid i'r rheiny sy'n gwadu newid yn yr hinsawdd yw'r Blaid Geidwadol. Nid oes unrhyw un ar yr ochr hon i'r Siambr yn gwadu newid yn yr hinsawdd, ac nid ydym yn gwrthwynebu ffermydd gwynt—ddim o gwbl. Mae'n bwysig nad oes unrhyw ddryswch ynglŷn â hyn. Rydym yn gwrthwynebu gosod ffermydd gwynt ar raddfa fawr, neu gydweithfeydd ffermydd gwynt, yn erbyn dymuniadau pobl leol, a all gael effaith ddinistriol ar y cymunedau unigol yr effeithir arnynt, ac ar yr amgylchedd leol. Mae yna, wrth gwrs, brosiectau ledled Cymru sydd wedi cael cefnogaeth glir gan y gymuned. Os daw achosion o'r fath gerbron pan fydd cais am fferm wynt yn cael ei wneud, mae'n hollol iawn bod y rhai sydd wedi eu hethol yn ddemocrataidd yn eu cefnogi. Dylem fwrw ymlaen â'r cynlluniau hynny.

Yr Arglwydd Elis-Thomas: Diolch i Darren am ildio. Rydym yn gymdogion yn nyffryn Conwy, yn sir Conwy. A ydyw'n medru cofio pa ddatblygiad fferm wynt yn yr ardal honno y mae ef wedi'i gefnogi?

Darren Millar: Ymddengys bod rhywfaint o gefnogaeth cymunedol i gais am fferm wynt ar hyn o bryd yn fy etholaeth. Ar ddiwedd y dydd, fel cynrychiolydd democrataidd, rhaid i mi sicrhau fy mod yn cynrychioli'r safbwyntiau hynny i'r bobl sy'n gwneud y penderfyniadau—yn yr achos hwn, awdurdod lleol. Yn yr un modd, mae llawer o bobl sy'n poeni am y datblygiad hwnnw, ac mae gennyf ddyletswydd democrataidd i gynrychioli'r safbwyntiau hynny hefyd.

The issue here is the democratic deficit resulting from technical advice note 8. Local authorities often dismiss an application on the grounds that the local electorate opposes it, and that decision is then overturned on appeal because of technical advice note 8. That is not acceptable. We have to put the emphasis on local democracy once again, with local people making decisions. That is what real devolution is all about; it is what this place was established to achieve, yet we are tying the hands of local people in the decision-making process. Communities in my constituency, such as Cerrigydrudion and Nantglyn, are now surrounded by windfarms that were opposed by the people who live there.

It is important to recognise that this rush for wind does have a benefit—it is a ‘windrush’. [*Laughter.*] This rush for wind has benefits for the Welsh Government in the form of the income that can be derived from Forestry Commission Wales land. That income is in excess of £20 million, according to the projection that I received from the former Minister for Rural Affairs in response to a question. It is wholly inappropriate for the Welsh Government to force through a policy on the basis of the income that it might derive from that policy rather than on the merits of applications that may be received in those areas.

Elin Jones: Do you oppose the fact that the Welsh Government uses its land resource, currently managed by Forestry Commission Wales, to promote renewable energy generation and to raise important funds for public services in Wales?

Darren Millar: What ought to happen is that the Welsh Government should come clean about the fact that it receives about £20 million-worth of income as a result of the TAN 8 policy—at least, that was the current projected income given in your answer to me.

I will just come to a couple of issues that emphasise the need to review this policy. There are some areas outside the strategic search areas that are perfectly suitable for wind farm development, and they are not

Y mater yn hyn o beth yw'r diffyg democrataidd sy'n deillio o nodyn cyngor technegol 8. Mae awdurdodau lleol yn aml yn gwrthod cais ar y sail bod yr etholaeth leol yn gwrthwynebu, ac mae'r penderfyniad wedyn yn cael ei wrthdroi ar apêl oherwydd nodyn cyngor technegol 8. Nid yw hynny'n dderbyniol. Mae'n rhaid i ni roi'r pwyslais ar ddemocratiaeth leol unwaith eto, gyda phobl leol yn gwneud penderfyniadau. Dyna beth yw datganoli go iawn; dyna beth y sefydlwyd y lle hwn i'w gyflawni, eto i gyd yr ydym yn clymu dwylo pobl leol yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae cymunedau yn fy etholaeth i, megis Cerrigydrudion a Nantglyn, yn awr wedi'u hamgylchynu gan ffermydd gwynt a gafodd eu gwrthwynebu gan y bobl sy'n byw yno.

Mae'n bwysig cydnabod bod mantais i'r rhuthro hwn am wynt—mae yn ‘windrush’. [*Chwerthin.*] Mae'r rhuthr am wynt yn cynnig manteision i Lywodraeth Cymru ar ffurf yr incwm sy'n deillio o dir Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae'r incwm hwnnw yn fwy nag £20 miliwn, yn ôl yr amcanestyniad a gefais gan y cyn-Weinidog dros Faterion Gwledig mewn ymateb i gwestiwn. Mae'n gwbl amhriodol i Lywodraeth Cymru i orfodi polisi drwyddo ar sail yr incwm y gallai ei ddeillio o'r polisi yn hytrach nag ar rinweddau y ceisiadau y gellir eu derbyn yn yr ardaloedd hynny.

Elin Jones: A ydych yn gwrthwynebu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei hadnoddau tir, a reolir ar hyn o bryd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, i hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac i godi arian pwysig ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru?

Darren Millar: Yr hyn a ddylai ddigwydd yw bod Llywodraeth Cymru yn onest am y ffaith ei bod yn derbyn gwerth tua £20 miliwn o incwm o ganlyniad i'r polisi TAN 8—o leiaf, dyna oedd yr incwm a ragwelir ar hyn o bryd yn eich hateb i mi.

Yr wyf am ddod at un neu ddau o faterion sy'n pwysleisio'r angen i adolygu'r polisi hwn. Mae yna rai ardaloedd y tu allan i'r ardaloedd chwilio strategol sydd yn berffaith addas ar gyfer datblygu ffermydd gwynt, ac

being developed because of the focus on the strategic search areas. Also, because of the statement the First Minister made last week, there is now utter confusion as to what the targets are—

Joyce Watson: Will you take an intervention?

Darren Millar: No, I will not; I do not have time.

There is confusion about what the targets are for the development of energy generation from wind turbines. According to the 'A Low Carbon Revolution' document published in March last year, to which Dafydd Elis-Thomas referred, 2,000 MW is the target for capacity. Now, however, the First Minister is suggesting a target of 1,120 MW. What are we to believe is the Government's policy with regard to this matter?

The Presiding Officer: Order. Please wind up.

Darren Millar: Will the Government now oppose every single application that would take the targets above those set out in the TAN 8 documents for the strategic search areas? Are you going to make an oral representation to the UK Government whenever an application threatens to burst through the upper limit that Carwyn Jones has endorsed?

David Rees: It is important to remind Members of the fact that TAN 8 is not about rural mid Wales only; it actually applies to the whole of Wales. There are three SSAs in mid Wales, one in the north, and another three in south-west Wales. In fact, a large part of my constituency lies within SSA F, in the upper Afan valley. It is the second most prolific SSA being discussed at the moment. Currently, there are 14 turbines with a height of 300 ft in situ at Ffynnon Oer, and planning applications have been submitted for another 100 turbines with a height of 150m at the top end of the valley, surrounding the village of Glynorrwg. I am sure that you would all agree with me that this is an area of natural beauty. If you have not been there, you are welcome to come to the Afan valley, to visit Afan Argoed for a walk, or to go mountain

nid ydynt yn cael eu datblygu oherwydd y ffocws ar yr ardaloedd chwilio strategol. Hefyd, oherwydd datganiad y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf, mae yna ddryswch llwyr bellach ynglŷn â beth yw'r targedau—

Joyce Watson: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Darren Millar: Na wnaif; nid oes gennyf amser.

Mae dryswch ynghylch beth yw'r targedau ar gyfer datblygu cynhyrchu ynni o dyrbinau gwynt. Yn ôl y ddogfen 'Chwyldro Carbon Isel' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth y llynedd, y cyfeiriodd Dafydd Elis-Thomas ato, 2,000 MW yw'r targed ar gyfer capasiti. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae'r Prif Weinidog yn awgrymu targed o 1,120 MW. Beth ydym ni i gredu yw polisi'r Llywodraeth o ran y mater hwn?

Y Llywydd: Trefn. A wnewch chi ddirwyn i ben os gwelwch yn dda?

Darren Millar: A wnaiff y Llywodraeth yn awr wrthwynebu pob cais unigol a fyddai'n cymryd y targedau yn uwch na'r rhai a nodwyd yn y dogfennau TAN 8 ar gyfer yr ardaloedd chwilio strategol? A ydych yn mynd i wneud sylwadau llafar i Lywodraeth y DU pryd bynnag y mae cais yn bygwth ffrwydro drwy'r terfyn uchaf y mae Carwyn Jones wedi ei gymeradwyo?

David Rees: Mae'n bwysig atgoffa'r Aelodau am y ffaith nad ymwneud â chanolbarth Cymru wledig yn unig y mae TAN 8; mae'n berthnasol i Gymru gyfan mewn gwirionedd. Mae tair ardal chwilio strategol yng nghanolbarth Cymru, un yn y gogledd, a thair arall yn ne-orllewin Cymru. Yn wir, mae rhan fawr o'm hetholaeth yn gorwedd o fewn ardal chwilio strategol F, yng nghwm Afan uchaf. Dyma'r ail SSA mwyaf toreithiog sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae 14 o dyrbinau gydag uchder o 300 troedfedd yn y fan a'r lle yn Ffynnon Oer, a cheisiadau cynllunio wedi cael eu cyflwyno ar gyfer 100 arall o dyrbinau gydag uchder o 150m ym mhen uchaf y dyffryn, o amgylch pentref Glynorrwg. Yr wyf yn siŵr y byddech i gyd yn cytuno â mi bod hon yn ardal o harddwch

biking in Glyncorrwg. If you do, you will see what I mean.

I welcome the First Minister's statement last week in which he said that he would seek responsibility for planning consent for projects over the current 50 MW level. They should be devolved to Wales. I note that the statement affirms recommendation 25 of the Sustainability Committee's report in January 2011, 'Inquiry into Planning in Wales'. It says:

'We recommend that the Welsh Government should continue to urge the UK Government to devolve responsibility for energy consents of over 50 Megawatts to the Welsh Ministers; seek amendments to the Planning Act 2008 so that decisions on large-scale energy projects in Wales are made in line with Welsh planning policy'.

That committee was chaired by Kirsty Williams, the Leader of the Welsh Liberal Democrats, and I hope that she and her colleagues would continue to lobby Ministers at Westminster as they appear not to be alone in turning away from the Welsh Liberal Democrats.

Kirsty Williams: I am grateful to the Member for giving way and I am grateful for his support for the cross-party approach that the Sustainability Committee took regarding the devolution of those powers. Do you share my regret that, while there was a Labour Government in Westminster, repeated requests from this Chamber to devolve those powers were subsequently denied by your party while it was also in government in Westminster?

David Rees: No, I do not, but I do regret that your Government in Westminster, from which you are trying to pass the buck, is no longer listening to its colleagues in Wales.

It is a travesty that decisions on such

naturiol. Os nad ydych wedi bod yno, mae croeso i chi ddod i gwm Afan, i ymweld ag Afan Argoed am dro, neu i fynd i feicio mynydd yng Nglyncorrwg. Os gwnewch hynny, byddwch yn gweld yr hyn yr wyf yn ei olygu.

Yr wyf yn croesawu datganiad y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf pan ddywedodd y byddai'n ceisio cyfrifoldeb am ganiatâd cynllunio ar gyfer prosiectau dros y lefel bresennol o 50 MW. Dylid eu datganoli i Gymru. Yr wyf yn sylwi bod y datganiad yn cadarnhau argymhelliad 25 o adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ym mis Ionawr 2011, 'Ymchwiliad i Bolisiâu Cynllunio yng Nghymru'. Mae'n dweud:

'Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i annog Llywodraeth y DU i ddatganoli'r cyfrifoldeb am ganiatadau ynni dros 50 Megawatt i Weinidogion Cymru; geisio diwygiadau i Ddeddf Cynllunio 2008 fel bod penderfyniadau ar brosiectau ynni ar raddfa fawr yng Nghymru yn cael eu gwneud yn unol â pholisi cynllunio Cymru'.

Cadeiriwyd y pwyllgor hwnnw gan Kirsty Williams, Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru, ac yr wyf yn gobeithio y bydd hi a'i chydweithwyr yn parhau i lobio Gweinidogion yn San Steffan gan eu bod yn ymddangos nad ydynt ar eu pennau eu hunain yn troi i ffwrdd oddi wrth Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru.

Kirsty Williams: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Aelod am ildio, ac yr wyf yn ddiolchgar am ei gefnogaeth i'r dull trawsbleidiol a gymerodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd ynghylch datganoli'r pwerau hynny. A ydych yn rhannu fy siom, tra bod Llywodraeth Lafur yn San Steffan, dro ar ôl tro mae ceisiadau gan y Siambr hon i ddatganoli'r pwerau hynny wedi eu gwrthod ar ôl hynny gan eich plaid chi pan oedd hefyd yn y llywodraeth yn San Steffan?

David Rees: Na, nid wyf yn gwneud hynny, ond yr wyf yn gresynu nad yw eich Llywodraeth chi yn San Steffan, yr ydych yn ceisio taflu'r baich oddi wrthi, yn gwrando bellach ar ei chydweithwyr yng Nghymru.

Mae'n warth nad yw penderfyniadau ar

important issues are not taken in Wales. What is to be built in Wales should be decided in Wales. That is my strong belief. Therefore, I urge both Liberal and Conservative Members to lobby their Ministers in London. The Conservatives should remind themselves of their own manifesto, which clearly stated that they wanted planning powers devolved for projects up to 100 MW. They should perhaps speak to Cheryl Gillan to seek support for that. We must also remember that there is more renewable energy than just onshore, and I agree with William Powell when he stated that we should look at alternative mechanisms for delivering renewable energy. Therefore, I ask the Minister to meet Cabinet colleagues to continue to support research and development in this area, because not only could they provide alternative means of producing energy, but they could also provide a stimulus to the economy of Wales.

We have a huge responsibility in relation to energy generation. We have to look at how we can reduce the carbon footprint by producing energy and meeting the Government's obligations, while at the same time meeting the energy demands of people in Wales. If you ask people in Wales to reduce their energy demands, you are not getting a positive answer. Therefore, we also need to look at the demands of the Welsh people. In its report, the Sustainability Committee suggested the successor committee should consider conducting a wide-ranging inquiry into energy production in Wales. It did not mention TAN 8. It is about energy production as a holistic approach within Wales, and that is the way that we should be going.

Mark Isherwood: As I stated in Welsh Conservatives' debate on climate change in January, renewable energy is essential. Supplies of fossil fuels are under increasing pressure, resulting in higher energy prices and concerns about the security of energy supply. Planned power station decommissioning will remove 37 per cent of UK energy generating capacity. The International Energy Agency says that the production of conventional crude oil peaked

faterion pwysig o'r fath yn cael eu cymryd yng Nghymru. Dylai'r hyn sy'n cael ei adeiladu yng Nghymru gael ei benderfynu yng Nghymru. Dyna fy nghred gref. Felly, yr wyf yn annog yr Aelodau Rhyddfrydol a Cheidwadol i lobio eu Gweinidogion yn Llundain. Dylai'r Ceidwadwyr atgoffa eu hunain am eu manifesto eu hunain, a oedd yn datgan yn glir eu bod yn dymuno cael y pwerau cynllunio sydd wedi'u datganoli ar gyfer prosiectau hyd at 100 MW. Dylent efallai siarad â Cheryl Gillan i geisio cefnogaeth ar gyfer hynny. Rhaid inni gofio hefyd bod mwy o ynni adnewyddadwy na dim ond yr hyn a geir ar y tir, ac yr wyf yn cytuno â William Powell pan ddywedodd y dylem edrych ar fecanweithiau amgen ar gyfer darparu ynni adnewyddadwy. Felly, yr wyf yn gofyn i'r Gweinidog i gwrdd â chydweithwyr yn y Cabinet i barhau i gefnogi ymchwil a datblygu yn y maes hwn, oherwydd nid yn unig y gallent ddarparu dulliau eraill o gynhyrchu ynni, ond gallent hefyd ddarparu hwb i economi Cymru.

Mae gennym gyfrifoldeb mawr o ran cynhyrchu ynni. Maen rhaid i ni edrych ar sut y gallwn leihau ôl troed carbon drwy gynhyrchu ynni a bodloni rhwymedigaethau'r Llywodraeth, tra ar yr un pryd ddiwallu gofynion ynni pobl yng Nghymru. Os ydych yn gofyn i bobl yng Nghymru i leihau eu gofynion ynni, nid ydych yn cael ateb cadarnhaol. Felly, mae angen inni hefyd edrych ar ofynion pobl Cymru. Yn ei adroddiad, awgrymodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd y dylai'r pwyllgor olynol ystyried cynnal ymchwiliad eang i gynhyrchu ynni yng Nghymru. Nid oedd yn sôn am TAN 8. Mae'n ymwneud â chynhyrchu ynni fel dull cyfannol yng Nghymru, a dyna'r ffordd y dylem fynd ar ei hyd.

Mark Isherwood: Fel y dywedais yn nadl y Ceidwadwyr Cymreig ar y newid yn yr hinsawdd ym mis Ionawr, mae ynni adnewyddadwy yn hanfodol. Mae cyflenwadau o danwydd ffosil dan bwysau cynyddol, gan arwain at brisiau uwch a phryderon am ddiogelwch y cyflenwad ynni. Bydd y dadgomisiynu sydd wedi'i gynllunio ar gyfer gorsafoedd pŵer yn gwaredu ar 37 y cant o gapasiti cynhyrchu ynni'r DU. Mae'r Asiantaeth Ynni Ryngwladol yn dweud bod

in 2006, and falling reserves and supply have political, economic and social implications. The problem is that the Welsh Government's approach to renewable energy has been unsustainable, with too much of an emphasis on wind energy and a deeply flawed planning process.

Our motion today, therefore, relates solely to devolved matters and to the windfarms proposed under TAN 8, which will be decided by local planning authorities in Wales. It is, therefore, regrettable that the First Minister has, yet again, sought to shift the target to Westminster, thereby denying responsibility. Whatever concerns we may have about UK Government wind-power policy, this motion is about Welsh Government policy. The First Minister stated last Friday that the capacities set out in TAN 8 in 2005 should be regarded as upper limits. However, RenewableUK has since described the Welsh Government's position on windfarms as being quite strange.

Joyce Watson: Thank you for taking an intervention. You talk about denying responsibility; will you accept that the whole debate on this, and the result of the protest that we had, was as a consequence of one of your colleagues denying responsibility and trying to put it at our door, completely and squarely, without accepting what was fairly obvious, that the ultimate decision would be made in Westminster?

Mark Isherwood: We are talking about devolved policy, and only devolved policy.

RenewableUK added that, in March last year, the Welsh Government increased its target from 800 MW to 2,000 MW, and that it is now denying the inevitable consequences of its own policies. As it also said, the Welsh Government's March 2010 energy policy statement set clear targets for renewable energy production that exceeded those in TAN 8.

4.00 p.m.

cynhyrchu o fewn crai confensiynol wedi cyrraedd uchafbwynt yn 2006, a bod gan y disgyniad yn y cronfeydd wrth gefn a'r cyflenwad oblygiadau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol. Y broblem yw bod ymagwedd Llywodraeth Cymru i ynni adnewyddadwy wedi bod yn anghynaliadwy, gyda gormod o bwyslais ar ynni gwynt a phroses gynllunio ddiffygiol iawn.

Mae ein cynnig heddiw, felly, yn ymwneud yn unig â materion sydd wedi'u datganoli ac â'r ffermydd gwynt a gynigir o dan TAN 8, a fydd yn cael eu penderfynu gan awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru. Y mae, felly, yn anffodus bod y Prif Weinidog, unwaith eto, wedi ceisio symud y targed i San Steffan, a thrwy hynny yn gwadu cyfrifoldeb. Pa bryderon bynnag sydd gennym am bolisi ynni gwynt Llywodraeth y DU, mae'r cynnig hwn yn ymwneud â pholisi Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Prif Weinidog ddydd Gwener diwethaf y dylai'r galluoedd a nodir yn TAN 8 yn 2005 gael eu hystyried yn derfynau uchaf. Fodd bynnag, mae RenewableUK bellach wedi disgrifio safbwynt Llywodraeth Cymru ar ffermydd gwynt o fod yn eithaf rhyfedd.

Joyce Watson: Diolch i chi am gymryd ymyriad. Rydych yn sôn am wadu cyfrifoldeb; a dderbyniwch bod y ddadl gyfan ar hyn, a chanlyniad y brotest a gawsom, o ganlyniad i un o'ch cydweithwyr yn gwadu cyfrifoldeb ac yn ceisio rhoi'r cyfrifoldeb hwnnw i ni, yn gyfan gwbl ac yn llwyr, heb dderbyn yr hyn a oedd yn eithaf amlwg, y byddai'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud yn San Steffan?

Mark Isherwood: Yr ydym yn sôn am bolisi datganoledig, a pholisi datganoledig yn unig.

Ychwanegodd RenewableUK, ym mis Mawrth y llynedd, bod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei tharged o 800 MW i 2,000 MW, a'i bod bellach yn gwadu canlyniadau anochel ei pholisïau ei hun. Fel y mae'n dweud hefyd, gosododd ddatganiad polisi ynni Llywodraeth Cymru Mawrth 2010 dargedau clir ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy sydd yn uwch na'r rhai yn TAN 8.

The Woodlands for Wales strategy states that,

‘Any potential windfarm development that involves the removal of woodland will be considered within the planning system’.

It does not tell us that, in July 2007, the Welsh Government hosted a seminar on renewable energy for council chief planning officers and chairs of planning. These planning officers and chairs were told that saying ‘no’ to most windfarms in strategic search areas was not an option. It does not tell us that, of more than 1,200 responses received to the Welsh Government’s consultation on TAN 8, only two supported the location of the strategic search areas.

This is hardly the first time we have debated these issues. Speaking in 2006, I highlighted an independent report for the German Government, shelved because it was such an embarrassment for Government Ministers in Germany. It warned that windfarm programmes there would greatly increase energy costs and it cast doubt on the claim that wind power cuts greenhouse gas emissions. Speaking in 2008, I noted that no country has ever been able to close a power station as a direct result of building wind turbines because wind power cannot adapt to meet demand. High levels of wind power cause the national grid to become unstable. To accommodate short variations in wind power supply, conventional power plants must throttle back, which makes them more polluting. The only stations that can be powered up reasonably quickly to respond to fluctuating turbine power are gas stations, and we could be held to ransom over the supply of gas.

When temperatures plunged below zero and demand for electricity soared during the coldest spells last December, most of the UK’s wind turbines were virtually still, forcing the national grid to crank up conventional coal and gas-fired power stations. In other words, without fossil fuel

Mae’r strategaeth Coetiroedd i Gymru yn datgan,

‘Bydd unrhyw ddatblygiad fferm wynt posibl sy’n cynnwys cael gwared ar goetir yn cael ei ystyried o fewn y system gynllunio’.

Nid yw’n dweud wrthym, bod Llywodraeth Cymru, ym mis Gorffennaf 2007, wedi cynnal seminar ar ynni adnewyddadwy ar gyfer prif swyddogion cynllunio a chadeiryddion pwyllgorau cynllunio cyngor. Dywedwyd wrth y swyddogion cynllunio a’r cadeiryddion hyn nad oedd dweud ‘na’ i’r rhan fwyaf o ffermydd gwynt mewn ardaloedd chwilio strategol yn opsiwn. Nid yw’n dweud wrthym, o fwy na 1,200 o ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar TAN 8, mai dau yn unig oedd yn cefnogi lleoliad yr ardaloedd chwilio strategol.

Prin mai hyn yw’r tro cyntaf i ni drafod y materion hyn. Wrth siarad yn 2006, tynnais sylw at adroddiad annibynnol ar gyfer Llywodraeth yr Almaen, a gafodd ei ddiystyru oherwydd ei fod yn embaras i Weinidogion y Llywodraeth yn yr Almaen. Mae’n rhybuddio y byddai rhaglenni ffermydd gwynt yno yn cynyddu costau ynni yn fawr ac yn bwrw amheuaeth ar yr honiad bod ynni gwynt yn torri allyriadau nwyon tŷ gwydr. Wrth siarad yn 2008, nodais nad oes unrhyw wlad erioed wedi gallu cau gorsaf bŵer o ganlyniad uniongyrchol i godi tyrbinau gwynt oherwydd na all pŵer gwynt addasu i ateb y galw. Mae lefelau uchel o bŵer gwynt yn peri i’r grid cenedlaethol i ddod yn ansefydlog. Er mwyn darparu amrywiadau byr yn y cyflenwad pŵer gwynt, rhaid i weithfeydd pŵer confensiynol ymgyfyngu, sy’n gwneud iddynt lygru mwy. Yr unig orsafoedd y gellir eu rhoi ymlaen yn weddol gyflym i ymateb i ynni tyrbinau amrywiol yw gorsafoedd nwy, a gellid ein dal yn wystlon dros gyflenwad nwy.

Pan ddisgynnodd y tymheredd islaw sero ac esgynnodd y galw am drydan yn ystod cyfnodau oeraf fis Rhagfyr diwethaf, yr oedd mwyafrif y tyrbinau gwynt yn y DU yn llonydd, gan orfodi’r grid cenedlaethol i ddefnyddio mwy ar orsafoedd pŵer nwy a glo confensiynol. Mewn geiriau eraill, heb

backup, the lights would literally go out. Speaking in 2009, I quoted correspondence from the then First Minister stating that,

‘the lease for a development requires the removal of turbines and infrastructure to 1 metre below ground level at the end of their lives’.

In other words, the majority of 1,000 tonnes or more of concrete will be left in the ground. Water will be held on top of the concrete, which will reduce rooting depth, meaning that the areas will not be returned to forestry at the end of the project. That correspondence also stated that proposed developments could mean the felling of just 500 ha, which is less than half of 1 per cent of the total Welsh Government woodland estate.

The Presiding Officer: Order. Can you wind up please?

Mark Isherwood: However, this conflicted with applications for Clocaenog forest in north Wales at the time to build just 29 turbines, which alone involved the clear-felling of some 431 ha, destroying more than 1,000 acres. Only snake-oil salesmen could dream up such an irrational way of generating electricity. [*Laughter.*]

Joyce Watson: I was pleased to be able to speak to protesters outside the Assembly in May and I promised to listen to what people were saying and to take their views back to the Minister. I would like to thank you again, Minister, for what proved to be a very constructive meeting. At the outset, I want to express my belief that what we need to promote in Wales is a diverse mix of renewable energy technologies, including onshore and offshore wind.

Last Friday, I attended a public exhibition about the DeltaStream project that is being constructed off St Davids. What is clear to me is that, as technologies develop and we move forward, the solutions to Wales’s energy security needs and our response to our international obligations to tackle climate

danwydd ffosil wrth gefn, byddai’r goleuadau yn llythrennol yn mynd allan. Wrth siarad yn 2009, dyfynnais ohebiaeth gan y Prif Weinidog yn datgan bod,

‘y les ar gyfer datblygiad yn gofyn am dynnu’r tyrbinau a’r seilwaith i 1 metr islaw lefel y ddaear ar ddiwedd eu bywydau’.

Mewn geiriau eraill, bydd y rhan fwyaf o’r 1,000 tonnau neu fwy o goncrit yn cael ei adael yn y ddaear. Caiff dŵr ei ddal ar ben y concrit, a fydd yn lleihau dyfnder gwreiddio, sy’n golygu na fydd y mannau’n cael eu dychwelyd i goedwigaeth ar ddiwedd y prosiect. Dywedodd y gohebiaeth hwnnw hefyd y gallai datblygiadau arfaethedig olygu torri 500 ha yn unig, sy’n llai na hanner o 1 y cant o gyfanswm ystâd goetir Llywodraeth Cymru.

Y Llywydd: Trefn. A allwch chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

Mark Isherwood: Fodd bynnag, mae hyn yn gwrthdaro â cheisiadau am goedwig Clocaenog yn y gogledd ar y pryd i adeiladu 29 tyrbîn, a oedd ar ei ben ei hun yn cynnwys clir-dorri tua 431 ha, gan ddinistrio mwy na 1,000 o erwau. Dim ond pobl sy’n ceisio gwerthu rhywbeth di-werth a allai feddwl am ffordd mor afresymol o gynhyrchu trydan. [*Chwerthin.*]

Joyce Watson: Yr oeddwn yn falch o allu siarad â phrotestwyr y tu allan i’r Cynulliad ym mis Mai ac addewais wrando ar yr hyn yr oedd pobl yn ei ddweud ac i fynd a’u barn yn ôl i’r Gweinidog. Hoffwn ddiolch i chi eto, Weinidog, am yr hyn a brofodd i fod yn gyfarfod adeiladol iawn. Ar y cychwyn, yr wyf am fynegi fy nghred mai yr hyn y mae angen i ni ei hyrwyddo yng Nghymru yw cymysgedd amrywiol o dechnolegau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys gwynt ar y tir ac ar y môr.

Ddydd Gwener diwethaf, bûm mewn arddangosfa gyhoeddus am y prosiect DeltaStream sy’n cael ei hadeiladu oddi ar Dyddewi. Yr hyn sy’n amlwg i mi yw, wrth i dechnolegau ddatblygu ac wrth inni symud ymlaen, bydd ein hatebion i anghenion diogelwch ynni Cymru a’n hymateb i’n

change, which this party take seriously, will become smarter, utilising Wales's sustainable resources. However, onshore wind is currently the most commercially viable form of renewable energy that we have.

As they are arguing against all onshore developments in Wales, I ask those Conservative Members representing Monmouthshire what they would have happen to the hundreds of workers employed in this industry at Mabey Bridge Ltd in Chepstow. I also ask whether the Conservative Members of this Chamber support the First Minister in calling on the UK Government to regard TAN 8 capacity as the upper limit and not to allow proliferation when it makes decisions on individual projects in Wales.

Darren Millar: Thank you for taking an intervention. You seem to be asking us many questions; however, will you be fulfilling your commitment to vote to review TAN 8 as you indicated that you would when you were standing outside the Senedd, speaking to those protesters, when you were subsequently booed?

Joyce Watson: I did not say any such thing. As you know, the UK Government currently makes decisions on all energy projects over 50 MW and the First Minister has called for greater powers for Wales in this area. I hope that you will stand on your platform and ask for the same.

Overcapacity has led to proposals for massive pylons that would march across the landscape of mid Wales and I cannot condone that. I therefore welcome the First Minister's statement that he will press that case with the National Grid plc, the Infrastructure Planning Commission and UK Ministers. Living in Pembrokeshire, I have seen at first hand at Strumble Head how, with public will, investment from energy companies and political leadership, power and phone cables can be buried underground in order to preserve the natural beauty of an area. We need to ensure that that approach is also adopted elsewhere.

rhwymedigaethau rhyngwladol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, y bydd y blaid hon yn ei gymryd o ddifrif, yn dod yn fwy craff, gan ddefnyddio adnoddau cynaliadwy Cymru. Fodd bynnag, gwynt ar y tir ar hyn o bryd yw'r math mwyaf hyfyw yn fasnachol o ynni adnewyddadwy sydd gennym.

Gan eu bod yn dadlau yn erbyn yr holl ddatblygiadau ar y tir yng Nghymru, gofynnaf i'r Aelodau Ceidwadol sy'n cynrychioli Sir Fynwy yr hyn y dymunent i ddigwydd i'r cannoedd o weithwyr a gyflogir yn y diwydiant yn Mabey Bridge Ltd yng Nghas-gwent. Rwyf hefyd yn gofyn a ydyw Aelodau Ceidwadol y Siambr hon yn cefnogi Prif Weinidog Cymru wrth alw ar Lywodraeth y DU i ystyried capasiti TAN 8 fel y terfyn uchaf ac i beidio â chaniatáu gormod pan fydd yn gwneud penderfyniadau ar brosiectau unigol yng Nghymru.

Darren Millar: Diolch am dderbyn ymyriad. Mae'n ymddangos eich bod yn gofyn llawer o gwestiynau i ni; fodd bynnag, a fyddwch yn cyflawni eich ymrwymiad i bleidleisio i adolygu TAN 8 fel y dywedasoeh y byddech pan oeddech yn sefyll y tu allan i'r Senedd, gan siarad â'r protestwyr hynny, a hwythau wedyn yn eich bwian?

Joyce Watson: Ni ddywedais unrhyw beth o'r fath. Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn gwneud penderfyniadau ar bob prosiect ynni dros 50 MW ac mae Prif Weinidog Cymru wedi galw am fwy o bwerau i Gymru yn y maes hwn. Yr wyf yn gobeithio y byddwch yn sefyll ar eich llwyfan a gofyn am yr un peth.

Mae gormod o ddarpariaeth wedi arwain at gynigion ar gyfer peilonau enfawr a fyddai'n gorymdeithio ar draws tirwedd canolbarth Cymru ac ni allaf oddef hynny. Felly, yr wyf yn croesawu datganiad y Prif Weinidog y bydd yn pwysu yr achos gyda'r Grid Cenedlaethol ccc, y Comisiwn Cynllunio Seilwaith a Gweinidogion y DU. Wrth fyw yn Sir Benfro, yr wyf wedi gweld o lygad y ffynnon ym Mhencaer sut, gydag ewyllys cyhoeddus, buddsoddiad gan gwmnïau ynni ac arweinyddiaeth wleidyddol, y gall ceblau pŵer a ffôn gael eu claddu o dan y ddaear er mwyn gwarchod harddwch naturiol yr ardal. Mae angen i ni sicrhau bod y dull hwn hefyd

yn cael ei fabwysiadu mewn mannau eraill.

I also ask the Minister to look at the specific proposal for a sub-station. I have been to Aber-miwl and I have seen what the potential impact of that development may be, whether it is constructed there or looms over any other community. However, that is a decision for Powys County Council and I feel that the Welsh Government ought to consider it.

Gofynnaf hefyd i'r Gweinidog edrych ar y cynnig penodol ar gyfer is-orsaf. Yr wyf wedi bod i Aber-miwl ac yr wyf wedi gweld effaith bosibl y datblygiad hwnnw, pa un ai a ydyw'n cael ei adeiladu yno neu yn hofran dros unrhyw gymuned arall. Fodd bynnag, penderfyniad i Gyngor Sir Powys yw hwnnw ac yr wyf yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru ei ystyried.

The Conservatives have mentioned the issue of the Welsh Government making money out of those strategic areas in TAN 8. Do they think that it is a wise decision to reduce the feed-in tariff from the current 30p to 9p? The higher tariff could have helped to sustain small-scale developments and they will now be absolutely crushed.

Mae'r Ceidwadwyr wedi crybwyll y mater o Lywodraeth Cymru yn gwneud arian allan o'r meysydd strategol yn TAN 8. A ydyn nhw'n meddwl ei fod yn benderfyniad doeth i leihau'r tariff bwydo i mewn o'r 30 ceiniog presennol i 9 ceiniog? Gallai'r tariff uwch fod wedi helpu i gynnal datblygiadau ar raddfa fach a byddant yn awr yn cael eu malu'n llwyr.

Antoinette Sandbach: First, I declare an interest in a largely community-owned windfarm company in north Wales. The Welsh countryside across the rural parts of north Wales, mid Wales and, no doubt, south and west Wales—although I have not yet had the opportunity to visit there—is the key asset that draws in millions of tourists each year. Our climate and topography give Wales the potential for a broad mix of renewable energy generation, including tidal energy. I can imagine the race between the Anglesey coast and the Menai Straits as the ideal place for the situation of tidal energy, biomass, and offshore and onshore wind. However, the Welsh Government still stubbornly refuses to do the reasonable thing and conduct a review. Darren Millar was quite right in the point that he made in respect of TAN 8: if local communities do have an impact and get local councils to turn down those applications, TAN 8 in effect means that an appeal can be done. It was a condition that was imposed on communities by the Labour Welsh Government.

Antoinette Sandbach: Yn gyntaf, yr wyf yn datgan diddordeb mewn cwmni fferm wynt sydd yn bennaf yn eiddo i'r gymuned yng ngogledd Cymru. Cefn gwlad Cymru ar draws rhannau gwledig gogledd Cymru, canolbarth Cymru ac, yn ddiau, de a gorllewin Cymru—er nad wyf wedi cael y cyfle i ymweld â'r lle eto—yw'r ased allweddol sy'n denu miliynau o dwristiaid bob blwyddyn. Mae ein hinsawdd a thopograffeg yn rhoi potensial ar gyfer cymysgedd eang o gynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ynni llanw Cymru. Gallaf ddychmygu'r ras rhwng arfordir Ynys Môn ac Afon Menai fel y lle delfrydol ar gyfer ynni'r llanw, biomas, a gwynt ar y môr ac ar y tir. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn gyndyn ac yn gwrthod gwneud y peth rhesymol a chynnal adolygiad. Yr oedd Darren Millar yn iawn yn y pwynt a wnaed mewn perthynas â TAN 8: os bydd cymunedau lleol yn cael effaith ac yn cael cynghorau lleol i wrthod y ceisiadau hynny, mae TAN 8 i bob pwrpas yn golygu y gellir gwneud apêl. Amod a osodwyd ar gymunedau gan Lywodraeth Lafur Cymru oedd hwnnw.

It is particularly worrying that not one Welsh Government has made a specific assessment of the impact of windfarms on tourism, which is one of the biggest industry sectors in Wales. It was of particular concern to receive

Mae'n destun pryder arbennig nad yw un Llywodraeth Gymreig wedi gwneud asesiad penodol o effaith ffermydd gwynt ar dwristiaeth, sydd yn un o'r sectorau diwydiant mwyaf yng Nghymru. Roedd yn

confirmation that no assessment has been made by the Labour Welsh Government of the pylons that will accompany these developments. What did the Welsh Government think would happen when windfarms within the strategic areas would need to be connected to the grid? It had a direct opportunity to make an assessment; it had someone sitting on the energy network strategy group two years ago, in 2008 and 2009, but that person did not make a single representation. That civil servant was sent there by the Welsh Government, but not a single—[*Interruption.*] Pardon?

The Presiding Officer: Order. I am sorry, but you do not have a conversation with someone who is seated; you just carry on speaking.

Antoinette Sandbach: Not a single representation seems to have been made to protect the beauty of mid Wales and north Wales.

Lord Elis-Thomas: Will you take an intervention?

Kenneth Skates *rose*—

The Presiding Officer: To whom are you giving way?

Antoinette Sandbach: Can they not decide between them?

The Presiding Officer: No, I am sorry, but you must decide.

Antoinette Sandbach: I am happy to give way to Kenneth Skates.

Kenneth Skates: Given your support for tourism and the environment, do you agree that extending the area of outstanding natural beauty in large parts of north-east Wales is the right thing to do?

Antoinette Sandbach: I do not think that that is relevant to this debate, as it has nothing to do with TAN 8.

bryder arbennig i dderbyn cadarnhad nad oes asesiad wedi ei wneud gan Lywodraeth Llafur Cymru o'r peilonau a fydd yn cydfynd â'r datblygiadau hyn. Beth oedd Llywodraeth Cymru yn meddwl fyddai'n digwydd pan fyddai angen cysylltu ffermydd gwynt yn yr ardaloedd strategol â'r grid? Roedd ganddi gyfle uniongyrchol i wneud asesiad; roedd rhywun yn eistedd ar y grŵp strategaeth rhwydwaith ynni ddwy flynedd yn ôl, yn 2008 a 2009, ond ni wnaeth y person hwnnw un cynrychiolaeth. Anfonwyd y gwas sifil hwnnw yno gan Lywodraeth Cymru, ond ni wnaethpwyd un—[*Torri ar draws.*] Pardwn?

Y Llywydd: Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, ond nid ydych yn cynnal sgwrs gyda rhywun sy'n eistedd; rydych yn parhau i siarad.

Antoinette Sandbach: Nid yw'n ymddangos bod un cynrychiolaeth wedi ei wneud i ddiogelu harddwch y canolbarth a gogledd Cymru.

Yr Arglwydd Elis-Thomas: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Kenneth Skates *a gododd*—

Y Llywydd: I bwy yr ydych yn ildio?

Antoinette Sandbach: Onid allant benderfynu rhyngddynt?

Y Llywydd: Na, mae'n flin gennyf, ond rhaid i chi benderfynu.

Antoinette Sandbach: Yr wyf yn hapus i ildio i Kenneth Skates.

Kenneth Skates: O ystyried eich cefnogaeth i dwristiaeth a'r amgylchedd, a ydych yn cytuno mai ymestyn yr ardal o harddwch naturiol eithriadol mewn rhannau helaeth o ogledd-ddwyrain Cymru yw'r peth iawn i'w wneud?

Antoinette Sandbach: Nid wyf yn credu bod hynny'n berthnasol i'r ddadl hon, gan nad oes ganddo unrhyw beth i'w wneud â TAN 8.

Lord Elis-Thomas: I am grateful to you for giving way and I think that this point will be relevant. You will be aware that the Countryside Council for Wales, as the lead planning adviser, has been involved in some of these discussions and that the preferred planning option, rather than having a whole network of smaller overhead supply lines, is to concentrate these. Much of that discussion is related to TAN 8. The reason why the network has to be strengthened is in order to provide for all types of renewable production, not just wind power but also small hydro power.

Antoinette Sandbach: The advantage of offshore hydro is that that connection can be carried on, for example, in north Wales, along the Dee estuary into Deeside power station. Sadly, the Welsh Government did not reserve the capacity of Deeside power station for Welsh renewable energy electricity generation. In fact, there will be cables running from Scotland to bring in energy from there and, as a result, we may need pylons across north Wales. That position is totally unacceptable.

I have written to the First Minister about the failures to make representations about the Welsh tourism industry, the natural beauty of and our assets in mid Wales and north Wales, and the threat that has been posed to them by the failure of the Welsh Government to make representations to the energy network strategy review. Has the Minister now made a submission to the undergrounding consultation from National Grid, because no submissions had been made before the Assembly rose in March? If he has not, I invite him to do so because the consultation is open until 4 July.

The Presiding Officer: Order. Can you wind up, please?

Antoinette Sandbach: The consequences of failing to act are that vast areas of rural Wales will be blighted by high voltage pylons, which will be a gross betrayal of rural

Yr Arglwydd Elis-Thomas: Yr wyf yn ddiolchgar i chi am ildio ac yr wyf yn meddwl y bydd y pwynt hwn yn berthnasol. Byddwch yn ymwybodol bod Cyngor Cefn Gwlad Cymru, fel y prif gynghorydd cynllunio, wedi bod yn ymwneud â rhai o'r trafodaethau hyn ac mai'r dewis cynllunio sy'n cael ei ffafrio, yn hytrach na chael rhwydwaith gyfan o linellau cyflenwad uwchben sydd yn llai, yw eu canolbwyntio. Mae llawer o'r drafodaeth yn gysylltiedig â TAN 8. Y rheswm pam y mae'n rhaid cryfhau'r rhwydwaith yw er mwyn darparu ar gyfer pob math o gynhyrchu adnewyddadwy, nid pŵer gwynt yn unig, ond ynni dŵr llai hefyd.

Antoinette Sandbach: Mantais hydro môr yw y gall y cysylltiad hwnnw gael ei gario ymlaen, er enghraifft, yn y gogledd, ar hyd aber afon Dyfrdwy i orsaf bŵer Glannau Dyfrdwy. Yn anffodus, ni chadwodd Llywodraeth Cymru gapasiti gorsaf bŵer Glannau Dyfrdwy ar gyfer cynhyrchu trydan ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mewn gwirionedd, bydd ceblau yn rhedeg o'r Alban i ddod ag ynni oddi yno ac, o ganlyniad, efallai y bydd angen peilonau ar draws gogledd Cymru. Mae hynny'n sefyllfa gwbl annerbyniol.

Yr wyf wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog am y methiannau i gyflwyno sylwadau am y diwydiant twristiaeth yng Nghymru, harddwch naturiol ein hasedau yn y canolbarth a gogledd Cymru, a'r bygythiad iddynt gan fethiant Llywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau i'r adolygiad strategaeth rhwydwaith ynni. A ydyw'r Gweinidog yn awr wedi gwneud cyflwyniad i'r ymgynghoriad o dan y ddaear gan y Grid Cenedlaethol, oherwydd nid oedd unrhyw sylwadau wedi cael eu gwneud cyn i'r Cynulliad godi ym mis Mawrth? Os nad ydyw wedi gwneud, yr wyf yn ei wahodd i wneud hynny gan fod yr ymgynghoriad ar agor tan 4 Gorffennaf.

Y Llywydd: Trefn. A allwch chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

Antoinette Sandbach: Canlyniadau methu gweithredu yw y bydd ardaloedd helaeth o gefn gwlad Cymru yn cael eu difetha gan beilonau foltedd uchel, a fydd yn fradychiad

communities.

The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):

I apologise for entering the Chamber a moment after the debate began.

The Welsh Government takes its responsibilities to deliver sustainable development, tackle climate change and deliver energy security very seriously indeed. Our energy needs in a modern society will remain considerable and must be met securely from low-carbon sources. There is no retreat from our energy policy on renewables or from our low-carbon revolution energy statement. It is about energy saving, energy efficiency and the promotion of low-carbon technologies.

The written statement issued by my colleague the First Minister on 17 June clearly sets out the Welsh Government's position in relation to TAN 8, the current National Grid consultations on grid reinforcement in mid Wales and the need for the devolution of major energy consents to Wales. These decisions are currently a matter for the Tory-led Government in London. It is ridiculous that the people of Wales cannot decide on such matters.

Kirsty Williams: You will be aware that parties across the Chamber have long been calling for Westminster to devolve those powers to the Assembly. You say that the situation as it currently stands is ridiculous. Was the situation ridiculous when your Ministers made similar requests of your Labour colleagues in London and they refused? Given that there is a consensus around the Chamber about the need to devolve this power, will you publish the Welsh Government's plans for dealing with the applications that you have submitted to the Westminster Government for us to see the compelling case that you have made? My understanding is that it is open to discussions, but that it has yet to see how your Government would handle these applications.

4.15 p.m.

mawr o gymunedau gwledig.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):

Yr wyf yn ymddiheuro am ddod i mewn i'r Siambr funud ar ôl i'r ddadl ddechrau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd ei gyfrifoldebau i sicrhau datblygu cynaliadwy, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a darparu diogelwch ynni yn ddifrifol iawn. Bydd ein hanghenion ynni mewn cymdeithas fodern yn parhau'n sylweddol, a rhaid eu diwallu'n ddiogel o ffynonellau carbon isel. Nid oes cilio oddi wrth ein polisi ynni ar ynni adnewyddadwy neu o'n datganiad ynni chwyldro carbon isel. Mae'n ymwneud ag arbed ynni, effeithlonrwydd ynni a hyrwyddo technolegau carbon isel.

Mae'r datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan fy nghydweithiwr, y Prif Weinidog, ar 17 Mehefin yn gosod allan yn glir safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â TAN 8, yr ymgynghoriadau Grid Cenedlaethol presennol ar y dulliau atgyfnerthu grid yn y Canolbarth a'r angen am ddatganoli cydsyniadau ynni mawr i Gymru. Mae'r penderfyniadau hyn ar hyn o bryd yn fater i'r Llywodraeth a arweinir gan y Torïaid yn Llundain. Mae'n hurt na all pobl Cymru benderfynu ar faterion o'r fath.

Kirsty Williams: Byddwch yn ymwybodol bod pleidiau ar draws y Siambr wedi bod yn galw am amser hir i San Steffan ddatganoli'r pwerau hynny i'r Cynulliad. Rydych yn dweud bod y sefyllfa fel ag y mae ar hyn o bryd yn hurt. A oedd y sefyllfa yn hurt pan wnaeth eich Gweinidogion geisiadau tebyg o'ch cydweithwyr Llafur yn Llundain ac fe'u gwrthodwyd? O ystyried bod consensws o gwmpas y Siambr am yr angen i ddatganoli'r pŵer hwn, a wnewch chi gyhoeddi cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer ymdrin â'r ceisiadau yr ydych wedi eu cyflwyno i Lywodraeth San Steffan i ni weld yr achos cymhellol yr ydych wedi'i wneud? Fy nealltwriaeth i yw ei fod yn agored i drafodaethau, ond ei fod eto i weld sut y byddai eich Llywodraeth yn trin y ceisiadau hyn.

John Griffiths: I may not be able to take many interventions if they last that long, Llywydd. Your colleagues are now in Government at a UK level and I am afraid that you and the Conservative opposition here cannot avoid that reality. It is your responsibility now and you must face up to it— *[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order. The Minister is speaking.

John Griffiths: We continue to promote all forms of renewable energy, with onshore wind being currently the most commercially mature form of renewable energy. The Welsh Government remains committed to the principles of planning for onshore wind in a strategic way that seeks to optimise the production of renewable energy while protecting Wales's environment and preventing the proliferation of such development all over Wales.

It is clear that, as a responsible Government, we must confront the issues of climate change and security of energy production to ensure that this transition to low carbon maximises the economic renewal opportunities and practical jobs and skills, and protects Wales's environmental assets while ensuring the interests of local communities. On calls to review TAN 8, we had 2,000 responses to our consultation exercise, which undermines some of the points that Members have made today as to the thoroughness and meaningfulness of the exercise underpinning TAN 8. It provides an appropriate framework for the strategic planning of renewable energy in Wales and we believe that it is still fit for purpose. That is why I cannot support amendments 1 and 4.

Darren Millar: Will you take an intervention?

John Griffiths: I am wary of taking further interventions, as I have little time, but I give way to Darren Millar.

Darren Millar: Do you not accept, Minister, that renewable technologies are moving on apace and that, in the last six or seven years,

John Griffiths: Efallai na fyddaf yn gallu cymryd llawer o ymyriadau os ydynt yn para mor hir â hynny, Lywydd. Mae eich cydweithwyr yn awr yn y Llywodraeth ar lefel y DU ac mae arnaf ofn na allwch chi a'r wrthblaid Geidwadol osgoi'r realiti hwnnw. Eich cyfrifoldeb chi yw hyn yn awr ac mae'n rhaid i chi wynebu hynny—*[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn. Mae'r Gweinidog yn siarad.

John Griffiths: Rydym yn parhau i hyrwyddo pob math o ynni adnewyddadwy, gyda gwynt ar y tir ar hyn o bryd gyda'r ffurf mwyaf aeddfed yn fasnachol o ynni adnewyddadwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i egwyddorion cynllunio ar gyfer gwynt ar y tir mewn ffordd strategol sy'n ceisio gwneud y gorau o gynhyrchu ynni adnewyddadwy tra'n diogelu amgylchedd Cymru ac atal y doreth fawr o ddatblygiadau o'r fath ledled Cymru.

Mae'n amlwg, fel Llywodraeth gyfrifol, bod rhaid i ni wynebu'r materion o newid yn yr hinsawdd a diogelwch cynhyrchu ynni i sicrhau bod y newid hwn i garbon isel yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd adnewyddu'r economi a'r swyddi a sgiliau ymarferol, ac yn amddiffyn asedau amgylcheddol Cymru gan sicrhau buddiannau'r cymunedau lleol. Ynglŷn â galwadau i adolygu TAN 8, yr oedd gennym 2,000 o ymatebion i'n hymarfer ymgynghori, sy'n tanseilio rhai o'r pwyntiau a wnaethpwyd gan Aelodau heddiw o ran trylwyredd ac ystyr yr ymarfer sy'n sail i TAN 8. Mae'n darparu fframwaith briodol ar gyfer cynllunio strategol o ynni adnewyddadwy yng Nghymru a chredwn ei fod yn dal yn addas at y diben. Dyna pam na allaf gefnogi gwelliannau 1 a 4.

Darren Millar: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

John Griffiths: Yr wyf yn wylidwrus o gymryd ymyriadau pellach, gan mai ychydig amser sydd gennyf, ond yr wyf yn ildio i Darren Millar.

Darren Millar: A ydych yn derbyn, Weinidog, bod technolegau adnewyddadwy yn symud ymlaen yn gyflym ac, yn y chwe

since TAN 8 was developed as a policy, things like the size of turbines may need to lead to a review of buffer zones and other important issues around windfarm developments?

John Griffiths: Of course the technology moves on; our overall energy policies recognise that and seek to keep pace with that. That is one reason why we have the new tidal stream technology that will be installed off Ramsey sound in the near future.

On upper limit capacities in terms of the strategic search areas and TAN 8, the First Minister's written statement set out our view that the capacities identified in underpinning TAN 8 reflected a considered view of the potential impact of grid and transport connections. However, in a number of SSAs, developer interest has greatly exceeded those figures. That is why the Garrad Hassan work provides a robust evidence-based assessment of those maximum capacities within the SSAs, and we consider that these capacities should be regarded as upper limits, negating the necessity for large pylons in mid Wales. Those figures allow the Welsh Government to maintain the view set out in 'A Low Carbon Revolution' that 2 GW of onshore wind can be delivered, in the main, by 2017 from strategic search areas, brownfield sites and microgeneration schemes.

Therefore, we consider that TAN 8 is still robust, but many Members have made points about who is responsible and whether this is a blame game between the Welsh Government and the UK Government. I was interested in comments made by Russell George, for example, given that, on this matter, his colleague Glyn Davies, the Tory MP for Montgomeryshire, seems quite clear. Referring to the First Minister's statement, he said:

'For me it's hugely welcome news—it's all I could have hoped for...It's clear that the first minister and the Welsh Government have listened to the people of mid Wales...' I have now all the ammunition I need to continue

neu saith mlynedd diwethaf, ers i TAN 8 gael ei ddatblygu fel polisi, efallai y bydd pethau fel maint tyrbinau yn arwain at adolygiad o barthau clustogi a materion pwysig eraill o amgylch datblygiadau ffermydd gwynt?

John Griffiths: Wrth gwrs, mae'r dechnoleg yn symud ymlaen; mae ein polisiau ynni cyffredinol yn cydnabod hynny ac yn ceisio cadw i fyny â hynny. Dyna un rheswm pam y mae gennym y dechnoleg newydd ar gyfer y ffrwd lanw a fydd yn cael ei osod yn Swnt Dewi yn y dyfodol agos.

Ar alluoedd terfyn uchaf o ran yr ardaloedd chwilio strategol a TAN 8, nododd datganiad ysgrifenedig y Prif Weinidog ein barn bod y galluoedd a nodir yn sail i TAN 8 yn adlewyrchu barn ystyriol o effaith bosibl y grid a chysylltiadau trafniadaeth. Fodd bynnag, mewn nifer o ardaloedd chwilio strategol, mae diddordeb datblygwyr wedi rhagori yn fawr ar y ffigurau hynny. Dyna pam y mae gwaith Garrad Hassan yn darparu asesiad cadarn o'r galluoedd mwyaf hynny o fewn yr ardaloedd chwilio strategol ar sail tystiolaeth, ac yr ydym yn ystyried y dylai'r galluoedd hyn gael eu hystyried yn derfynau uchaf, gan negyddu'r angen am beilonau mawr yn y canolbarth. Mae'r ffigurau hynny'n caniatáu i Lywodraeth Cymru i gynnal y farn a nodir yn 'Chwyldro Carbon Isel' y gall 2 GW o wynt ar y tir gael ei gyflwyno, ar y cyfan, erbyn 2017, o ardaloedd chwilio strategol, safleoedd tir llwyd a chynlluniau microgynhyrchu.

Felly, yr ydym o'r farn bod TAN 8 yn dal yn gadarn, ond mae llawer o Aelodau wedi gwneud pwyntiau ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol ac a ydyw hyn yn fater o daflu'r bai yn ôl ac ymlaen rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Yr oedd gennyf ddiddordeb yn y sylwadau a wnaed gan Russell George, er enghraifft, o gofio, ar y mater hwn, bod ei gydweithiwr Glyn Davies, AS Toriaidd dros Sir Drefaldwyn, yn ymddangos yn eithaf clir. Gan gyfeirio at ddatganiad y Prif Weinidog, dywedodd:

I mi, mae'n newyddion i'w groesawu'n fawr—dyna oll y gallwn fod wedi gobeithio amdano...Mae'n amlwg bod y Prif Weinidog a Llywodraeth Cymru wedi gwrandao ar bobl canolbarth Cymru...Mae gennyf yn awr yr

this fight in Westminster’.

holl arfau y mae arnaf eu hangen i barhau'r frwydr hon yn San Steffan.

That was said by Russell's colleague in Montgomeryshire, who seems quite clear on where responsibility largely lies for recognising and reacting to the concerns of the people of mid Wales.

Dywedwyd hynny gan gydweithiwr Russell yn Sir Drefaldwyn, sy'n ymddangos yn eithaf clir ar ble y mae'r cyfrifoldeb i raddau helaeth yn gorwedd ar gyfer cydnabod ac ymateb i bryderon pobl canolbarth Cymru.

Antoinette Sandbach *rose—*

Antoinette Sandbach *a gododd—*

John Griffiths: I have no time for further interventions. [*Interruption.*]

John Griffiths: Nid oes gennyf amser ar gyfer ymyriadau pellach. [*Torri ar draws.*]

The Presiding Officer: Order. Could Members listen to what the Minister is saying?

Y Llywydd: Trefn. A all Aelodau wrando ar yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud?

John Griffiths: Some Members do not appear to have read the policies they so vehemently oppose. They fail to recognise the fact that Welsh Government policy, as set out in our energy policy statement 'Planning Policy Wales' and TAN 8, contains clear, practical steps to promote a mix of renewable energy technologies. Onshore wind is just one of them, albeit an important one. Our energy policy statement, issued in March 2010, outlines the potential outputs in Wales from a range of renewable energy sources, including offshore wind, biomass and marine. The pursuit of a mix of renewables is currently Welsh Government policy, and it is for this reason that we support amendment 5. The First Minister outlined in his statement last Friday that the challenges of climate change and energy security mean that we must embrace alternative renewable energy technologies and ensure that Wales continues to play its part in this challenge of international significance. We have, in TAN 8, a document that sets out in a positive and clear way our vision for how a mix of renewable energy technologies should be planned for.

John Griffiths: Nid yw'n ymddangos bod rhai Aelodau wedi darllen y polisiâu y maent yn eu gwrthwynebu yn ffyrnig. Maent yn methu â chydabod y ffaith bod polisi Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn ein datganiad polisi ynni 'Polisi Cynllunio Cymru' a TAN 8, yn cynnwys camau clir, ymarferol i hyrwyddo cymysgedd o dechnolegau ynni adnewyddadwy. Un ohonynt yw gwynt ar y tir, er ei fod yn un pwysig. Mae ein datganiad polisi ynni, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010, yn amlinellu'r canlyniadau posibl yng Nghymru o nifer o ffynonellau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys gwynt ar y môr, biomas ac ynni morol. Mae mynd ar drywydd cymysgedd o ynni adnewyddadwy yn un o bolisiau Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, ac am y rheswm hwn yr ydym yn cefnogi gwelliant 5. Amlinellodd y Prif Weinidog yn ei ddatganiad ddydd Gwener diwethaf bod heriau'r newid yn yr hinsawdd a diogelwch ynni yn golygu bod yn rhaid inni groesawu technolegau ynni adnewyddadwy amgen a sicrhau bod Cymru yn parhau i chwarae ei rhan yn yr her hwn sydd o bwys rhyngwladol. Mae gennym, yn TAN 8, ddogfen sy'n amlinellu mewn ffordd gadarnhaol a chlr ein gweledigaeth ar gyfer sut y dylai cymysgedd o dechnolegau ynni adnewyddadwy gael eu cynllunio.

The Presiding Officer: Order. Could you wind up, please?

Y Llywydd: Trefn. A allech chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

John Griffiths: Many of the issues surrounding the proposed pylons in mid

John Griffiths: Nid yw llawer o'r materion sy'n ymwneud â'r pylonau arfaethedig yng

Wales do not arise from TAN 8, but rather from the fact that decision-making powers on large energy projects and associated grid infrastructure do not lie with the Welsh Government.

The Presiding Officer: Order. You really must wind up now.

John Griffiths: Decision-making powers on these fundamental parts of our infrastructure are not devolved.

The Presiding Officer: I call on Andrew R.T. Davies to reply to the debate in four minutes.

Andrew R.T. Davies: That is precise, Presiding Officer. It is a pleasure to respond to today's debate, and in particular to the Minister's closing remarks about Westminster's role in this. We accept that Westminster has a role, but 60 per cent of applications are determined under the TAN 8 guidelines issued by the Welsh Government, with 40 per cent determined at Westminster. That is the fundamental narrative in this debate. It is disappointing, when you look at the motion, that the Minister did not concede the point that TAN 8 would benefit from a review after six years. Given the strength of feeling, and the way that time and technology have moved on, you would have thought that a review would be fundamental to helping the Welsh Government meet its climate change obligations.

There were many contributions, but I would like to congratulate Russ George, first of all, on his maiden speech, and on the way that he eloquently set out the situation that many of his constituents in mid Wales face. That was emphasised to many Members by the protest outside the Assembly in mid May. It was the biggest protest that we have seen, and the force and the passion of the protest was felt. In this debate, Joyce Watson, Member for Mid and West Wales, was completely dislocated from the points that she made to those people outside the Assembly. When she looks at the motion before us, I think that she needs to consider carefully how she will vote, because she clearly stated that she would be pushing for a review of TAN 8, as the motion

nghanolbarth Cymru yn codi o TAN 8, ond, yn hytrach, o'r ffaith nad yw pwerau penderfynu ar brosiectau ynni mawr a seilwaith grid cysylltiedig yn gorwedd gyda Llywodraeth Cymru.

Y Llywydd: Trefn. Rhaid ichi ddirwyn i ben yn awr.

John Griffiths: Nid yw pwerau penderfynu ar y rhannau sylfaenol hyn o'n seilwaith wedi cael eu datganoli.

Y Llywydd: Galwaf ar Andrew R.T. Davies i ymateb i'r ddadl mewn pedair munud.

Andrew R.T. Davies: Mae hynny'n fanwl, Lywydd. Mae'n bleser ymateb i'r ddadl heddiw, ac yn benodol i'r sylwadau cloi gan y Gweinidog am rôl San Steffan yn hyn. Rydym yn derbyn bod gan San Steffan rôl, ond mae 60 y cant o geisiadau yn cael eu penderfynu dan ganllawiau TAN 8 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda 40 y cant yn cael eu penderfynu yn San Steffan. Dyna'r naratif sylfaenol yn y ddadl hon. Mae'n siomedig, pan fyddwch yn edrych ar y cynnig, nad oedd y Gweinidog yn derbyn y pwynt y byddai TAN 8 yn elwa o adolygiad ar ôl chwe blynedd. O ystyried cryfder y teimladau, a'r ffordd y mae technoleg ac amser wedi symud ymlaen, byddech wedi meddwl y byddai adolygiad yn hanfodol i helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei rwymedigaethau newid yn yr hinsawdd.

Yr oedd llawer o gyfraniadau, ond hoffwn longyfarch Russ George, yn gyntaf oll, ar ei araith gyntaf, ac ar y ffordd huawdl y gwnaeth nodi'r sefyllfa y mae llawer o'i etholwyr yn ei wynebu yng nghanolbarth Cymru. Pwysleisiwyd hynny i lawer o Aelodau gan y brotest y tu allan i'r Cynulliad ganol mis Mai. Dyna'r brotest fwyaf yr ydym wedi ei gweld, a theimlwyd cryfder ac angerdd y brotest. Yn y ddadl hon, yr oedd Joyce Watson, yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, wedi datgymalu yn gyfan gwbl o'r pwyntiau a wnaeth i'r bobl hynny y tu allan i'r Cynulliad. Pan fydd hi'n edrych ar y cynnig ger ein bron, yr wyf yn meddwl bod angen iddi ystyried yn ofalus sut y bydd yn pleidleisio, gan ei bod wedi datgan yn glir y

does. The Minister, by way of the Government amendment, wants to remove our motion's second point; yesterday, he was happy to call a moratorium on the badger cull related to bovine TB, but he is not happy to listen to the residents of mid Wales and the politicians who have come to the Chamber to represent them—he is not happy to call a moratorium while he reviews the evidence on this policy and looks at the consequences that he is inflicting on those residents. That cannot be acceptable.

David Rees: Would you agree that decisions on all proposals above 50 MW are Westminster decisions? We would have no power, through a moratorium, on any application being made at that level.

Andrew R.T. Davies: I accept that. The former Presiding Officer made a speech asking what Welsh Conservative policy is on this. I refer him to the manifesto that we put before the electorate, which clearly outlines our policy. I refer him specifically to the legislative policies that we included in that manifesto—we were the only party to come forward with a comprehensive legislative programme—which touched on the environment and on the initiatives that we would like to see the Welsh Government adopting on climate change.

There can be no doubt in people's minds of the commitment of Members on this side of the Chamber to the climate change agenda and its seriousness. Our commitment is to ensuring that local communities' voices are heard and that, above all, there is a sensible and sustainable policy for regeneration in Wales, because what we currently have is a dislocated policy. Russ George touched on the First Minister's welcome intervention on Friday and his statement, but the dislocation between what the First Minister is saying and what is in the planning guidance that is coming from his Minister with responsibility for planning, and the fact that planning officers and councils have to work in this void, cannot be disputed.

byddai'n gwthio am adolygiad o TAN 8, fel y mae'r cynnig yn ei wneud. Mae'r Gweinidog, drwy welliant y Llywodraeth, yn awyddus i gael gwared ar ail bwynt ein cynnig; ddoe; yr oedd yn hapus i alw moratoriwm ar y cynllun difa moch daear yn ymwneud â TB mewn gwartheg, ond nid yw'n hapus i wrando ar drigolion canolbarth Cymru a'r gwleidyddion sydd wedi dod i'r Siambr i'w cynrychioli—nid yw'n hapus i alw moratoriwm tra'i fod yn adolygu'r dystiolaeth ar y polisi hwn ac edrych ar y canlyniadau y mae'n achosi i'r trigolion hynny. Ni all hynny fod yn dderbyniol.

David Rees: A fydddech yn cytuno mai penderfyniadau i San Steffan yw'r penderfyniadau ar yr holl gynigion dros 50 MW? Ni fyddai gennym bŵer, drwy foratoriwm, ar unrhyw gais a wneir ar y lefel honno.

Andrew R.T. Davies: Yr wyf yn derbyn hynny. Gwnaeth y cyn-Lywydd araith yn gofyn beth yw polisi Ceidwadwyr Cymru ar hyn. Cyfeiriai ef i'r maniffesto a roesom gerbron yr etholwyr, sy'n amlinellu'n glir ein polisi. Fe'i cyfeiriai yn benodol at y polisiau deddfwriaethol a gynhwysir yn y maniffesto hwnnw—ni oedd yr unig blaid i gyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol gynhwysfawr—sy'n cyffwrdd ar yr amgylchedd ac ar y mentrau yr hoffem weld Llywodraeth Cymru yn eu mabwysiadu ar yr hinsawdd newid.

Ni all fod unrhyw amheuaeth ym meddyliau pobl o ymrwymiad yr Aelodau ar yr ochr hon i'r Siambr at yr agenda newid yn yr hinsawdd a'i ddifrifoldeb. Ein hymrwymiad yw sicrhau bod lleisiau cymunedau lleol yn cael eu clywed a bod, yn anad dim, polisi synhwyrol a chynaliadwy ar gyfer adfywio yng Nghymru, oherwydd yr hyn sydd gennym ar hyn o bryd yw polisi wedi'i ddatgymalu. Cyffyrddodd Russ George â'r ymyrraeth a oedd i'w groesawu gan y Prif Weinidog ddydd Gwener a'i ddatganiad, ond ni ellir gwadu'r datgysylltiad rhwng yr hyn y mae'r Prif Weinidog yn ei ddweud a'r hyn sydd yn y canllawiau cynllunio sy'n dod o'i Weinidog sydd â chyfrifoldeb am gynllunio, a'r ffaith bod rhaid i swyddogion cynllunio a chynghorau weithio yn y gwagle hwn.

Joyce Watson *rose*—

Andrew R.T. Davies: I am sorry, Joyce, but I cannot take your intervention; I only have four minutes.

I would hope that the Minister with responsibility for planning reflects on Members' contributions today and on the motion that is before this Assembly. Ultimately, it is a motion seeking a review of TAN 8; it does not seek to have it struck down. It also asks the Minister to recognise the achievements and advancements in renewable energy technology. Therefore, when you reflect on those points, you surely cannot find fault with this motion. I hope that the Government supports it, but I will not hold my breath.

I urge Members to support the motion. I also urge them to support the concerns that have been so eloquently addressed from this side and from other quarters in the Chamber and in communities up and down Wales to have TAN 8 reviewed, so that we can have a consistent and coherent policy in which people can have confidence.

The Presiding Officer: The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there is objection, therefore I defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan yr amser pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 4.27 p.m.
The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 4.27 p.m.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Prosiectau Trafnidiaeth Transport Projects

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jocelyn Davies and amendment 2 in the name of Peter Black.

Cynnig NDM4743 Nick Ramsay

Joyce Watson *a gododd*—

Andrew R.T. Davies: Mae'n ddrwg gennyf, Joyce, ond ni allaf gymryd eich ymyriad; dim ond pedair munud sydd gennyf.

Byddwn yn gobeithio y bydd y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynllunio yn adlewyrchu ar gyfraniadau Aelodau heddiw ac ar y cynnig sydd gerbron y Cynulliad hwn. Yn y pen draw, mae'r cynnig yn gofyn am adolygiad o TAN 8; nid yw'n ceisio ei ddi-ddymu. Mae hefyd yn gofyn i'r Gweinidog gydnabod y cyflawniadau a'r datblygiadau mewn technoleg ynni adnewyddadwy. Felly, pan fyddwch yn myfyrio ar y pwyntiau hynny, yn sicr ni allwch ddarganfod bai gyda'r cynnig hwn. Gobeithio y bydd y Llywodraeth yn ei gefnogi, ond ni fyddaf yn dal fy anadl.

Anogaf yr Aelodau i gefnogi'r cynnig. Yr wyf hefyd yn eu hannog i gefnogi'r pryderon sydd wedi cael sylw mor huawdl o'r ochr hon ac o fannau eraill yn y Siambr ac mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru i adolygu TAN 8, fel y gallwn gael polisi cyson a chydlynol y mae gan bobl hyder ynddo.

Y Llywydd: Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies a gwelliant 2 yn enw Peter Black.

Motion NDM4743 Nick Ramsay

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Brosiectau Trafnidiaeth Mawr (2011);

2. Yn nodi â phryder fod llawer o brosiectau trafndiaeth wedi 'costio cryn dipyn yn fwy ac wedi cymryd mwy o amser i'w cwblhau na'r disgwyl';

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid ar gyfer prosiectau trafndiaeth yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

Byron Davies: I move the motion.

I am pleased to open this debate on behalf of the Welsh Conservatives, to bring this serious issue to the forefront and to highlight what has been a chronic waste of taxpayers' money. It is a real pleasure to lead this debate—my first as shadow Minister for transport.

The debate is tabled to highlight the gross neglect of previous Governments in Cardiff bay, which has led to the waste of at least £226 million. Yes, I did say £226 million. It is my fervent hope that this debate, and this new Welsh Labour Government, will listen to and learn from the Wales Audit Office, which has clearly spelt out in its report where and how former Governments and Ministers went wrong. I take heart from the opportunity that we now have, as a newly invigorated Assembly that is anxious to prevent any further waste and learn from these costly lessons. This opportunity, however, does not mean that these costly mistakes can be swept under the carpet, particularly in these times of austerity and hardship for public and private finances.

Wasting nearly £0.25 billion is simply immoral. That waste was instigated by a Labour-led administration that failed to properly manage and supervise. It is fitting, at this juncture, to acknowledge the work of the Wales Audit Office, which has produced a stark and thought-provoking report. In a nutshell, the Wales Audit Office report on

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Welcomes the report by the Wales Audit Office on Major Transport Projects (2011);

2. Notes with concern that many transport projects have 'cost substantially more and taken longer to complete than expected';

3. Calls for the Welsh Government to ensure that funding for transport projects is used in an efficient and effective way.

Byron Davies: Cynigiaf y cynnig.

Yr wyf yn falch o agor y ddadl hon ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, i ddod â'r mater difrifol hwn i'r amlwg ac i dynnu sylw at yr hyn sydd wedi bod yn wastraff cronig o arian trethdalwyr. Mae'n bleser gwirioneddol i arwain y ddadl hon—fy nghyntaf fel Gweinidog yr wrthblaid dros drafndiaeth.

Cyflwynir y ddadl i dynnu sylw at esgeulustod mawr Llywodraethau blaenorol ym mae Caerdydd, sydd wedi arwain at wastraffu o leiaf £226 miliwn. Ie, £226 miliwn a ddywedais i. Fy ngobaith angerddol yw y bydd y ddadl hon, a Llywodraeth Lafur newydd Cymru, yn gwrandao ac yn dysgu gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd wedi nodi'n glir yn ei hadroddiad ble a sut yr aeth pethau o chwith i gyn-Llywodraethau a Gweinidogion. Yr wyf yn cymryd cysur o'r cyfle sydd gennym yn awr, fel Cynulliad sydd newydd ei fywiogi ac sy'n awyddus i atal unrhyw wastraff pellach a dysgu oddi wrth y gwersi costus hyn. Nid yw'r cyfle hwn, fodd bynnag, yn golygu y gall y camgymeriadau costus hyn gael eu sgubo o dan y carped, yn enwedig yn y cyfnod hwn o galedi o ran cyllid cyhoeddus a phreifat.

Mae gwastraffu bron i £0.25 biliwn yn anfoesol. Ysgogwyd y gwastraff hwnnw gan weinyddiaeth dan arweiniad Llafur a oedd yn methu â rheoli a goruchwyllo yn briodol. Mae'n briodol, yn y fan hon, i gydnabod gwaith Swyddfa Archwilio Cymru, sydd wedi cynhyrchu adroddiad digalon sy'n peri rhywun i feddwl. Yn gryno, daeth adroddiad

major transport projects concluded that

‘many projects have cost substantially more and taken longer to complete than expected, hampering the delivery of the Assembly Government’s wider transport objectives.’

That is an extremely worrying statement, not only because of the missed investment opportunities for Wales’s transport network, but also because of the implications for any potential investor looking at Wales. This sends a real message of ineptitude.

4.30 p.m.

Let us look at some of the schemes in more detail to gauge a real feel for the spiralling costs. The estimated cost of the Porth relief road was £33 million, but the final cost was £102 million, meaning an overspend of £69 million. The estimated cost of the Church Village bypass was £34 million, but the final cost was £88 million, meaning an overspend of £54 million. The estimated cost of Angel Way in Bargoed was £17.5 million, but the final cost was £31.5 million, meaning an overspend of £14 million. The estimated cost of the A40 between Penblewin and Slebech Park was £27.5 million, but the final cost was £41.5 million, meaning an overspend just shy of £14 million. The estimated cost for all six sections of the Heads of the Valleys road was £268 million, with the work to be completed by 2009. The estimated completion date is now 2020, with a projected cost of £648 million, meaning a staggering overspend of £495 million. The list goes on. To add insult to injury, there are a number of projects that have incurred preparatory costs but have now been put on hold. The M4 relief road incurred preparatory costs of £13.9 million, but it is not being taken forward because the estimated cost increased to more than £1 billion. Similarly, plans for the Cardiff international airport access road incurred preparatory costs of £1.9 million, but are not being taken forward. Goodness knows the airport needs help. That gives you a flavour of the profligacy over past years and the problems that we face. In London, the ousted Labour Government proudly boasted, ‘There

Swyddfa Archwilio Cymru ar brosiectau trafndiaeth mawr i’r casgliad bod

‘llawer o brosiectau wedi costio cryn dipyn yn fwy ac wedi cymryd mwy o amser i’w cwblhau na’r disgwyl, gan lesteirio’r broses o gyflawni amcanion trafndiaeth ehangach Llywodraeth y Cynulliad.’

Mae hwnnw’n ddatganiad sy’n peri pryder mawr, nid yn unig oherwydd y cyfleoedd buddsoddi a gollwyd ar gyfer rhwydwaith trafndiaeth Cymru, ond hefyd oherwydd y goblygiadau ar gyfer unrhyw fuddsodwr posibl sy’n edrych ar Gymru. Mae hyn yn anfon neges o anfedruswydd.

Gadewch inni edrych ar rai o’r cynlluniau yn fwy manwl i fesur teimlad go iawn am y costau cynyddol. Amcangyfrifwyd mai cost ffordd liniaru Porth oedd £33 miliwn, ond y gost terfynol oedd £102 miliwn, sy’n golygu gorwariant o £69 miliwn. Amcangyfrifwyd mai cost ffordd osgoi Pentre’r Eglwys fyddai £34 miliwn, ond y gost derfynol oedd £88 miliwn, sy’n golygu gorwariant o £54 miliwn. Amcangyfrifwyd mai cost Ffordd yr Angel ym Margoed fyddai £17.5 miliwn, ond y gost derfynol oedd £31.5 miliwn, sy’n golygu gorwariant o £14 miliwn. Amcangyfrifwyd mai cost yr A40 rhwng Penblewin a Pharc Slebech fyddai £27.5 miliwn, ond y gost derfynol oedd £41.5 miliwn, sy’n golygu gorwariant o bron i £14 miliwn. Amcangyfrifwyd mai’r gost ar gyfer pob un o’r chwe rhan o ffordd Blaenau’r Cymoedd fyddai £268 miliwn, gyda’r gwaith i’w gwblhau erbyn 2009. Amcangyfrifir bellach mai 2020 fydd y dyddiad cwblhau, gyda chost amcanol o £648 miliwn, sy’n golygu gorwariant syfrdanol o £495 miliwn. Mae’r rhestr yn mynd ymlaen. I ychwanegu halen ar y briw, mae yna nifer o brosiectau sydd wedi peri costau paratoi ond sydd bellach wedi cael eu gohirio. Mae ffordd liniaru’r M4 wedi ennyn costau paratoadol o £13.9 miliwn, ond nid yw’n cael ei symud ymlaen gan fod y gost a amcangyfrifwyd wedi cynyddu i dros £1 biliwn. Yn yr un modd, achosodd y cynlluniau ar gyfer y ffordd fynediad at faes awyr rhyngwladol Caerdydd gostau paratoadol o £1.9 miliwn, ond nid ydynt yn cael eu datblygu. Dyn a wŷr

is no money left—we've spent it all', while, in Wales, the Labour-Plaid Government was probably thinking, 'We know—we spent it.'

Rhodri Glyn Thomas: You referred to the Plaid-Labour Government, but the schemes to which you referred were all schemes that were put forward prior to the One Wales Government. Are you now advocating that schemes that are put in at a low price should still be carried forward even if the price has been inflated?

Byron Davies: The former Plaid Minister could perhaps answer that question better than I.

These schemes raise some key issues, which I hope to tease out in opening this debate. If you look at 18 of the major transport projects in Wales, you can see that costs have, on average, been 61 per cent higher than originally estimated, meaning that they have increased from an estimated £366 million to £592 million, which is an overspend of some £226 million. That is almost £0.25 billion of Welsh taxpayers' money. I hope that the people of Wales are listening. Not only that, but these projects were delivered five and a half years later than originally estimated. Those delays have a domino effect, leading to inflated costs for future transport projects. As a result of the escalating costs of individual projects, other planned transport projects have had to be deferred, which, according to the report,

'has hampered the delivery of the Assembly Government's wider transport programmes and objectives.'

Yet another damning remark by the Wales Audit Office is that:

'Arguably, there are too many projects in programmes at the start, and there is a knock-on impact as costs increase on one project,

bod angen help ar y maes awyr. Mae hynny'n rhoi blas i chi o'r afradlonedd dros y blynyddoedd diwethaf a'r problemau sy'n ein hwynebu. Yn Llundain, ymfrostiodd y Llywodraeth Lafur a oedd wedi'i ddisodli, 'Nid oes arian ar ôl—rydym wedi ei wario i gyd', tra, yng Nghymru, roedd y Llywodraeth Lafur-Plaid yn fwy na thebyg yn meddwl, 'Rydym yn gwybod—ni a'i gwariodd.'

Rhodri Glyn Thomas: Cyfeiriasoch at y Llywodraeth Plaid-Llafur, ond mae'r cynlluniau y cyfeiriasoch atynt i gyd yn gynlluniau a gyflwynwyd cyn Llywodraeth Cymru'n Un. A ydych yn awr yn awgrymu y dylai cynlluniau sy'n cael eu cyflwyno am bris isel gael eu cario ymlaen, hyd yn oed os yw'r pris wedi cael ei chwyddo?

Byron Davies: Gallai'r cyn-Weinidog Plaid efallai ateb y cwestiwn hwnnw yn well na fi.

Mae'r cynlluniau hyn yn codi rhai materion allweddol, yr wyf yn gobeithio eu tynnu allan wrth agor y ddadl hon. Os ydych yn edrych ar 18 o'r prosiectau trafndiaeth mawr yng Nghymru, gallwch weld bod costau, ar gyfartaledd, wedi bod 61 y cant yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, sy'n golygu eu bod wedi cynyddu o amcangyfrif o £366 miliwn i £592 miliwn, sef gorwariant o ryw £226 miliwn. Mae hynny bron £0.25 biliwn o arian trethdalwyr Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd pobl Cymru yn gwrando. Nid yn unig hynny, ond cyflwynwyd y prosiectau hyn bum mlynedd a hanner yn ddiweddarach na'r amcangyfrif gwreiddiol. Mae'r oedi hwnnw yn cael effaith domino, gan arwain at gostau wedi'u chwyddo ar gyfer prosiectau trafndiaeth yn y dyfodol. O ganlyniad i gostau cynyddol prosiectau unigol, mae prosiectau trafndiaeth arfaethedig eraill wedi cael eu gohirio, sydd, yn ôl yr adroddiad,

'wedi llesteirio'r broses o gyflawni rhaglenni ac amcanion trafndiaeth ehangach Llywodraeth y Cynulliad.'

Sylw damniol arall gan Swyddfa Archwilio Cymru yw:

Gellir dadlau bod gormod o brosiectau mewn rhaglenni ar y dechrau, ac mae effaith gynyddol wrth i gostau gynyddu ar un

but budgets remain broadly fixed.... Other projects then have to be deferred, which exposes them to higher costs in future years. That has certainly happened’.

The important point here is that much of this waste could have been avoided had successive Assembly Governments shown a firmer hand, budgeted for inflation, introduced contractor involvement at an earlier stage and had tighter controls for transport grants to local authorities. Those are some of the primary lessons that this Government must now learn. These facts are incontrovertible, and I commend the now Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes, Mr Alun Davies, for raising concerns at the time. At the time, Mr Davies was concerned about the lack of scrutiny that had enabled ‘poor decisions to go unchallenged’, admitting that transport projects in Wales had not been

‘managed in the way that they are elsewhere in the UK already.’

That is a refreshing honesty, with which I hope the Government is approaching this debate today.

The people of Wales and, I am sure, Members of this Chamber, will not take kindly to buck-passing. I concede, to a point, that, although the Welsh Government distributes transport grant funding, local authorities have traditionally had the ultimate responsibility for project delivery. However, the Wales Audit Office expressed the following concerns about that, stating:

‘The Assembly Government had provided relatively little project management guidance or direct support to local authorities despite concerns about the capacity of local authorities to deliver major capital projects.’

Those faults and the strategic mismanagement can be laid directly at the

prosiect, ond mae cyllidebau yn aros yr un peth yn fras... Yna, mae’n rhaid i brosiectau eraill gael eu gohirio, sy’n eu gwneud yn agored i gostau uwch yn y dyfodol. Mae hynny’n sicr wedi digwydd.

Y pwynt pwysig yma yw y gellid wedi osgoi llawer o’r gwastraff hwn petai Llywodraethau olynol y Cynulliad wedi dangos llaw cadarnach, wedi cyllidebu ar gyfer chwyddiant, wedi cyflwyno cyfranogiad contractwr yn gynharach a phetai rheolaethau llymach ar gyfer grantiau trafndiaeth i awdurdodau lleol. Dyna rai o’r gwersi sylfaenol y mae’n rhaid i’r Llywodraeth hon eu dysgu. Mae’r ffeithiau hyn yn ddiymwad, ac yr wyf yn cymeradwyo Mr Alun Davies, sydd bellach yn Ddirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, am godi pryderon ar y pryd. Ar y pryd, roedd Mr Davies yn pryderu am y diffyg craffu a oedd wedi galluogi ‘penderfyniadau gwael i fynd rhagddynt heb sialens’, gan gyfaddef nad oedd prosiectau trafndiaeth yng Nghymru wedi eu

‘rheoli yn y ffordd y maent mewn rhannau eraill o’r DU yn barod.’

Mae’r gonestrwydd hwnnw yn chwa o awyr iach yr wyf yn gobeithio bod y Llywodraeth yn mynd i’w mabwysiadu yn y ddadl hon heddiw.

Ni fydd pobl Cymru ac Aelodau’r Siambr hon, yr wyf yn siŵr, yn gwerthfawrogi bwrw’r cyfrifoldeb. Yr wyf yn derbyn, hyd at bwynt, er bod Llywodraeth Cymru yn dosbarthu cyllid grant trafndiaeth, bod y cyfrifoldeb yn y pen draw ar gyfer darparu prosiect yn draddodiadol wedi gorwedd gydag awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mynegodd Swyddfa Archwilio Cymru y pryderon canlynol am hynny, gan nodi:

‘Cymharol brin oedd y canllawiau rheoli prosiect neu gymorth uniongyrchol a roddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i awdurdodau lleol er gwaethaf pryderon ynghylch gallu awdurdodau lleol i gyflawni prosiectau cyfalaf mawr.’

Gall y diffygion hynny a’r camreoli strategol gael eu gosod yn uniongyrchol wrth ddrws

door of the previous Welsh Assembly Government, and now at the door of the Welsh Labour Government. It is also worth noting that, because the Assembly Government carried most of the financial risks, local authorities had little incentive to control project costs.

Finally on this point, and most disturbingly, the Wales Audit Office found that the Welsh Government

‘had done little to encourage more accurate cost estimation by local authorities or to improve its scrutiny of early cost estimates’.

Members, it strikes me that we need a fundamental change in how we deliver major transport schemes. We need more than empty comments such as, ‘We will learn from these mistakes’—exceptionally expensive mistakes, I might add. While some changes have been made, I would welcome much earlier contractor involvement so that design work is agreed prior to the commencement of a construction contract. We need to do much more. We need gateway reviews to become the custom and practice for all current and future major projects. All major projects should be subject to a benefits realisation review, started 12 to 18 months before project completion, which could look at environmental, social and economic outcomes. The Government must also establish a common set of key performance indicators across all major transport projects in Wales. Finally, information on contractor performance should be shared and analysed to identify and address common areas of underperformance.

In conclusion, we can ill afford to squander another £0.25 billion, intended for the benefit of the people of Wales, as a result of a lack of scrutiny and leadership on the part of the Welsh Labour Government. The issues that I have highlighted, together with those highlighted in the Wales Audit Office’s report, would be an excellent starting point to ensure that waste on this scale never happens again. However, it is by no means exhaustive

Llywodraeth flaenorol Cynulliad Cymru, ac yn awr wrth ddrws Llywodraeth Lafur Cymru. Mae hefyd yn werth nodi, oherwydd mai Llywodraeth y Cynulliad wnaeth y rhan fwyaf o’r risgiau ariannol, nad oedd gan awdurdodau lleol fawr o gymhelliant i reoli costau prosiect.

Yn olaf, ar y pwynt hwn, ac sy’n peri’r pryder mwyaf, canfu Swyddfa Archwilio Cymru,

‘ni wnaed fawr ddim gan Lywodraeth y Cynulliad i annog amcangyfrif costau’n gywirach gan awdurdodau lleol nac i wella’r broses o graffu ar amcangyfrifon cynnar o gostau’.

Aelodau, mae’n fy nharo bod arnom angen newid sylfaenol yn y ffordd yr ydym yn darparu cynlluniau trafnidiaeth mawr. Rydym angen mwy na sylwadau gwag megis, ‘Byddwn yn dysgu o’r camgymeriadau hyn’—camgymeriadau eithriadol o ddrudd, ychwanegaf. Er bod rhai newidiadau wedi eu gwneud, byddwn yn croesawu cyfranogiad contractwr yn gynharach fel bod gwaith dylunio yn cael ei gytuno cyn dechrau’r contract adeiladu. Mae angen i ni wneud llawer mwy. Mae angen adolygiadau porth i ddod yn arfer ar gyfer pob prosiect mawr presennol ac yn y dyfodol. Dylai pob adolygiad mawr fod yn destun adolygiad gwireddu buddiannau, yn dechrau 12 i 18 mis cyn cwblhau’r prosiect, a allai edrych ar ganlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Rhaid i’r Llywodraeth hefyd sefydlu set cyffredin o ddangosyddion perfformiad allweddol ar draws yr holl brosiectau trafnidiaeth mawr yng Nghymru. Yn olaf, dylai gwybodaeth am berfformiad contractwyr gael eu rhannu a’u dadansoddi i nodi a mynd i’r afael â meysydd cyffredin o danberfformio.

I gloi, ni allwn fforddio gwastraffu £0.25 biliwn arall, a fwriedir er lles pobl Cymru, o ganlyniad i ddiffyg craffu ac arweinyddiaeth ar ran Llywodraeth Lafur Cymru. Byddai’r materion yr wyf wedi tynnu sylw atynt, ynghyd â’r rhai a amlygwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, yn fan cychwyn gwych i sicrhau bod gwastraff ar y raddfa hon byth yn digwydd eto. Fodd bynnag, nid dyma’r ffordd gynhwysfawr ac nid yw

and is nowhere near the level of protection that I would now seek from the Government. The underlying point is that we must never allow hundreds of millions of pounds to be wasted in such an appalling way again.

Gwelliant 1 Jocelyn Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ailrifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn croesawu'r rheolaeth ariannol well dros brosiectau trafnidiaeth a reolwyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Rhodri Glyn Thomas: Cynigiau welliant 1 yn enw Jocelyn Davies.

Mae'r cynnig a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr yn rhyfeddol. Mae'n cyfeirio at yr adroddiad a gyhoeddwyd, ond, am ryw reswm, mae'n anwybyddu yn gyfan gwbl y pedair blynedd diwethaf, pan ymatebodd y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am drafnidiaeth, sef y Dirprwy Brif Weinidog ar y pryd, i'r holl faterion a godwyd yn yr adroddiad. Yn ystod y cyfnod hwnnw gosododd strwythurau yn eu lle a fydd yn sicrhau nad yw camgymeriadau'r gorffennol—sef y gwastraff arian a'r ffaith bod ceisiadau wedi cael eu cyflwyno ar lefel isel a'u pris wedyn yn chwyddo yn ystod cyfnod y datblygiad—yn digwydd eto. Deliwyd â'r materion hynny i gyd gan y Gweinidog a oedd yn gyfrifol amdanynt yn y Llywodraeth ddiwethaf.

Byddai wedi bod yn braf pe bai Byron Davies wedi cyfeirio at y cyfnod hwnnw a'r gwaith a gyflawnodd Ieuan Wyn Jones i fynd i'r afael â'r problemau hyn a sicrhau na all y camgymeriadau a oedd wedi codi yn y gorffennol godi eto.

Angela Burns: If the Minister had such a grip on this, as you claim, why was the Finance Committee forced to produce a cross-party report that comprehensively damned his stewardship of the road funding and maintenance programme?

Rhodri Glyn Thomas: Again, you are referring to issues that arose prior to Ieuan

unman yn agos at y lefel o amddiffyniad y byddwn yn awr yn ei geisio gan y Llywodraeth. Y pwynt sylfaenol yw na ddylwn ganiatáu i gannoedd o filiynau o bunnoedd gael eu gwastraffu mewn modd mor ofnadwy eto.

Amendment 1 Jocelyn Davies

Add as new point after point 2 and renumber accordingly:

Welcomes the improved financial control of transport projects managed by the Welsh Government and by local authorities in recent years.

Rhodri Glyn Thomas: I move amendment 1 in the name of Jocelyn Davies.

The motion tabled by the Conservatives is extraordinary. It refers to the published report, but, for some reason, it completely ignores the last four years, when the Minister responsible for transport, the then Deputy First Minister, responded to all of the issues raised in the report. During that time he put in place structures that will ensure that past mistakes—namely the waste of money and the fact that applications were submitted on a low level and then their cost increased over the development period—would not happen again. Those issues were all dealt with by the Minister responsible for them in the last Government.

It would have been nice if Byron Davies had referred to that period and the work achieved by Ieuan Wyn Jones in getting to grips with these problems and ensuring that past mistakes will not arise again.

Angela Burns: Os oedd gan y Gweinidog gymaint o reolaeth ar hyn, fel yr honiasoch, pam oedd rhaid i'r Pwyllgor Cyllid gynhyrchu adroddiad traws-bleidiol a oedd yn damnio'n llwyr ei stiwardiaeth o'r rhaglen cyllid a chynnal a chadw ffyrdd?

Rhodri Glyn Thomas: Unwaith eto, yr ydych yn cyfeirio at faterion a gododd cyn

Wyn Jones's period as Minister—all of the examples given by Byron Davies were commissioned before Ieuan Wyn Jones became a Minister, and he addressed all of those issues. You have to answer for the Finance Committee's report and why the committee decided to go down that avenue. Were there certain motivations behind that report? If you look at the facts, you will see that, during his period in post, Ieuan Wyn Jones addressed all of the issues that are raised in this report. It would be nice if the Conservatives recognised that fact, and I hope that they will do so by supporting our amendment. This is their opportunity to congratulate Ieuan Wyn Jones on the work that he carried out as a Minister and to recognise what he achieved. I therefore invite you to support amendment 1. On behalf of Plaid Cymru, I also state that we will support Peter Black's amendment, amendment 2. It does not say very much other than the obvious, to be honest, but there we are: we are talking about the Liberal Democrats here.

Credaf mai'r peth pwysig yw ein bod yn dysgu gwersi o'r gorffennol, ond ein bod hefyd yn edrych i'r dyfodol. Beth yw'r dyfodol i gynlluniau trafnidiaeth? Beth fydd yn digwydd yn sgîl y toriadau enbyd y mae'r glymblaid yn Llundain wedi eu cyflwyno? Mae'n rhaid edrych ar yr arian cyfalaf a fydd ar gael ar gyfer trafnidiaeth yn y dyfodol ac ar y symiau sy'n cael eu clustnodi. Yr wyf yn derbyn ei bod yn anodd dod o hyd i'r union ffigurau, ond o ran yr arian a oedd ar gael ar gyfer prosiectau trafnidiaeth cyfalaf yn 2010-11, yr ydym yn sôn am ryw £320 miliwn. Yn y flwyddyn ariannol bresennol, mae'r ffigur wedi gostwng i £235 miliwn. Erbyn 2013-14, bydd y ffigur wedi gostwng i £140 miliwn. Beth yw'r rheswm am hynny? Mae'r ffigurau wedi gostwng oherwydd bod y glymblaid yn Llundain wedi gwneud y fath doriadau i'r cyllid cyfalaf sy'n dod i Lywodraeth Cymru.

Beth fydd y goblygiadau o hynny? Os nad oes gennym y gallu i fuddsoddi yn y cynlluniau hyn, bydd hynny'n effeithio ar economi Cymru, ar gyflogaeth yng Nghymru ac ar allu Cymru i ddatblygu fel gwlad yn ystod y cyfnod hwn. Felly, yn hytrach nag edrych yn ôl yn rhy bell i'r gorffennol, mae angen i'r Ceidwadwyr ateb am y sefyllfa

cyfnod Ieuan Wyn Jones fel Gweinidog—roedd pob un o'r enghreifftiau a roddwyd gan Byron Davies wedi'u comisiynu cyn i Ieuan Wyn Jones ddod yn Weiniidog, a rhoddodd sylw i'r holl faterion hynny. Mae'n rhaid i chi ateb o ran adroddiad y Pwyllgor Cyllid a pham y penderfynodd y pwyllgor fynd i lawr y llwybr hwnnw. A oedd rhai cymhellion y tu ôl yr adroddiad hwnnw? Os edrychwch ar y ffeithiau, fe welwch, yn ystod ei gyfnod yn y swydd, fod Ieuan Wyn Jones wedi mynd i'r afael â'r holl faterion a godir yn yr adroddiad hwn. Byddai'n braf petai'r Ceidwadwyr yn cydnabod y ffaith hwnnw, ac yr wyf yn gobeithio y byddant yn gwneud hynny drwy gefnogi ein gwelliant. Dyma eu cyfle i longyfarch Ieuan Wyn Jones ar y gwaith a wnaeth fel Gweinidog ac i gydnabod yr hyn y mae'n ei gyflawni. Felly, yr wyf yn eich gwahodd i gefnogi gwelliant 1. Ar ran Plaid Cymru, yr wyf hefyd yn datgan y byddwn yn cefnogi gwelliant Peter Black, gwelliant 2. Nid yw'n dweud llawer iawn ar wahân i'r amlwg, i fod yn onest, ond dyna ni: rydym yn sôn am y Democratiaid Rhyddfrydol yma.

It is important that we learn lessons from the past, but that we also look to the future. What does the future hold for transport plans? What will be the impact of the swingeing cuts that the coalition Government in London has introduced? We must look at the capital funding that will be available for transport in the future and at the sums that have been earmarked. I accept that it is difficult to find the exact figures, but in terms of the funding available for capital transport projects in 2010-11, we are talking of some £320 million. In the current financial year, the figure has decreased to £235 million. By 2013-14, it will have decreased to £140 million. Why is that? The figures have decreased because the coalition in London has made such cuts to the capital funding that comes to the Welsh Government.

What are the implications of that? If we do not have the ability to invest in these projects, that will have an effect on the Welsh economy, employment in Wales, and on Wales's ability to develop as a country during this period. Therefore, rather than looking back too far into the past, the Conservatives need to be held accountable

bresennol ac am y dyfodol. Mae angen iddynt hefyd dderbyn y goblygiadau sy'n deillio o'r penderfyniadau a wnaed yn Llundain, a'r effaith y bydd y penderfyniadau hynny'n cael ar Gymru. Yr ydym wedi dysgu gwersi oddi wrth yr adroddiad hwn. Gosodwyd strwythurau yn eu lle gan Ieuan Wyn Jones, a gallwn sicrhau bod y sefyllfa ar gyfer y dyfodol yn llawer mwy diogel o ran y cyllid sy'n cael ei wario ar y cynlluniau hyn. Yn anffodus, ychydig iawn o arian fydd ar gael ar gyfer y prosiectau hyn yn y dyfodol, ac mae'n rhaid i'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol gymryd cyfrifoldeb am hynny.

Gwelliant 2 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu ei bod yn hanfodol i gadw prosiectau trafniadaeth o fewn y gyllideb er mwyn sicrhau bod prosiectau eraill sydd mawr eu hangen yn gallu bwrw ymlaen.

Peter Black: I move amendment 2 in my name.

The Liberal Democrat amendment may be fairly straightforward in what it says, but there is nothing wrong with that, Rhodri Glyn. Sometimes you have to say the blindingly obvious in order to get the message across.

I wish to raise an issue relating to the Plaid Cymru amendment. Rhodri Glyn made the point that most of the projects cited in the Wales Audit Office report were commissioned before Ieuan Wyn Jones became the Minister for transport. That is absolutely correct. However, the implementation of those projects certainly overlapped with a large part of his time in office. A key part of the Wales Audit Office report says that, before 2009-10, the Assembly Government exercised only limited control over local authority-managed transport grant projects, despite carrying most of the financial risk. Clearly, the former Minister put in place management structures to deal with many of the criticisms in the report, but there was a time between when he took office and when those structures were

for the current situation as well as the future. They must also accept the implications of the decisions made in London, and the effect that those decisions will have on Wales. We have learned lessons from this report. Structures have been put in place by Ieuan Wyn Jones, and we can ensure that the future situation will be much more secure in terms of the funding that is spent on these projects. Unfortunately, the funding available for these projects in the future will be minimal, and the Conservatives and the Liberal Democrats must take responsibility for that.

Amendment 2 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Believes that it is essential to keep transport projects within budget in order to ensure that other much-needed projects can go ahead.

Peter Black: Cynigaf welliant 2 yn fy enw i.

Efallai bod gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol yn eithaf syml yn yr hyn y mae'n ei ddweud, ond nid oes dim o'i le ar hynny, Rhodri Glyn. Weithiau mae'n rhaid i chi ddweud yr hyn sy'n gwbl amlwg er mwyn cyfleu'r neges.

Hoffwn godi mater sy'n ymwneud â gwelliant Plaid Cymru. Gwnaeth Rhodri Glyn y pwynt bod y rhan fwyaf o'r prosiectau a nodir yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi eu comisiynu cyn i Ieuan Wyn Jones ddod yn Weinidog dros drafniadaeth. Mae hynny'n gwbl gywir. Fodd bynnag, roedd rhoi'r prosiectau hynny ar waith yn sicr yn gorgyffwrdd â rhan helaeth o'i amser yn y swydd. Mae rhan allweddol o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn dweud, cyn 2009-10, i Lywodraeth y Cynulliad weithredu rheolaeth gyfyngedig dros brosiectau grant trafniadaeth a reolwyd gan awdurdodau lleol, er iddo gario'r rhan fwyaf o'r risg ariannol. Yn amlwg, rhoddodd y cyn-Weinidog strwythurau rheoli ar waith i ymdrin â llawer o'r feirniadaeth yn yr adroddiad, ond yr oedd amser rhwng pan gymerodd y swydd a phan

put in place when those projects were overrunning and money was being lost due to problems with planning and implementation. Clearly, the former Minister is not entirely blameless with regard to the scenario before us. I am not here to talk about blame; in fact, the amendment does not talk about blame either. What we are talking about is how we can move forward in this matter and how we can ensure that the transport projects that we have—we cannot put right what has happened—are delivered on time and to budget. If we do not do that, the limited capital budget available to us will not be spent efficiently and effectively. I can think of a number of projects that I would like to see introduced, some of which were included in the programme published by the previous Welsh Government. They need to be implemented, but that depends on the other projects coming in on time and to budget.

roddwyd y strwythurau hynny ar waith pan oedd y prosiectau hynny yn gor-redeg ac arian yn cael ei golli oherwydd problemau o ran cynllunio a gweithredu. Yn amlwg, nid yw'r cyn-Weinidog yn gwbl ddi-fai mewn perthynas â'r senario ger ein bron. Nid wyf yma i siarad am fai; mewn gwirionedd, nid yw'r gwelliant yn siarad am fai chwaith. Yr hyn yr ydym yn sôn amdano yw sut y gallwn symud ymlaen yn y mater hwn a sut y gallwn sicrhau bod y prosiectau trafniadaeth sydd gennym—ni allwn roi iawn am yr hyn sydd wedi digwydd—yn cael eu cwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb. Os nad ydym yn gwneud hynny, ni fydd y gyllideb cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael i ni yn cael ei wario'n effeithlon ac yn effeithiol. Gallaf feddwl am nifer o brosiectau y byddwn yn hoffi eu gweld yn cael eu cyflwyno, y mae rhai ohonynt wedi eu cynnwys yn y rhaglen a gyhoeddwyd gan Lywodraeth flaenorol Cymru. Mae angen iddynt gael eu rhoi ar waith, ond mae hynny'n dibynnu ar y prosiectau sy'n dod i fewn ar amser ac o fewn y gyllideb.

4.45 p.m.

The important point to take from this debate and from the Wales Audit Office report is that we have to learn the lessons, and we have to deliver proper budgeting processes to ensure that large capital projects, whether delivered directly by the Welsh Government or by other agencies, such as local government, on behalf of the Welsh Government, are delivered within budget. If we do not achieve that, we will not have the necessary capital investment that is badly needed for infrastructure in all parts of Wales.

Y pwynt pwysig i'w gofio o'r ddadl hon ac o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yw bod yn rhaid inni ddysgu'r gwersi, ac mae'n rhaid i ni gyflwyno prosesau cyllidebu priodol i sicrhau bod prosiectau cyfalaf mawr, p'un ai a'u cyflwynir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru neu gan asiantaethau eraill, megis llywodraeth leol, ar ran Llywodraeth Cymru, yn cael eu darparu o fewn y gyllideb. Os nad ydym yn cyflawni hynny, ni fyddwn yn cael y buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol y mae wir ei angen ar gyfer seilwaith ym mhob rhan o Gymru.

There are issues to do with the Government's infrastructure programme, and I look forward to the new Minister who is taking on that responsibility introducing a revised transport capital programme. The criteria for determining some of those capital projects, in terms of approval and implementation, were not necessarily objective in a sense that many would subscribe to. For example, there were bypasses that were crucial to the communities concerned, as they had a huge impact on them by delivering them from traffic

Mae yna faterion yn ymwneud â rhaglen seilwaith y Llywodraeth, ac edrychaf ymlaen at weld y Gweinidog newydd sy'n cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o gyflwyno rhaglen gyfalaf trafniadaeth ddiwygiedig. Nid yw'r meini prawf ar gyfer pennu rhai o'r prosiectau cyfalaf hynny, o ran cymeradwyo a gweithredu, o reidrwydd yn wrthrychol yn yr ystyr y byddai llawer yn tanysgrifio iddo. Er enghraifft, roedd ffyrdd osgoi a oedd yn hanfodol i'r cymunedau dan sylw, gan eu bod yn cael effaith enfawr arnynt o'u darparu o

congestion and other problems. That means that they offered value for money at that time. However, there are other projects involving traffic vehicle movements up to 10 times greater than those roads that were bypassed that did not get approval, either because of cost or other considerations. When we deliver these projects, it is important that we ensure not only value for money, but that we look at the volume of traffic that these roads carry and the impact that the projects would have on communities and the local economy. A number of factors need to be taken into account.

As has already been pointed out, the Wales Audit Office report identified over £226 million in budget overspend for transport projects. Some of the reasons given for the escalation in costs are very basic. The report notes that early estimates for some projects failed to take into account the cost of inflation over the life of the project. That is a basic mistake, similar to that which meant that Tessa Jowell's first Olympics budget failed to take account of the £250 million due in VAT. That is the sort of basic mistake that we ought not to expect of the highly paid civil servants and the Ministers who approve these projects.

The Welsh Government has made some improvements to its internal procedures, but there is no room for complacency. The huge sums of money involved require a serious commitment to efficiency and robust monitoring. Tokenistic gestures will not work in the current financial climate. I hope that this debate will help to focus minds—the fact that we have had a chance to debate this matter in Plenary will help to focus minds. I certainly look forward to a better performance during this Assembly.

William Graham: I listened with interest to Rhodri Glyn Thomas's remarks. Unfortunately, what he says is only partly true. The evidence is clear and precise: mistakes were made, and I have no doubt that

dagfeydd traffig a phroblemau eraill. Mae hynny'n golygu eu bod yn cynnig gwerth am arian ar y pryd. Fodd bynnag, mae prosiectau eraill sy'n cynnwys symudiadau cerbydau traffig hyd at 10 gwaith yn fwy na'r ffyrdd hynny a gafodd eu hosgoi na chafodd eu cymeradwyo, naill ai oherwydd y gost neu ystyriaethau eraill. Pan fyddwn yn cyflwyno'r prosiectau hyn, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau nid yn unig gwerth am arian, ond ein bod yn edrych ar faint o draffig y mae'r ffyrdd hyn yn eu cario a'r effaith y byddai'r prosiectau yn ei gael ar gymunedau a'r economi leol. Mae angen cymryd i ystyriaeth nifer o ffactorau.

Fel sydd eisoes wedi ei nodi, nododd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru dros £226 miliwn o orwariant yn y gyllideb ar gyfer prosiectau trafniadaeth. Mae rhai o'r rhesymau a roddwyd dros y cynnydd mewn costau yn sylfaenol iawn. Mae'r adroddiad yn nodi bod yr amcangyfrifon cynnar ar gyfer rhai prosiectau wedi methu â chymryd i ystyriaeth y gost o chwyddiant dros oes y prosiect. Mae hynny'n gamgymeriad sylfaenol, yn debyg i'r hyn a oedd yn golygu bod cyllideb cyntaf y Gemau Olympaidd gan Tessa Jowell wedi methu â chymryd i ystyriaeth y £250 miliwn mewn TAW a oedd yn ddyledus. Dyna'r math o gamgymeriad sylfaenol na ddylem ei ddisgwyl gan y gweision sifil cyflog uchel a'r Gweinidogion sy'n cymeradwyo'r prosiectau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhai gwelliannau i'w weithdrefnau mewnol, ond nid oes lle i fod yn hunanfodlon. Mae'r symiau enfawr o arian dan sylw yn gofyn am ymrwymiad difrifol i effeithlonrwydd a monitro cadarn. Ni fydd ystumiau symbolaidd yn gweithio yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Gobeithiaf y bydd y ddadl hon yn helpu i ganolbwyntio meddyliau—mae'r ffaith ein bod wedi cael cyfle i drafod y mater hwn yn y Cyfarfod Llawn yn helpu i ganolbwyntio meddyliau. Byddaf yn sicr yn edrych ymlaen at well perfformiad yn ystod y Cynulliad hwn.

William Graham: Gwrandewais gyda diddordeb ar sylwadau Rhodri Glyn Thomas. Yn anffodus, mae'r hyn y mae'n ei ddweud ond yn rhannol wir. Mae'r dystiolaeth yn glir ac yn fanwl gywir: gwnaethpwyd

the current Minister for transport will be aware of them and will do his very best in future to bring these projects in on budget. The facts remain, however, and in reading the Wales Audit Office's report, one is struck by the failure of successive Governments to control spending on major projects and by the staggering optimism bias that was repeatedly a feature of these projects.

No-one doubts the importance of improving Wales's road and rail infrastructure to capitalise on new economic and structural opportunities. Indeed, a considerable appetite remains in South Wales East for the long-promised opening of the Ebbw Vale to Newport rail link and for the cancelled M4 relief road. The catalogue of overspends and delays underlines the many improvements in the practice of scrutiny that are needed to avoid such inefficiencies and waste blighting future transport projects.

Having raised the issue of delays and overspends on the A465 Heads of the Valleys road on many occasions with previous Ministers for transport—not only have I raised this issue, those from other parties have raised it, too, significantly on many occasions—it comes as no surprise that the project provides the most eye-catching statistics for overspending and slippage in the works programme.

The Heads of the Valleys road between Abergavenny and Hirwaun was divided in to six sections in November 2000 and at the time, as my colleagues have already mentioned, the Welsh Government said that it would be completed by 2009 at a cost of £268 million. In reality, the timetable slipped significantly and it is now predicted that the programme will not be completed until 2020 at the earliest. With only the sections between Abergavenny and Gilwern and Tredegar and Dowlais Top completed, at a cost of £115 million, the remaining four sections are forecast to cost £648 million, even though this figure does not include cost inflation. This means that, owing to the domino effect

camgymeriadau, ac nid oes gennyf amheuaeth y bydd y Gweinidog cyfredol dros drafnidiaeth yn ymwybodol ohonynt ac y bydd yn gwneud ei orau glas yn y dyfodol i gyflawni'r prosiectau o fewn y gyllideb. Mae'r ffeithiau yn parhau, fodd bynnag, ac wrth ddarllen adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, mae rhywun yn cael ei daro gan fethiant Llywodraethau olynol i reoli gwariant ar brosiectau mawr a gan y duedd o optimistiaeth syfrdanol a oedd dro ar ôl tro yn nodwedd o'r prosiectau hyn.

Nid oes unrhyw un yn amau pwysigrwydd gwella ffyrdd a seilwaith rheilffyrdd i fanteisio ar gyfleoedd economaidd a strwythurol newydd Cymru. Yn wir, mae awydd sylweddol yn parhau yn Nwyrain De Cymru ar gyfer agoriad, sydd wedi ei addo gyhyd, y cyswllt rheilffordd o Lynebwy i Gasnewydd a ffordd liniaru'r M4, sydd wedi'i chanslo. Mae'r catalog o orwario ac oedi yn tanlinellu'r gwelliannau niferus yn yr arfer o graffu y mae eu hangen i osgoi aneffeithlonrwydd a gwastraff o'r fath sydd yn difetha prosiectau trafnidiaeth yn y dyfodol.

Wedi codi'r mater o oedi a gorwariant ar ffordd A465 Blaenau'r Cymoedd ar sawl achlysur gyda Gweinidogion blaenorol dros drafnidiaeth—nid yn unig yr wyf innau wedi codi'r mater hwn, mae rhai o bleidiau eraill wedi ei godi, hefyd, yn sylweddol ar sawl achlysur—nid yw'n syndod o gwbl bod y prosiect yn darparu'r ystadegau mwyaf trawiadol am orwario a llithriad yn y rhaglen waith.

Rhannwyd ffordd Blaenau'r Cymoedd rhwng y Fenni a Hirwaun yn chwe adran ym mis Tachwedd 2000 ac ar y pryd, fel mae fy nghydweithwyr eisoes wedi ei grybwyll, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cael ei chwblhau erbyn 2009 ar gost o £268 miliwn. Mewn gwirionedd, llithrodd yr amserlen yn sylweddol a bellach rhagwelir na fydd y rhaglen yn cael ei gwblhau tan 2020 ar y cynharaf. Gyda dim ond y rhannau rhwng y Fenni a Gilwern a Thredegar a Dowlais Top wedi'u cwblhau, ar gost o £115 miliwn, rhagwelir y bydd y pedair rhan sy'n weddill yn costio £648 miliwn, er nad yw'r ffigur hwn yn cynnwys cost chwyddiant. Mae hyn yn golygu, oherwydd yr effaith domino a geir

of delays, the A465 project will exceed its initial timetable by 11 years and with an overspend of at least £495 million—half the cost of the M4 relief road.

While different transport Ministers have argued as to who is responsible for the problems that beset the various projects, clearly the project mistakes must be acknowledged. The new Welsh Government would be well advised to examine the excellent Finance Committee inquiry into funding road infrastructure, laid in early 2010, which stressed the importance of greater co-ordination in the Heads of the Valleys programme between the then Minister for transport and the Deputy Minister for regeneration. It also stressed the need to involve other key stakeholders such as local government and business to a greater extent than in the past.

Notwithstanding the Heads of the Valleys road, many of the worst examples of projects that spun out of control are to be found in south-east Wales. The Ebbw valley railway, rightly regarded as a success due to its popularity among passengers, came in at £48 million. This was double the estimated cost of £24 million. There were considerable delays, owing to what the Wales Audit Office described as a generally difficult relationship between the main stakeholders. Conservation of protected species, such as slow worms and common lizards, added £1 million to the cost, due to the need for an unforeseen ecological survey. It is difficult not to agree with former Labour AM Lorraine Barrett's views, expressed in the Public Accounts Committee in February 2011:

‘There should be enough evidence to tell you whether the great crested newt is living along the route or in the reens. I would have thought that that sort of thing could have been factored in.’

It is encouraging that the Assembly Government followed good practice and carried a post-product review on the Ebbw valley railway line. By July 2009, passenger numbers were 42 per cent greater than had originally been forecast. Such figures only

drwy oedi, bydd prosiect yr A465 yn rhagori ar ei amserlen gychwynnol o 11 mlynedd a gyda gorwariant o £495 miliwn, o leiaf, sef hanner cost ffordd liniaru'r M4.

Er bod gwahanol Weinidogion trafndiaeth wedi dadlau ynghylch pwy sy'n gyfrifol am broblemau'r gwahanol brosiectau, mae'n amlwg bod yn rhaid i gamgymeriadau'r prosiectau gael eu cydnabod. Byddai'n syniad da i Lywodraeth newydd Cymru edrych ar ymchwiliad ardderchog y Pwyllgor Cyllid i ariannu seilwaith ffyrdd, a osodwyd yn gynnar yn 2010, a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd mwy o gydweithio yn rhaglen Blaenau'r Cymoedd rhwng y Gweinidog dros drafndiaeth a'r Dirprwy Gweinidog ar gyfer adfywio. Roedd hefyd yn pwysleisio'r angen i gynnwys rhanddeiliaid allweddol eraill megis llywodraeth leol a busnes i raddau mwy nag yn y gorffennol.

Er gwaethaf ffordd Blaenau'r Cymoedd, mae llawer o'r enghreifftiau gwaethaf o brosiectau a aeth allan o reolaeth i'w cael yn neddwyrain Cymru. Cost terfynol rheilffordd Glyn Ebwy, a ystyrir yn briodol yn llwyddiant oherwydd ei boblogrwydd ymysg teithwyr, oedd £48 miliwn. Roedd hyn ddwbl y gost amcangyfrifedig o £24 miliwn. Cafwyd oedi sylweddol, oherwydd yr hyn y disgrifiodd Swyddfa Archwilio Cymru fel perthynas anodd yn gyffredinol rhwng y prif fudd-ddeiliaid. Ychwanegodd cadwraeth rhywogaethau a warchodir, megis nadroedd defaid a madfallod cyffredin, ychwanegodd £1 miliwn at y gost, oherwydd yr angen am arolwg ecolegol na ellir eu rhagweld. Mae'n anodd peidio â chytuno gyda barn y cyn AC Llafur Lorraine Barrett, a fynegwyd yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Chwefror 2011:

Dylai fod digon o dystiolaeth i ddweud wrthyhych a ydyw'r fadfall ddwr gribog yn byw ar hyd y llwybr neu yn y ffosydd. Byddwn wedi meddwl y gallai'r math yna o beth fod wedi bod yn ffactor.

Mae'n galonogol bod Llywodraeth y Cynulliad wedi dilyn arfer da ac wedi cynnal adolygiad ôl-gynnyrch ar reilffordd Glyn Ebwy. Erbyn Gorffennaf 2009, roedd nifer y teithwyr 42 y cant yn fwy nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Dim ond ychwanegu at y ddadl

add to the argument that opening the railway link between Newport and Ebbw Vale, which has been delayed by successive Governments, is a priority.

While the report acknowledged that the Welsh Government has improved practices, equally astonishing is the fact that earlier estimates did not include allowances for cost inflation over the assumed lifetime of the project and the repeated failure to establish meaningful dialogues with utility providers. This stemmed from poor two-way communications and the Government's lack of influence over utility companies. With the Wales Audit Office still having concerns over the Welsh Government's approach, it is vital that further steps are taken to improve practice and minimise the waste of precious public resources, particularly in such straightened economic times. In particular, the Welsh Government should introduce a central project management system to collect robust data, establish common performance indicators for all major transport projects, improve guidance to local authorities over planning and delivery of transport projects, and establish more formal relationships with utility companies to minimise disruption.

Ann Jones: During the last Assembly, I campaigned for a sustained focus on Wales' east-west transport routes. I was also a member of the Finance Committee and I was pleased to sign up to its cross-party report. We should learn lessons and always look to find better ways to deliver projects for the people of Wales. I was delighted to see that the Minister for Local Government and Communities now has transport in his brief, and I know that Carl will do a massive job in putting right those east-west relationships that have gone adrift.

I led a short debate in the last Assembly, which I focused on the issue of road infrastructure and my belief in the commitment to east-west travel. That debate united Assembly Members from across north and south Wales. It even united the CBI and the TUC—and to get those together is a good

bod agor y cyswllt rheilffordd rhwng Casnewydd a Glynabwy, sydd wedi'i ohirio gan Lywodraethau olynol, yn flaenoriaeth y mae ffigurau o'r fath.

Er bod yr adroddiad yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi gwella arferion, yr un mor rhyfeddol yw'r ffaith nad yw amcangyfrifon cynharach yn cynnwys lwfansau ar gyfer chwyddiant costau dros oes tybiedig y prosiect a'r methiant dro ar ôl tro i sefydlu deialog ystyrion gyda darparwyr cyfleustodau. Roedd hyn yn deillio o gyfathrebu gwael dwy-ffordd a diffyg dylanwad y Llywodraeth dros gwmnïau cyfleustodau. Gyda Swyddfa Archwilio Cymru yn dal i bryderu am ddull Llywodraeth Cymru, mae'n hanfodol bod camau pellach yn cael eu cymryd i wella ymarfer a lleihau gwastraff adnoddau cyhoeddus gwerthfawr, yn enwedig mewn cyfnod economaidd mor dynn. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno system rheoli prosiect ganolog i gasglu data cadarn, sefydlu dangosyddion perfformiad cyffredin ar gyfer pob prosiect trafndiaeth mawr, gwella canllawiau i awdurdodau lleol dros gynllunio a darparu prosiectau trafndiaeth, a sefydlu perthynas mwy ffurfiol gyda chwmnïau cyfleustodau i leihau aflonyddwch.

Ann Jones: Yn ystod y Cynulliad diwethaf, ymgyrchais am ffocws parhaus ar lwybrau trafndiaeth dwyrain-gorllewin Cymru. Roeddwn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid ac roeddwn yn falch i ymrwymo i'w adroddiad trawsbleidiol. Dylem ddysgu gwersi a cheisio bob amser dod o hyd i ffyrdd gwell o gyflawni prosiectau ar gyfer pobl Cymru. Yr wyf yn falch o weld bod trafndiaeth ym mrieff y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau erbyn hyn, ac yr wyf yn gwybod y bydd Carl yn gwneud gwaith enfawr yn unioni'r cysylltiadau dwyrain-gorllewin hynny sydd wedi mynd ar gyfeiliorn.

Arweiniais ddadl fer yn y Cynulliad diwethaf, yn canolbwyntio ar y mater o seilwaith ffyrdd a'm cred yn yr ymrwymiad i deithio o'r dwyrain i'r gorllewin. Unodd y ddadl honno Aelodau'r Cynulliad o bob rhan o ogledd a de Cymru. Unodd y CBI a'r TUC hyd yn oed—ac mae cael y rheiny at ei

thing. The Heads of the Valleys road, the A55 that cuts through my constituency and the M4 are all vital arterial routes for our Welsh economy. The north Wales corridor is recognised by the EU as a strategic route, acting as a link for trade between mainland Europe and Ireland, as well as internal business with Llandudno, Rhyl, Manchester, Chester and Liverpool. Mid Wales has the strategic links with the Midlands and in south Wales the major markets in south-east England are at stake, as is the viability of Welsh businesses and brands in west Wales. I have always believed and continue to believe that the pursuit of an integrated transport system to boost our economy is more important than any efforts at so-called nation-building. I had some concerns about those priorities when Plaid Cymru was in Government in the last Assembly. I am therefore reassured that Welsh Labour, this Government and, in particular, this Minister for transport will place east-west links and economic development at the front and centre of our transport policy.

I was also heartened to read that the Government plans to look at ways to simplify the transport planning system, making it work more effectively on a regional basis. I believe that this will be crucial to our regeneration efforts across Wales. We know that Labour has already delivered in many parts of Wales, as I am sure the Rhondda AM Leighton Andrews would mention were he allowed to speak in this debate. For people in some of our most deprived areas, routes to work and economic hubs must really be opened up by new road developments. This must continue. This sort of progress on infrastructure takes time; it is never easy, but I believe that Labour is the only party able to deliver that, as the Tories still believe that people in communities such as mine or the north of England should simply move south. That is the typical race-to-the-bottom stance.

I want to mention briefly unpredictable and severe weather conditions, which affect roads

gilydd yn beth da. Mae ffordd Blaenau'r Cymoedd, yr A55 sy'n torri drwy fy etholaeth a'r M4 i gyd yn ffyrdd prifwythiennol hanfodol i economi Cymru. Mae coridor gogledd Cymru'n cael ei gydnabod gan yr UE fel llwybr strategol, gan weithredu fel cyswllt ar gyfer masnach rhwng tir mawr Ewrop ac Iwerddon, yn ogystal â busnes mewnol gyda Llandudno, Rhyl, Manceinion, Caer a Lerpwl. Mae gan ganolbarth Cymru gysylltiadau strategol gyda Chanolbarth Lloegr ac yn ne Cymru mae'r marchnadoedd mawr yn ne-ddwyrain Lloegr yn y fantol, fel y mae hyfywedd busnesau a brandiau Cymru yng ngorllewin Cymru. Yr wyf wedi credu erioed ac yn parhau i gredu bod anelu at system drafndiaeth integredig i roi hwb i'n heconomi yn bwysicach nag unrhyw ymdrechion at yr hyn a elwir yn adeiladu cenedl. Roedd gennyf rai pryderon ynghylch y blaenoriaethau hynny pan oedd Plaid Cymru mewn Llywodraeth yn y Cynulliad diwethaf. Felly, yr wyf yn hyderus y bydd Llafur Cymru, y Llywodraeth hon ac, yn benodol, y Gweinidog dros drafndiaeth yn gosod cysylltiadau dwyrain-gorllewin a datblygiad economaidd ar flaen ac yng nghanol ein polisi trafndiaeth.

Yr oeddwn hefyd yn falch o ddarllen bod y Llywodraeth yn bwriadu edrych ar ffyrdd o symleiddio'r system cynllunio trafndiaeth, gan beri iddo weithio'n fwy effeithiol yn rhanbarthol. Yr wyf yn credu y bydd hyn yn hanfodol i'n hymdrechion adfywio ledled Cymru. Rydym yn gwybod bod y Blaid Lafur eisoes wedi eu cyflwyno mewn sawl rhan o Gymru, fel yr wyf yn siŵr y byddai AC Rhondda Leighton Andrews yn sôn petai'r hawl ganddo i siarad yn y ddadl hon. Ar gyfer pobl mewn rhai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig, mae'n rhaid i lwybrau i'r gwaith a chanolfannau economaidd gael eu hagor gan ddatblygiadau ffyrdd newydd. Mae'n rhaid i hyn barhau. Mae'r math hwn o gynnydd ar seilwaith yn cymryd amser; nid yw byth yn hawdd, ond yr wyf yn credu taw Llafur yw'r unig blaid a all gyflawni hynny, fel y mae'r Torïaid yn dal i gredu y dylai pobl mewn cymunedau megis fy un i neu ogledd Lloegr symud tua'r de. Dyna'r safbwynt ras-i'r-gwaelod nodweddiadol.

Yr wyf am sôn yn fyr am y tywydd anrhagwladwy a difrifol, sy'n effeithio ar

more and more with the advent of climate change. Keeping our transport network in Wales open at these times is imperative. I am encouraged to see that the Government intends to review the arrangements for winter road maintenance currently undertaken by local authorities and to consider the potential for these being carried out by the trunk road agencies in Wales.

There is still a great deal more to do to improve our transport infrastructure in Wales. I have to mention Arriva Trains in this. As a regular train user, as many of my colleagues from north Wales are, I know that we need reliable trains and good rolling stock. It is no good having a second express service if we do not have the rolling stock. I refer back to the many times that I have said in this Chamber that, but for my friend Darren Millar—and it is not very often that I say ‘my friend Darren Millar’—[*Laughter.*]—I would never have got off the wonderful express train at Rhyl, because the old-fashioned stock was not accessible for me, with a slight disability, when getting on and off the train. Heaven help someone in a wheelchair.

Therefore, Minister, you have a great deal to do to put those issues right, but I believe that you are up to that challenge and I look forward to listening to you as you ensure that we learn from those lessons so that we get the best results for investment for many years to come.

Nick Ramsay: Thank you, acting Deputy Presiding Officer—

The Deputy Presiding Officer: Order. I am not acting. In its wisdom, the Assembly elected me as Deputy Presiding Officer.

Nick Ramsay: I congratulate the Minister on taking on the transport brief. You are becoming a bit like the John Prescott of the Welsh Assembly. [*Laughter.*] Your brief is ever expanding, but hopefully you will not start hitting me when you are out canvassing. [*Laughter.*] As demonstrated in the great opening to this debate by my colleague

ffyrdd mwy a mwy gyda dyfodiad y newid yn yr hinsawdd. Mae cadw ein rhwydwaith trafniadaeth yng Nghymru ar agor ar yr adegau hyn yn hanfodol. Mae'n galonogol gweld bod y Llywodraeth yn bwriadu adolygu trefniadau presennol yr awdurdodau lleol ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd yn y gaeaf ac i ystyried y potensial i'r rhain gael eu gwneud gan yr asiantaethau cefnffyrdd yng Nghymru.

Mae llawer iawn mwy i'w wneud i wella ein seilwaith trafniadaeth yng Nghymru. Rhaid i mi sôn am Trenau Arriva yn hyn. Fel defnyddiwr trêrn yn rheolaidd, fel llawer o'm cydweithwyr o ogledd Cymru, yr wyf yn gwybod bod arnom angen drenau dibynadwy a cherbydau da. Nid oes diben cael ail wasanaeth cyflym os nad oes gennym y cerbydau. Cyfeiriai yn ôl at y nifer o weithiau yr wyf wedi dweud yn y Siambr hon, heblaw am fy ffrind Darren Millar—ac nid yn aml y byddaf yn dweud ‘fy ffrind Darren Millar’—[*Chwerthin.*]—ni fyddwn byth wedi dod oddi ar y trêrn cyflym gwych yn y Rhyl, gan nad oedd stoc hen-ffasiwn yn hygyrch i mi, gydag ychydig o anabledd, wrth esgyn a dod oddi ar y trêrn. Duw a helpo rhywun mewn cadair olwyn.

Felly, Weinidog, mae gennych lawer i'w wneud i unioni'r materion hyn, ond credaf eich bod yn barod am yr her honno ac edrychaf ymlaen at wrando arnoch wrth ichi sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth y gwersi hynny fel ein bod yn cael y canlyniadau gorau ar gyfer buddsoddiad am flynyddoedd lawer i ddod.

Nick Ramsay: Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd dros dro—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid wyf yn Ddirprwy Lywydd dros dro. Yn ei ddoethineb, fe'm hetholwyd gan y Cynulliad fel Dirprwy Lywydd.

Nick Ramsay: Yr wyf yn llongyfarch y Gweinidog ar y briff trafniadaeth. Yr ydych yn dechrau ymdebygu John Prescott Cynulliad Cymru. [*Chwerthin.*] Mae eich briff yn ehangu o hyd, ond rwy'n gobeithio na fyddwch yn dechrau fy nharo pan fyddwch allan yn canfasio. [*Chwerthin.*] Fel y dangoswyd yn yr agoriad gwych i'r ddadl

Byron Davies, it is a sad indictment that many transport projects have cost substantially more and taken longer to complete than expected. Yes, this has been an ongoing problem over a long time—it has not suddenly happened in recent times—but when I sat on the Finance Committee we did a report that highlighted some of the very real problems that have occurred in recent times, problems that I hope the Minister with responsibility for transport will deal with.

We certainly need to ensure that funding for transport projects is used in an efficient way, and we need action for this to happen. I was listening to what Rhodri Glyn Thomas said earlier, and you would hope indeed, Rhodri, that this would be common sense, like the Liberal Democrat amendment, which looks like common sense to me. Thank goodness that there is some common sense coming from at least a couple of parties in the UK at the moment. Just look at these statistics: the cost of 81 major transport projects in Wales have been 61 per cent higher than the original estimate. That is an extraordinary statistic. The Wales Audit Office report, which is well worth a read, found that costs had increased from £306 million to £592 million, a huge overspend of £226 million. I sat on the last Assembly's Finance Committee, ably chaired by my colleague Angela Burns

5.00 p.m.

It is not often that I quote Alun Davies, but he has been quoted once already. I know that we should now call him 'the Minister', but thinking back to his previous life, when he had that youthful exuberance that we grew to love on the Finance Committee, he did speak of the need to scrutinise this. We did a report and he came forward with a number of his own reports—ably supported by other colleagues—so incensed was he at the time by some of the slippage that was happening. As he identified, we should not simply accept slippage. If you have slippage in other areas of Assembly policy, it is not slippage; it is

hon gan fy nghydweithiwr Byron Davies, mae'n adlewyrchiad trist bod llawer o brosiectau trafndiaeth wedi costio cryn dipyn yn fwy ac wedi cymryd mwy o amser i'w cwblhau na'r disgwyl. Ydy, mae hyn wedi bod yn broblem barhaus dros gyfnod hir o amser—nid yw wedi digwydd yn sydyn yn ddiweddar—ond pan eisteddais ar y Pwyllgor Cyllid gwnaethom adroddiad a oedd yn tynnu sylw at rai o'r problemau real iawn sydd wedi digwydd yn ddiweddar, problemau yr wyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog sy'n gyfrifol am drafndiaeth yn ymdrin â hwy.

Yn sicr mae angen sicrhau bod cyllid ar gyfer prosiectau trafndiaeth yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd effeithlon, ac mae angen gweithredu i hyn ddigwydd. Roeddwn yn gwranddo ar yr hyn a ddywedodd Rhodri Glyn Thomas yn gynharach, a byddech yn gobeithio yn wir, Rhodri, y byddai hyn yn synnwyr cyffredin, fel gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n edrych fel synnwyr cyffredin i mi. Diolch byth bod rhywfaint o synnwyr cyffredin yn dod oddi wrth o leiaf gwpl o bartion yn y DU ar hyn o bryd. Edrychwch ar yr ystadegau hyn: mae cost 81 o brosiectau trafndiaeth mawr yng Nghymru wedi bod 61 y cant yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol. Mae hwnnw'n ystadegyn rhyfeddol. Darganfu adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn werth ei ddarllen, fod costau wedi cynyddu o £306 miliwn i £592 miliwn, sydd yn orwariant enfawr o £226 miliwn. Eisteddais ar y Pwyllgor Cyllid yn y Cynulliad diwethaf, dan gadeiryddiaeth fedrus fy nghydweithwraig Angela Burns.

Anaml y byddaf yn dyfynnu Alun Davies, ond fe'i ddyfynnwyd unwaith yn barod. Gwn y dylem ddweud 'y Gweinidog' wrth gyfeirio ato, ond o feddwl yn ôl at ei fywyd blaenorol, a'r brwdfrydedd ieuencid yr oedd ganddo bryd hynny y daethom ni ar y Pwyllgor Cyllid i'w garu, siaradai am yr angen i graffu ar y mater hwn. Lluniwyd adroddiad gennym ac fe ddaeth ef â nifer o adroddiadau o'i ben a'i bastwn ei hun—gyda chefnogaeth abl rhai o'i gyd-Aelodau—am iddo gael ei gythruddo gan rywfaint o'r llithriant a oedd yn digwydd ar y pryd. Fel y nododd yntau, ni ddylem fod yn ddifater am lithriant. Os oes llithriant

necessary. In fact, I think that those were his words, not mine; therefore, I have obviously learned from the best. In terms of transport, we do accept slippage, which simply should not happen. As Alun has said, when we are talking about widening the Heads of the Valleys road through the Clydach gorge, we are not talking about sending a Welshman to the moon, and we are not talking about putting a tunnel through the Alps; we are talking about building a road. It has been happening for thousands of years in Britain, since Roman times, and they seemed to do it far more efficiently than us.

I will not go through any of the projects that have been identified before, although I would take issue with Rhodri Glyn Thomas saying that these projects pre-date the previous Government. The construction of the Heads of the Valleys road has been taking place for a considerable length of time—certainly under the ‘One Wales’ agreement that we had previously. It seems that it will continue for another several decades at the current rate of progress. However, I would like to see more of an emphasis on east-west links. Sometimes you could fail to notice that there was a reorganisation or a re-designation of transport links from north to south under the previous coalition Assembly Government. It did not always seem to deliver the sort of results that we would expect in terms of the links from north to south. Ann Jones mentioned the need for north-south links to be improved, as well as east-west links.

As my colleague Byron Davies said at the start, we need a gateway review and we need the Government to get to grips with this issue. I appreciate that the Minister is new in post, or has only recently taken over this aspect of the portfolio, but we certainly look to him for action. Please get to grips with this issue of slippage. We would not have had the damning report from the audit office if the previous Government had listened and taken on board all of the issues raised by the previous Finance Committee. If those issues had been dealt with a long time ago, we would not need to have this debate today.

mewn meysydd polisi eraill y Cynulliad, nid llithriant ydyw, ond rhaid. Yn wir, credaf mai eiddo ef yw'r geiriau hynny, nid eiddof fi; felly, yr wyf yn amlwg wedi dysgu gan y gorau. O ran trafnidiaeth, rydym yn derbyn llithriant, ac yn syml, ni ddylai hynny ddigwydd. Fel y mae Alun wedi ei ddweud, wrth sôn am ehangu ffordd Blaenau'r Cymoedd drwy geunant Clydach, nid sôn am anfon Cymro i'r lleuad ydym, na sôn am agor twnnel drwy'r Alpau ychwaith; sôn yr ydym ni am adeiladu ffordd. Mae wedi digwydd ers miloedd o flynyddoedd ym Mhrydain, ers cyfnod y Rhufeiniaid, ac mae'n ymddangos iddynt wneud hynny yn llawer mwy effeithlon na ni.

Nid wyf am fynd drwy'r prosiectau a nodwyd eisoes, er y byddwn yn anghytuno â geiriau Rhodri Glyn Thomas bod y prosiectau hyn yn dyddio yn ôl i gyfnod cyn y Llywodraeth flaenorol. Mae'r gwaith i adeiladu ffordd Blaenau'r Cymoedd wedi bod yn digwydd am gyfnod sylweddol—yn sicr o dan y cytundeb ‘Cymru'n Un’ a oedd gennym o'r blaen. Ymddengys y bydd yn parhau am ddegawdau eto ar raddfa bresennol y cynnydd a wneir. Sut bynnag, hoffwn weld mwy o bwyslais ar gysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin. Weithiau, prin y gellir gweld bod ad-drefnu neu ail-ddynodi cysylltiadau trafnidiaeth o'r gogledd i'r de o dan Lywodraeth glymblaid flaenorol y Cynulliad. Nid oedd bob amser fel petai'n darparu'r math o ganlyniadau y byddem yn ei ddisgwyl o ran y cysylltiadau o'r gogledd i'r de. Cyfeiriodd Ann Jones at yr angen i wella cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de, yn ogystal â chysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin.

Fel y dywedodd fy nghyd-Aelod Byron Davies ar y dechrau, mae angen adolygiad porth ac mae angen i'r Llywodraeth hon fynd i'r afael â'r mater hwn. Rwy'n sylweddoli bod y Gweinidog yn newydd i'r swydd, ynteu yn ddiweddar y mae wedi cymryd yr awenau yn yr agwedd hon ar y portffolio, ond yr ydym yn sicr yn disgwyl iddo weithredu. Da chi, ewch i'r afael â'r llithriant hwn. Ni fyddem wedi cael yr adroddiad damniol gan y swyddfa archwilio pe bai'r Llywodraeth flaenorol wedi gwrandao ac ystyried yr holl faterion a godwyd gan y Pwyllgor Cyllid blaenorol. Pe rhoddasid sylw i'r materion

Please do what you can to make sure that Wales gets the transport links and the road links that it deserves.

Andrew R.T. Davies: It is a pleasure to speak in this debate. I heard Rhodri Glyn's comments about the debate not being timely; however, I think that it is timely as we have a new Minister for transport and in light of some of the serious concerns that the audit office highlighted. The sum of £250 million is not a small sum of money in anyone's exchequer. When you look at the pressures on the capital budgets, you will see that it is incumbent on the Assembly to understand the new Minister's direction in addressing some of the concerns that the audit office highlighted and, in particular, the ideas that he has. In his response to this debate, I hope that he will bring forward some of the new ideas or some of the more robust measures that he believes can be put in place to deliver value for money. Byron clearly emphasised various projects across Wales on which there were really massive overruns on expenditure. In my own electoral region, the Porth bypass finally came in at a cost of £102 million, as opposed to £30 million. Also, the Church Village bypass cost considerably more than the original estimates. That ultimately puts massive cost pressures on other projects that the Government would wish to bring forward by utilising the transport budget.

My contribution today will be about the other pressures on that budget. Obviously, it is not just roads that account for the transport budget within the Minister's portfolio. Point 3 of our motion tries to highlight the importance of cost-effectiveness and the damage that a lack of efficiency causes to the rest of the budget.

Darren Millar: Were you, like me, concerned at the revelations by the Wales Audit Office that some projects had been brought forward due to political pressure, with the knowledge that they would never be achieved within a reasonable timescale, and that announcements had been brought forward simply for political gain?

hynny amser maith yn ôl, ni fyddai angen i ni gael y ddadl hon heddiw. Da chi, gwnewch yr hyn a allwch i sicrhau y caiff Cymru'r cysylltiadau trafniadaeth a'r cysylltiadau ffordd y mae'n eu haeddu.

Andrew R.T. Davies: Mae'n bleser siarad yn y ddadl hon. Clywais Rhodri Glyn yn sôn nad oedd y ddadl yn amserol; er hynny, rwy'n credu ei bod yn amserol gan fod gennym Weinidog newydd dros drafniadaeth a chan fod y swyddfa archwilio wedi amlygu pryderon difrifol. Nid yw £250 miliwn yn swm bach yn nhrysorlys neb. O edrych ar y pwysau ar gyllidebau cyfalaf, gwelwch mai dyletswydd ar y Cynulliad yw deall cyfeiriad y Gweinidog newydd wrth iddo fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a amlygwyd gan y swyddfa archwilio ac, yn arbennig, y syniadau sydd ganddo. Yn ei ymateb i'r ddadl hon, rwy'n gobeithio y bydd yn cyflwyno rhai o'r syniadau newydd neu rai o'r mesurau cadarnach y mae'n credu y gellir eu rhoi ar waith i gael gwerth am arian. Pwysleisiodd Byron yn glir sawl prosiect yng Nghymru lle yr oedd gorwariant gwirioneddol enfawr. Yn fy rhanbarth etholiadol i, cost derfynol ffordd osgoi Porth oedd £102 miliwn yn lle £30 miliwn. Hefyd, mae ffordd osgoi Pentre'r Eglwys yn costio cryn dipyn yn fwy na'r amcangyfrifon gwreiddiol. Y pen draw i hynny yw pwysau cost enfawr ar brosiectau eraill y byddai'r Llywodraeth am eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r gyllideb trafniadaeth.

Mae a wnelo fy nghyfraniad heddiw â'r pwysau eraill ar y gyllideb honno. Yn amlwg, nid ar gyfer ffyrdd yn unig y mae'r gyllideb trafniadaeth dan bortffolio'r Gweinidog. Mae pwynt 3 ein cynnig yn ceisio tynnu sylw at bwysigrwydd cost-ffeithiolrwydd a'r niwed y mae diffyg effeithlonrwydd yn ei achosi i weddill y gyllideb.

Darren Millar: A oeddech chi, fel minnau, yn pryderu am ddatguddiadau'r Swyddfa Archwilio Cymru i rai prosiectau gael eu dwyn ymlaen oherwydd pwysau gwleidyddol, er ei bod yn hysbys na fyddent byth yn cael eu cyflawni o fewn amserlen resymol, a bod cyhoeddiadau wedi cael ei ddwyn ymlaen am ddim ond budd gwleidyddol?

Andrew R.T. Davies: That is the most damning indictment in the report: that it is the political narrative that is driving some of these policies and projects. In America, they call it 'pork barrelling' when people pad out the vote in their constituencies. I hope to hear from the Minister that he now has robust measures in place in his department to ensure that these types of actions do not continue in the future.

In the past four years, I have often talked in the Chamber about the ability of people with disabilities, particularly those with sight and hearing impairments, to access public transport, and buses in particular. Ann Jones touched on this when she mentioned her experiences on the railways. There is also an issue about the training of staff on bus routes and train services, and the disconnect between the level of service provided by Arriva Trains Wales, for example, and the bus operator that might be providing services. When the Government issues contracts to providers, those contracts need to contain measures to ensure that people do not feel excluded. However, if the money is not there to support those types of initiatives because it has gone into other projects, they cannot be brought forward.

Rhodri Glyn Thomas: Thank you for taking the intervention. You talk about pressures on the budget, but will you recognise that the greatest pressure on the transport capital budget is that the sum of money that will be available will have reduced by over half from £320 million to £140 million by 2013-14, and that that is a result of the policies of the coalition Government in London?

Andrew R.T. Davies: The biggest pressure on any public expenditure in Wales would be if Wales adopted the notion that you support of an independent Wales outside the union of the United Kingdom. Let us have that debate, Rhodri Glyn; let us go out there and tell the people of Wales because wages and capital projects would be decimated by your independence agenda. That is the biggest cut that we would have.

I want to hear from the Minister about the

Andrew R.T. Davies: Dyna'r cyhuddiad mwyaf damniol yn yr adroddiad: sef mai'r naratif gwleidyddol sy'n gyrru rhai o'r polisiau a'r prosiectau hyn. Yn America, maent yn cyfeirio at yr arfer o badio'r bleidlais yn eu hetholaethau yn 'pork-barrelling'. Rwy'n gobeithio clywed gan y Gweinidog fod ganddo bellach fesurau cadarn ar waith yn ei adran i sicrhau nad yw'r fath weithrediadau yn parhau.

Yn y pedair blynedd diwethaf, rwyf wedi siarad yn y Siambr yn aml am allu pobl ag anableddau, yn enwedig y rhai sydd â nam ar eu golwg a'u clyw, i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, a bysiau yn arbennig. Cyfeiriodd Ann Jones at hyn pan soniodd am ei phrofiadau ar y rheilffyrdd. Mae problem hefyd o ran hyfforddi staff ar wasanaethau bysiau a gwasanaethau trenau, a'r datgysylltu rhwng lefel y gwasanaeth a ddarperir gan Trenau Arriva Cymru, er enghraifft, a'r cwmni bysiau a allai fod yn darparu gwasanaethau. Pan fydd y Llywodraeth yn rhoi contractau i ddarparwyr, rhaid i'r contractau hynny gynnwys mesurau i sicrhau nad yw pobl yn teimlo eu bod yn cael eu hallgau. Fodd bynnag, os nad yw'r arian ar gael i gefnogi mathau hynny o fentrau, gan iddo fynd at brosiectau eraill, ni ellir eu dwyn ymlaen.

Rhodri Glyn Thomas: Diolch am ganiatáu ymyriad. Bu ichi sôn am y pwysau ar y gyllideb, ond a wnewch chi gydnabod mai'r pwysau mwyaf ar y gyllideb gyfalaf drafndiaeth yw y bydd y swm o arian a fydd ar gael yn gostwng o dros hanner o £320 miliwn i £140 miliwn erbyn 2013-14, a bod hynny yn ganlyniad i bolisiau Llywodraeth y glymblaid yn Llundain?

Andrew R.T. Davies: Y pwysau mwyaf ar unrhyw wariant cyhoeddus yng Nghymru fyddai pe bai Cymru'n mabwysiadu'r syniad yr ydych yn ei gefnogi, sef Cymru annibynnol y tu allan i undeb y Deyrnas Unedig. Gadewch inni gael y ddatl honno, Rhodri Glyn; awn allan a dweud wrth bobl Cymru, gan y byddai eich agenda ar gyfer annibyniaeth yn andwyol i gyflogau a phrosiectau cyfalaf. Dyna'r toriad mwyaf a welwn ni.

Yr wyf am glywed gan y Gweinidog

propositions that he will put forward now that he has the 10-year transport policy in his remit. It is critical, at the outset of his tenure, that we understand how he will address these shortcomings, and how he will meet the aspirations of some of the objectives regarding sustainable projects and cycle routes. If the money is not available, he will not be able to develop them, as is the case with disability access to public transport, and, above all, he will not be able to put in place those measures that could be counted on to ensure that all parts were working together and not in isolation, which leads to the massive cost overruns that have been identified in this report.

Julie Morgan: One of the projects mentioned in the Wales Audit Office report is the widening of the M4 between junctions 29 and 32, which has not been mentioned during the debate. This is the part of the motorway between Cardiff and Newport, and a large part of it goes through my constituency of Cardiff North. I am sure that you will all remember the huge delays on that road before the two lanes were widened to three. The purpose of the project was to reduce the intense congestion while causing as little disruption as possible to the surrounding communities. This project made good sense for the local area, for east to west links and for the good of Wales.

My experience was that this project was handled extremely well, which was also the verdict of the Wales Audit Office. So, there was some good news about a project in the report, due to the fact that it was completed just a month later than estimated and that the final cost is likely to be within the £99 million budget, which is a great achievement. People in the Thornhill community in particular, which borders the M4, were consulted well in advance individually and in public meetings, and the whole situation was dealt with sensitively. Land north of the M4 was used to minimise disruption and there was effective liaison with Assembly Government officers prior to the start of construction. This project was handled well throughout its entire duration.

ynghylch y cynigion y bydd yn eu cyflwyno gan fod ganddo yn awr bolisi 10 mlynedd ar gyfer trafnidiaeth yn rhan o'i gylch gwaith. Mae'n hanfodol, ar ddechrau ei gyfnod yn y swydd, ein bod yn deall sut yr aiff i'r afael â'r diffygion hyn, a sut y bydd yn bodloni dyheadau rhai o'r amcanion parthed prosiectau cynaliadwy a llwybrau beicio. Os nad yw'r arian ar gael, ni fydd yn gallu eu datblygu, fel yn achos gallu pobl anabl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ac, yn anad dim, ni fydd yn gallu rhoi ar waith y mesurau hynny y gellid dibynnu arnynt i sicrhau bod pob rhan yn gweithio gyda'i gilydd ac nid ar wahân, sy'n arwain at y costau ychwanegol enfawr a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

Julie Morgan: Un o'r prosiectau a grybwyllwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru hwnnw i ledu'r M4 rhwng cyffyrdd 29 a 32 nad yw wedi ei grybwyll yn ystod y ddadl. Rhan o'r draffordd rhwng Caerdydd a Chasnewydd ydyw, ac mae rhan helaeth ohoni'n mynd drwy fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd. Rwy'n siŵr y bydd pawb ohonoch yn cofio'r oedi enfawr ar y ffordd honno cyn i'r ddwy lôn fynd yn dair. Pwrpas y prosiect oedd lleihau'r tagfeydd dwys, gan darfu cyn lleied â phosibl ar y cymunedau cyfagos. Mae'r prosiect hwn yn gwneud synnwyr da i'r ardal leol, i gysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin ac er lles Cymru.

Fy mhrofiad oedd i'r prosiect hwn gael ei drin yn arbennig o dda, a dyna oedd barn Swyddfa Archwilio Cymru hefyd. Felly, roedd rhywfaint o newyddion da am brosiect yn yr adroddiad, a hynny am iddo gael ei gwblhau fis yn unig ar ôl yr hyn a amcangyfrifwyd iddo ac am fod y gost derfynol yn debygol o fod o fewn y gyllideb o £99 miliwn, sy'n llwyddiant mawr. Yng nghymuned Draenen Pen-y-Graig yn arbennig, sy'n ffinio â'r M4, ymgynghorwyd â phobl yn unigol ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus ymhell o flaen llaw, ac ymdriniwyd â'r sefyllfa yn sensitif. Defnyddiwyd tir i'r gogledd i'r M4 i leihau aflonyddwch ac roedd cysylltiad effeithiol â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad cyn dechrau'r gwaith adeiladu. Delwyd â'r prosiect yn dda o'i ddechrau hyd ei ddiwedd.

In the Wales Audit Office report, the good performance of this project is put down to the early involvement of the contractor and designer, which has been mentioned already. This seems to be key to getting a good result. This particular project also benefitted from the sensitive way in which local communities were dealt with; those communities did suffer huge disruption, but that disruption was kept to a minimum.

The Wales Audit Office report makes important points and I know that we are taking those points very seriously. However, we should also remember that, during the lifetime of a project, things can change a lot. Many things can cause a project to go on for longer and also for its design to change, which can sometimes result in a better project in the end. The target price of the M4 project, for example, was increased by £2 million because of changes by the Department for Transport to design standards for safety barriers and, therefore, many things may change that are beyond the control of Government officials. However, I accept that there are lessons to be learned in this report.

Nick Ramsay: I am grateful to Julie Morgan for giving way and I agree with the first part of what she said, that the widening of the M4 north of Cardiff has made a huge difference to commuters. Would she agree that, while some elements—you can call them slippage or whatever you like—are beyond the control of Government officers, as identified in some of the reports that we have seen, the fact is that in some cases inflation had not been taken into account at the outset, when the road development was being planned? That is completely unacceptable and unreasonable in this day and age. Surely you would expect the good practice of taking inflation into account to be used across the board. It is ridiculous that, under the previous Government, it was not always taken into account.

Julie Morgan: There are certainly lessons to be learned from this report and I am sure that the Government will learn them. There has already been improvement, as has been mentioned today, during the last few years. However, I see no point in playing the blame

Yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, fel y nodwyd eisoes, priodolwyd perfformiad da'r prosiect hwn i'r ffaith i'r contractwr a'r cynllunydd ymwneud ag ef yn gynnar, fel y crybwyllwyd yn barod. Mae'n debyg bod hyn yn allweddol i gael canlyniad da. Elwodd y prosiect arbennig hwn hefyd ar y ffordd sensitif y deliwyd â chymunedau lleol; tarfwyd ar y cymunedau hynny yn enfawr, ond cadwyd hynny i'r lleiaf posibl.

Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud pwyntiau pwysig a gwn ein bod yn cymryd y pwyntiau hynny o ddifrif. Fodd bynnag, dylem gofio hefyd y gall pethau newid llawer yn ystod oes prosiect. Gall llawer o bethau achosi i brosiect bara'n hwy, a hefyd beri i'w gynllun newid, sydd weithiau'n gallu arwain at well brosiect yn y diwedd. Cynyddodd y pris yr anelwyd ato ym mhrosiect yr M4, er enghraifft, gan £2 filiwn oherwydd newidiadau gan yr Adran Drafnidiaeth i safonau dylunio ar gyfer rhwystrau diogelwch ac, felly, gall llawer o bethau newid sydd y tu hwnt i reolaeth swyddogion y Llywodraeth. Er hynny, yr wyf yn derbyn bod gwersi i'w dysgu yn yr adroddiad hwn.

Nick Ramsay: Rwy'n ddiolchgar i Julie Morgan am ildio ac yr wyf yn cytuno â rhan gyntaf yr hyn a ddywedodd, sef bod lledu'r M4 i'r gogledd i Gaerdydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i gymudwyr. A fyddai'n cytuno, er bod rhai elfennau—cewch eu galw'n llithriant neu beth bynnag a fynnoch chi—y tu hwnt i reolaeth swyddogion y Llywodraeth, fel y nodwyd yn rhai o'r adroddiadau a welsom, y ffaith yw nad ystyriwyd chwyddiant ar y decrhau mewn rhai achosion, pan oedd datblygu'r ffyrdd yn cael ei gynllunio? Mae hynny'n gwbl annerbyniol ac afresymol yn yr oes hon. Prin na fyddai rhywun yn disgwyl i'r arfer da o ystyried chwyddiant fod yn gyffredinol. Mae'n hurt, o dan y Llywodraeth flaenorol, na chafodd ei ystyried bob amser.

Julie Morgan: Yn sicr mae gwersi i'w dysgu o'r adroddiad hwn, ac rwy'n siŵr y bydd y Llywodraeth yn eu dysgu. Mae pethau wedi gwella eisoes, fel y crybwyllwyd heddiw, yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, ni welaf ddiben i hel beiau ynghylch

game over who was responsible for this and who was responsible for that. We need to learn the lessons that are contained in this report. I particularly wanted to draw attention to the fact that there is a good example near to us of a project that has been carried out extremely well, that has come in within budget, with little delay and with the minimum of disruption to the people in the area. It is important to put on record that there has been success in delivering projects and that one is of particular importance to me because it is in my constituency.

Mohammad Asghar: I am pleased to be involved in this great debate. I was a member of the Finance Committee for the first three years of the last Assembly and I know about this problem and how these things happened when the transport priorities were changed and a lot of money was spent in different places. New words were added to my vocabulary, such as ‘optimism bias’—I still find it hard to understand what it means—‘slippage’ and God knows what else.

The Deputy First Minister did a good job under the circumstances; I am not going to go against anyone. However, the fact is that we still have not been able to get a world-class transport system. My colleagues—Byron, Nick, Andrew and William—have said what I have written here, but, basically, all the transport system projects in Wales cost 61 per cent more than estimated. Someone has to take the blame. Julie was wonderful to say that we must learn the lessons, but there is no need to do so the hard way. We must think. Money is in short supply everywhere in the world. We must be careful that we make the most of our projects. It is about time that we learnt that travel is not only about roads, but trains, planes and the sea. We have all this water around us that could be used as some transportation system.

This is the time to think about private entrepreneurship in Wales. I am talking to those on the other side of the Chamber who have always stopped us from doing this. There are short-haul flight opportunities to go to north Wales from Cardiff within 20 minutes, whereas it takes a day to travel from

pwys oedd yn gyfrifol am hyn a'r llall. Rhaid inni ddysgu'r gwersi sydd yn yr adroddiad hwn. Rwy'n hynod awyddus i dynnu sylw at y ffaith bod yna enghraifft dda nid nepell o'r lle hwn o brosiect a gyflawnwyd yn eithriadol o dda, o fewn y gyllideb, heb fawr o oedi a chyda'r tarfu lleiaf posibl ar bobl yr ardal. Mae'n bwysig rhoi ar goedd y bu llwyddiant o ran cyflawni prosiectau a bod un sydd o bwys arbennig i mi am ei fod yn fy etholaeth i.

Mohammad Asghar: Rwy'n falch o gael cymryd rhan yn y ddadl fawr hon. Roeddwn yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid am dair blynedd gyntaf y Cynulliad diwethaf, ac rwy'n gwybod am y broblem hon a'r modd y digwyddodd y pethau pan newidiwyd y blaenoriaethau trafndiaeth a chafodd arian mawr ei wario mewn gwahanol leoedd. Ychwanegwyd geiriau newydd at fy ngeirfa, megis 'gogwydd at optimistiaeth'—mae'n dal yn anodd gennyf ddirnad ei ystyr—'llithriant' a Duw a wŷr beth arall.

Gwnaeth y Dirprwy Brif Weinidog waith da o dan yr amgylchiadau; nid af yn erbyn neb. Fodd bynnag, y gwir amdani yw nid ydym byth wedi llwyddo cyflawni system drafndiaeth o'r radd flaenaf. Mae fy nghyd-aelodau—Byron, Nick, Andrew a William—wedi dweud yr hyn rwyf wedi ei hysgrifennu yma, ond, yn y bôn, costiodd pob prosiect am system drafndiaeth yng Nghymru 61 y cant yn fwy na'i amcangyfrif. Rhaid i rywun gael ei feio. Campus oedd i Julie ddweud bod yn rhaid inni ddysgu'r gwersi, ond nid oes angen inni wneud hynny yn anodd i ni ein hunain. Rhaid meddwl. Mae arian yn brin bob man yn y byd. Rhaid i ni ofalu ein bod yn gwneud y gorau o'n prosiectau. Mae'n hen bryd inni ddysgu nad teithio am ffyrdd yn unig, eithr trenau, awyrennau a'r môr hefyd. Mae dŵr ar bob ochr y gellid ei ddefnyddio fel system drafndiaeth o ryw fath.

Dyma'r amser i feddwl am entrepreneuriaeth breifat yng Nghymru. Yr wyf yn siarad â'r rheini ochr arall y Siambr sydd bob amser wedi ein rhwystro rhag gwneud hyn. Mae cyfleoedd am siwrneiau hedfan byr i'r gogledd o Gaerdydd o fewn 20 munud, ond mae'n cymryd diwrnod i deithio o Gaerdydd

Cardiff to Anglesey and back currently, which is totally unacceptable for international investors and businessmen and for the United Kingdom business community. Corporate officials would like to see better transport facilities, which are very important. Our party would and will encourage those private entrepreneurs to come here to invest in the transport system. No speaker has mentioned that yet, but it is about time that we encouraged this, because we have lost a lot of time and money over many years under administrations led by this party. The Government itself is bringing forward strategies that go against its own policy. That was the mistake of the last administration, and we must learn, and we must not do that again. I am here to say that we need to do more in Wales. This is a matter of shame to us all, but we should look in particular at those who have been ruling Wales for God knows how many years—and there is only one party in the frame. I am very concerned about how we found ourselves in this situation in the first place, wasting hard-earned public money, which is spent without adequate financial controls in place. At present, there is no appropriate system for collecting information on trunk road projects in Wales. Is that not shameful? Yet it is the reality. I welcome steps to introduce a central project management system, but it must be implemented as soon as possible, and must ensure that performance is analysed thoroughly and properly.

5.15 p.m.

As the Wales Audit Office suggests, performance indicators must also be set to ensure that contractor performance can be compared, and is ready for rigorous evaluation and analysis ahead of any future project. Effective communication is key. The report highlights the need for a more fundamental relationship to be established between the Welsh Government and utility companies, which is lacking at the moment. The audit office claims that an ineffective relationship has contributed to significant delays and cost increases, and this simply is not acceptable. To hear that this public money has been wasted because the Welsh Government has failed to build a proper

i Ynys Môn ac yn ôl ar hyn o bryd, sy'n gwbl annerbyniol i fuddsoddwyr a phobl busnes rhyngwladol ac i gymuned fusnes y Deyrnas Unedig. Hoffai swyddogion corfforaethol weld cyfleusterau trafndiaeth gwell, sy'n bwysig iawn. Byddai, ac y bydd, ein plaid yn annog yr entrepreneuriaid preifat hynny i ddod yma i fuddsoddi yn y system drafndiaeth. Ni soniodd yr un siaradwr am hynny eto, ond mae'n hen bryd inni annog hyn, gan ein bod ar ein colled yn ddirfawr o ran amser ac arian dros flynyddoedd lawer o dan weinyddiaethau y mae'r blaid hon wedi'u harwain. Y Llywodraeth sy'n cyflwyno strategaethau sy'n mynd yn groes i'w pholisi ei hun. Dyna oedd camgymeriad y weinyddiaeth ddiwethaf; a rhaid inni ddysgu, a pheidio â gwneud yr un peth drachefn. Dyma fi'n dweud bod angen i ni wneud mwy yng Nghymru. Mae hyn yn destun cywilydd i ni i gyd, ond dylem roi sylw yn benodol i'r rhai sydd wedi bod yn rheoli Cymru am Dduw a wŷr faint o flynyddoedd—ac un blaid yn unig sydd dan sylw. Pryder mawr i mi yw sut y cawsom ein hunain yn y sefyllfa hon yn y lle cyntaf, yn gwastraffu arian cyhoeddus digon prin, a werir heb fod rheolaethau ariannol digonol ar waith. Ar hyn o bryd, nid oes system briodol i gasglu gwybodaeth am brosiectau cefnffyrdd yng Nghymru. Onid yw hynny'n warthus? Ond dyna'r realiti. Croesawaf gamau i gyflwyno system rheoli prosiect canolog, ond mae'n rhaid ei rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd, a rhaid sicrhau bod perfformiad yn cael ei ddadansoddi'n drylwyr ac yn briodol.

Fel y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn awgrymu, rhaid pennu dangosyddion perfformiad hefyd i sicrhau y gellir cymharu perfformiad contractwyr a bod hwnnw'n barod ar gyfer ei werthuso a'i ddadansoddi yn drylwyr o flaen unrhyw brosiect yn y dyfodol. Mae cyfathrebu effeithiol yn allweddol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod angen sefydlu perthynas fwy sylfaenol rhwng Llywodraeth Cymru a chwmnïau cyfleustodau, gan mai dyna sydd ar goll ar hyn o bryd. Mae'r swyddfa archwilio yn honni bod perthynas aneffeithiol wedi cyfrannu at oedi sylweddol a chynnydd yn y costau, ac nid oes bosibl bod hyn yn dderbyniol. Dylai clywed bod yr arian

relationship with the utility companies is something that this administration should take very seriously.

The Deputy Presiding Officer: Order. Wind up your remarks, please.

Mohammad Asghar: Consistency is also crucial. Presently, the individual performance of major transport projects varies massively, and the audit office report must be considered seriously.

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): First, I thank and congratulate Byron Davies, the South Wales West Member, for introducing his first debate today. Regrettably, I think that he may have been led up the garden path, or at least up the A470, by his party, and he seems to have fallen for it—this report is six months old, and his party never raised it in the previous Assembly. It is important that we move on from this to look at where we are now.

The findings of the report are helpful, and the process of working with the Wales Audit Office and others who contributed was productive in helping us to shape how we move forward. I also thank Peter Black for his constructive contribution this afternoon.

It is important to recognise that evidence was gathered for this report over a considerable period. Although I am pleased that the report has acknowledged the significant improvements that we have made to our processes, I would also like to re-emphasise some of them. We have already put in place a number of controls that have tightened processes and addressed some of the issues identified. That is not to say that there is not still much more to be done. The Member was right to say that the facts are the facts, and there is a lot of money that could have gone into front-line services, new road building or other important functions. What are we doing? What did the previous Minister contribute to this? I will reiterate the points that he read from the report of the Auditor General for Wales.

cyhoeddus hwn wedi cael ei wastraffu am fod Llywodraeth Cymru wedi methu â meithrin perthynas briodol â'r cwmnïau cyfleustodau fod yn fater i'r weinyddiaeth hon fod o ddifrif yn ei gylch.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Dewch â'ch sylwadau i ben, os gwelwch yn dda.

Mohammad Asghar: Mae cysondeb hefyd yn hanfodol. Ar hyn o bryd, mae perfformiad unigol prosiectau trafndiaeth mawr yn amrywio'n aruthrol, a rhaid ystyried o ddifrif adroddiad y swyddfa archwilio.

Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Yn gyntaf, diolchaf i Byron Davies, Aelod dros Orllewin De Cymru, a'i longyfarch ar gyflwyno ei ddatl gyntaf heddiw. Yn anffodus, credaf i'w blaid ei dywys gerfydd ei drwyn o bosibl, neu o leiaf ar hyd yr A470, ac ymddengys iddo lyncu'r cwbl—mae'r adroddiad hwn yn chwe mis oed, ac ni chododd ei blaid ddim o'r peth yn y Cynulliad blaenorol. Mae'n bwysig ein bod yn symud ymlaen o hyn i weld lle yr ydym yn awr.

Mae casgliadau'r adroddiad yn ddefnyddiol, ac roedd y broses o weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru a chyfranwyr eraill yn gynhyrchiol wrth ein helpu i lunio'r modd y symudwn ymlaen. Diolchaf hefyd i Peter Black am ei gyfraniad adeiladol y prynhawn yma.

Mae'n bwysig cydnabod bod tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn wedi cael ei chasglu dros gyfnod sylweddol. Er fy mod yn falch bod yr adroddiad yn cydnabod y gwelliannau sylweddol a wnaethom i'n prosesau, hoffwn hefyd bwysleisio rhai ohonynt o'r newydd. Rydym eisoes wedi sefydlu nifer o reolaethau sydd wedi tynhau prosesau ac ymdrin â rhai o'r materion a nodwyd. Nid dweud yw hynny nad oes llawer mwy i'w wneud. Roedd yr Aelod yn iawn o ddweud mai'r ffeithiau yw'r ffeithiau, ac mae llawer o arian a allai fod wedi mynd i wasanaethau rheng flaen, adeiladu ffyrdd newydd neu swyddogaethau pwysig eraill. Beth ydym ni yn ei wneud? Beth oedd cyfraniad y Gweinidog blaenorol i hyn? Byddaf yn ailadrodd y pwyntiau a ddarllenodd o adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

We are continually improving our processes in the management of the trunk road programme. We are improving risk management, following best practice in procurement, ensuring early contractor involvement and comprehensive cost information, developing those key performance indicators for contractors and consultants—the very ones that William Graham raised—developing good relationships with contracting parties and undertaking the gateway review, which was mentioned by colleagues. All of that is already under way. Therefore, let us not be under any illusion that we are not doing anything about it, because we certainly are. As Julie Morgan and many others rightly said, we are seeing the benefits of making changes to this proposal, such as those seen with the recent completion of the Church Village bypass, which was delivered on time and within the agreed budget. We can expect this success to be repeated, but we should not rest on our laurels. It is still a challenging time for the programme.

It is clear that the building of roads is extremely complex, from the design stage to the key stage assessments, which range from 1 to 6. Indeed, the changes that can happen from the appointment at key stage 3 to key stage 6 are extremely important. Those changes have been seen with many of the road developments mentioned today. The move to a two-lane project from a one-lane project, following public consultation, for example, clearly means additional costs. That should be dealt with in better up-front planning processes.

I believe that we have addressed many of the Wales Audit Office report's recommendations. I will continue to strive, in my new role as Minister with responsibility for transport, to ensure that we get best value for money. I can never give guarantees to the Assembly that we will not be over budget on some projects, because circumstances are, in some cases, out of our control, as Members have recognised today. However, we must certainly keep our eye on the ball.

Andrew R.T. Davies: You might touch on

Rydym yn gwella'n barhaus ein prosesau parthed rheoli'r rhaglen gefnffyrdd. Rydym yn gwella rheoli risg, yn dilyn yr arferion gorau o ran caffael, yn sicrhau ymwneud cynnar gan gontractwyr a gwybodaeth gynhwysfawr am gostau, yn datblygu'r dangosyddion perfformiad allweddol hynny i gontractwyr ac ymgynghorwyr—yr union rai y cyfeiriodd William Graham atynt—yn meithrin perthnasau da â phartion contractio ac yn cynnal yr adolygiad porth a grybwyllwyd gan gyd-Aelodau. Mae'r cwbl eisoes ar y gweill. Felly, peidiwn â thwylo ein hunain nad ydym yn gwneud dim yn ei gylch, oherwydd yr ydym yn sicr yn gwneud rhywbeth. Roedd Julie Morgan a llawer un arall yn llygad eu lle wrth ddweud ein bod yn gweld y manteision o wneud newidiadau i'r cynnig hwn, megis y rhai hynny a welir yn y ffordd osgoi newydd ei chwblhau i Bentre'r Eglwys, a gwblhawyd ar amser ac o fewn y gyllideb a gytunwyd. Cawn ddisgwyl yr un llwyddiant drachefn, ond ni ddylem orffwys ar ein rhwyfau: mae hi eto yn gyfnod heriol i'r rhaglen.

Mae'n amlwg bod adeiladu ffyrdd yn beth hynod gymhleth, o'r cyfnod cynllunio i'r asesiadau cyfnod allweddol, sy'n amrywio o 1 i 6. Yn wir, mae'r newidiadau a all ddigwydd rhwng y penodi a wneir yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 6 yn hynod bwysig. Mae'r newidiadau hynny i'w gweld yn llawer o'r datblygiadau ffyrdd a grybwyllwyd heddiw. Mae'n glir y byddai symud o brosiect un lôn i brosiect dwy lôn, yn sgîl ymgynghoriad cyhoeddus, er enghraifft, yn golygu costau ychwanegol. Dylid delio â hynny drwy well brosesau cynllunio ymlaen llaw.

Credaf inni ymdrin â llawer o'r argymhellion yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Byddaf yn parhau i ymdrechu, yn fy rôl newydd fel y Gweinidog dros drafnidiaeth, i sicrhau y cawn y gwerth gorau am arian. Ni allaf byth rhoi sicrwydd i'r Cynulliad nad awn ni dros y gyllideb mewn rhai prosiectau, gan fod amgylchiadau, mewn rhai achosion, y tu allan i'n rheolaeth ni, fel y mae Aelodau wedi cydnabod heddiw. Fodd bynnag, rhaid i ni yn sicr gadw'n llygad ar y bêl.

Andrew R.T. Davies: Efallai y cyfeiriwch at

this later, but I want to refer you to my comments on the equality of access to transport. Ministers may have noble sentiments in this field, but many people on the ground are not seeing much effect. Can you commit to pushing forward this agenda of equality of access to public transport, so that people with disabilities have the opportunity to make full and open use of such modes of transport?

Carl Sargeant: You raise an important point, and I know that you share the same views as my colleague Ann Jones about driving this agenda forward. As a former Minister with responsibility for equality—a responsibility that now lies with my colleague Jane Hutt—I believe that we must make public transport accessible to all, which is what I strove to do during my time as Minister with responsibility for equality. I now have a new opportunity to move that agenda forward, as Minister with responsibility for transport. Therefore, I will commit to driving that agenda forward, and I hope that you can support me in that role.

We have learned many lessons and there are still lessons to be learned, but the Welsh Government is moving forward in establishing a road programme for the future. I have listened carefully to Members' contributions today, and colleagues and I will support the amended motion today. As Peter Black said, I hope that we can take advantage of greater road-building technologies and move forward, on budget and on time, for the people of Wales.

Angela Burns: I thank the Minister for his reasonable response to our debate today. I remind Members that what we are asking for is that this Assembly welcomes the Wales Audit Office report. After all, if we treat the Wales Audit Office as the organisation that we believe it to be—custodian and guardian of what we do—we should welcome the reports that it produces and learn any lessons contained within them. We are asking Members to note with concern that many transport projects have cost substantially more in the past and have come in late, and I do not think that there has been any dispute

hyn yn nes ymlaen, ond yr wyf am eich cyfeirio at fy sylwadau ar gydraddoldeb o ran mynediad at gludiant. Gall mai teimladau dyrchafedig sydd gan Weinidogion yn y mater hwn, ond prin yw'r effaith y mae llawer o bobl ar lawr gwlad yn ei gweld. A allwch ymrwmo i yrru ymlaen yr agenda hwn am gydraddoldeb o ran mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus, fel y caiff pobl ag anableddau'r cyfle i ddefnyddio'r ffurfiau hyn o drafnidiaeth yn llawn ac yn ddilestair?

Carl Sargeant: Yr ydych yn codi pwynt pwysig, ac rwy'n gwybod eich bod o'r un farn â'm cyd-Aelod, Ann Jones, am yrru'r agenda hwn yn ei flaen. A minnau'n Weinidog dros gydraddoldeb gynt—cyfrifoldeb fy nghyd-Weinidog Jane Hutt ydyw bellach—credaf fod rhaid inni sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn hygyrch i bawb, sef yr hyn yr ymdrechais i'w wneud yn ystod fy amser fel y Gweinidog dros gydraddoldeb. Bellach mae gennyf gyfle newydd i symud yr agenda honno ymlaen, fel y Gweinidog dros drafnidiaeth. Felly, byddaf yn ymrwmo i yrru'r agenda hwnnw ymlaen, ac rwy'n gobeithio y gallwch fy nghefnogi yn y rôl honno.

Rydym wedi dysgu llawer o wersi ac mae gwersi sydd eto i'w dysgu, ond mae Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen gan sefydlu rhaglen ffyrdd ar gyfer y dyfodol. Yr wyf wedi gwrando'n ofalus ar gyfraniadau Aelodau heddiw, a byddaf i a chyd-Aelodau yn cefnogi'r cynnig wedi'i ddiwygio. Fel y dywedodd Peter Black, gobeithiaf y gallwn ni fanteisio ar dechnolegau adeiladu ffyrdd gwell a symud ymlaen, o fewn y gyllideb ac ar amser, ar gyfer pobl Cymru.

Angela Burns: Diolchaf i'r Gweinidog am ei ymateb rhesymol i'n dadl heddiw. Atgoffaf yr Aelodau ein bod yn gofyn i'r Cynulliad groesawu adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Wedi'r cyfan, os ydym yn trin Swyddfa Archwilio Cymru fel y sefydliad yr ydym yn credu ydyw—sef ceidwad a gwarcheidwad yr hyn a wnawn—dylem groesawu'r adroddiadau y mae'n eu cynhyrchu a dysgu unrhyw wersi sydd ynddynt. Rydym yn gofyn i Aelodau nodi gyda phryder fod llawer o brosiectau trafnidiaeth wedi costio cryn dipyn yn fwy yn y gorffennol a'u bod wedi eu cwblhau yn

about that. We also asked for the new Welsh Labour Government to ensure that funding for transport projects is used efficiently and effectively, and that has particularly come out in two contributions, namely those of Ann Jones and Mohammad Asghar. Mohammad made a good point that we need to have a world-class transport infrastructure in Wales. That is what Wales deserves and that is what we need in order to bring in investment.

Ann Jones made the point about the necessity to strengthen the east-west corridors for economic prosperity and economic renewal, as well as north-south links. We have a new Minister for business, and I am pretty certain that she, too, would support the call for ensuring that we have these links so that the businesses that we are trying to attract are able to get to all parts of our country. They should not simply reside in the Cardiff/Newport/Swansea area, but should be able to get out to west, north and mid Wales, bringing economic renewal and prosperity. That is why transport is so important.

The Wales Audit Office report is excellent in highlighting lessons for us, going forward. I am glad that the Minister has said that he is going to make it a priority to learn those lessons and move on. I draw the Minister's attention to one of the recommendations made in the Finance Committee report, which is to form a separate agency to look at strategic road and rail network building programmes. Some have mentioned that it is easy for this emotive issue to be politicised and for it to move up and down political agendas. The southern Irish formed a national roads authority—I am sure that we could look at other parts of it—and went for a 10-year funding programme. They looked at how they could do it, where they could bring in other investment and they looked at the controversial subject of toll roads, but they made a plan for what they needed to get their country on the map and to get investment in. Those kinds of lessons from abroad are the sort of things that we might be able to look

hwy, ac ni chredaf fod hynny wedi bod yn destun amheuaeth byth. Rydym hefyd wedi gofyn i'r Llywodraeth Lafur newydd yng Nghymru sicrhau bod cyllid ar gyfer prosiectau trafndiaeth yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol, a daeth y pwynt hwnnw'n arbennig o glir mewn dau gyfraniad, sef cyfraniadau Ann Jones a Mohammad Asghar. Gwnaeth Mohammad bwynt da, sef bod angen inni gael seilwaith trafndiaeth o'r radd flaenaf yng Nghymru. Dyna y mae Cymru yn ei haeddu a dyna'r hyn y mae ei angen arnom i ddenu buddsoddiad.

Gwnaeth Ann Jones y pwynt am yr angen i gryfhau'r coridorau rhwng y dwyrain a'r gorllewin ar gyfer ffyniant economaidd ac adnewyddu economaidd, yn ogystal â chysylltiadau rhwng y gogledd a'r de. Mae gennym Weinidog busnes newydd, ac rwy'n eithaf sicr y byddai'n cefnogi'r alwad am sicrhau bod gennym y cysylltiadau hyn fel bod y busnesau yr ydym yn ceisio eu denu yn gallu cyrraedd pob rhan o'n gwlad. Ni ddylent gadw eu hunain i Gaerdydd, Casnewydd ac Abertawe yn unig; dylent allu cyrraedd y gorllewin, y gogledd a'r canolbarth, gan ddod ag adnewyddu economaidd a ffyniant yno. Dyna pam mae trafndiaeth mor bwysig.

Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn rhagorol o ran pwysleisio gwersi ar ein cyfer at y dyfodol. Rwy'n falch bod y Gweinidog wedi dweud y bydd yn gwneud dysgu'r gwersi hynny a symud ymlaen yn flaenoriaeth. Tynnaf sylw'r Gweinidog at un o'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid, sef y dylid sefydlu asiantaeth ar wahân i edrych ar raglenni adeiladu rhwydweithiau rheilffyrdd a ffyrdd strategol. Mae rhai wedi sôn mai peth hawdd yw troi'r mater emosiynol hwn yn destun gwleidyddol ac iddo godi a disgyn ar agendâu gwleidyddol. Ffurfiodd Gwyddelod y de awdurdod ffyrdd cenedlaethol—mae'n sicr gennyf y gallem ystyried rhannau eraill ohono—ac aethant am raglen gyllido 10 mlynedd. Edrychasant ar y modd y gallent wneud hynny a sut y gallent ddod â rhagor o fuddsoddi i mewn, ac edrychasant ar bwnc llog o gael tollffyrdd, ond fe luniasant gynllun am yr hyn yr oedd ei angen i gael eu gwlad ar y map ac i gael y buddsoddi. Mae

at.

I am not going to mention all speakers; there were some great contributions, for which I am grateful. However, I will take issue with one thing that Rhodri Glyn Thomas said. He felt that the previous Minister was being unfairly held to account for projects that had been started prior to his time. I accept that—these projects are in the pipeline for years—but the Wales Audit Office was talking about the monitoring and delivering over the last few years. The leader of the opposition and I went to see the then Minister in 2007 to discuss a project that had not even started—the Penblewin to Slebech Park scheme—and that project overspent by £14 million, I think.

Some of my colleagues mentioned optimism bias and slippage. For those of us who are not aware of how engineering projects work, under the old system you would build in tonnes of overspend and optimism bias, but new methods of management and delivery have now come into play. That, Minister, is what you need to take forward and build on, because these new methods would ensure that this kind of thing does not happen.

I will finish with one final comment. If we had an overspend, a slippage or a black hole of £226 million in education or health, there would hell to pay, because those are things that everybody really cares about. However, as a nation, we need to care about our major transport infrastructure, because our economic health and long-term prosperity depend on us getting it right. The sum of £226 million would have bought an awful lot more roads and railways, more disabled access and more buses for rural communities. We could have used that money so much more effectively.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there are objections. I defer voting on this item until voting time.

gwersi fel y rheini o dramor yn bethau y gallem eu hystyried.

Ni chyfeiriaf at bob siaradwr; cafwyd cyfraniadau gwych, ac rwy'n ddiolchgar am hynny. Fodd bynnag, af i ddadl â Rhodri Glyn Thomas am un peth a ddywedodd. Teimlai fod y Gweinidog blaenorol yn cael ei alw i gyfrif ar gam am brosiectau a ddechreuwyd cyn ei gyfnod yn y swydd. Derbyniaf hynny—mae'r prosiectau hyn ar y gweill am flynyddoedd—ond mae Swyddfa Archwilio Cymru yn sôn am y gwaith monitro a chyflawni a wnaed dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Aeth arweinydd yr wrthblaid a minnau i weld y Gweinidog ar y pryd yn 2007 i drafod prosiect a oedd heb ddechrau hyd yn oed—y cynllun Penblewin i Barc Slebech—a £14 miliwn oedd y gorwariant yn y prosiect hwnnw, fe gredaf.

Soniodd rhai o'm cyd-Aelodau am ogwydd tuag at optimistiaeth ac am lithriad. I'r rhai ohonom nad ydym yn gwybod sut mae prosiectau peirianeg yn gweithio, o dan yr hen system, byddech yn cynnwys cruglwyth o orwariant a gogwydd tuag at optimistiaeth, ond mae dulliau newydd o reoli a darparu bellach ar glawr. Hynny, Weinidog, yw'r hyn y mae angen i chi fwrw ymlaen ag ef a'i ddatblygu, oherwydd y byddai'r dulliau newydd hyn yn sicrhau nad yw'r math hwn o beth yn digwydd.

Yr wyf am gloi gydag un sylw olaf. Pe bai gennym orwariant, llithriad neu bydew o £226 miliwn ym meysydd addysg neu iechyd, mi fyddai lle, gan fod y rheini'n bethau y mae pawb wir yn poeni amdanynt. Sut bynnag, fel cenedl, dylai fod ots gennym am ein prif seilwaith trafniadaeth, gan fod ein hiechyd economaidd a'n ffyniant yn y tymor hir yn dibynnu arnom yn ei chael hi'n iawn. Gallai £226 miliwn fod wedi prynu llawer iawn mwy o ran ffyrdd a rheilffyrdd, mynediad ehangach i bobl anabl a mwy o fysiau i gymunedau gwledig. Gallem fod wedi defnyddio'r arian hwnnw gymaint yn fwy effeithiol.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn heb ei ddiwygio. A oes Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiadau. Gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan yr amser pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Dadl Plaid Cymru Plaid Cymru Debate

Cyfalaf ar gyfer Prosiectau Seilwaith Capital for Infrastructure Projects

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Nick Ramsay, amendments 2, 4 and 5 in the name of Peter Black and amendment 3 in the name of Jane Hutt. If amendment 1 is agreed, amendments 2, 3 and 4 will be deselected. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected; if amendment 3 is agreed, amendment 4 will be deselected.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Nick Ramsay, gwelliannau 2, 4 a 5 yn enw Peter Black a gwelliant 3 yn enw Jane Hutt. Os derbynnir gwelliant 1 ei dderbyn, caiff gwelliannau 2, 3 a 4 yn cael eu dad-ddethol. Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 ei ddad-ddethol, os derbynnir gwelliant 3, bydd gwelliant 4 yn cael ei ddad-ddethol.

Cynnig NDM4741 Jocelyn Davies

Motion NDM4741 Jocelyn Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i hwyluso sefydlu cwmni nid-am-elw-dosbarthiadwy i godi cyfalaf ar gyfer prosiectau seilwaith.

The National Assembly calls on the Welsh Government to facilitate the setting up of a not-for-distributable-profit company to raise capital for infrastructure projects.

Ieuan Wyn Jones: Cynigiaf y cynnig.

Ieuan Wyn Jones: I move the motion.

Diolch, Ddirprwy Lywydd, am y cyfle i gyflwyno'r ddadl hon. Fel yr ydym i gyd yn gwybod, yr oedd pob un o'r pleidiau'n ymwybodol yn ystod ymgyrch etholiad mis Mai eleni o'r toriadau enfawr a welwyd yng nghyllideb Llywodraeth Cymru yn sgîl yr adolygiad gwariant cynhwysfawr diweddaraf. Yr oedd y toriadau yn waeth yng Nghymru nag yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, gyda thoriad o 7.5 y cant yn y gwariant refeniw a 41 y cant yn y gwariant cyfalaf. Fel y gŵyr pawb erbyn hyn, yr oedd y toriad refeniw ychydig yn is na'r disgwyl, ond yr oedd y toriad cyfalaf gryn dipyn yn uwch. Dyna oedd y darlun cyn mis Mawrth eleni. Erbyn hyn, mae'r sefyllfa hyd yn oed yn waeth, gan fod y Trysorlys wedi codi lefel yr hyn a elwir yn ddatchwyddwr cynnyrch mewnwladol crynswth. O ganlyniad i hynny, mae'r toriad cyfalaf bellach yn 44 y cant dros y tair blynedd hyd at 2014, sy'n cyfateb i gyfanswm o doriadau mewn cyfalaf yn unig

Thank you, Deputy Presiding Officer, for the opportunity to introduce this debate. As we all know, all parties were aware, during last May's election campaign, of the huge cuts imposed on the Welsh Government budget as a result of the latest comprehensive spending review. The cuts were worse in Wales than in Northern Ireland or Scotland, with a cut of 7.5 per cent in revenue expenditure and 41 per cent in capital expenditure. As we all now know, the revenue cut was a little lower than expected, but the capital cut was quite a bit higher. That was the picture before March of this year. The situation is even worse now, as the Treasury has increased the level of what is called the gross domestic product deflator. As a result, the capital cut is now 44 per cent over the three years to 2014, which equates to total cuts in capital alone of £772 million.

o £772 miliwn.

5.30 p.m.

I roi hynny yn ei gyd-destun, gwariant cyfalaf y Llywodraeth ym mlwyddyn olaf Llywodraeth Cymru'n Un oedd £1.75 biliwn. Bydd y ffigur hwnnw yn cael ei dorri gan £772 miliwn. Gwyddom i gyd bod prif wariant cyfalaf y Llywodraeth ym meysydd iechyd, addysg a thrafnidiaeth. Mater sy'n gwario sefyllfa'r Llywodraeth ymhellach yw'r ffaith bod y Llywodraeth ddiwethaf—ac yr oeddem yn cytuno â hyn—wedi dod â chyfalaf ymlaen i helpu'r diwydiant adeiladu yn nannedd y dirwasgiad. Felly, mae llinell sylfaen y Llywodraeth ar gyfalaf gymaint â hynny'n llai.

O edrych ar y dosraniad rhwng ardaloedd gwariant y Llywodraeth, mae'r ffigurau'n wirioneddol frawychus. Cofier mai ar adeiladu ysbytai, ysgolion, tai, ffyrdd a rheilffyrdd mae'r mwyafrif llethol o wariant cyfalaf. Felly, bydd torri'n ôl sylweddol ar wariant yn y meysydd hyn oni bai bod arian cyfalaf ychwanegol ar gael.

Gadewch imi roi enghraifft ynghylch mater y manteisiodd rhai aelodau o'r Llywodraeth ar y cyfle i gyfeirio ati yn ystod cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid y prynhawn yma, sef adeiladu ysgolion. Os yw ffigurau'r datchwyddwr cynnyrch mewnwladol crynswth yn gywir, ac maent yn cael eu gwireddu o safbwynt chwyddiant, yn ystod y cyfnod hyd at 2013-14, bydd toriad yng nghyllideb gyfalaf yr adran addysg o £127 miliwn. Mae'n anochel y bydd hynny'n arwain at lai o ysgolion newydd. Felly, beth a fydd yn digwydd i'r awdurdodau lleol hynny sy'n mynd drwy'r broses boenus—fel y gwyddom i gyd—o resymoli ysgolion? Gan nad oes gan y Cynulliad unrhyw bwerau trethiannol a chan fod rhaid inni weithredu y tu mewn i gyfyngiadau'r bloc Cymreig, yr unig ffordd y gallwn godi arian ychwanegol yw drwy edrych y tu allan i'r bloc am gymorth.

Dyma'r cefndir. Yr oeddem yn teimlo, fel plaid yn gwynebu'r etholiad, bod yn rhaid edrych am gynigion blaengar ac arloesol i wynebu her y toriadau enfawr hyn, gan

To put that in context, Government capital expenditure in the last year of the One Wales Government was £1.75 billion. That figure will be cut by £772 million. We all know that the Government's main capital expenditure is in the areas of health, education and transport. An issue that further weakens the Government's position is the fact the previous Government—and we agreed with this—had brought capital forward in order to help the construction industry in the teeth of the recession. Therefore, the Government's capital baseline is that much less.

Looking at the allocations to the Government's areas of expenditure, the figures are truly frightening. We should bear in mind that the construction of hospitals, schools, houses, roads and railways accounts for the vast majority of capital expenditure. Therefore, there will be significant cuts on expenditure in these areas unless additional capital funds are available.

Let me give an example relating to an issue that some members of the Government took the opportunity to refer to during questions to the Minister for Finance this afternoon, namely building schools. If the GDP deflator figures are correct, and they are brought about in terms of inflation, during the period up to 2013-14, there will be a cut in the capital budget of the schools department of £127 million. That is bound to lead to fewer new schools. Therefore, what will happen to those local authorities that are going through the painful process—as we are all aware—of rationalising schools? Given that the Assembly does not have taxation powers and that we must work within the limitations of the Welsh block, the only way in which we can raise additional funds is to look outwith the block for assistance.

That is the background. We felt, as a party facing the election, that we had to look for innovative proposals to face the challenges of these huge cuts, while continuing to support

barhau i gefnogi'r diwydiant adeiladu. Yn ystod ymgyrch yr etholiad, cynigiodd Plaid Cymru bolisi o'r enw Adeiladu dros Gymru, a fyddai'n sefydlu cwmni a fyddai'n werth £500 miliwn ac a fyddai'n creu hyd at 500,000 o swyddi. Byddai'r cwmni hon yn creu buddsoddiad mewn trafndiaeth, ysgolion, ysbytai, cartrefi newydd a'r seilwaith ehangach sydd ei angen i fod yn sylfaen i dwf economaidd yng Nghymru. Mae honno'n fuddsoddiad allweddol o ystyried y toriadau o 44 y cant i gyllideb gyfalaf Cymru.

Byddai arian ar gyfer y cwmni yn cael ei godi drwy gyfrwng ffurf newydd o fuddsoddi, sef buddsoddi yn seilwaith a datblygu Cymru. Yn sylfaen i hynny, byddai cynllun seilwaith i Gymru gyfan. Gyda llaw, mae'r fecanwaith i godi arian yn debyg iawn i gynlluniau'r Alban, sef y pwerau sydd bellach yn cael eu datganoli i'r Alban gan y Trysorlys ac sydd wedi'u cynnwys ym Mil newydd yr Alban.

Byddai'r corff hwn yn annibynnol, a byddai'n cael ei seilio ar agwedd nid-am-elw-dosbarthiadwy Glas Cymru. Byddai'n gyfrifol am gyllido buddsoddi mewn seilwaith newydd i'r sector cyhoeddus, yn ogystal â chaffael, rheoli a monitro prosiectau. Byddai'n codi cyllid hirdymor drwy'r marchnadoedd ariannol er mwyn talu am brosiectau seilwaith sector cyhoeddus yng Nghymru a'u gweithredu. Byddai elw'r cwmni'n cael ei fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith yng Nghymru. Wrth gwrs, gwyddom fod buddsoddwyr mewn cronfeydd, fel cronfeydd pensiwn, cwmnïau yswiriant a chronfeydd cyfoethsofran, yn fodlon ystyried buddsoddi mewn cynlluniau fel hyn oherwydd eu bod yn rhoi elw tymor hir iddynt sy'n rhagweladwy a diogel. Wrth gwrs, mae'r banciau yn darparu cyllid am yr un rhesymau. Byddai'r gyfradd llog a fyddai'n cael ei thalu ar y ddyled gan Lywodraeth Cymru yn dibynnu, yn naturiol, ar gyfraddau'r farchnad ar y pryd. Serch hynny, byddai'r gyfradd credyd a fyddai'n cael ei rhoi yn debygol o fod yn dda oherwydd byddai'r Llywodraeth y tu ôl iddi. Credwn, felly, y byddai gwasanaethu £500 miliwn o ddyled, gan gynnwys ad-daliadau cyfalaf, yn costio llai na 0.3 y cant o'r grant bloc. Hoffwn bwysleisio nad cynllun menter

the construction industry. During the election campaign, Plaid Cymru proposed a policy called Build for Wales, which would establish a company worth £500 million that would create up to 50,000 jobs. This company would generate investment in transport, schools, hospitals, new homes, and the wider infrastructure required as the basis for economic growth in Wales. This is crucial investment bearing in mind the cuts of 44 per cent in the Welsh capital budget.

The funding for the company would be raised through a new form of investment, namely investment in Wales's infrastructure and development. As a basis for that, there would be an infrastructure plan for the whole of Wales. By the way, the mechanism to raise funding is very similar to schemes in Scotland, namely the powers that are now being devolved to Scotland by the Treasury and which have been in the new Scotland Bill.

This body would be independent, and would be based on the not-for-distributable-profit model of Glas Cymru. It would be responsible for funding new infrastructure development for the public sector, as well as project procurement, management and monitoring. It would raise long-term funding on the financial markets in order to pay for and implement public sector infrastructure projects in Wales. The company's profits would be invested in Welsh infrastructure projects. We know, of course, that those who invest in funds, such as pension funds, insurance companies and sovereign wealth funds, are willing to consider investing in schemes like this as they give them secure and forecastable long-term profits. Banks, of course, provide finance for the same reasons. The interest rate paid on the debt by the Welsh Government would naturally depend on market rates. However, it is likely that the credit rating would be good as a result of the Government backing. We believe, therefore, that servicing a £500 million debt, including capital repayments, would cost less than 0.3 per cent of the block grant. I would like to emphasise that this is not a private finance initiative scheme, but a not-for-distributable-profit company.

cyllid preifat yw'r cynllun hwn, ond cwmni nid-am-elw-dosbarthiadwy.

O dan ein cynlluniau, byddai'r elw'n cael ei ddefnyddio i ail-fuddsoddi yng Nghymru. Mae cynlluniau menter cyllid preifat yn dosbarthu elw ymysg cyfranddallwyr. O dan gynlluniau menter cyllid preifat, mae cyrff yn dod i gytundeb ar adeiladu prosiect a'i redeg yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae model y Blaid yn caniatáu i gwmni Adeiladu dros Gymru fod yn landlord gyda phrydles safonol, nid darparwr gwasanaethau. Dyna, wrth gwrs, oedd un o brif wendidau cynlluniau menter cyllid preifat. Ni fyddai'r cwmni'n darparu gwasanaethau, nac yn cyfyngu ar ddefnydd yr adeilad y tu allan i'w oriau agor. Byddai'r cwmni yn darparu'r adeilad yn unig. Byddai hynny'n golygu na fyddai gymaint o gyfyngiad ar wasanaethau, nac ar y ffordd y byddai'r adeilad yn cael ei ddefnyddio.

I firmly believe that the Welsh Government must be bold and innovative if it is to meet the challenges posed by the massive cuts in capital spend. So far, the response has been weak and timid. Contrast that with the situation in Scotland, where the approach has been clear, focused and decisive. Labour initially rejected our plan to raise capital and to create jobs. Now, the party has to think again or come up with its own plan. The scale of the cuts that we face will not really hit us until the Welsh Government is forced to make further announcements about the projects that it will have to abandon unless it finds new ways of raising finance. I was very surprised by the response of the Minister for Finance today, who said that that will not happen. How can you possibly deliver the capital programme when your capital is being reduced by £772 million?

Let us examine what the First Minister has said so far. He wants borrowing powers. We agree with that, but there are no signs that these powers will be available any time soon. We also know that the biggest cuts in capital will hit us this year and next year. Therefore, plans to build new schools and hospitals will

Under our proposals, the profit would be reinvested in Wales. Private finance initiative schemes distribute profits among shareholders. Under private finance initiative schemes, organisations come to agreements on the building and future running of a project. However, Plaid Cymru's model allows the Build for Wales company to be a landlord with a standard lease, but not a service provider. That is, of course, one of the main weaknesses of private finance initiative schemes. The company would not provide services, and it would not put limits on out-of-hours use of buildings. The company would merely provide the building. That would mean fewer limitations on services and on how buildings could be used.

Rwyf yn credu'n gryf bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn feiddgar ac yn arloesol os yw am ateb yr heriau a ddaw yn sgîl y toriadau enfawr mewn gwariant cyfalaf. Hyd yn hyn, mae'r ymateb wedi bod yn wan ac yn ddihyder. Cymharwch hynny â'r sefyllfa yn yr Alban, lle mae'r dull gweithredu wedi bod yn glir, yn benodol ac yn bendant. Yn wreiddiol, gwrthododd Llafur ein cynllun i godi cyfalaf a chreu swyddi. Bellach, mae'n rhaid i'r blaid ailfeddwl neu ddod o hyd i'w chynllun ei hun. Ni fydd maint y toriadau yr ydym yn eu hwynebu yn ein taro mewn gwirionedd nes bydd Llywodraeth Cymru yn cael ei gorfodi i wneud cyhoeddiadau pellach am y prosiectau hynny y bydd yn rhaid rhoi'r gorau iddynt oni ddaw o hyd i ffyrdd newydd o godi arian. Cefais fy synnu'n fawr gan ymateb y Gweinidog Cyllid heddiw, a ddywedodd na fydd hynny'n digwydd. Sut ar y ddaear y gallwch chi gyflwyno'r rhaglen gyfalaf os yw eich cyfalaf yn cael ei leihau gan £772 miliwn?

Gadewch inni edrych ar yr hyn y mae'r Prif Weinidog wedi'i ddweud hyd yma. Mae yntau am gael pwerau benthyca. Rydym yn cytuno â hynny, ond nid oes unrhyw arwyddion y bydd y pwerau hyn ar gael yn fuan. Rydym hefyd yn gwybod y bydd y toriadau mwyaf mewn cyfalaf yn ein taro

either have to be scrapped, or new funding will have to be found from somewhere else. Plans for new road schemes will also have to be abandoned. The First Minister has also given the impression that looking for ways to raise capital outside the block grant and getting borrowing powers are either/or options. That is not the case. In my view, we need both; the power to borrow money, in itself, will not be sufficient. The First Minister is quite right to say that the power to borrow money is not a panacea: it is not free money and it has to be paid for. The Welsh Government will need an income stream to pay the interest on the loan. Given that there is also a squeeze on revenue funding, it will be difficult to service the loan. That is why the Welsh Government's position on tax-varying powers is so incomprehensible. Within the straitjacket of a block grant, the power to borrow money is a very limited instrument. Since Scotland has raised the bar in terms of the transfer of fiscal autonomy, I believe that this Government has to be more ambitious for Wales. It must raise its game, because we cannot afford to be left behind.

Gwelliant 3 Jane Hutt

Dileu popeth ar ôl 'Lywodraeth Cymru i' a rhoi yn ei le:

